

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

17/04/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)
[Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol](#)
[Questions to the Counsel General](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)
[Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr Ymchwiliad i Bolisi Morol yng Nghymru](#)
[The Environment and Sustainability Committee's Report on the Inquiry into Marine Policy in Wales](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor yng Nghymru](#)
[Welsh Conservatives Debate: Council Tax in Wales](#)

[Dadl Plaid Cymru: Llywodraeth Leol: Caffael a Seilwaith](#)
[Plaid Cymru Debate: Local Government: Procurement and Infrastructure](#)

[Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cyllid ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#)
[Welsh Liberal Democrats Debate: Funding for Social Care in Wales](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: 'Why not Dilnot?' Talu am Ofal Cymdeithasol i'r Henoed yng Nghymru](#)
[Short Debate: Why not Dilnot? Paying for Social Care for the Elderly in Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 1 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.

The Assembly met at 1 p.m. with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.

13:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Trefn.

Order.

The National Assembly for Wales is now in session.

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Questions to the Minister for Health and Social Services

Cynllun Gwên

Designed to Smile

13:00 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynaliadwyedd 'Cynllun Gwên'? OAQ(4)0250(HSS)

1. Will the Minister provide an update on the sustainability of 'Designed to Smile'? OAQ(4)0250(HSS)

13:00 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

There is a programme for government commitment to build on our Designed to Smile child oral health programme to help tackle oral health inequalities in our most disadvantaged communities. Funding to support Designed to Smile is ring-fenced until at least the end of the 2014-15 financial year.

Mae ymrwymiad rhaglen lywodraethu i adeiladu ar ein rhaglen iechyd y geg i blant sef Cynllun Gwên er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd y geg yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Caiff cyllid i gefnogi Cynllun Gwên ei neilltuo tan o leiaf ddiwedd blwyddyn ariannol 2014-15.

13:00

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. This is the first time that I have asked you a question as the Minister for Health and Social Services, so, congratulations on your post.

Designed to Smile is an initiative that was set up, as you rightly said, to help children in poorer, disadvantaged communities to understand the need for good oral health, and that is having some effect. My concern about its sustainability is that once these children have understood that they need to have good oral health and to visit dentists regularly, there is a lack of NHS dentists available for them to carry on the practice of good oral health. What are we doing to ensure that everybody has access to an NHS dentist?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Dyma'r tro cyntaf imi ofyn cwestiwn ichi fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, felly, llongyfarchiadau ar eich penodiad.

Menter yw Cynllun Gwên a sefydlwyd, fel y dywedasoch yn gywir, er mwyn helpu plant mewn cymunedau tlawd, difreintiedig i deall yr angen am iechyd y geg da, ac mae'n cael rhywfaint o effaith. Fy mhryder i am ei chynaliadwydd yw hyn, unwaith y mae'r plant hyn wedi deall bod angen iddynt gael iechyd y geg da a mynd at ddeintyddion yn rheolaidd, y sefyllfa wedyn yw nad oes digon o ddeintyddion y GIG ar gael iddynt barhau i arfer iechyd y geg da. Beth rydym yn ei wneud i sicrhau bod deintydd y GIG ar gael i bawb?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:01

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question and for your opening remarks. Designed to Smile teaches children the oral health habits that they need, so that they can go on providing good care for themselves and thus avoid the need to visit the dentist as regularly as they otherwise would have. There is a Government commitment to provide NHS dental care to all those who seek it. More than 41,000 additional people now access NHS dental care in the Hywel Dda Local Health Board area, and, in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area, more than 33,000 additional people are accessing NHS dental care as a result of extra investment in the service. The previous Minister for Health and Social Services agreed a modest increase in fees for dental treatment. All of that extra money will go into a further expansion of NHS dental provision.

There are moves at the General Dental Council to liberalise how professional workers can operate within the dental field, and we will look to see what advantage we can take of any moves there to go on providing more care through NHS dentists in Wales.

Diolch ichi am y cwestiwn hwnnw ac am eich sylwadau agoriadol. Mae Cynllun Gwên yn addysgu'r arferion iechyd y geg sydd eu hangen ar blant, fel y gallant barhau i ddarparu gofal da iddynt hwy eu hunain ac osgoi'r angen felly i fynd at y deintydd mor rheolaidd ag y byddent fel arall wedi gorfod ei wneud. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddarparu gofal deintyddol y GIG i bawb sy'n gofyn amdano. Mae mwy na 41,000 o bobl ychwanegol bellach yn manteisio ar ofal deintyddol y GIG yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn unig, ac yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr mae mwy na 33,000 o bobl ychwanegol yn manteisio ar ofal deintyddol y GIG o ganlyniad i'r buddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth. Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol ar gynnydd bach mewn ffioedd ar gyfer triniaeth ddeintyddol. Bydd yr holl arian ychwanegol hwnnw yn mynd tuag at ehangu darpariaeth ddeintyddol y GIG ymhellach.

Mae camau'n cael eu cymryd yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ystywyo'r modd y gall gweithwyr proffesiynol weithredu yn y maes deintyddol, a byddwn yn edrych i weld pa fantais y gallwn ei chymryd o ganlyniad i unrhyw gamau a gymerir yno i fynd ymlaen i ddarparu mwy o ofal drwy ddeintyddion y GIG yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:03

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Children and Young People Committee recommended that local health boards should publish information on their annual expenditure on Designed to Smile in their information. Your Government accepted this recommendation and stated that LHBs already do so. However, when I checked my local health board's annual accounts, I found that the costs of Designed to Smile were not obvious. Will you now require LHBs to publish on their websites, clearly and accessibly, details of Designed to Smile, so that the public can draw its own conclusions about the cost-effectiveness of the programme?

Weinidog, argymhellodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y dylai byrddau iechyd lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu gwariant blynyddol ar fenter Cynllun Gwên yn eu gwybodaeth. Derbyniodd eich Llywodraeth yr argymhelliad hwn a dywedodd fod BILLau eisoes yn gwneud hynny. Fodd bynnag, pan edrychais ar gyfrifon blynyddol fy mwrdd iechyd lleol, gwelais nad oedd costau Cynllun Gwên yn amlwg. A fyddwch yn ei gwneud yn ofynnol nawr i BILLau gyhoeddi ar eu gwefannau, mewn ffordd glir a hygyrch, fanylion Cynllun Gwên, fel y gall y cyhoedd ddod i'w gasgliadau ei hun ynghylch cost-effeithiolrwydd y rhaglen?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:03

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Suzy Davies, for that. As you say, the Government has already accepted that recommendation from the Children and Young People Committee and I will make sure that it is acted upon.

Diolch i chi, Suzy Davies, am hynny. Fel y dywedwch, mae'r Llywodraeth eisoes wedi derbyn yr argymhelliad gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a byddaf yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei weithredu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:03 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, in my constituency, a large number of people—parents, children and schoolteachers—are very pleased with this programme and what it has done for the future. Do you agree that this is an example of investing to save? The money is being spent now and there will be substantial savings in perhaps 20 or 30 years' time, on the cost of dentistry to people who have looked after their teeth in childhood.

Weinidog, yn fy etholaeth, mae nifer fawr o bobl—rhieni, plant ac athrawon ysgol—yn fodlon iawn ar y rhaglen hon a'r hyn y mae wedi'i wneud ar gyfer y dyfodol. A gytunwch fod hyn yn enghraifft o fuddsoddi i arbed? Mae'r arian yn cael ei wario yn awr a bydd arbedion sylweddol ymhen 20 neu 30 mlynedd efallai, ar gost deintyddiaeth i bobl sydd wedi gofalu am eu dannedd yn ystod plentyndod.

13:04 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I completely agree with Mike Hedges's comments. Designed to Smile is an investment in the future oral health of our children, and it is targeted in those communities that we know have the sharpest inequalities in oral health. The more that we can invest in persuading children early in life to lay down those habits that will protect their teeth and their general oral health for the future, the less need they will have to use expensive services, which will have indirect and direct cost savings. In that sense, in the longer run, the programme will pay for itself many times over.

Cytunaf yn llwyr â sylwadau Mike Hedges. Mae Cynllun Gwên yn fuddsoddiad yn iechyd y geg ein plant yn y dyfodol, ac mae'n cael ei thargedu at y cymunedau hynny y gwyddom sydd â'r anghydraddoldebau amlycaf o ran iechyd y geg. Po fwyaf y gallwn ei fuddsoddi er mwyn perswadio plant yn gynnar mewn bywyd i ddilyn yr arferion hynny a fydd yn diogelu eu dannedd ac iechyd y geg yn gyffredinol ar gyfer y dyfodol, y lleiaf o angen fydd iddynt orfod defnyddio gwasanaethau drud, a fydd yn arwain at arbedion costau anuniongyrchol ac uniongyrchol. Yn hynny o beth, yn y tymor hwy, bydd y rhaglen yn talu amdani ei hunan sawl gwaith drosodd.

Ad-drefnu'r Gwasanaeth Iechyd

Health Service Reconfiguration

13:05 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu'r gwasanaethau iechyd? OAQ(4)0247(HSS)

2. Will the Minister make a statement on health service reconfiguration? OAQ(4)0247(HSS)

13:05 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am y cwestiwn. Cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda eu cynigion terfynol ynglŷn ag ad-drefnu'r gwasanaethau ym mis Ionawr. Yn achos bwrdd iechyd Hywel Dda, mae gan Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda tan 19 Ebrill i gwblhau ei ystyriaeth derfynol. Bydd y byrddau iechyd yn ne Cymru yn cyflwyno'u cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ym mis Mai.

Thank you for that question. Betsi Cadwaladr University Local Health Board and Hywel Dda Local Health Board published their final proposals for service reconfiguration in January. In the case of Hywel Dda Local Health Board, Hywel Dda Community Health Council has until 19 April to complete its final consideration. The health boards in south Wales will present their proposals for formal public consultation in May.

13:05 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, gwrthododd eich rhagflaenydd dderbyn penderfyniad Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda ac felly bu i'r Llywodraeth wneud y penderfyniad ynglŷn ag ad-drefnu. Fel y dywedoch, mae'r cyngor iechyd cymuned wedi'i gyfarwyddo i drafod ymhellach gyda'r bwrdd iechyd ac i gyflwyno atebion ei hun. O ystyried nad oes ganddo yr adnoddau i ddelio â chais o'r fath, a gredwch fod hyn yn dderbyniol ac a allwch chi ystyried adolygu'r penderfyniadau dadleuol hyn yn bersonol, o gofio cryfder y teimladau ymhlith pobl yn sir Benfro yn erbyn cau'r uned gofal arbennig i fabanod?

Minister, your predecessor refused to accept a decision by Hywel Dda Community Health Council and therefore the Government made the decision on reconfiguration. As you said, the community health council has been directed to hold further discussions with the health board and to present its own solutions. Bearing in mind that it does not have the resources to deal with such a request, do you think that that is acceptable and would you now consider reviewing those contentious decisions personally, given the strength of feeling among people in Pembrokeshire against the closure of the special care baby unit?

13:06

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The reconfiguration exercise being carried out in Hywel Dda is simple. I responded to a request from the community health council for additional time and extra facilitation to allow it to complete one further attempt at considering the proposals that are in front of it. It has until Friday of this week to do that. When it has completed that work, its conclusions will arrive on my desk. If anything then falls to me to make a decision, I will consider those issues carefully and then move to make a decision in relation to them.

Mae'r ymarfer ad-drefnu a gynhelir ym mwrdd Iechyd Hywel Dda yn syml. Ymatebais i gais gan y cyngor iechyd cymuned am amser ychwanegol a mwy o hwyluster er mwyn caniatáu iddo wneud un ymdrech bellach i ystyried y cynigion sy'n ei wynebu. Mae ganddo tan ddydd Gwener yr wythnos hon i wneud hynny. Pan fydd wedi cwblhau'r gwaith hwnnw, caiff y casgliadau eu hanfon ataf. Os bydd yn rhaid imi wneud penderfyniad wedyn, byddaf yn ystyried y materion hynny yn ofalus ac yn bwrw ati i wneud penderfyniad mewn perthynas â hwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:07

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I welcome you to your first oral question session. In my view, you have been appointed to the best ministerial portfolio because you run the NHS—a wholly owned entity of the Welsh Government. You are completely in charge. Therefore, Minister, do you consider yourself to be completely in charge of the NHS and will you commit to not answering questions in the Assembly by saying that they are matters for the local health boards?

Weinidog, croeso i'ch sesiwn cwestiynau llafar gyntaf. Yn fy marn i, fe'ch penodwyd i'r portffolio gweinidogol gorau gan eich bod yn gyfrifol am y GIG—endid sy'n eiddo'n llwyr i Lywodraeth Cymru. Chi sydd wrth y llyw yn gyfan gwbl. Felly, Weinidog, a ydych yn ystyried eich hun yn rhywun sy'n gyfan gwbl gyfrifol am y GIG ac a wneuch chi ymrwymo i beidio ag ateb cwestiynau yn y Cynulliad drwy ddweud mai materion i'r byrddau iechyd lleol ydynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:07

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have previously heard the Member say that she thought that being Minister for health was the best job in the Assembly. Over the first weekend after my appointment, I repeated that to myself many times, saying, 'Well, Elin Jones thinks that this is the best job to have'. [Laughter.] So, I am grateful to hear her say it again this afternoon.

Rwyf wedi clywed yr Aelod yn dweud o'r blaen ei bod hi'n meddwl mai bod yn Weinidog iechyd oedd y swydd orau yn y Cynulliad. Dros y penwythnos cyntaf ar ôl fy mhendiad, dywedais i hynny wrthyf fy hun dro ar ôl tro, gan ddweud, 'Wel, mae Elin Jones o'r farn mai dyma'r swydd orau i'w chael'. [Chwerthin] Felly, rwy'n falch o'i chlywed hi'n dweud hynny eto y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, I am ministerially responsible for what goes on in the NHS in Wales, and I intend to take and exercise those responsibilities. That does not mean that I can, in a micromanaging way, hold myself responsible for every decision that every health board makes in relation to the thousands of things that cross the desk of the health service in Wales every day. I do not intend, where it would not be right, to answer questions by saying, 'That's for the health boards to decide', but where it is for the health boards to decide, I will say that.

Wrth gwrs, mae gennyf gyfrifoldeb fel gweinidog am yr hyn sy'n digwydd yn y GIG yng Nghymru, a bwriadaf gymryd ac arfer y cyfrifoldebau hynny. Nid yw hynny'n golygu y gallaf, mewn ffordd sy'n microreoli, fod yn atebol am bob penderfyniad a wna pob bwrdd iechyd mewn perthynas â'r miloedd o bethau y mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn delio â hwy bob dydd. Ni fwriadaf, lle na fyddai'n iawn, ateb cwestiynau drwy ddweud, 'Penderfyniad y byrddau iechyd yw hynny', ond mewn achosion lle bydd cyfrifoldeb ar fyrddau iechyd i benderfynu ar bethau, byddaf yn dweud hynny.

13:08

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Your First Minister has painted a picture in this place of an NHS in Wales that is unsustainable, possibly unsafe in parts and on the brink of collapse. After four weeks in this job, do you consider that you have inherited an NHS that is on the brink of collapse and, if so, what are the actions that you intend to take to bring the NHS back from the brink of collapse?

Mae eich Prif Weinidog wedi creu darlun yn y lle hwn o GIG yng Nghymru sy'n anghynaliadwy, yn anniogel o bosibl mewn rhannau ac ar fin mynd â'i ben iddo. Ar ôl pedair wythnos yn y swydd hon, a ystyriwch eich bod wedi etifeddu GIG sydd ar fin dymchwel, ac, os felly, beth yw'r camau y bwriadwch eu cymryd i arbed y GIG rhag mynd â'i ben iddo?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:09

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are parts of the NHS in Wales that are under strain, where the daily actions that are needed to meet the demands in the system create real challenges for staff. I recognise that; I have seen some of that in the visits that I have made in the four weeks that I have been Minister for health. Is the health service in Wales on the point of collapse? It is most certainly not. Saying that really would be to misrepresent the efforts that thousands of workers in the service make every single day to provide for thousands and thousands of people who use the service in Wales all the time. That service continues to be something that they value very highly and does enormous good in their lives. There are difficulties; we must face them. There are difficulties; we must address them. We do not address them sensibly by conveying an idea to the public, or to people who work in it, that the service is somehow, as you put it, on the point of collapse.

Mae rhannau o'r GIG yng Nghymru o dan straen, lle mae'r camau gweithredu dyddiol sydd angen eu cymryd er mwyn ateb y galw yn y system yn creu heriau gwirioneddol i'r staff. Cydnabyddaf hynny; rwyf wedi gweld rhywfaint o hynny yn yr ymweliadau a wneuthum yn y pedair wythnos y bum yn Weinidog iechyd. A yw'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru ar fin mynd â'i ben iddo? Nac ydyw, yn bendant. Byddai dweud hynny yn camgynrychioli ymdrechion miloedd o weithwyr yn y gwasanaeth bob dydd i ddarparu ar gyfer miloedd ar filoedd o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yng Nghymru drwy'r amser. Mae'r gwasanaeth hwnnw'n parhau i fod yn rhywbeth a werthfawrogant yn fawr ac sy'n gwneud llawer o ddaioni yn eu bywydau. Mae anawsterau; rhaid inni eu hwynebu. Mae anawsterau; rhaid inni fynd i'r afael â hwy. Nid ydym yn mynd i'r afael â hwy yn synhwyrol drwy gyfleu syniad i'r cyhoedd, neu i'r bobl sy'n gweithio ynddo, fod y gwasanaeth rhywffordd, fel y dywedwch, ar fin mynd â'i ben iddo.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:10

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Minister, I do not know about the best job, but it is certainly the toughest. I wish you well in your endeavours.

Weinidog, ni wn ai hon yw'r swydd orau ond yn sicr hon yw'r swydd anhawsaf. Dymunaf yn dda i chi yn eich ymdrechion.

The Government has stated that reconfiguration is needed to provide safer services and better outcomes for patients. What assessment have you carried out of nursing levels in Welsh hospitals prior to reconfiguration and levels of nursing after reconfiguration?

Mae'r Llywodraeth wedi datgan bod angen ad-drefnu er mwyn darparu gwasanaethau mwy diogel a chanlyniadau gwell i gleifion. Pa asesiad a wnaethoch o lefelau nyrsio mewn ysbytai yng Nghymru cyn ad-drefnu a lefelau nyrsio ar ôl ad-drefnu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:11

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As Kirsty Williams I think acknowledged in her question, there is no choice but change in the NHS, and there never has been. The NHS has been in the process of change since the day it was established, and that is as true today as it ever has been. There are issues that we need to look at in relation to nursing complements, and those come out of the Francis review as well as from reconfiguration. The chief nursing officer is involved with the service in developing a tool that will allow us to assess in a fairer way across the whole of Wales the nursing complements needed on wards, responding to not just varying numbers of patients but varying levels of acuity among patients on wards. I have had an initial discussion with the chief nursing officer about the way that that work is being developed. It will continue to be worked through. When I come to make a statement to the Assembly on the Francis report, I hope to be able to report more specifically to you the figures that that demonstrates in relation to the need for nursing in the NHS.

Fel y cydnabu Kirsty Williams yn ei chwestiwn, fe gredaf, nid oes dewis ond newid yn y GIG, ac ni fu erioed. Mae'r GIG wedi bod wrthi'n newid ers y diwrnod y cafodd ei sefydlu, ac mae hynny mor wir heddiw ag y bu erioed. Mae materion y mae angen inni eu hystyried mewn perthynas â nyrsio, ac mae'r rheini yn deillio o adolygiad Francis yn ogystal ag o'r gwaith ad-drefnu. Mae'r prif swyddog nyrsio yn gysylltiedig â'r gwasanaeth o ran datblygu adnodd a fydd yn caniatáu inni asesu mewn ffordd decach ledled Cymru y nyrsys sydd eu hangen ar wardiau, gan ymateb, nid yn unig i niferoedd amrywiol o gleifion, ond lefelau amrywiol o graffter ymhlith cleifion ar wardiau. Cefais drafodaeth gychwynnol gyda'r prif swyddog nyrsio am y ffordd y mae gwaith yn cael ei ddatblygu. Bydd yn parhau i gael ei drafod. Pan ddaw'r adeg imi wneud datganiad i'r Cynulliad ar adroddiad Francis, gobeithio y byddaf yn gallu adrodd yn fwy penodol i chi ar y ffigurau y mae hynny'n eu dangos mewn perthynas â'r angen am nyrsio yn y GIG.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:12

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Figures from the Royal College of Nursing in Wales show that we have lower numbers of nurses per patient than anywhere else in the United Kingdom. As you rightly say, the Francis report made recommendations about the drawing up of minimum staffing levels. There is international evidence to support the fact that minimum nurse levels improve patient outcomes. The Welsh Liberal Democrats believe that minimum nursing levels should be enshrined in law. Would you support that?

Mae ffigurau o Goleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru yn dangos bod gennym niferoedd is o nyrsys fesul claf nag unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig. Fel y dywedwch, a hynny'n briodol, gwnaeth adroddiad Francis argymhellion ynghylch llunio lefelau staffio gofynnol. Mae tystiolaeth ryngwladol i gefnogi'r ffaith bod lefelau nyrsio gofynnol yn gwella canlyniadau i gleifion. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y dylai lefelau nyrsio gofynnol gael eu hymgorffori yn y gyfraith. A fydddech yn cefnogi hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:12

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is a proposition to which I will give thought. The advice that I have had so far is that minimum nursing standards have to be carefully calibrated in relation to some rapidly changing circumstances on wards, not simply involving the number of patients who are there but the nature of the illnesses and the severity of conditions that people may have at any one time. The tool that the chief nursing officer is developing will respond to that. Whether the most sensible way to proceed is to then embed that in legislation is a question that is, I think, worth considering, and I will give it that consideration.

Mae hynny'n gynnig y gwnaf ei ystyried. Y cyngor a gefais hyd yn hyn yw bod yn rhaid i safonau nyrsio gofynnol gael eu graddnodi'n ofalus mewn perthynas â rhai amgylchiadau sy'n newid yn gyflym ar wardiau, nid yn unig yn ymwneud â nifer y cleifion sydd yno ond natur y salwch a difrifoldeb y cyflyrau a all fod gan bobl ar unrhyw un adeg. Bydd yr adnodd y mae'r prif swyddog nyrsio yn ei ddatblygu yn ymateb i hynny. Mae p'un ai'r ffordd fwyaf synhwyrol i fwrw ati yw drwy ymgorffori hynny mewn deddfwriaeth yn gwestiwn sy'n werth ei ystyried yn fy marn i, a byddaf yn rhoi'r ystyriaeth honno iddo.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:13

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, welcome to your first oral question session as Minister for health. You say that the NHS is not at a point of collapse but, indeed, the College of Emergency Medicine warned over Easter that its services in emergency departments were at the point of meltdown. It may be a simple play on words, but I pay extremely important regard to what it said. What action are you taking to prevent patient harm, examples of which included a patient with chest pain having a cardiac arrest while being seen in an eye examination room, and no space in a resuscitation bay to accommodate a baby having a severe seizure, along with the other examples that it put in its letter to you? What action are you taking to address this acute problem?

Weinidog, croeso i'ch sesiwn cwestiynau llafar gyntaf fel Gweinidog iechyd. Rydych yn dweud nad yw'r GIG ar fin mynd â'i ben iddo ond, yn wir, rhybuddiodd y Coleg Meddygaeth Frys dros y Pasg fod ei wasanaethau mewn adrannau achosion brys ar fin chwalu. Chwarae ar eiriau yw hyn efallai a dim mwy, ond rwy'n rhoi sylw hynod o bwysig i'r hyn a ddywedodd. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i atal niwed i gleifion, y mae enghreifftiau yn cynnwys claf â phoen yn y frest yn cael trawiad ar y galon tra'n cael sylw mewn ystafell archwilio llygaid, a dim lle mewn bae dadeburo i ofalu am fabi a oedd yn cael trawiad difrifol, ynghyd â'r enghreifftiau eraill a nododd yn ei llythyr atoch? Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem ddirifol hon?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:14

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am, of course, aware of that letter. One of the things that I will be doing is to meet with some of those who are responsible for it. There is a series of actions that I believe is necessary to address the difficulties that are faced in unscheduled care here in Wales, but more widely than Wales as well. There are some immediate, some medium-term and some long-term actions that I am actively considering at present. I hope to be able to make a statement to the Assembly drawing all those things together in the very near future.

Rwyf yn ymwybodol o'r llythyr hwnnw, wrth gwrs. Un o'r pethau y byddaf yn ei wneud yw cyfarfod â rhai o'r bobl sy'n gyfrifol amdano. Mae cyfres o gamau gweithredu y mae angen eu cymryd yn fy marn i er mwyn mynd i'r afael â'r anawsterau a wynebier ym maes gofal heb ei drefnu yma yng Nghymru, ond yn ehangach na Chymru hefyd. Mae rhai camau gweithredu uniongyrchol, rhai tymor canolig a rhai tymor hir yr wyf wrthi'n eu hystyried ar hyn o bryd. Gobeithiaf allu gwneud datganiad i'r Cynulliad gan dynnu ynghyd yr holl bethau hynny yn y dyfodol agos iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. You will be aware that one of the big problems for emergency departments is the ability to place people who need in-patient care in hospital beds. Unfortunately, there has been a big fall in hospital bed numbers over the past few years and, indeed, there are plans to further reduce numbers as a result of service reconfiguration. The College of Emergency Medicine has warned about this, and drew comparisons with the situation in the Mid Staffordshire hospital, and it indicated that there seemed to be a suggestion that financial targets were being put before patient care in Wales as a result of these bed pressures. We see the manifestation of increased pressure on the ambulance service, with delays for patients being held in ambulances outside emergency departments. This is not a problem that can wait; it has to be addressed immediately. Do you accept that the record-breaking financial cuts that your Government is imposing on the NHS are a contributory factor? Those are not just my words, but those of the College of Emergency Medicine. Will you accept that it is a problem and something that needs to be addressed?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol mai un o'r problemau mawr i adrannau achosion brys yw'r gallu i leoli pobl sydd angen gofal fel cleifion mewnol mewn gwelyau ysbyty. Yn anffodus, bu lleihad mawr yn nifer y gwelyau ysbyty dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac, yn wir, mae cynlluniau i leihau niferoedd ymhellach o ganlyniad i ad-drefnu gwasanaethau. Mae'r Coleg Meddygaeth Frys wedi rhybuddio am hyn, a thynnodd gymariaethau â'r sefyllfa yn ysbyty Canol Swydd Stafford, ac mae'n nodi bod awgrym yn ôl pob tebyg bod targedau ariannol yn cael eu hystyried cyn gofal cleifion yng Nghymru o ganlyniad i'r pwysau hyn ar welyau. Gwelwn y pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans yn cael ei amlygu, ac oedi'n digwydd wrth i gleifion gael eu cadw mewn ambiwlansys y tu allan i adrannau achosion brys. Nid yw hyn yn broblem a all aros; rhaid mynd i'r afael â hi ar unwaith. A dderbyniwch fod y toriadau ariannol nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen y mae eich Llywodraeth yn eu gorfodi ar y GIG yn ffactor cyfrannol? Nid fy ngeiriau i yn unig yw'r rhain, ond geiriau'r Coleg Meddygaeth Frys. A wnewch chi dderbyn bod hyn yn broblem ac yn rhywbeth y mae angen mynd i'r afael ag ef?

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let me begin by addressing the first point that Darren Millar made. In my many visits to A&E departments over the last month, I found the theme that the Member began with being repeated to me by many of the clinicians and nursing staff that I met. That is to say that the problems faced in emergency departments are exacerbated by the difficulty in moving through the system and into hospital beds. I accept that point. I think that you are mistaken in this because, in fact, more than 250 more beds have been made available in the NHS in Wales in recent months. So, there are more beds rather than fewer.

Gadewch imi ddechrau drwy fynd i'r afael â'r pwynt cyntaf a wnaeth Darren Millar. Yn fy ymweliadau niferus ag adrannau damweiniau ac achosion brys dros y mis diwethaf, canfûm fod y thema y soniodd yr Aelod amdani ar y dechrau yn cael ei hailadrodd i mi gan lawer o'r clinigwyr a'r staff nyrsio a gyfarfyddais. Hynny yw, mae'r anhawster o symud drwy'r system ac i mewn i welyau ysbyty yn gwaethygu'r problemau a wynebir mewn adrannau brys. Derbyniat y pwynt hwnnw. Credaf eich bod yn camgymryd drwy ddweud hynny oherwydd, mewn gwirionedd, mae mwy na 250 yn fwy o welyau wedi dod ar gael yn y GIG yng Nghymru dros y misoedd diwethaf. Felly, mae mwy o welyau yn hytrach na llai ohonynt.

In terms of the actions that need to be taken, an important theme that I will be addressing is the number of beds that are occupied in our hospitals by people who do not need to be there. Everywhere I went, I was told about the number of beds that are occupied by people who no longer need to be in a hospital bed setting. If some of those people could be more rapidly moved into places where more appropriate care is available for them, that would certainly help to alleviate the pressures described.

O ran y camau y mae angen eu cymryd, thema bwysig y byddaf yn mynd i'r afael â hi yw nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio yn ein hysbytai gan bobl nad oes angen iddynt fod yno. Ym mhob man yr euthum, dywedwyd wrthyf am nifer y gwelyau a ddefnyddir gan bobl nad oes angen iddynt fod mewn ysbyty mwyach. Pe gellid symud rhai o'r bobl hynny yn gyflymach i leoedd lle mae gofal mwy priodol ar gael iddynt, byddai hynny yn sicr yn helpu i leddfu'r pwysau a ddisgrifir.

Is all this down to money? No, of course it is not. Money is not responsible for the extra number of people who have come through the door of accident and emergency departments at such a rate. Money is not responsible for the fact that those individuals are older and more significantly ill than they were in the past. The nature of demand is what is driving the difficulty, and we need to understand that better and respond to it better.

Ai arian sy'n gyfrifol am hyn i gyd? Nage, wrth gwrs. Nid yw arian yn gyfrifol am y nifer ychwanegol o bobl sydd wedi dod drwy ddrysau adrannau damweiniau ac achosion brys ar raddfa o'r fath. Nid arian sy'n gyfrifol am y ffaith bod yr unigolion hynny yn hŷn ac yn fwy sâl o lawer nag yr oeddent yn y gorffennol. Natur y galw yw'r hyn sy'n llywio'r anhawster, ac mae angen inni ddeall hynny'n well ac ymateb yn well iddo.

13:18

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you have already answered one of my questions in your last answer. However, the final version of the proposals for the south Wales programme is due to be published in approximately two weeks' time. The proposals include major changes to A&E units, neonatal care and paediatric services across the south Wales area. In line with the policy, it is recommended that one or two of the three hospitals in the area—the Princess of Wales Hospital in Bridgend, the Prince of Wales Hospital in Merthyr and the Royal Glamorgan Hospital—might have a major reduction in service provision as a consequence of the changes. What assessment has the Welsh Government made of the impact of the proposed changes on health provision in the four LHB areas affected?

Weinidog, rydych eisoes wedi ateb un o'm cwestiynau yn eich ateb diwethaf. Fodd bynnag, mae disgwyl i fersiwn derfynol y cynigion ar gyfer rhaglen de Cymru gael ei chyhoeddi ymhen tua pythefnos. Mae'r cynigion yn cynnwys newidiadau mawr i unedau damweiniau ac achosion brys, gofal newyddenedigol a gwasanaethau pediatrig ledled ardal de Cymru. Yn unol â'r polisi, argymhellir y gallai un neu ddau o'r tri ysbyty yn yr ardal—Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhenybont ar Ogwr, Ysbyty Tywysog Cymru ym Merthyr ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg—gael gostyngiad sylweddol yn y gwasanaethau a ddarperir o ganlyniad i'r newidiadau. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y newidiadau arfaethedig ar y ddarpariaeth iechyd yn y pedair ardal Bwrdd Iechyd Lleol yr effeithir arnynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:18

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I think you will have heard me say earlier, the report of the south Wales programme board is awaited. It is undergoing rigorous examination and discussions this week and next. There was a large meeting yesterday, at which some of the proposals were discussed by clinicians and tested against their outcomes for patient populations. The proposals are yet to be finalised and published, and, once they are, the Welsh Government will certainly be considering them against some of the criteria that you have just outlined.

Fel y byddwch wedi fy nghlywed yn dweud yn gynharach, fe gredaf, rydym yn aros am adroddiad bwrdd rhaglen de Cymru. Mae'n cael ei archwilio'n drylwyr a thrafodaethau'n cael eu cynnal arno yr wythnos hon a'r wythnos nesaf. Cynhaliwyd cyfarfod mawr ddoe, lle y trafodwyd rhai o'r cynigion gan glinigwyr a chawsant eu profi yn erbyn eu canlyniadau ar gyfer poblogaethau o gleifion. Nid yw'r cynigion wedi'u cwblhau na'u cyhoeddi eto ond unwaith y cânt eu cwblhau a'u cyhoeddi, bydd Llywodraeth Cymru yn sicr yn eu hystyried yn erbyn rhai o'r meini prawf yr ydych newydd eu hamlinellu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gofal mewn Ysbytai yng Ngogledd Cymru

Hospital Care in North Wales

13:19

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau ar gyfer dyfodol gofal mewn ysbytai yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0256(HSS)

3. Will the Minister provide an update on his plans for the future of hospital care in North Wales? OAQ(4)0256(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:19

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hospitals in north Wales will continue to meet clinical safety standards and provide services that are sustainable into the future. Service change is as unavoidable now as it has been throughout the history of the national health service, as we respond to demographic change, advances in medical technology and patterns of staff recruitment in an age of austerity.

Bydd ysbytai yn y gogledd yn parhau i fodloni safonau diogelwch clinigol a darparu gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn y dyfodol. Mae newid mewn gwasanaethau bellach mor anochel ag y bu drwy gydol hanes y gwasanaeth iechyd gwladol, wrth inni ymateb i newid demograffig, datblygiadau ym maes technoleg feddygol a phatrymau recriwtio staff mewn cyfnod o galedi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:20

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in 2005 a report identified the need for a new single neonatal centre in north Wales and that centre was never delivered. Can you confirm, from your discussions with the First Minister over the future of neonatal care in north Wales, that there is a genuine prospect of retaining a level 3 service in north Wales in the long term? This has been undermined by the news that new positions are already being advertised in Arrows Park Hospital.

Weinidog, yn 2005 nododd adroddiad yr angen am un ganolfan newyddenedigol newydd yn y gogledd ond ni ddarparwyd y ganolfan honno erioed. A allwch gadarnhau, o'ch trafodaethau â'r Prif Weinidog ynghylch dyfodol gofal newyddenedigol yn y gogledd, fod gobaith gwirioneddol o gadw gwasanaeth lefel 3 yn y gogledd yn yr hirdymor? Mae hyn wedi ei danseilio gan y newyddion bod swyddi newydd eisoes yn cael eu hysbysebu yn Ysbyty Arrows Park.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:20

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member will have heard what the First Minister said in this Chamber yesterday afternoon, when some of these same points were put to him. He has called for an independent review of a service model that would allow north Wales to become self-sufficient in complex neonatal services in the longer term. That is the position that he has repeated. That is the position of the Welsh Government.

Bydd yr Aelod wedi clywed yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog yn y Siambwr brynhawn ddoe, pan gyflwynwyd rhai o'r un pwyntiau hyn iddo. Mae wedi galw am adolygiad annibynnol o fodel gwasanaeth a fyddai'n caniatáu i'r gogledd ddod yn hunan-gynhaliol mewn gwasanaethau newyddenedigol cymhleth yn y tymor hwy. Dyna'r safbwynt y mae wedi ei ailadrodd. Dyna safbwynt Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:21

Llyr Huws Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n cael ei gydnabod, Weinidog, os yw lefel 'occupancy' gwelyau dros 85%, gallwch ddisgwyl problemau o safbwynt argaeledd gwelyau a hefyd perygl uwch o ddal clefydau fel C. difficile ac MRSA. Yn ôl ffigurau sydd wedi eu rhyddhau i mi, roedd ysbytai Glan Clwyd a Wrexham Maelor wedi bod yn rhedeg ar tua 87% yn 2012. Rydych newydd ddweud yn eich ateb blaenorol gymaint o broblem yw 'bedblocking', a phobl mewn gwelyau sydd efallai ddim angen y gwelyau hynny mewn gwirionedd. A ydych yn credu bod cau dros 50 o welyau yn y gogledd yn sgîl y newidiadau sy'n digwydd i ysbytai cymunedol, gan roi mwy o bwysau ar ysbytai cyffredinol, yn ddiogel ac yn gynaliadwy?

It is recognised, Minister, that if the level of bed occupancy is over 85%, you can expect problems in terms of the availability of beds and a higher risk of catching diseases such as C. difficile and MRSA. According to the figures that I have received, Glan Clwyd and Wrexham Maelor hospitals were running at around 87% in 2012. You have just said in your previous response how much of a problem bedblocking is, and people taking up beds who perhaps do not necessarily need those beds. Do you think that closing over 50 beds in north Wales in light of the changes happening to community hospitals, placing more pressure on general hospitals, is safe and sustainable?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:21

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the successes of the NHS in Wales over the last decade has been to increase the levels at which beds are occupied. There was a period during which the Welsh NHS was severely criticised for the fact that bed occupancy levels were well below what was being achieved elsewhere. I am aware, as the Member noted, that there comes a point at which bed occupancy levels are above what can be sensibly managed and we will look carefully at that. Numbers of beds are less important in the end than the way in which those beds are used, although there is a relationship between both things. There is something of an iron law in social welfare provision that the minute you provide something it is full. If we provided a whole number of new beds, there is no guarantee at all that that would solve the problem in the way that you described. Where clinicians are satisfied that beds can be used better and differently, and that that will result in lower numbers of beds being needed in some instances, then that is advice that we are wise to accept.

Un o lwyddiannau'r GIG yng Nghymru dros y degawd diwethaf fu cynyddu lefelau'r gwelyau a ddefnyddir. Roedd cyfnod pan gafodd y GIG yng Nghymru ei feirniadu'n hallt am y ffaith bod lefelau defnydd gwelyau yn llawer is na'r hyn oedd yn cael ei gyflawni mewn manau eraill. Rwy'n ymwybodol, fel y nododd yr Aelod, y daw adeg pan fydd lefelau defnydd gwelyau yn uwch na'r hyn y gellir ei reoli'n synhwyrol a byddwn yn edrych yn ofalus ar hynny. Mae nifer y gwelyau yn llai pwysig yn y pen draw na'r ffordd y defnyddir y gwelyau hynny, er bod cydberthynas rhwng y ddau beth. Mae rhywfaint o gyfraith haearn mewn darpariaeth lles cymdeithasol sy'n golygu yr eiliad y darparwch rywbeth mae'n llawn. Pe baem yn darparu nifer fawr o welyau newydd, nid oes unrhyw sicrwydd o gwbl y byddai hynny'n datrys y broblem yn y ffordd a ddisgrifwyd. Os yw clinigwyr yn fodlon y gellir defnyddio gwelyau mewn ffordd well a gwahanol, ac y bydd hynny'n arwain at sefyllfa lle y byddai angen niferoedd is o welyau mewn rhai achosion, yna mae hwnnw'n gyngor yr ydym yn ddoeth i'w dderbyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:23

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth i minnau groesawu'r Gweinidog i'w swydd gyda'i wybodaeth helaeth o bolisi cymdeithasol, a wnaiff gytuno â mi bod gwersi pwysig i'w dysgu ynglŷn â'r ymdrech hirhoedlog gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddiwygio gwasanaethau yn y gogledd, ac mai'r gwendid pennaf yw diffyg gofal integredig, yn enwedig ar gyfer yr henoed, rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a'i bod yn hen bryd inni gyd-gyllido a chyd-gynllunio, ac na ddylai unrhyw ddatblygiad ddigwydd bellach heblaw ei fod ar y cyd rhwng y gwasanaethau hynny, yn y gogledd neu yn unrhyw le arall yng Nghymru?

As I welcome the Minister to his post with his wide-ranging knowledge of social policy, would he agree with me that there are important lessons to be learned in terms of the long-existing efforts of Betsi Cadwaladr University Local Health Board to reconfigure services in north Wales, and that the greatest problem is the lack of integrated care, particularly for the elderly, between health and social services, and that it is about time that we co-funded and co-planned these services, and that no development should happen now if it does not happen jointly between those services, in north Wales or anywhere else in Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:23 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, i ddechrau, am y dymuniadau gorau. Wrth gwrs, rwy'n cytuno bod gwersi i'w dysgu o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn Betsi Cadwaladr a thros Gymru gyfan. Rwy'n cytuno hefyd mai'r peth pwysicaf yn y dyfodol fydd cyd-gynllunio pethau rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd gwladol. Mae mwy y gallwn ei wneud ac mae mwy o bethau mae'n bwysig ein bod yn eu gwneud trwy'r Bil y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei ddwyn gerbron y Cynulliad. Rydym yn edrych at y Bil i'n helpu i ddod â'r ddau wasanaeth at ei gilydd i sicrhau y byddant yn gweithio gyda'i gilydd yn well yn y dyfodol nag y maent wedi ei wneud yn y gorffennol.

Thank you very much, to begin with, for your good wishes. Of course, I do agree that there are lessons to be learned from what has been occurring in Betsi Cadwaladr and across Wales. I also agree that the most important thing in future is to have joint planning between social services and the national health service. There is more that we can do and there are more things that it is important that we do through the Bill that the Deputy Minister is bringing to the Assembly. We look to the Bill to assist us in bringing both services together to ensure that they collaborate better in the future than they have done in the past.

13:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Question 4, OAQ(4)0262(HSS), has been withdrawn. Cwestiwn 4, OAQ (4) 0262 (HSS), yn ôl.

Pobl sy'n Dioddef o Hemoffilia

People Suffering from Haemophilia

13:24 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

5. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o hemoffilia yng Nghymru? OAQ(4)0253(HSS)

5. What plans does the Minister have to improve services for people suffering from haemophilia in Wales? OAQ(4)0253(HSS)

13:24 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Health boards in Wales are working to implement the recommendations contained in the report of the ministerial task and finish group on inherited bleeding disorders, which reported in November 2011. The task and finish group is being reconvened to review progress.

Mae byrddau iechyd yng Nghymru yn gweithio i weithredu'r argymhellion a geir yn adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar anhwylderau gwaedu etifeddol, a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2011. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei ailgynnull er mwyn adolygu cynnydd.

13:25 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for that response, and would also like to congratulate him on his new post. Lots of things are happening today, including Cardiff City's first day in the Premier League. It is also World Haemophilia Day and a group of patients and supporters from Wales have gone up to Westminster to make their case about the contaminated blood products that they were infected with in the 1970s and 1980s. Can the Minister tell us what progress has been made on the proposals from the task and finish group, which finished in 2011—I am very pleased to hear that it is being reconvened—and, in particular, the urgent need for a hepatologist at the Heath hospital and for physiotherapy in Wales outside the Cardiff area?

Diolchaf i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw, a hoffwn hefyd ei longyfarch ar ei swydd newydd. Mae llawer o bethau yn digwydd heddiw, gan gynnwys diwrnod cyntaf Cardiff City yn yr Uwch Gynghair. Mae hefyd yn Ddiwrnod Hemoffilia'r Byd ac mae grŵp o gleifion a chefnogwyr o Gymru wedi mynd i San Steffan i gyflwyno eu hachos ynghylch y cynhyrchion gwaed halogedig y cawsant eu heintio â hwy yn y 1970au a'r 1980au. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar gynigion y grŵp gorchwyl a gorffen, a ddaeth i ben yn 2011—rwy'n falch iawn o glywed ei fod yn cael ei ailgynnull—ac, yn benodol, yr angen brys am hepatolegydd yn ysbyty'r Mynydd Bychan ac am ffisiotherapi yng Nghymru y tu allan i ardal Caerdydd?

13:26

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that question and for your opening remarks. I am aware, of course, of the Member's longstanding commitment to this agenda and the fact that she held a meeting with my predecessor Lesley Griffiths, bringing a group of people who suffer from these conditions to meet her. I have seen the notes of that meeting and I am aware of actions that were agreed to flow from it. There are outstanding issues in relation to hepatology, physiotherapy and psychology services from the ministerial report that I noted in my original answer. In reconvening the task and finish group, my aim will be to ensure that we have a clear understanding of what has been achieved; there have been achievements in all those areas, but certainly there is more that needs to be done. I will look to the task and finish group to advise me on where those priorities lie and the most practical ways of making further progress.

Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn hwnnw ac am eich sylwadau agoriadol. Rwy'n ymwybodol, wrth gwrs, o ymrwymiad hirsefydlog yr Aelod i'r agenda hon a'r ffaith iddi gynnal cyfarfod gyda'm rhagflaenydd Lesley Griffiths, gan ddod â grŵp o bobl sy'n dioddef o'r cyflyrau hyn i gwrdd â hi. Rwyf wedi gweld nodiadau'r cyfarfod hwnnw ac rwy'n ymwybodol o gamau gweithredu y cytunwyd y byddent yn deillio ohono. Mae materion eto i'w trafod o ran gwasanaethau hepatoleg, ffisiotherapi a seicoleg o'r adroddiad gweinidogol a nodais yn fy ateb gwreiddiol. Wrth ailgynnull y grŵp gorchwyl a gorffen, fy nod fydd sicrhau bod gennym ddealltwriaeth glir o'r hyn sydd wedi'i gyflawni; bu cyflawniadau yn yr holl feysydd hynny, ond yn sicr mae mwy sydd angen ei wneud. Byddaf yn disgwyl i'r grŵp gorchwyl a gorffen roi cyngor imi ar beth yw'r blaenoriaethau hynny a'r ffyrdd mwyaf ymarferol o wneud cynnydd pellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:27

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae sicrhau cyflenwadau digonol a glân o waed yn hollbwysig i gefnogi'r rhai sydd yn dioddef o'r gwaedlif. Yn y gogledd, mae dwy ganolfan—un yn y dwyrain ac un yn y gorllewin—sy'n casglu'r gwaed hwn. Wrth ichi fynd ati i greu un gwasanaeth gwaed drwy Gymru gyfan, a wnewch fy sicrhau y bydd y ddwy uned hynny yn parhau â'u cysylltiadau agos â'r gymdeithas sy'n sicrhau bod y cyflenwadau digonol hyn yn bodoli?

Ensuring adequate and clean supplies of blood is vital to support those suffering from haemophilia. In north Wales, there are two centres—one in the east and one in the west—that collect this blood. As you set about creating one blood service for the whole of Wales, will you assure me that both these units will continue with their close links with the society that ensures that these adequate supplies exist?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:27

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not able to provide a direct confirmation of that this afternoon, but that is because I am not yet familiar enough with the issue that the Member has raised. I understand the general context in which he has raised it, and I understand the issue that he identifies in relation to the two centres. I will get further advice on it and I will write to him with the answer that he is seeking.

Ni allaf roi cadarnhad uniongyrchol o hynny y prynhawn yma, ond mae hynny am nad wyf eto yn ddigon cyfarwydd â'r mater a godwyd gan yr Aelod. Deallaf y cyd-destun cyffredinol y'i cododd ynddo, a deallaf y mater a noda mewn perthynas â'r ddwy ganolfan. Caf gyngor pellach arno a byddaf yn ysgrifennu ato gyda'r ateb y mae'n ei geisio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:28

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your continued commitment to improving services for those suffering from haemophilia and, hopefully, for those suffering from other blood disorders. Pernicious anaemia, for example, affects thousands of people in Wales. However, in October, your predecessor reported that no research into that disease is being funded by the National Institute for Social Care and Health Research. Research activity surely informs your overall planning for patients with life-limiting blood disorders, so how does your department monitor how much research is done into haemophilia and other blood disorders?

Weinidog, diolch i chi am eich ymrwymiad parhaus i wella gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n dioddef o hemoffilia a, gobeithio, ar gyfer y rhai sy'n dioddef o anhwylderau gwaed eraill. Mae anemia dinistriol, er enghraifft, yn effeithio ar filoedd o bobl yng Nghymru. Fodd bynnag, ym mis Hydref, dywedodd eich rhagflaenydd na chaiff unrhyw ymchwil a gynhelir i'r clefyd hwnnw ei ariannu gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Onid yw gweithgarwch ymchwil yn llywio eich gwaith cynllunio cyffredinol ar gyfer cleifion ag anhwylderau gwaed sy'n cyfyngu ar eu bywyd, felly sut mae eich adran yn monitro faint o ymchwil a wneir i hemoffilia ac anhwylderau gwaed eraill?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:28

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Our monitoring of research programmes is done in the round, rather than necessarily in relation to specific conditions. I have already met those who are involved in NISCHR, our primary vehicle for conducting research of this sort in Wales. Research is a topic in which I have a very direct interest. I will ensure that, when I am next able to pursue questions with it, I will pursue the specific question that you have raised with me this afternoon.

Rydym ym monitro rhaglenni ymchwil mewn ffordd gyffredinol, yn hytrach nag o reidrwydd mewn perthynas â chyflyrau penodol. Rwyf eisoes wedi cyfarfod â'r rhai sy'n gysylltiedig â NISCHR, ein prif gyfrwng ar gyfer cynnal ymchwil o'r math hwn yng Nghymru. Mae ymchwil yn bwnc y mae gennyf ddiddordeb uniongyrchol iawn ynddo. Byddaf yn sicrhau, pan fydd y cyfle nesaf yn codi i'w drafod, y byddaf yn codi'r cwestiwn penodol yr ydych wedi ei godi gyda mi y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Plant â Diabetes Math 1

Children with Type 1 Diabetes

- 13:29 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad Biography](#)
I, too, would like to congratulate you on your promotion to what is a very difficult job, but I am sure that you will pursue it with the rigour and passion of your predecessor.

6. Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru i wella'r gofal a roddir i blant â diabetes math 1? OAQ(4)0258(HSS)
- 13:29 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)
Consultation on a draft diabetes delivery plan for 2013-16 closed on 15 March. A final plan is due to be published in the summer. This will set out the Government's strategy for improving the care of children with type 1 diabetes, putting the needs of the child at the heart of service delivery.
- 13:30 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad Biography](#)
I look forward to reading that document, Minister. I am concerned that only one in six children in Wales who have type 1 diabetes receive all the eight care processes that are recommended by the National Institute for Health and Care Excellence, to enable them not to develop the complications that can arise out of type 1 diabetes. I am delighted that this number is nearly three times more than that, overall, for children across the UK, so we are doing much better in Wales. However, we are not doing all that we can to prevent children, who happen to have type 1 diabetes, through no fault of their own, from developing these complications that can shorten their lives. What can you tell us about how might you address the variations that exist between the 14 different centres across Wales that are delivering these services?
- 13:31 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)
Thank you for raising that issue. You are right to say that, while the picture has improved—and it continues to improve—it is by no means satisfactory, especially when you report the figures that you do. The figures are slightly strange, when you come to look at them in detail, and I have asked for some further advice on this. Adult figures for receiving all eight care processes show that more than half the adults in Wales have all eight of them completed. I am half concerned that this may be a data collection and recording issue, as well as a what is actually happening out there issue.
- Hoffwn innau, hefyd, eich llongyfarch ar eich dyrchafiad i'r hyn sy'n swydd anodd iawn, ond rwy'n siŵr y byddwch yn codi'r mater gyda thrylwyrdd a brwdfrydedd eich rhagflaenydd.

6. What is the Welsh Government's strategy for improving the care of children with type 1 diabetes? OAQ(4)0258(HSS)
- Daeth ymgynghoriad ar gynllun cyflawni diabetes drafft ar gyfer 2013-16 i ben ar 15 Mawrth. Mae disgwyl i gynllun terfynol gael ei gyhoeddi yn yr haf. Bydd hwn yn nodi strategaeth y Llywodraeth ar gyfer gwella gofal plant sydd â diabetes math 1, gan roi anghenion y plentyn wrth wraidd darparu gwasanaethau.
- Edrychaf ymlaen at ddarllen y ddogfen honno, Weinidog. Rwy'n pryderu mai dim ond un o bob chwe phlentyn yng Nghymru sydd â diabetes math 1 sy'n cael yr wyth proses gofal i gyd a argymhellir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoniaeth mewn Iechyd a Gofal, er mwyn eu galluogi i beidio â datblygu'r cymhlethdodau a all ddeillio o ddiabetes math 1. Rwy'n falch iawn bod y nifer hon bron dair gwaith yn fwy na hynny, yn gyffredinol, i blant ledled y DU, felly rydym yn gwneud yn llawer gwell yng Nghymru. Fodd bynnag, nid ydym yn gwneud popeth a allwn i atal plant, sy'n digwydd bod yn dioddef o ddiabetes math 1, heb fod unrhyw fai arnynt hwy eu hunain, rhag datblygu'r cymhlethdodau hyn a all fyrhau eu bywydau. Beth y gallwch ei ddweud wrthym ynghylch sut y gallech fynd i'r afael â'r amrywiadau sy'n bodoli rhwng y 14 o ganolfannau gwahanol ledled Cymru sy'n darparu'r gwasanaethau hyn?
- Diolch ichi am godi'r mater hwnnw. Rydych yn iawn i ddweud, er bod y darlun wedi gwella—ac mae'n parhau i wella—nad yw, ar unrhyw gyfrif, yn foddhaol, yn enwedig pan grybwyllwch ffigurau o'r fath. Mae'r ffigurau ychydig yn rhyfedd, pan ewch ati i'w hastudio'n fanwl, ac rwyf wedi gofyn am ragor o gyngor ar hyn. Dengys ffigurau oedolion o ran cael bob un o'r wyth proses gofal fod yr wyth proses yn cael eu cwblhau ar gyfer mwy na hanner yr oedolion yng Nghymru. Rwy'n pryderu ychydig y gall hyn fod yn broblem casglu a chofnodi data, yn ogystal â phroblem o ran yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In relation to variability, however, we must make sure that variability in the different centres across Wales is reduced. We will do that through the delivery plan. As part of that, there will be a Wales diabetes implementation group. I have made it clear that I will require diabetes paediatric care to be separately represented on that group, so that we can ensure that, within its work, the interests of young people, and their views, are directly reflected in the delivery plan work that will follow.

O ran amrywioldeb, fodd bynnag, rhaid inni wneud yn siŵr bod amrywioldeb yn y gwahanol ganolfannau ledled Cymru yn cael ei leihau. Gwnawn hynny drwy'r cynllun cyflawni. Fel rhan o hynny, caiff grŵp gweithredu diabetes Cymru ei ffurfio. Rwyf wedi egluro y bydd angen i ofal pediatrig ym maes diabetes gael ei gynrychioli ar wahân ar y grŵp hwnnw, fel y gallwn sicrhau, o fewn ei waith, bod buddiannau pobl ifanc, a'u safbwyntiau, yn cael eu hadlewyrchu'n uniongyrchol yng ngwaith y cynllun cyflawni a fydd yn dilyn.

13:32 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, yn anffodus, mae'r Deyrnas Unedig yn y pump uchaf yn y byd o ran y gyfradd o blant sydd â diabetes math 1. Yn anffodus, mae'r diffyg dealltwriaeth o symptomau diabetes math 1 yn un o'r prif resymau pam bod llawer gormod o blant eisoes yn ddifrifol wael erbyn iddynt gael eu diagnosis. Rwy'n deall y byddwch yn gwneud datganiad mewn rhai misoedd, ond a allwch ddweud beth yr ydych yn ei wneud nawr fel Llywodraeth i helpu i addysgu rhieni am yr arwyddion o ddiabetes math 1 mewn plant?

Minister, unfortunately, the UK is in the top five in the world in terms of the number of children who suffer type 1 diabetes. Unfortunately, the lack of understanding of the symptoms of type 1 diabetes is one of the reasons why far too many children are already seriously ill by the time that they get a diagnosis. I understand that you will be making a statement in a few months' time, but can you tell us what you are doing now as a Government to assist in educating parents on the symptoms of type 1 diabetes in children?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Paul Davies is right to point to the scale of diabetes. The fact is that it is of a scale and nature that is different in the United Kingdom to other parts of the world. Early identification is a real key to making sure that people are put on the care pathway that they need in order to make sure that the right services are provided to them at the right time. Educating parents in helping to spot things that are going wrong, and to know where they need to go to get the help that they need, is fundamental to that. The whole business of expert patient education in the diabetes area is an important one for the delivery plan. It is something that the Health and Social Care Committee heard quite a lot about in the brief inquiry that it completed earlier last year into this topic. I have asked officials to ensure that they take into account the report of the health committee, when it is produced, in the delivery plan, so that there is a real focus on that education issue.

Mae Paul Davies yn iawn i gyfeirio at raddfa diabetes. Y ffaith amdani yw ei fod ar raddfa ac o natur sy'n wahanol yn y Deyrnas Unedig i rannau eraill o'r byd. Mae canfod hyn yn gynnar yn wirioneddol allweddol i sicrhau bod pobl yn cael eu rhoi ar y llwybr gofal sydd ei angen arnynt er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau cywir yn cael eu darparu iddynt ar yr adeg gywir. Mae addysgu rhieni fel eu bod yn gwybod pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, a'u bod yn gwybod ble y gallant fynd i gael yr help sydd ei angen arnynt, yn sylfaenol i hynny. Mae mater cyfan addysg arbenigol i gleifion ym maes diabetes yn un pwysig ar gyfer y cynllun cyflawni. Mae'n rhywbeth y clywodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol lawer amdano yn yr ymchwiliad byr a gwblhawyd ganddo yn gynharach y llynedd i'r pwnc hwn. Rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau eu bod yn ystyried adroddiad y pwyllgor iechyd, pan gaiff ei lunio, yn y cynllun cyflawni, fel bod ffocws gwirioneddol ar y mater addysg hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Mental Health Services

13:34 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i gynnal o wasanaethau iechyd meddwl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0249(HSS)

7. What assessment has the Minister made of mental health services in Mid and West Wales? OAQ(4)0249(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mental health services in Mid and West Wales are subject to regular assessment, and are monitored via a monthly quality and delivery meeting, which is chaired by the Welsh Government.

Caiff gwasanaethau iechyd meddwl yn y canolbarth a'r gorllewin eu hasesu'n rheolaidd, a'u monitro drwy gyfrwng cyfarfod ansawdd a chyflawni misol, a gadeirir gan Lywodraeth Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would like to thank you, Minister, for that answer and also add my congratulations to you on your appointment and wish you all the best for the challenges ahead. As you will be aware, over recent months, the Welsh farming community has suffered particular hardships as a result of the inclement weather conditions. As a result of this, I think that it is only to be anticipated that we will see a significant number of individuals coming forward showing evidence of the effects of mental anguish, and the stress that they have encountered. While yesterday's statement by the Minister for Natural Resources and Food, following his recent listening exercise, was welcome, particularly in terms of the investment that will be made in certain rural charities, what engagement can you and your officials have to make sure that there is a joined-up approach in Government to dealing with the potential consequences of this recent disaster?

Hoffwn ddiolch i chi, Weinidog, am yr ateb hwnnw, a hoffwn innau hefyd eich llongyfarch ar eich penodiad a dymuno'n dda i chi wrth i chi wynebu'r heriau sydd o'ch blaen. Fel y gwyddoch, dros y misoedd diwethaf, mae'r gymuned ffermio yng Nghymru wedi dioddef caledi penodol o ganlyniad i'r tywydd garw a gafwyd. O ganlyniad i hyn, credaf nad yw'n syndod ein bod yn rhagweld y bydd nifer sylweddol o unigolion yn dangos tystiolaeth o effeithiau gofid meddwl, a'r straen y maent wedi ei wynebu. Er bod y datganiad ddoe gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, yn dilyn ei ymarfer gwranddo diweddar, i'w groesawu, yn enwedig o ran y buddsoddiad a wneir mewn elusennau gwledig penodol, pa waith ymgysylltu y gallwch chi a'ch swyddogion ei wneud er mwyn sicrhau bod dull cydgysylltiedig gan y Llywodraeth i ddelio â chanlyniadau posibl y drychineb ddiweddar hon?

13:35

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member, both for the specific question and for making sure that there is a question on mental health on the order paper this afternoon. It is one of the things that I have tried to remind myself of regularly in the job so far, when so many other things are constantly crowding on to the desk, namely that I want to make sure that mental health remains firmly on my agenda and that we continue to build on the excellent work that has gone on in this Assembly over the decade and more in which it has been in operation, in making certain that mental health issues are actively discussed and remain a focus of our attention.

Diolchaf i'r Aelod, am y cwestiwn penodol ac am wneud yn siŵr bod cwestiwn ar iechyd meddwl ar bapur y drefn y prynhawn yma. Mae'n un o'r pethau yr wyf wedi ceisio fy atgoffa fy hun amdano yn gyson yn y swydd hyd yma, pan fo cymaint bethau eraill yn glanio'n gyson ar y ddesg, sef fy mod am sicrhau bod iechyd meddwl yn parhau i fod yn eitem bendant ar fy agenda ac y byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith rhagorol a wnaed yn y Cynulliad hwn dros y degawd a mwy y bu'n gweithredu, i sicrhau bod materion iechyd meddwl yn cael eu trafod yn weithredol a'u bod yn parhau i hoelio'n sylw.

Those of us who have been around the Assembly for quite a lot of that time will remember very well the way in which mental health issues were an important component part of the previous difficulties that have been faced in the agriculture industry, particularly the foot-and-mouth disease crisis of some years ago. There is some learning that happened as a result of that, which we must make sure is fed into the current circumstances that face the farming community. There have been some recent investments in parts of rural Wales as a result of the rural health plan, and as a result of money invested to follow up the Mental Health (Wales) Measure 2010. So, there is a greater resilience to mental health services, we hope, in rural communities. I will make sure that my officials are engaged in discussions about any wider package of help that is being put together for people who have faced the difficulties that we are aware of over recent weeks.

Bydd y rheini ohonom sydd wedi bod yn y Cynulliad ers cryn dipyn o amser yn cofio'n dda iawn y ffordd yr oedd materion iechyd meddwl yn elfen bwysig o'r anawsterau blaenorol a wynebwyd yn y diwydiant amaethyddol, yn enwedig argyfwng clwy'r traed a'r genau rai blynyddoedd yn ôl. Dysgwyd rhywfaint o ganlyniad i hynny, a rhaid inni wneud yn siŵr bod hynny'n cael ei fwydo i mewn i'r amgylchiadau presennol sy'n wynebu'r gymuned ffermio. Bu rhai buddsoddiadau diweddar mewn rhannau o Gymru wledig yn sgil y cynllun iechyd gwledig, ac o ganlyniad i arian a fuddsoddwyd yn dilyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Felly, mae mwy o gydnorthedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl, gobeithiwn, mewn cymunedau gwledig. Byddaf yn sicrhau bod fy swyddogion yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar unrhyw becyn ehangach o gymorth a lunnir ar gyfer pobl sydd wedi wynebu'r anawsterau yr ydym yn ymwybodol ohonynt dros yr wythnosau diwethaf.

13:37

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Croesawaf y Gweinidog i'w swydd newydd, ei longyfarch a dymuno'n dda iawn iddo yn ei waith pwysig. Ers cau ward Afallon, sef y ward salwch meddwl yn Aberystwyth—caewyd y ward yn ddi-rybudd dros nos—nid oes cynlluniau i'w ail-agor, ond yn hytrach i gael gofal yn y gymuned. Y drafferth gyda hynny yw bod gan Aberystwyth a chanolbarth Cymru nifer fawr o fyfyrwyr sy'n pryderu bod myfyrwyr yn wynebu argyfwng, ac hefyd mae'r unedau saff, diogel agosaf yn llefydd fel Llanelli a Chaerfyrddin, sy'n eithaf pell i ffwrdd. Rwyf wedi derbyn llythyr gan brif gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yn cadarnhau bod risg wrth deithio'n bell i gludo cleifion sydd angen y math hwn o ofal. Er nad yw ail-agor y ward yn bosibl, mae'n amlwg bod angen uned gofal arbennig dydd a nos ar gyfer pobl sy'n wynebu 'crisis' meddyliol yn y canolbarth, ac Aberystwyth yn benodol. Pa gamau a pha sicrhad a ydych chi yn ei gael gan fwrdd iechyd Hywel Dda, Weinidog, y bydd y ddarpariaeth hon ar gyfer canolbarth Cymru yn gwella?

I welcome the Minister to his new post, congratulate him and wish him well with this important work. Since the closure of Afallon ward, namely the mental health ward in Aberystwyth—the ward was closed overnight without notice—there are no plans to re-open it, but rather care is to be provided in the community. The problem with that is that Aberystwyth and mid Wales has many students who are concerned that students are facing crises, and also the nearest safe, secure units are in places like Llanelli and Carmarthen, which are quite a distance away. I received a letter from the chief constable of Dyfed-Powys Police confirming that there is a risk in travelling such distances transporting patients who need that kind of care. Although reopening the ward may not be possible, it is clear that we need a 24-hour special care unit for people who are facing mental crises in mid Wales, and in Aberystwyth in particular. What steps and what assurances have you had from Hywel Dda health board, Minister, that this provision for mid Wales will improve?

13:38

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr am y cwestiwn. Rwyf wedi clywed mai'r broblem o ran ward Afallon oedd recriwtio staff i weithio yn y maes hwnnw. Mae'r bwrdd lleol yn trio recriwtio pobl nawr i roi mwy o driniaeth yn y cartref i bobl. Rwy'n clywed beth mae'r Aelod wedi ei ddweud am fyfyrwyr a phobl eraill, ac rwy'n cydnabod ei bod yn daith ddigon hir i Gaerfyrddin neu Llanelli, ac yn ddigon anodd hefyd, yn enwedig pan mae gan bobl broblemau iechyd meddwl. Felly, diolch am godi'r pwnc. Rwy'n gallu dweud heddiw fy mod yn mynd i siarad â'r bwrdd iechyd lleol unwaith eto i weld beth yw ei ateb o ran y problemau yr ydych wedi eu hamlygu y prynhawn yma.

Thank you very much for the question. I have heard that the problem in terms of the Afallon ward was recruiting staff to work in that field. The local board is now endeavouring to recruit people in order to provide more treatment at home. I have heard what the Member has said about students and others, and I acknowledge that the journey to Carmarthen and Llanelli is lengthy, and quite difficult, particularly when people have mental health issues. So, thank you for raising the issue. I can tell you today that I will speak once again to the local health board to see what its answer will be to the problems that you have outlined this afternoon.

13:39

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The next question will be answered by the Deputy Minister for Social Services.

Caiff y cwestiwn nesaf ei ateb gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Lles Plant mewn Gofal

Welfare of Children in Care

13:39

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo lles plant mewn gofal? OAQ(4)0260(HSS)

8. What is the Welsh Government doing to promote the welfare of children in care? OAQ(4)0260(HSS)

13:39

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services

Our Social Services and Well-being (Wales) Bill places enhanced duties on local authorities and local health boards to promote the wellbeing of the people of Wales and is underpinned by a coherent national outcomes framework that advances the accountability of local leadership.

Mae ein Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i hyrwyddo lles pobl Cymru a chaiff ei ategu gan fframwaith canlyniadau cenedlaethol cydlynol sy'n hyrwyddo atebolrwydd arweinyddiaeth leol.

13:39

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you, Deputy Minister, for that answer and for your recent response to research that I carried out. Having contacted all 22 local authorities in Wales, I am concerned by the apparent inconsistencies in how they report and record cases of looked-after children going missing from children's homes and from foster care. I am grateful that you have said that you will write to local safeguarding children's boards in Wales to stress the importance of the all-Wales protocol on missing children, and of increased awareness among relevant agencies in Wales. May I ask that you continue to stress the importance of recording systems? More than a quarter of the councils that I asked did not have a central record of children who had gone missing from care. Without comparable, consistent and reliable data, agencies and review groups cannot make fully informed decisions about services for looked-after children.

Diolchaf i chi, Ddirprwy Weinidog, am yr ateb hwnnw ac am eich ymateb diweddar i ymchwil a gynhaliais. Ar ôl cysylltu â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r anghysonderau amlwg yn y modd y maent yn adrodd ar achosion o blant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ar goll o gartrefi plant ac o ofal maeth a'r modd y cofnodir yr achosion hynny yn peri pryder imi. Rwy'n ddiolchgar eich bod wedi dweud y byddwch yn ysgrifennu i fyrddau lleol diogelu plant yng Nghymru i bwysleisio pwysigrwydd protocol Cymru gyfan ar blant ar goll, ac ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith asiantaethau perthnasol yng Nghymru. A gaf ofyn i chi barhau i bwysleisio pa mor bwysig yw systemau cofnodi? Nid oedd gan fwy na chwarter y cynghorau a holais gofnod canolog o blant a oedd wedi mynd ar goll o ofal. Heb ddata cymharol, cyson a dibynadwy ni all asiantaethau na grwpiau adolygu wneud penderfyniadau hollol wybodus am wasanaethau i blant sy'n derbyn gofal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. As you say, key statutory agencies have agreed an all-Wales protocol, which defines actions to be taken when a child goes missing. Agencies including the police and social services need to ensure that they take action as soon as it becomes known that a young person is missing. The protocol includes reference to the importance of each agency having its own recording system, and I will follow that up. I have done so, as you say, by writing to the local safeguarding children's boards, and by requiring them to adopt the protocol to ensure that there is a consistent approach across Wales. The all-Wales child protection procedure review group will shortly be reviewing that protocol.

Diolch ichi am hynny. Fel y dywedwch, mae asiantaethau statudol allweddol wedi cytuno ar brotocol ar gyfer Cymru gyfan, sy'n diffinio camau i'w cymryd pan fydd plentyn yn mynd ar goll. Mae angen i asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, sicrhau eu bod yn cymryd camau cyn gynted ag y daw'n hysbys bod person ifanc ar goll. Mae'r protocol yn cynnwys cyfeiriad at ba mor bwysig ydyw bod gan bob asiantaeth ei system gofnodi ei hun, a gwnaf waith dilynol ar hynny. Rwyf wedi gwneud hynny, fel y dywedwch, drwy ysgrifennu i fyrddau lleol diogelu plant, a thrwy ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu'r protocol er mwyn sicrhau bod dull cyson ar waith ledled Cymru. Bydd grŵp adolygu canllawiau amddiffyn plant Cymru gyfan yn adolygu'r protocol hwnnw maes o law.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, the latest figures show that the average time between entry into care and adoption in Wales is now two and a half years, compared with just 12 months in England. What is your Government doing to try to ameliorate this situation?

Ddirprwy Weinidog, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod yr amser cyfartalog rhwng mynediad i ofal a mabwysiadu yng Nghymru bellach yn ddwy flynedd a hanner, o gymharu â dim ond 12 mis yn Lloegr. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i geisio gwella'r sefyllfa hon?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You know that this is covered in the Social Services and Well-being (Wales) Bill, and we will be taking action to reduce that time limit, which is totally unacceptable. You also know that, yesterday, in respect of the legislative competence motion, responsibility was transferred to Welsh Ministers from the court. Not only do we have existing powers to ensure that the form and content of the Children Act 1989 section 31A plans that I mentioned yesterday answer the requirements, but we will also now have the power to look at the time limit that we allow for that reporting system. I believe that shortening that reporting system will help to shorten the whole process of adoption. Of course, moving to a national adoption agency will seek to do that as well.

Gwyddoch fod hyn yn cael ei gynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a byddwn yn cymryd camau i leihau'r terfyn amser hwnnw, sy'n hollol annerbyniol. Gwyddoch hefyd, ddoe, mewn perthynas â'r cynnig cymhwysedd deddfwriaethol, fod y cyfrifoldeb wedi ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru oddi wrth y llys. Nid yn unig y mae gennym bwerau presennol i sicrhau bod ffurf a chynnwys cynlluniau adran 31A Deddf Plant 1989 a grwybyllais ddoe yn ateb y gofynion, ond bydd gennym y pŵer yn awr hefyd i edrych ar y terfyn amser a ganiatawn ar gyfer y system adrodd honno. Credaf y bydd byrhau'r system adrodd honno yn helpu i fyrhau'r broses fabwysiadu gyfan. Wrth gwrs, bydd symud tuag at asiantaeth fabwysiadu genedlaethol yn ceisio gwneud hynny hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwasanaethau Rheoli Poen

Pain Management Services

13:42 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau rheoli poen yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0248(HSS) *9. Will the Minister make a statement on pain management services in Mid and West Wales? OAQ(4)0248(HSS)*

13:43 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
The Welsh Government service development directive for chronic non-malignant pain was issued in 2008. An audit in April 2011 concluded that LHBs were 87% compliant with the actions set out in the directive. I now intend to commission a further audit to review progress over the past two years. Cyhoeddwyd cyfarwyddeb datblygu gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer poen anafalaen cronig yn 2008. Daeth archwiliad ym mis Ebrill 2011 i'r casgliad bod BILlau yn cydymffurfio 87% â'r camau gweithredu a nodir yn y gyfarwyddeb. Bwriadaf yn awr gomisiynu archwiliad pellach i adolygu cynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

13:43 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you very much for that answer, Minister. As you will be aware, the pain management unit at Bronllys Hospital in Powys is the acknowledged centre of excellence for chronic pain management in Wales, offering a residential option for patients across the whole nation. Presently, this facility does not receive central core funding from the Welsh NHS, despite its national significance. As such, patients from other health board areas often have to go through an often laborious individual funding application process in order to access the service. Minister, will you please commit to reviewing this situation as it currently applies, so as to make this vital service available on a more equitable and sustainable basis across Wales? Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyrddoch, yr uned rheoli poen yn Ysbyty Bronllys ym Mhowys yw'r ganolfan ragoriaeth gydnabyddedig ar gyfer rheoli poen cronig yng Nghymru, gan gynnig dewis preswyl i gleifion ledled y wlad. Ar hyn o bryd, nid yw'r cyfeuster hwn yn derbyn cyllid craidd canolog gan y GIG yng Nghymru, er gwaethaf ei arwyddocâd cenedlaethol. Fel y cyfryw, yn aml rhaid i gleifion o ardaloedd byrddau iechyd eraill fynd drwy broses lafurus o wneud cais unigol am gyllid er mwyn manteisio ar y gwasanaeth. Weinidog, a fydddech cystal ag ymrwymo i adolygu'r sefyllfa hon fel y mae'n gymwys ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth hanfodol hwn ar gael ar sail decach a mwy cynaliadwy ledled Cymru?

13:44 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I will see to it that the way in which these services are funded, including the point that the Member has raised today, is considered within the audit of progress that I am now going to require. Byddaf yn gwneud yn siŵr bod y ffordd yr ariennir y gwasanaethau hyn, gan gynnwys y pwynt a gododd yr Aelod heddiw, yn cael eu hystyried o fewn yr archwiliad o gynnydd yr wyf bellach yn mynd i'w wneud yn ofynnol.

Epidemig y Frech Goch

Measles Epidemic

13:44 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut yr eir i'r afael ag epidemig y frech goch yng Nghymru? OAQ(4)0263(HSS) *10. Will the Minister make a statement on how the measles epidemic in Wales is being monitored and tackled? OAQ(4)0263(HSS)*

13:44 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you very much. Health boards and Public Health Wales, supported by the Welsh Government, are working together very actively to combat the spread of the measles outbreak. Special additional immunisation sessions were provided across south Wales over the last weekend, in addition to vaccinations at GP surgeries. Vaccinations in schools have begun today in those areas with the lowest pre-existing immunisation rates. Diolch yn fawr iawn. Mae byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd weithredol iawn i atal yr achosion o'r frech goch rhag lledaenu. Darparwyd sesiynau imiwneiddio ychwanegol arbennig ar draws y de dros y penwythnos diwethaf, yn ogystal â brechiadau mewn meddygyfeydd. Mae brechiadau mewn ysgolion wedi dechrau heddiw yn yr ardaloedd hynny sydd â'r cyfraddau imiwneiddio isaf sydd eisoes yn bodoli.

13:44

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. We are being warned that this epidemic will spread to other parts of Wales and it will last, largely due to the varying take-up of the dual MMR jab. So, a vaccination programme across Wales is an excellent idea. However, can we be assured that in future years the number of children and others being vaccinated will be monitored, so that we can ensure, as far as is possible, that this does not happen again?

Diolch ichi am hynny. Cawn ein rhybuddio y bydd yr epidemig hwn yn lledaenu i rannau eraill o Gymru, ac y bydd yn para, yn bennaf oherwydd y nifer amrywiol o bobl sydd wedi dewis cael y brechiad MMR deuil. Felly, mae rhaglen frechu ledled Cymru yn syniad gwych. Fodd bynnag, a allwn fod yn dawl ein meddwl y caiff nifer y plant ac eraill sy'n cael eu brechu ei monitro, fel y gallwn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw hyn yn digwydd eto?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. I am well aware that the Member's interest in the topic of measles and immunisation long predates the current outbreak. She is absolutely right, and I want to repeat briefly what I said yesterday: families throughout Wales need to make sure that their children have the protection they need against measles. Please do not wait until this becomes a problem on your own doorstep. Take action now in order to prevent that problem from happening. I mentioned yesterday that additional clinics were held in Cardiff and in Gwent over last weekend. I reviewed last night the numbers of people who had attended those additional clinics, and they are, in some ways, disappointing. People really do need to act now, before this becomes an immediate issue for them.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Rwy'n ymwybodol iawn bod diddordeb yr Aelod ym mhwnic y frech goch ac imiwneiddio yn dyddio o gyfnod ymhell cyn yr achosion presennol. Mae hi'n hollol gywir, ac rwyf am ailadrodd yn fras yr hyn a ddywedais ddoe: mae angen i deuluoedd ledled Cymru sicrhau bod gan eu plant y diogelwch sydd ei angen arnynt rhag y frech goch. Peidiwch ag aros nes i hyn fod yn broblem yn eich teulu chi. Cymerwch gamau yn awr er mwyn atal y broblem honno rhag digwydd. Soniais ddoe am glinigau ychwanegol oedd yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd ac yng Ngwent dros y penwythnos diwethaf. Adolygais neithiwr nifer y bobl a oedd wedi mynychu'r clinigau ychwanegol hynny, ac maent, ar sawl cyfrif, yn siomedig. Mae angen i bobl wir weithredu yn awr, cyn i hyn ddod yn broblem uniongyrchol iddynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As far as recording the way in which measles immunisation is taken up, that is done—it is done very routinely and very regularly. We are pleased to say that we have recovered a great deal of the ground that was lost during the anxiety about immunisation some years ago, and we are practically where we need to be in relation to immunisation figures. However, more can be done. We will report those figures, and I am hopeful that, out of the bad news there has been about measles in recent weeks, some good will come in persuading families to take the action that they can and should take to protect children against this disease.

O ran cofnodi'r modd y mae pobl yn cael eu himiwneiddio rhag y frech goch, gwneir hynny—fe'i gwneir fel mater o drefn ac yn rheolaidd iawn. Rydym yn falch o ddweud ein bod wedi adfer llawer iawn o'r tir a gollwyd yn ystod y pryder ynghylch imiwneiddio rai blynyddoedd yn ôl, ac rydym i bob diben ble mae angen i ni fod o ran ffigurau imiwneiddio. Fodd bynnag, gellir gwneud mwy. Byddwn yn adrodd ar y ffigurau hynny, ac rwy'n obeithiol, allan o'r newyddion drwg a fu am y frech goch dros yr wythnosau diwethaf, y daw rhywfaint o ddaioni o ran perswadio teuluoedd i gymryd y camau gweithredu y gallant eu cymryd ac y dylent eu cymryd i ddiogelu plant rhag y clefyd hwn.

13:47

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Gwnaethoch ysgrifennu at Christine Chapman, cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, i esbonio'r hyn yr ydych yn ei wneud yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg o ran siarad â meddygon teulu ac ymwelwyr iechyd lleol er mwyn gweld sut y gall mwy o bobl y mae angen y driniaeth hon arnynt gael y driniaeth honno. A ydych yn credu y dylech siarad â phobl yn y gwasanaethau cymdeithasol hefyd neu â rhai yn y sectorau eraill ym mywyd cymdeithasol Cymru i sicrhau bod mwy o bobl yn cael y driniaeth? A ydych wedi ystyried gorfodi pobl i gael y driniaeth os na fydd pobl yn cyrraedd y cwota ar gyfer y driniaeth angenrheidiol hon, yn enwedig yn ardal Abertawe?

Thank you, Minister, for that answer. You wrote to Christine Chapman, chair of the Children and Young People Committee, to explain what you are doing in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board area in terms of speaking to GPs and local health visitors in order to see how more people who require this treatment can access it. Do you think that you should also be speaking to people in social services or to those in other sectors in the social life of Wales in order to ensure that more people are treated? Have you considered forcing people to have the treatment if people do not reach the quota for this necessary treatment, particularly in the Swansea area?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr am y cwestiwn. Rwy'n cytuno yn hollol; mae'n bwysig iawn ein bod yn cymryd pob cyfle sydd gennym i berswadio pobl i ddod i gael y driniaeth sydd ar gael iddynt. Mae hynny'n help pan fyddwn yn gweithio drwy'r bobl sydd â chysylltiad â theuluoedd bob dydd, fel meddygon teulu a phobl sy'n gweithio ym maes gwaith cymdeithasol. Dyna'r hyn y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn trio ei wneud, sef gweithio drwy'r bobl sydd yno yn awr yn rhoi gwasanaethau i bobl, i'w helpu perswadio pobl i ddod i gael y driniaeth. Felly, diolch yn fawr am wneud y pwynt—mae'n hollol bwysig, rwy'n meddwl.

Thank you very much for the question. I agree completely; it is very important that we take every opportunity open to us to persuade people to come forward to have the treatment that is available to them. That will be of great help when we work through the people who have contact with families every day, such as GPs and people working in the social services field. That is what Public Health Wales is trying to do, that is, work through the people who are out there already giving services to people, to help them to persuade people to come forward to have the treatment. So, thank you very much for making the point—it is very important, I think.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, it was reported this morning that the number of patients hospitalised as a result of measles has increased by 24% in the last week. I continue to have people contacting my office concerning cancelled operations and other bottlenecks that are building up in the NHS as a result. Clearly, as you said yesterday, the priorities have to be directed at this particular epidemic, but what other work are you able to do in terms of capacity in the NHS to make sure that those cancelled operations are not the most urgent ones, as has been the case in some instances, and that those patients who require immediate treatment continue to get it?

Weinidog, adroddwyd y bore yma fod nifer y cleifion sydd yn yr ysbyty o ganlyniad i'r frech goch wedi cynyddu 24% yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Mae pobl yn parhau i gysylltu â'm swyddfa o ran llawdriniaethau sydd wedi'u canslo a thagfeydd eraill sy'n cronni yn y GIG o ganlyniad. Yn amlwg, fel y dywedasoch ddoe, rhaid i'r blaenoriaethau gael eu cyfeirio at yr epidemig penodol hwn, ond pa waith arall yr ydych yn gallu ei wneud o ran capasiti yn y GIG er mwyn sicrhau nad y llawdriniaethau mwyaf brys yw'r rhai a gaiff eu canslo, fel sydd wedi bod yn wir mewn rhai achosion, a bod y cleifion hynny sydd angen triniaeth ar unwaith yn parhau i'w chael?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said yesterday, it cannot be denied that the impact of the measles epidemic flows into the secondary care system, as well as having a big impact on primary care, and that does have an effect on the treatment that other people might otherwise have received. It is our firm rule that treatment has to be provided on the basis of clinical priority. Therefore, the principle that you outlined—if things do have to be delayed, it should be the least urgent treatments—is one that we would firmly endorse. Actions are being taken within the local health board to try to ensure that it is able to extend its capacity to respond to those people whose treatment is being impacted upon by the measles epidemic. However, as you can imagine, coping with the epidemic itself and its impact does have a considerable impact on that health board's capacity to go about its everyday business.

Fel y dywedais ddoe, ni ellir gwadu'r ffaith bod effaith epidemig y frech goch yn llifo i mewn i'r system gofal eilaidd, ac yn cael effaith fawr hefyd ar ofal sylfaenol, ac mae hynny yn cael effaith ar y driniaeth y gallai pobl eraill fod wedi ei chael fel arall. Ein rheol gadarn yw bod yn rhaid i driniaeth gael ei darparu ar sail blaenoriaeth glinigol. Felly, mae'r egwyddor a amlinellwyd gennych—os oes rhaid gohirio pethau, yna dylid gohirio'r triniaethau sydd â'r brys lleiaf—yn un y byddem yn ei gymeradwyo'n bendant. Caiff camau gweithredu eu cymryd yn y bwrdd iechyd lleol i geisio sicrhau ei fod yn gallu ymestyn ei allu i ymateb i'r bobl hynny y mae epidemig y frech goch yn effeithio ar eu triniaeth. Fodd bynnag, fel y gallwch ddychmygu, mae ymdopi â'r epidemig ei hun a'i effaith yn cael effaith sylweddol ar allu'r bwrdd iechyd hwnnw i gyflawni ei waith beunyddiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the extent of the measles outbreak in south Wales has been well discussed, but can you confirm what assessment has been made of the number of unvaccinated children in north Wales? You identified that vaccination is a matter of parental choice. Will you be offering individual vaccination—in other words, vaccination for measles only—if that is the choice that the parent wishes to make in order to encourage take-up of this vaccine?

Weinidog, mae graddau'r achosion o'r frech goch yn y de wedi cael ei drafod yn dda, ond a allwch gadarnhau pa asesiad a wnaed o nifer y plant yn y gogledd na chawsant eu brechu? Gwnaethoch nodi mai dewis y rhiant yw p'un a ddyldid brechu ai peidio. A fyddwch yn cynnig brechiad unigol—hynny yw, brechiad ar gyfer y frech goch yn unig—os mai dyna yw'r dewis y mae'r rhiant yn dymuno ei wneud er mwyn annog pobl i gael y brechlyn hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Public Health Wales, with local health boards, has produced specific figures for each part of Wales, showing levels of immunisation and trying to go below that to identify individual-level information about where children have not been immunised. That information has been made available to all health boards in Wales, including that in north Wales. There are no plans to provide individual immunisations. There is no clinical case for it. The advice to parents is simple and clear: MMR is safe; that is what they need to do and that is what they need to get. Anything else simply clouds the picture and leads us back into the difficulties that we have experienced in the past.</p>	<p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda byrddau iechyd lleol, wedi cynhyrchu ffigurau penodol ar gyfer pob rhan o Gymru, yn dangos lefelau imiwneiddio ac yn ceisio mynd yn fanylach na hynny i nodi gwybodaeth ar lefel unigol ynghylch y mannau lle nad yw plant wedi cael eu himiwneiddio. Mae'r wybodaeth honno wedi bod ar gael i bob bwrdd iechyd yng Nghymru, gan gynnwys yr un yn y gogledd. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddarparu imiwneiddiad unigol. Nid oes achos clinigol dros wneud hynny. Mae'r cyngor i rieni yn syml a chlir: mae MMR yn ddiogel; dyna'r hyn sydd angen iddynt ei wneud a dyna'r hyn sydd angen iddynt ei gael. Mae unrhyw beth arall yn drysu'r darlun ac yn ein harwain yn ôl at yr anawsterau a brofwyd gennym yn y gorffennol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol</p> <p>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>No questions have been tabled.</p>	<p>Questions to the Counsel General Y</p> <p>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi</p> <p>Trechu Tlodi</p>	<p>Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty</p> <p>Tackling Poverty</p>	
13:52	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p><i>1. Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer trechu tlodi yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)0002(CTP)</i></p>	<p><i>1. What are the Minister's priorities for tackling poverty in Montgomeryshire? OAQ(4)0002(CTP)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty</i></p> <p>Thank you for your question. To combat poverty in Montgomeryshire, we are, as an example, supporting the Robert Owen Montgomeryshire Credit Union to relocate to premises in Newtown town centre to provide an affordable alternative to higher cost lenders.</p>	<p>Diolch ichi am eich cwestiwn. Er mwyn brwydro yn erbyn tlodi yn Sir Drefaldwyn, rydym, er enghraifft, yn cefnogi Undeb Credyd Sir Drefaldwyn Robert Owen i adleoli i safle yng nghanol tref y Drenewydd i roi dewis amgen fforddiadwy i fenthycwyr cost uwch.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. The Government's aim, with its Flying Start programme, is to make a decisive difference to the life chances of children aged under four in the areas in which it operates. I have recently written to you regarding an issue that Treowen Community Primary School in Newtown is facing in trying to expand its Flying Start project. It has run into a difficulty with the licensing of a community venue, which is owned by the Welsh Government. That could jeopardise its future. Those involved are keen to have answers urgently in order to resolve this. Will you endeavour, Minister, to examine this issue urgently, please?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weindog. Nod y Llywodraeth, gyda'i rhaglen Dechrau'n Deg, yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan bedair oed yn yr ardaloedd y mae'n gweithredu. Ysgrifennais atoch yn ddiweddar ynghylch mater y mae Ysgol Gynradd Gymunedol Treowen yn y Drenewydd yn ei wynebu wrth geisio ehangu ei phrosiect Dechrau'n Deg. Mae wedi wynebu anhawster mewn perthynas â thrwyddedu lleoliad cymunedol, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Gallai hynny beryglu ei ddyfodol. Mae'r rheini sy'n ymwneud â'r prosiect yn awyddus i gael atebion ar frys er mwyn datrys hyn. A wnewch chi edrych ar y mater hwn ar frys, os gwelwch yn dda, Weindog?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:53

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that specific point. As all will be aware, Flying Start is the Welsh Government's flagship early years programme. It provides a path towards improving the life chances of children in some of our most disadvantaged communities. It is currently being rolled out to double the number of children over the coming months. There is nothing quite like Flying Start anywhere else in the UK. Powys will receive about £1.4 million this financial year to ensure that this important programme makes a difference to communities in Montgomeryshire and throughout the rest of Powys. I will undertake to look at the specific issue that you mention. I have not had sight of the letter that you have written as yet, but I will ensure that it receives urgent attention.

Diolch ichi am y pwynt penodol hwnnw. Fel y bydd pawb yn ymwybodol, Dechrau'n Deg yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae'n cynnig llwybr tuag at wella cyfleoedd bywyd plant yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Caiff ei chyflwyno ar hyn o bryd i ddyblu nifer y plant dros y misoedd nesaf. Nid oes dim byd tebyg i Dechrau'n Deg unrhyw le arall yn y DU. Bydd Powys yn cael tua £1.4 miliwn y flwyddyn ariannol hon er mwyn sicrhau bod y rhaglen bwysig hon yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau yn Sir Drefaldwyn ac ar draws gweddill Powys. Ceisiaf edrych ar y mater penodol y soniwyd amdano. Nid wyf wedi cael golwg hyd yn hyn ar y llythyr y gwnaethoch ei ysgrifennu, ond byddaf yn sicrhau ei fod yn cael sylw brys.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:53

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae 891 o denantiaid ym Mhowys sydd yn cael eu heffeithio gan y gosb ar ystafelloedd sbâr sydd newydd ddod i rym gan Lywodraeth San Steffan, ac mae'n effeithio ar 2,000 o bobl yng nghanolbarth Cymru, sy'n golygu colled o £1.3 miliwn i'r economi lleol. Pa asesiad a ydych chi wedi ei wneud o effaith y newidiadau hyn ar dlodi yn Nhrefaldwyn a'r canolbarth? Pa asesiad a ydych chi wedi ei wneud o effaith y tâl dewisol tai sydd ar gael i helpu â'r broblem hwn ond sy'n ymddangos imi i fod yn gwbl ddiffygiol o ran mynd i'r afael â'r mater hwn?

Minister, there are 891 tenants in Powys who are affected by the bedroom tax that has just been imposed by the Westminster Government, and it affects 2,000 people in mid Wales, which means a loss of £1.3 million to the local economy. What assessment have you made of the impact of these changes in terms of poverty in Montgomeryshire and mid Wales? What assessment have you made of the impact of the housing payment assistance that is available to assist with this problem but which appears to me to be totally deficient in terms of getting to grips with the issue?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:54

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is quite right: the money made available is completely deficient as regards ameliorating the problems that the now infamous bedroom tax will throw up for many social housing tenants and, most particularly, social housing tenants in particular parts of Wales. Torfaen, for instance, has no one-bedroomed properties available for social rent at the moment, and similarly Blaenau Gwent. Also parts of rural Wales, such as Powys, and Ceredigion, have, in general, a smaller social housing stock in the first place, so there is an additional problem in terms of people's and housing associations' ability to cope with this crass and crude method of supposedly redistributing social housing assets. It is difficult to assess the numerical impact upon real people and families in terms of what this will mean in rural Wales, or indeed anywhere else, because there is a human element to this. My own feeling is that the bedroom tax will do its work as was cynically intended by the Westminster Government, because people in the main will not move. They will attempt to absorb the hit that the cut in housing benefit has on their household budget. They will attempt to endure that for as long as possible. My great fear is that some people, in an attempt to juggle the rent alongside other household bills, such as utilities, may get themselves into unmanageable debt as they try to do that juggling act. So, it is very difficult to enumerate exactly what might happen, but the next few months will no doubt paint a very ugly picture of the effects of the bedroom tax upon the people of Wales.

Mae'r Aelod yn llygad ei le: nid yw'r arian sydd ar gael yn ddigon o bell ffordd i leddfu'r problemau y bydd y dreth ystafell wely fondigrybyyll hon bellach yn eu creu i lawer o denantiaid tai cymdeithasol ac, yn fwyaf penodol, i denantiaid tai cymdeithasol mewn rhannau penodol o Gymru. Er enghraifft, nid oes unrhyw eiddo un ystafell wely ar gael fel eiddo cymdeithasol ar rent yn Nhorfaen ar hyn o bryd, nac ychwaith ym Mlaenau Gwent. Hefyd, yn gyffredinol, mae llai o stoc tai cymdeithasol ar gael yn y lle cyntaf mewn rhannau o Gymru wledig, megis Powys, a Cheredigion, felly mae problem ychwanegol o ran gallu pobl a chymdeithasau tai i ymdopi â'r dull eithafol a llym hwn o ailddosbarthu asedau tai cymdeithasol. Mae'n anodd asesu'r effaith rifol ar bobl a theuluoedd go iawn o ran yr hyn y bydd hyn yn ei olygu yn y Gymru wledig, neu yn wir unrhyw le arall, oherwydd mae elfen ddynol i hyn. Fy nheimplad i yw y bydd y dreth ystafell wely yn gwneud ei gwaith fel y bwriadwyd yn sinigaidd gan Lywodraeth San Steffan, gan na fydd pobl yn symud ar y cyfan. Byddant yn ceisio ymdopi â'r ergyd a gaiff y toriad mewn budd-dal tai ar gyllideb eu haelwyd. Byddant yn ceisio goddef hynny am gyn hired ag y bo modd. Fy ofn mawr yw y gall rhai pobl, mewn ymgais i ymdopi â thalu rhent a biliau eraill y cartref, megis cyfleustodau, fynd i ddyled na allant ei rheoli. Felly, mae'n anodd iawn nodi'n union yr hyn a allai ddigwydd, ond bydd yr ychydig fisoedd nesaf yn sicrhau yn creu darlun hyll iawn o effeithiau'r dreth ystafell wely ar bobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:56

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, 1,100 people in Powys will be affected by the Conservative-led changes to disability living allowance, which will push some already struggling disabled households further into poverty. The Department for Work and Pensions has instructed the new assessment provider, Capita, not to offer audio recordings of assessments even though it said in its tender bid that it would, and it remains willing to do so. Would you join me in calling upon the DWP to ensure that audio recordings are offered in order to alleviate some of the distrust, fear and stress that disabled families across Montgomeryshire and Wales are feeling?

Weinidog, bydd y newidiadau a arweinir gan y Ceidwadwyr i lwfans byw i'r anabl, yn effeithio ar 1,100 o bobl ym Mhowys, a fydd yn golygu y bydd rhai aelwydydd anabl sydd eisoes dan bwysau yn mynd yn fwyfwy tlawd. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhoi cyfarwyddyd i'r darparwr asesu newydd, Capita, i beidio â chynnig recordiadau sain o asesiadau, er iddo ddweud yn ei gais tendr y byddai'n gwneud hynny, ac mae'n parhau i fod yn barod i wneud hynny. A ymunwch â mi i alw ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau y cynigir recordiadau sain er mwyn lleddfu rhywfaint ar y diffyg ymddiriedaeth, yr ofn a'r straen y mae teuluoedd anabl ar draws Sir Drefaldwyn a Chymru yn ei deimlo?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Rebecca Evans for her question. I, too, continue to be deeply concerned about the potential impact of the change from disability living allowance to personal independence payment, or PIP, for disabled people aged 16 to 64, especially as our research estimates that around 42,500 claimants in Wales will lose their entitlement by May 2018. That research shows that the so-called reforms to DLA will account for some of the greatest welfare cuts in Wales as a whole, and Wales will suffer disproportionately compared to the rest of the UK, as around 7% of the working-age population in Wales is reliant on DLA, compared to 5% across Great Britain as a whole. I was not aware of the particular issue that Rebecca Evans has raised in terms of audio recordings, but I will ask officials to raise that with the DWP, and either I or the Deputy Minister for Social Services will provide her with a detailed response.

Diolch i Rebecca Evans am ei chwestiwn. Rwyf innau, hefyd, yn parhau i fod yn bryderus iawn am effaith bosibl y newid o lwfans byw i'r anabl i daliad annibyniaeth bersonol, neu PIP, ar gyfer pobl anabl 16 i 64 oed, yn enwedig gan fod ein hymchwil yn amcangyfrif y bydd tua 42,500 o hawlwr yr Nghymru yn colli eu hawl erbyn mis Mai 2018. Dengys yr ymchwil honno y bydd y diwygiadau honedig hyn i'r Lwfans Byw i'r Anabl yn cyfrif am rywfaint o'r toriadau lles mwyaf yng Nghymru yn gyffredinol, a bydd Cymru yn dioddef yn anghymesur o gymharu â gweddill y DU, gan fod tua 7% o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru yn dibynnu ar Lwfans Byw i'r Anabl, o'i gymharu â 5% ar draws Prydain Fawr yn gyffredinol. Nid oeddwn yn ymwybodol o'r mater penodol a gododd Rebecca Evans mewn perthynas â recordiadau sain, ond byddaf yn gofyn i swyddogion godi hynny gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, a byddaf fi neu'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi ymateb manwl iddi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Polisiâu Tlodi Plant

Child Poverty Policies

13:58

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiâu tlodi plant Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0018(CTP)

2. Will the Minister outline the Welsh Government's child poverty policies? OAQ(4)0018(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have a strong commitment to tackling child poverty and to the integrated working of Families First, Flying Start and Communities First in that regard.

Mae gennym ymrwymiad cryf i fynd i'r afael â thlodi plant ac i waith integredig Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf yn y cyswllt hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that response. Save the Children is pleased that one Minister now has responsibility for children's issues and tackling poverty. However, given the specific complexities of the issues around child poverty, how will you as the Minister now responsible ensure that child poverty receives specific policy focus within your portfolio?

Diolch am yr ymateb hwnnw. Mae Achub y Plant yn falch mai un Gweinidog sydd bellach yn gyfrifol am faterion plant a mynd i'r afael â thlodi. Fodd bynnag, o ystyried y cymhlethdodau penodol sy'n gysylltiedig â'r materion sy'n ymwneud â thlodi plant, sut y byddwch chi fel y Gweinidog sydd bellach yn gyfrifol yn sicrhau y canolbwyntir ar dlodi plant yn benodol yn eich portffolio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mark Isherwood for that question. It gives me a chance to explain the initial moves that I wish to make in terms of this new portfolio and the cross-cutting nature that the First Minister has outlined to me in terms of how this portfolio should impact upon the prospects of children in poverty. We have our tackling poverty action plan, which was launched back in June 2012, and was developed through contributions from across the Welsh Government. It provides examples of actions that we will undertake to further the objectives of preventing poverty, keeping people out of poverty, and mitigating the impact of poverty.

Diolchaf i Mark Isherwood am y cwestiwn hwnnw. Mae'n rhoi cyfle imi esbonio'r camau cychwynnol yr hoffwn eu gwneud o ran y portffolio newydd hwn a'r natur drawsbynciol y mae'r Prif Weinidog wedi ei amlinellu imi o ran sut y dylai'r portffolio hwn effeithio ar ragolygon plant mewn tlodi. Mae gennym ein cynllun gweithredu ar fynd i'r afael â thlodi, a lansiwyd yn ôl ym mis Mehefin 2012, ac a ddatblygwyd trwy gyfraniadau o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'n rhoi enghreifftiau o gamau y byddwn yn ymrwymo iddynt i hyrwyddo amcanion atal tlodi, cadw pobl allan o dlodi, a lliniaru effaith tlodi.

I will launch a refreshed version of that plan in June of this year, and, within that, we will develop a set of indicators—milestones and targets—to help us to ensure that what we are doing, we are doing well, and that the interventions on which we have focused are the right ones and will have the greatest impact. I would like to assure Mark and other Members that within this, there will be a truly cross-governmental commitment, including a new approach to programme bending within the tackling poverty action plan, and a new appreciation of the need to mitigate the effects of the economic downturn and welfare reform.

Byddaf yn lansio fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun hwnnw ym mis Mehefin eleni, ac, fel rhan ohono, byddwn yn datblygu cyfres o ddangosyddion—cerrig milltir a thargedau—i'n helpu i sicrhau bod yr hyn rydym yn ei wneud yn cael ei wneud yn dda, ac mai'r ymyriadau rydym wedi canolbwyntio arnynt yw'r rhai cywir, ac a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Hoffwn sicrhau Mark ac Aelodau eraill, mewn perthynas â hyn, y bydd ymrwymiad gwirioneddol drawslywodraethol, gan gynnwys dull newydd o blygu rhaglenni o fewn y cynllun gweithredu mynd i'r afael â thlodi, ynghyd â gwerthfawrogiad newydd o'r angen i liniaru effeithiau'r dirywiad economaidd a diwygio lles.

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will know that tackling child poverty is as much about raising aspirations as it is about supporting those in need. Indeed, this is underlined several times in the tackling poverty action plan. Do you agree that, in order to raise aspirations, it is vital that those living in poverty are aware of the opportunities to realise their aspirations? What work is the Government doing to ensure that aspirations are not held back by the lack of employment opportunities?

Weinidog, gwyddoch fod a wnelo mynd i'r afael â thlodi plant gymaint â chodi dyheadau â chefnogi rhai sydd mewn angen. Yn wir, tanlinellir hyn sawl gwaith yn y cynllun gweithredu mynd i'r afael â thlodi. A gytunwch, er mwyn codi dyheadau, ei bod yn hanfodol bod y rhai sy'n byw mewn tlodi yn ymwybodol o'r cyfleoedd i wireddu eu dyheadau? Pa waith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau nad yw dyheadau yn cael eu hatal yn sgil y diffyg cyfleoedd cyflogaeth?

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Lindsay Whittle asks a very important question and is quite right to say that aspiration is one of the first casualties of the day-to-day struggle to get by that families in poverty have to face. In terms of awareness, he is right to raise that. As one of my first actions within this new portfolio, I will be asking leading members of our advice service community in Wales, in its wider sense, to join me at a summit meeting before the summer, to discuss the challenges that it faces in communities, and to address the challenges within the advice service review that has recently been completed. There is a twin-track approach to be taken here in supporting those advice services to do their job in communities, under tremendous pressure and increased demand, and in demanding of those services that we once and for all tackle problems of duplication or inadequate coverage of service in some parts of Wales. In that way, I hope that we will build more resilient communities that, critically, are aware, as Lindsay Whittle says, organised and well-informed in terms of what options are open to people, as many families enter a very difficult period.

Mae Lindsay Whittle yn gofyn cwestiwn pwysig iawn ac mae yn llygad ei lle pan ddywed mai dyhead yw un o'r pethau cyntaf i ddiodeff yn sgil y frwydr ddyddiol i ddal deupen llinyn ynghyd a wynebir gan deuluoedd sy'n byw mewn tlodi. O ran ymwybyddiaeth, mae'n iawn i godi hynny. Un o'm camau cyntaf o fewn y portffolio newydd hwn, fydd gwahodd aelodau blaenllaw ein cymuned gwasanaeth cynghori yng Nghymru, yn ei ystyr ehangach, i ymuno â mi mewn cyfarfod uwchgynhadledd cyn yr haf, i drafod yr heriau a wynebir ganddo mewn cymunedau, ac i fynd i'r afael â'r heriau o fewn yr adolygiad o wasanaethau cynghori a gwblhawyd yn ddiweddar. Dylid mabwysiadu dull deublyg o weithredu yma sef cefnogi'r gwasanaethau cynghori hynny i wneud eu gwaith mewn cymunedau, o dan bwysau aruthrol a galw cynyddol, a mynnu bod y gwasanaethau, unwaith ac am byth, yn mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â dyblygu neu wasanaethau annigonol mewn rhai rhannau o Gymru. Drwy wneud hynny, gobeithiaf y byddwn yn adeiladu cymunedau mwy gwydn, sydd, yn hanfodol, yn ymwybodol, fel y dywed Lindsay Whittle, yn drefnus a gwybodus o ran pa opsiynau sydd ar gael i bobl, wrth i lawer o deuluoedd wynebu cyfnod anodd iawn.

14:02	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography</p> <p>I know that we are short of time, Dirprwy Lywydd, and I will forego my supplementary question on this occasion to allow other Assembly Members to ask their questions.</p>	<p>Gwn fod amser yn brin, Ddirprwy Lywydd, a byddaf yn ildio fy nghwestiwn atodol ar yr achlysur hwn er mwyn caniatáu i Aelodau eraill y Cynulliad ofyn eu cwestiynau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Christine Chapman Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Lindsay. The young researchers from schools in your constituency and mine, Minister, who took part in the 'Small Voice: Big Story' project for Save the Children identified the creation of a joining-in fund as one of their key recommendations to help children and young people living in poverty. You will know that our programme for government gives a similar commitment that it will seek to develop a life chances fund to enable disadvantaged young people to take up recreational and developmental activities. Could you provide us with an update on progress?</p>	<p>Diolch ichi, Lindsay. Nododd yr ymchwilyr ifanc o ysgolion yn eich etholaeth chi a minnau, Weinidog, a gymerodd ran yn y prosiect 'Llais Bach: Stori Fawr' ar gyfer Achub y Plant, fod creu cronfa cymryd rhan yn un o'u hargymhellion allweddol i helpu plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tldi. Gwyddoch fod ein rhaglen lywodraethu yn rhoi ymrwymiad tebyg a fydd yn ceisio datblygu cronfa cyfleoedd bywyd i alluogi pobl ifanc ddifreintiedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a datblygiadol. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank Chris Chapman for the question on the life chances fund. I am very pleased to be able to respond to that, because the commitment to that fund is part of our programme for government, in which we say that we will seek</p> <p>'to develop a "life chances fund" to provide financial support for disadvantaged young people to enable them to take part in recreational and personal development activities.'</p> <p>I remain convinced of that original principle of supporting children to take part in activities such as sport, playing musical instruments, or activities with some kind of community benefit. However, I am also keen that we have additionality in terms of the existing funding and programmes that support young people. There has been a short scoping exercise involving young people to look at their ideas and hear their voices on this kind of fund. I have requested officials to consider a more detailed scoping exercise looking at the viability of such a fund and how it can add value to what is on offer to young people, and how it could operate.</p> <p>During this downturn and this period of reconstruction of the welfare state, it is more important than ever that we realise that there will be children and young people who, because of the good fortune of their parents, will be able to access certain kinds of life-enhancing activity, while there will be those who will be excluded unless we do something about it. The life chances fund grew from a quick look at the extra-curricular provision that some of our major public schools in Wales are able to make to those families that are able to afford it. The aspiration behind the fund is that, eventually, all children in Wales will be able to access a similar menu of extra-curricular activities. It is a long-term project, but the work has begun.</p>	<p>Diolch i Chris Chapman am y cwestiwn ar y gronfa cyfleoedd bywyd. Mae'n bleser gennyf allu ymateb i hynny, oherwydd mae'r ymrwymiad i'r gronfa honno yn rhan o'n rhaglen lywodraethu, lle rydym yn dweud y byddwn yn ceisio</p> <p>datblygu "cronfa cyfleoedd bywyd" i roi cymorth ariannol i bobl ifanc ddifreintiedig er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu hamdden a phersonol.'</p> <p>Rwy'n dal i fod yn argyhoeddedig o'r egwyddor wreiddiol o gefnogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel chwaraeon, chwarae offerynnau cerddorol, neu weithgareddau gyda rhyw fath o fudd i'r gymuned. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn awyddus inni ychwanegu at y cyllid a'r rhaglenni sy'n cefnogi pobl ifanc ar hyn o bryd. Cafwyd ymarfer cwmpasu byr yn cynnwys pobl ifanc er mwyn edrych ar eu syniadau a gwrandao ar eu barn ar y math hwn o gronfa. Rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried ymarfer cwmpasu manylach yn edrych ar hyfywdra cronfa o'r fath a sut y gall ychwanegu gwerth at yr hyn a gynigir i bobl ifanc, a sut y gellid ei gweithredu.</p> <p>Yn ystod y dirywiad hwn a'r cyfnod hwn o ailadeiladu'r wladwriaeth les, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn sylweddoli y bydd plant a phobl ifanc a fydd, oherwydd cyfoeth eu rhieni, yn gallu manteisio ar fathau penodol o weithgareddau sy'n cyfoethogi bywydau, ond y bydd rhai a gaiff eu heithrio oni wnawn rywbeth yn ei gylch. Datblygodd y gronfa cyfleoedd bywyd o edrych yn sydyn ar y ddarpariaeth allgyrsiol y gall rhai o'n ysgolion cyhoeddus mawr yng Nghymru ei chynnig i'r teuluoedd hynny a all ei fforddio. Y dyhead y tu ôl i'r gronfa yw y bydd pob plentyn yng Nghymru, yn y pen draw, yn gallu manteisio ar ystod debyg o weithgareddau allgyrsiol. Mae'n brosiect hirdymor, ond mae'r gwaith wedi dechrau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:05

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, wrth ymateb i Mark Isherwood, soniasoch am nifer o raglenni, gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, a Chymunedau'n Gyntaf hefyd. Yn dilyn yr ad-drefnu o raglen Cymunedau'n Gyntaf, mae llawer llai o ardaloedd gwledig yng Nghymru wedi'u cynnwys. A fyddwch, fel rhan o'ch portffolio, yn edrych ar ganlyniadau hynny? A fydd angen i chi ad-drefnu rhai rhaglenni oherwydd hynny?

Minister, in responding to Mark Isherwood, you mentioned a number of programmes, including Flying Start, Families First and also Communities First. Following the reorganisation of Communities First, far fewer rural areas in Wales are included. Will you, as part of your portfolio, be looking at the outcomes of that particular decision? Will you need to reorganise certain programmes as a result of that?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I fully endorse the previous Minister's decision to reorganise Communities First. The larger cluster areas lead to several advantages, to my mind. First, we can look at larger projects—there will be more capacity in clusters to approach more ambitious projects, including those that might involve some kind of physical regeneration as well as looking at the economy, the educational and skills qualifications of the population and the health of the population in the cluster. There is also the hope that capacity with regards the professionalism and capability of teams in the Communities First areas will mean that each cluster should be raised to the level of the best in that cluster area. At present, therefore, I have no plans to reconfigure the Communities First programme. We have just completed that process, and I intend to run with that.

Rwy'n llwyr gefnogi penderfyniad y Gweinidog blaenorol i ad-drefnu Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ardaloedd clwstwr mwy o faint yn arwain at nifer o fanteision, yn fy marn i. Yn gyntaf, gallwn edrych ar brosiectau mwy o faint—bydd mwy o allu mewn clystyrau i fynd i'r afael â phrosiectau mwy uchelgeisiol, gan gynnwys y rhai a allai gynnwys rhyw fath o adfywiad ffisegol, yn ogystal ag edrych ar yr economi, cymwysterau addysgol a sgiliau'r boblogaeth ac iechyd y boblogaeth yn y clwstwr. Hefyd, mae'r gobaith y bydd capasiti o ran proffesiynoldeb a gallu timau yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn golygu y dylid codi lefel pob clwstwr i gyrraedd y gorau yn yr ardal glwstwr honno. Ar hyn o bryd, felly, nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i ad-drefnu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Rydym newydd gwblhau'r broses honno, ac rwy'n bwriadu bwrw ymlaen â hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Menywod yn y Gweithle

Women in the Workplace

14:07

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i wella cyfle cyfartal i fenywod yn y gweithle? OAQ(4)0007(CTP)

3. What is the Minister doing to improve equality of opportunity for women in the workplace? OAQ(4)0007(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the Vale of Clwyd for that question. The Welsh Government is wholly committed to improving equality of opportunity for women in the workplace. One of our strategic equality objectives is to work with partners to identify and address the causes of the gender, ethnicity and disability pay and employment differences.

Diolch i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd am y cwestiwn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i wella cyfleoedd cyfartal i fenywod yn y gweithle. Un o'n hamcanion cydraddoldeb strategol yw gweithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n gyfrifol am y gwahaniaethau mewn cyflog a chyflogaeth a welir yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabled.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. One way in which I think that we can support women workers is to ensure that we can support them through pregnancy and maternity leave. Many in my constituency will know that they are going to face a real-terms cut to their statutory maternity pay. That comes on top of the Tory UK Government stopping the maternity grant to every pregnant woman. This grant was not a waste of money—it provided the opportunity for some women, who would not otherwise have had that opportunity, to have fresh fruit and vegetables. It also provided them with a good start to their pregnancy and their child's life.

Diolch, Weinidog. Un ffordd y gallwn gefnogi menywod sy'n gweithio yn fy marn i drwy sicrhau y gallwn eu cefnogi drwy feichiogrwydd a chyfnod mamolaeth. Bydd llawer yn fy etholaeth yn gwybod eu bod yn mynd i wynebu toriadau mewn termau real i'w tâl mamolaeth statudol. Mae hynny'n ychwanegol at y ffaith bod Llywodraeth Doriaidd y DU yn atal grant mamolaeth pob menyw feichiog. Nid oedd y grant hwn yn wastraff arian—rhoddodd gyfle i rai menywod, na fyddent wedi cael y cyfle hwnnw fel arall, i gael ffrwythau a llysiau ffres. Roedd hefyd yn rhoi dechrau da i'w beichiogrwydd a bywyd eu plentyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am even more concerned about the fact that we see a constant attack on low-paid workers by the Tory UK Government, and I want to know that we will be supporting those women who return to the workplace so that they return on the same pay grade as they were on when they left; they must not be forgotten while they are on maternity leave. Can we do something to assist these women?

Rwy'n poeni hyd yn oed yn fwy am y ffaith bod Llywodraeth Doriaidd y DU yn ymosod yn gyson ar weithwyr cyflog isel, ac rwyf am iddynt wybod y byddwn yn cefnogi'r merched hynny sy'n dychwelyd i'r gweithle er mwyn sicrhau eu bod yn dychwelyd ar yr un raddfa cyflog â phan wnaethant adael; ni ddylid anghofio amdanynt pan fyddant ar gyfnod mamolaeth. A allwn wneud rhywbeth i gynorthwyo'r menywod hyn?

14:08

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Ann Jones for those points. We can hear, this afternoon, the true attitude of the Welsh Conservatives to women, in particular, who are disproportionately affected by the coalition Government's welfare reforms. They struggle, in many cases, to manage raising small children while participating in the world of work.

Ann does not need reminding that powers over benefits and raising taxes—including setting the level of statutory maternity pay—rest with the UK coalition Government. I am concerned that any reduction in benefits will have a real impact on thousands of women and will restrict the choices that they can make during their maternity leave period. We in the Welsh Government will do all that we can to help people through these changes and attempt to pick up the pieces of the UK Government's decisions. We have to recognise, however, that our own budgets are under more pressure than ever before as the UK Government restricts and shrinks the public sector. We cannot make up the shortfall in people's income. Our budget decisions are made with due regard to equality, of course, and we will do whatever we can to offer support through resilient community effort to women such as those in the group that Ann Jones mentioned. We recognise the disproportionate effect of the benefit reforms on women.

The 1% cap on benefit uprating alone will grind down the ability of those on low incomes to hold on to a threshold of decency in terms of their income and their ability to get by. The Institute for Fiscal Studies has predicted that the 1% cap on uprating alone will lead to unprecedented levels of child poverty within a few short years.

Diolch i Ann Jones am y pwyntiau hynny. Gallwn glywed, y prynhawn yma, wir agwedd y Ceidwadwyr Cymreig at fenywod, yn arbennig, y mae diwygiadau lles y Llywodraeth glymblaid yn effeithio'n anghymesur arnynt. Maent yn ei chael yn anodd, mewn llawer o achosion, i ymdopi â magu plant bach tra'n cymryd rhan ym myd gwaith.

Nid oes angen atgoffa Ann mai Llywodraeth glymblaid y DU sydd â'r pwerau dros fudd-daliadau a chodi trethi—gan gynnwys pennu lefel tâl mamolaeth statudol. Rwy'n pryderu y bydd unrhyw ostyngiad mewn budd-daliadau yn cael effaith wirioneddol ar filoedd o fenywod ac yn cyfyngu ar y dewisiadau y gallant eu gwneud yn ystod eu cyfnod mamolaeth. Byddwn ni yn Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl drwy'r newidiadau hyn ac yn ceisio clirio'r llanast a achoswyd gan benderfyniadau Llywodraeth y DU. Rhaid inni gydnabod, fodd bynnag, bod ein cyllidebau eu hunain o dan fwy o bwysau nag erioed o'r blaen wrth i Lywodraeth y DU gyfyngu ar y sector cyhoeddus a'i grebachu. Ni allwn wneud iawn am y diffyg yn incwm pobl. Rydym yn rhoi ystyriaeth briodol i gydraddoldeb, wrth gwrs, wrth wneud ein penderfyniadau cyllidebol, a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynnig cefnogaeth drwy ymdrech gymunedol wydn i fenywod fel y rheini yn y grŵp y soniodd Ann Jones amdano. Rydym yn cydnabod effaith anghymesur y broses o ddiwygio budd-daliadau ar fenywod.

Bydd y cap o 1% ar uwchraddio budd-daliadau yn unig yn cyfyngu ar allu'r rheini sydd ar incwm isel i ddal gafael ar drothwy o barch o ran eu hincwm a'u gallu i ymdopi. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi rhagweld y bydd y cap o 1% ar uwchraddio yn unig yn arwain at lefelau digynsail o dlodi plant o fewn ychydig flynyddoedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, therefore, will you welcome the fact that over 1 million low earners will benefit from the tax cut that happened this April? Will you also welcome the fact that 57,000 people will pay no tax at all? That will help the women who—

Weinidog, felly, a wnewch chi groesawu'r ffaith y bydd dros filiwn o bobl sy'n ennill cyflog isel yn elwa ar y toriad treth a ddigwyddodd ym mis Ebrill? A wnewch chi hefyd groesawu'r ffaith y bydd 57,000 o bobl yn talu dim treth o gwbl? Bydd hynny'n helpu'r menywod sydd—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I cannot hear the Member. The Member is about to conclude and I want to hear the question.

Trefn. Ni allaf glywed yr Aelod. Mae'r Aelod ar fin gorffen ac rwyf am glywed y cwestiwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you not agree that that will help part-time working women and women on low wages?

Onid ydych yn cytuno y bydd hynny'n helpu menywod sy'n gweithio'n rhan-amser a menywod ar gyflogau isel?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the Member holds up a shiny object and attempts to distract our attention by letting it twinkle in the afternoon sunlight. Anyone with half an ounce of sense would recognise that there have been helpful moves in terms of the tax regime in the regard that she mentioned. However, when you look at the welfare and tax reforms as a whole and you take the word of an institution like the IFS, for instance, you will see that around £590 million is to be extracted from the pockets of the least well-off in Wales alone over the next couple of years, which dwarfs any tinkering with the lower tax rates that the Member mentioned. In fact, there are estimates that the damage could be even greater given the announcements that the Chancellor made in his last statement to the House of Commons. We are currently crunching those figures, but at least £0.5 billion more is set to be taken from the pockets of the poorest by the Government that Antoinette Sandbach supports.

Wrth gwrs, mae'r Aelod yn dal gwrthrych sgleiniog ac yn ceisio tynnu ein sylw trwy adael iddo ddisgleirio yn haul y prynhawn. Byddai unrhyw un sydd â hanner owns o synnwyr yn cydnabod bod symudiadau defnyddiol o ran y gyfundrefn dreth yn y cyd-destun y soniodd amdano. Fodd bynnag, pan edrychwch ar y diwygiadau lles a threth yn gyffredinol a chymryd gair sefydliad fel yr IFS, er enghraifft, fe welwch y caiff tua £590 miliwn ei gymryd o bocedi'r rhai lleiaf cefnog yng Nghymru yn unig dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, sy'n llawer mwy sylweddol nag unrhyw newidiadau i'r cyfraddau treth is y soniodd yr Aelod amdanynt. Yn wir, amcangyfrifir y gallai'r difrod fod yn fwy fyth o ystyried y cyhoeddiadau a wnaed gan y Canghellor yn ei ddatganiad diwethaf i Dŷ'r Cyffredin. Rydym yn cyfrifo'r ffigurau hynny ar hyn o bryd, ond rhagwelir y caiff o leiaf £0.5 biliwn yn fwy ei gymryd o bocedi'r tlotaf gan y Llywodraeth y mae Antoinette Sandbach yn ei chefnogi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, how successful is your Government in tackling gender stereotypes that influence career choices that then concentrate women in lower-paid jobs?

Weinidog, pa mor llwyddiannus yw eich Llywodraeth o ran mynd i'r afael â stereoteipiau rhyw sy'n dylanwadu ar ddewisiadau gyrfa sydd wedyn yn golygu bod mwy o fenywod mewn swyddi cyflog isel?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I mentioned in my reply to Ann Jones earlier, our equality unit is working constantly and it is important that I say that the Welsh Government does recognise that things such as gender stereotyping have a negative effect in terms of people's aspirations, their educational qualifications and the menu of options that is open before them as regards their life chances and, in due time, their earning ability. It is true that this is one of a toxic mix of factors that leads to women disproportionately ending up in low-paid and, indeed, part-time work. We will be working alongside the Wales TUC and the employer organisations most particularly and most closely. I am due to meet them to discuss this among other equality issues in the workplace next week, I believe. I would be very happy to write to the Member regarding the outcomes of that discussion.

Fel y soniais yn fy ateb i Ann Jones yn gynharach, mae ein huned gydraddoldeb yn gweithio ar hyn drwy'r amser ac mae'n bwysig fy mod yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pethau fel stereoteipio ar sail rhyw yn cael effaith negyddol ar ddyheadau pobl, eu cymwysterau addysgol a'r ystod o opsiynau sydd ar gael iddynt o ran eu cyfleoedd mewn bywyd a, maes o law, eu gallu i ennill. Mae'n wir bod hyn yn un o gymysgedd gwenwynig o ffactorau sy'n arwain at nifer anghymesur o fenywod yn cael swyddi rhan amser â chyflog isel. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â TUC Cymru a sefydliadau cyflogwyr yn fwyaf arbennig ac yn agosaf. Rwy'n credu fy mod yn cwrrd â hwy i drafod hyn ymhlith materion cydraddoldeb eraill yn y gweithle yr wythnos nesaf. Byddwn yn hapus iawn i ysgrifennu at yr Aelod ynghylch canlyniadau'r drafodaeth honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 4, OAQ(4)0003(CTP), is transferred for written answer by the Minister for Local Government and Government Business.

Cwestiwn 4, OAQ (4) 0003 (CTP), yn cael ei drosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

Community Facilities and Activities Programme

14:14

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei opsiynau i gyflwyno rhaglen newydd yn lle'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol? OAQ(4)0001(CTP)

5. Will the Minister make a statement on his options to replace the Communities Facilities and Activities Programme? OAQ(4)0001(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:14 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As the Member may be aware, the report summarising the responses to the consultation on the future of the community facilities and activities programme will be published later this month. It is not out just yet. My officials are currently developing options for the future of capital funding for community facilities in Wales. I will make an announcement when a decision has been reached.
- Efallai fod yr Aelod yn ymwybodol y caiff yr adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddyfodol y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol ei gyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn. Nid yw wedi'i gyhoeddi eto. Mae fy swyddogion wrthi'n datblygu opsiynau ar gyfer dyfodol cyllid cyfalaf i gyfleusterau cymunedol yng Nghymru. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad pan fydd penderfyniad wedi ei wneud.
- 14:15 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister, for your answer. I questioned your colleague, now the Minister for Housing and Regeneration, on this issue before the reshuffle. He told me that the response to the recent consultation on the future of this scheme will be published shortly, so I am pleased to hear that it will be available by the end of the month. The Powys Association of Voluntary Organisations has raised concerns with me that Powys will potentially lose out because of changes to how the money will be distributed in the future. Are you in a position to allay its concerns by outlining what new arrangements will be in place for Powys as a region, and for how organisations can apply for this grant money?
- Diolch ichi, Weinidog, am eich ateb. Holais eich cyd-Aelod, y Gweinidog Tai ac Adfywio erbyn hyn, ar y mater hwn cyn yr ad-drefnu. Dywedodd wrthyf y bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad diweddar ar ddyfodol y cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi cyn hir, felly rwy'n falch o glywed y bydd ar gael erbyn diwedd y mis. Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys wedi codi pryderon gyda mi y gallai Powys fod ar ei golled oherwydd newidiadau i'r ffordd y caiff yr arian ei ddosbarthu yn y dyfodol. A ydych mewn sefyllfa i dawelu ei phryderon drwy amlinellu pa drefniadau newydd a wneir ar gyfer Powys fel rhanbarth, a sut y gall sefydliadau wneud cais am yr arian grant hwn?
- 14:15 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- All I can do is repeat the point that no decisions have been reached on how the community facilities and activities programme might develop. There have been interesting and important responses to the consultation that I have yet to consider fully. I do not intend to see any key community being left out; I am intent on building resilient communities across Wales and to assist in that as far as the Welsh Government is able. All options are on the table. These are unprecedentedly difficult times when it comes to available spend, and fairness will be at the forefront of my mind in building those resilient communities.
- Y cyfan y gallaf ei wneud yw ailadrodd y pwynt nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch y gwaith o ddatblygu'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau. Cafwyd ymatebion diddorol a phwysig i'r ymgynghoriad nad wyf wedi eu hystyried yn llawn eto. Nid wyf yn bwriadu gweld unrhyw gymuned allweddol yn cael ei hepgor; rwy'n benderfynol o adeiladu cymunedau gwydn ledled Cymru a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo cymaint â phosibl yn hynny o beth. Mae'r holl opsiynau wrthi'n cael eu hystyried. Mae'r rhain yn amseroedd anodd na welwyd mo'u tebyg o'r blaen mewn perthynas â'r hyn sydd ar gael i'w wario, a bydd sicrhau tegwch yn hollbwysig imi wrth adeiladu'r cymunedau gwydn hynny.
- 14:16 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae'r cymorthdaliadau a roddwyd o dan y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol wedi bod yn hynod o lwyddiannus ledled Cymru. Rwyf yn ymwybodol o nifer o neuaddau pentref yn fy etholaeth i sydd wedi cael eu hadnewyddu drwy hyn er mwyn caniatáu gweithgareddau cymunedol. Fodd bynnag, a fydddech yn derbyn bod problemau yn aml iawn yn codi ar ôl derbyn y cymorthdal o ran sicrhau digon o arian refeniw i redeg y cyfleusterau hynny? A wnewch chi ystyried sut y gellid sicrhau bod y cymorthdaliadau hynny a roddwyd yn y gorffennol yn cael eu cynnal yn y dyfodol?
- Minister, the grants given under the community facilities and activities programme have been exceptionally successful throughout Wales. I am aware in my own constituency of a number of village halls that have been regenerated using these funds in order to allow community activities. However, would you accept that, very often, once a grant has been given, problems can arise in terms of having adequate revenue funding to run a facility? Will you consider how we can ensure that those grants that have been given in the past are maintained for the future?
- 14:17 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As I have said, all options are on the table. This is a time of unprecedented pressure on Government spend. We are all aware as constituency representatives of the pressures on community groups that Rhodri Glyn Thomas describes, and their ability to keep going even though they may have had capital grants. All these things will form part of my consideration of the consultation responses on the future of CFAP.
- Fel y dywedais, mae pob opsiwn yn cael ei ystyried. Mae hwn yn gyfnod o bwysau na welwyd mo'i debyg o'r blaen ar wariant y Llywodraeth. Rydym i gyd yn ymwybodol fel cynrychiolwyr etholaethau o'r pwysau sydd ar grwpiau cymunedol y mae Rhodri Glyn Thomas yn ei ddisgrifio, a'u gallu i ddyfalbarhau, er efallai eu bod wedi cael grantiau cyfalaf. Bydd yr holl bethau hyn yn ffurfio rhan o'm hystyriaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddyfodol CFAP.

14:18	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, one of the aims of the community facilities and activities programme is to try to encourage local communities to develop facilities for healthier lifestyles, which is something that we would all welcome. However, I have been contacted by a number of residents in the Vale of Glamorgan who say that while activities are available to children under the age of seven in their local communities through playgrounds and so on, very few active facilities are available for older children, particularly teenagers. What assessment have you made of the use of the previous grants in those terms, and will you consider issuing guidance to encourage active facilities for older children?</p>	<p>Weinidog, un o nodau'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yw ceisio annog cymunedau lleol i ddatblygu cyfleusterau ar gyfer ffyrdd o fyw iachach, sy'n rhywbeth y byddai pob un ohonom yn ei groesawu. Fodd bynnag, mae nifer o drigolion Bro Morgannwg wedi cysylltu â mi i ddweud, er bod gweithgareddau ar gael i blant o dan saith oed yn eu cymunedau lleol drwy feysydd chwarae ac yn y blaen, ychydig iawn o gyfleusterau gweithredol sydd ar gael ar gyfer plant hŷn, yn enwedig pobl ifanc yn eu harddegau. Pa asesiad rydych wedi'i wneud o'r defnydd o'r grantiau blaenorol yn y termau hynny, ac a fyddwch yn ystyried cyhoeddi canllawiau i hyrwyddo cyfleusterau gweithredol ar gyfer plant hŷn?</p>
14:18	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank Eluned Parrott for that important point. I have responsibility for play policy within this portfolio, and I recognise from previous experience in Government that she makes a valid point regarding play facilities and healthy activities for older children. I will undertake to look in particular at facilities for older children as part of my response to the consultation.</p>	<p>Diolch i Eluned Parrott am y pwynt pwysig hwnnw. Mae gennyf gyfrifoldeb am bolisi chwarae o fewn y portffolio hwn, ac rwy'n cydnabod o brofiad blaenorol yn y Llywodraeth ei bod yn gwneud pwynt dilys ynghylch cyfleusterau chwarae a gweithgareddau iach i blant hŷn. Addawaf edrych yn benodol ar gyfleusterau ar gyfer plant hŷn fel rhan o'm hymateb i'r ymgynghoriad.</p>
	Trechu Tlodi	Tackling Poverty
14:19	Angela Burns Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei amcanion allweddol ar gyfer trechu tlodi yn ystod gweddill y Pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0006(CTP)</i></p>	<p><i>6. Will the Minister outline his key objectives for tackling poverty during the remainder of the Fourth Assembly? OAQ(4)0006(CTP)</i></p>
14:19	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank the Member for Carmarthen West and South Pembrokeshire. My objectives for tackling poverty are to prevent poverty in the first place, particularly in future generations through early intervention, to help people into work, and to make life more manageable for those currently living in poverty.</p>	<p>Diolch i'r Aelod dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro. Fy amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yw atal tlodi yn y lle cyntaf, yn enwedig yng nghenedlaethau'r dyfodol trwy ymyrraeth gynnar, helpu pobl i mewn i waith, a gwneud bywyd yn haws i'r rheini sy'n byw mewn tlodi ar hyn o bryd.</p>
14:19	Angela Burns Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that. Earlier on, you referred to a shiny object, but here are some dull, hard facts: child poverty in Wales is the highest in the UK and has been rising since 2004; there is record youth unemployment and it has been rising since 2005; your Government has missed fuel poverty and severe fuel poverty targets; and working-age economic activity reached one in three working adults before the credit crunch, all of this despite billions of pounds of European funding. How will you, Minister, measure your success over the next three years in tackling poverty in a country that seems to find it very difficult to shake that cloud?</p>	<p>Diolch ichi am hynny. Yn gynharach, cyfeiriasoch at wrthrych sgleiniog, ond dyma rai ffeithiau diflas, caled: tlodi plant yng Nghymru yw'r uchaf yn y DU ac mae wedi bod yn codi ers 2004; mae lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc yn uwch nag erioed ac mae wedi bod yn codi ers 2005; mae eich Llywodraeth wedi methu â chyrraedd targedau mewn perthynas â thlodi tanwydd a thlodi tanwydd difrifol; a chododd gweithgarwch economaidd o oedran gweithio i un o bob tri o oedolion cyn y wasgfa greddyd, ac mae hyn oll er gwaethaf biliynau o bunnoedd o arian Ewropeaidd. Sut y byddwch chi, Weinidog, yn mesur eich llwyddiant dros y tair blynedd nesaf o ran mynd i'r afael â thlodi mewn gwlad yr ymddengys ei bod yn ei chael chi'n anodd iawn i ysgwyd y cwmwl hwnnw?</p>

14:20

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Conservatives are beginning to bring to mind a mental image of a gang of muggers standing over their victim and lingering long enough to criticise the paramedics who turn up and try to pick up the pieces of the actions that they undertook. It is true to say that child poverty is on the rise again. It is also true to say—Angela Burns neglected to mention this part—that child poverty figures were consistently falling throughout the lifespan of devolution, right up until the credit crunch hit. It is true that we were making better progress than other parts of the United Kingdom throughout that time period. The credit crunch of itself would have thrown up significant challenges, but now, as we attempt to build resilient communities and to lift people, particularly children, out of poverty, on top of that, we have a UK coalition Government who sees it as its ideological mission to push more children into these statistics. We swim here against the tide created by the Conservatives and the Liberal Democrats in Westminster.

Mae Ceidwadwyr Cymru yn dechrau eich atgoffa o griw o fygwyr yn sefyll dros eu dioddefwr ac yn loetran yn ddigon hir i feirniadu'r parafeddygon sy'n cyrraedd ac yn ceisio clirio llanast y camau a gymerwyd ganddynt. Mae'n wir dweud bod tlodi plant ar gynydd eto. Mae hefyd yn wir dweud— anghofiodd Angela Burns sôn am hyn—bod y ffigurau tlodi plant yn gostwng yn gyson drwy gydol hyd oes datganoli, hyd nes i'r wasgfa gredyd daro. Mae'n wir ein bod yn gwneud gwell cynnydd na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig drwy gydol y cyfnod hwnnw. Byddai'r wasgfa gredyd ei hun wedi cyflwyno heriau sylweddol, ond erbyn hyn, wrth inni geisio adeiladu cymunedau gwydn a chodi pobl, yn enwedig plant, allan o dlodi, ar ben hynny, mae gennym Lywodraeth glymblaid y DU sy'n ystyried ei bod yn genhadaeth ideolegol iddi wthio mwy o blant i mewn i'r ystategau hyn. Rydym yn nofio yma yn erbyn y llanw a grëwyd gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of the key programmes in terms of tackling poverty is Communities First. Will you give us an indication as to the measures you will be applying to the Communities First programme to indicate whether it has been successful?

Weinidog, un o'r rhaglenni allweddol o ran mynd i'r afael â thlodi yw Cymunedau yn Gyntaf. A wnewch chi roi syniad inni ynghylch y mesurau y byddwch yn eu cymhwyso i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ddangos a yw wedi bod yn llwyddiannus?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As part of the reorganisation of the Communities First programme, as well as the much-discussed clustering of Communities First partnerships, there has been a move towards a much clearer and simpler statement of mission for Communities First clusters, looking at the health and wellbeing of communities, the skills levels and, therefore, the earning potential of people in those communities. The bottom line is the prosperity of those communities and their ability to boost their income and minimise debts and so on, particularly as they relate to families. Communities First has been one of the most closely monitored and measured Government programmes that the Welsh Government has ever undertaken, and that monitoring will continue. I am confident that the reorganisation will clarify the purpose of Communities First for many of our partners and partner organisations out there as, primarily, an anti-poverty programme.

Fel rhan o'r broses o ad-drefnu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, yn ogystal â'r clystyru o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf y bu cymaint o drafod yn eu cylch, cafwyd symudiad tuag at ddatganiad llawer cliriach a symlach o genhadaeth ar gyfer clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gan edrych ar iechyd a lles cymunedau, lefelau sgiliau ac, felly, botensial bobl yn y cymunedau hynny i ennill. Gwraidd y mater yw ffyniant y cymunedau hynny a'u gallu i roi hwb i'w hincwm a lleihau dyledion ac yn y blaen, yn enwedig fel y maent yn berthnasol i deuluoedd. Roedd Cymunedau yn Gyntaf yn un o raglenni'r Llywodraeth a gafodd ei monitro agosaf a'i mesur mwyaf a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru erioed, a bydd y gwaith monitro hwnnw'n parhau. Rwy'n hyderus y bydd yr ad-drefnu'n egluro pwrpas Cymunedau yn Gyntaf i lawer o'n partneriaid a sefydliadau partner fel rhaglen wrthlodi yn bennaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. I would dispute the fact that it has been closely monitored because, up until now, we have had very little indication of how to measure the success of the programme. Given that you have now set out the mission statement for the revitalised Communities First, will you undertake to publish performance indicators so that we can measure, in those communities in which it is active, how successful the expenditure of tens of millions of pounds has been in terms of delivering your objectives?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwn yn anghytuno â'r ffaith ei bod wedi cael ei monitro'n agos oherwydd, hyd yn hyn, nid ydym wedi bod yn rhy siŵr sut y dylid mesur llwyddiant y rhaglen. Gan eich bod bellach wedi gosod y datganiad cenhadaeth ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf wedi'i hadfywio, a wnewch ymrwymo i gyhoeddi dangosyddion perfformiad fel y gallwn fesur, yn y cymunedau hynny lle mae'n weithredol, pa mor llwyddiannus fu'r gwariant o ddegau o filynau o bunnoedd o ran cyflawni eich amcanion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No-one is more interested than I am in the efficacy of Communities First. It is a £70 million anti-poverty programme. If this were to be scaled up at a UK level, we would be talking about one of the biggest headline-grabbing stories anywhere in the UK. This would be equivalent to a £1.4 billion anti-poverty programme if such a policy were to be undertaken by the coalition Government in Westminster. There is nothing like Communities First anywhere else in the UK. I am intensely proud of that fact and I intend to see that Communities First does its job.

Nid oes gan unrhyw un fwy o ddiddordeb na finnau yn effeithiolrwydd Cymunedau yn Gyntaf. Rhaglen wrthdlodi ydyw sy'n werth £70 miliwn. Pe cai hyn ei gynyddu ar lefel y DU, byddem yn sôn am un o'r straeon amlycaf unrhyw le yn y DU. Byddai hyn yn cyfateb i raglen wrthdlodi gwerth £1.4 biliwn pe bai polisi o'r fath yn cael ei weithredu gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan. Nid oes dim byd fel Cymunedau yn Gyntaf unrhyw le arall yn y DU. Rwy'n hynod falch o hynny ac rwy'n bwriadu sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud ei gwaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Developing that theme, the Welsh Government website states that Communities First supports the most disadvantaged people in the most deprived areas, with the aim of contributing to alleviating persistent poverty. I understand that the Welsh Government has issued guidance that makes it clear that the lead delivery body for each Communities First cluster is responsible not only for the governance of the programme in the cluster, but for ensuring that the community-focused nature of the programme is safeguarded. How, therefore, do you respond to concern expressed to me by north Denbighshire Communities First, joining up west Rhyl and south-west Rhyl, over the use of the phrase 'community-focused nature of the programme', which it says is obviously the underlying principle of Communities First but does not ensure that the community is, by right, involved in decisions that affects it and means that Communities First is in danger of becoming a top-down, rather than a bottom-up-led programme, which in the north Denbighshire cluster seriously harms its chances of success?

Gan ddatblygu'r thema honno, mae gwefan Llywodraeth Cymru yn datgan bod Cymunedau yn Gyntaf yn cefnogi'r bobl fwyaf difreintiedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda'r nod o gyfrannu at liniaru tlodi parhaus. Deallaf fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau sy'n ei gwneud yn glir bod y corff cyflenwi arweiniol ar gyfer pob clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn gyfrifol nid yn unig am lywodraethu'r rhaglen yn y clwstwr, ond am sicrhau y diogelir natur y rhaglen sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Sut, felly, rydych yn ymateb i bryder a fynegwyd imi gan Gymunedau yn Gyntaf gogledd Sir Ddinbych, sy'n cydgysylltu gorllewin y Rhyl a de-orllewin y Rhyl, ynghylch y defnydd o'r ymadrodd 'natur y rhaglen sy'n canolbwyntio ar y gymuned', sef egwyddor sylfaenol Cymunedau yn Gyntaf yn amlwg, meddai, ond nad yw'n sicrhau bod y gymuned, drwy hawl, yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arni ac sy'n golygu bod Cymunedau yn Gyntaf mewn perygl o fod yn rhaglen o'r brig i lawr, yn hytrach na rhaglen a arweinir o'r gwaelod i fyny, sy'n effeithio ar ei chyfle i lwyddo yng ngogledd Sir Ddinbych?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mark Isherwood. I am not aware of the specific worries and concerns that he mentioned in his question. I would be more than happy to look into them as a specific matter. More broadly, I am interested in seeing the development of Communities First as being both bottom-up and top-down. There is a need for me and the Welsh Government to show leadership in terms of the development of Communities First—our partners and partnership organisations out there want to see that leadership—and to maintain a focus, as I said, on health, prosperity and skills within communities, and to keep specifically to those core aims. There is also, as Mark mentioned, a need to make sure that communities have ownership and are happy and involved with decision making on the ground. However, I would be more than happy to look at the particular instance of Denbighshire and Rhyl that he mentioned.

Diolchaf i Mark Isherwood. Nid wyf yn ymwybodol o'r pryderon penodol y soniodd amdanynt yn ei gwestiwn. Byddwn yn fwy na pharod i edrych arnynt fel mater penodol. Yn fwy cyffredinol, mae gennyf ddiddordeb mewn gweld Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei datblygu fel rhaglen o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr. Mae angen i mi a Llywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth o ran y gwaith o ddatblygu Cymunedau yn Gyntaf—mae ein partneriaid a'n sefydliadau partner yn awyddus i weld yr arweinyddiaeth honno—a chanolbwyntio, fel y dywedais, ar iechyd, ffyniant a sgiliau mewn cymunedau, ac i gadw at y nodau craidd hynny'n benodol. Hefyd, fel y soniodd Mark, mae angen gwneud yn siŵr bod gan gymunedau berchenogaeth o'r broses gwneud penderfyniadau ar lawr gwlad, eu bod yn fodlon ar y broses honno ac yn rhan ohoni. Fodd bynnag, byddwn yn fwy na pharod i edrych ar yr achos penodol yn Sir Ddinbych a'r Rhyl a grybwyllodd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To move to a different part of Wales, how will you alleviate persistent poverty in deprived communities such as Abergavenny north, a very deprived community with the highest methadone use in Wales, when, at the end of last month, Monmouthshire lost Communities First altogether, despite 4,000 people in Abergavenny north being told by the Welsh Government that they could not form a cluster with areas elsewhere that they say should have been included? You have created a situation where parts of Wales will apparently not receive this extra support. How will you reach them?

I symud i ran arall o Gymru, sut y byddwch yn lleddfu tlodi parhaus mewn cymunedau diffreintiedig megis gogledd y Fenni, cymuned ddifreintiedig iawn gyda'r defnydd o fethadon uchaf yng Nghymru, pan gollodd Sir Fynwy Gymunedau yn Gyntaf yn gyfan gwbl ddiwedd y mis diwethaf, er gwaethaf y ffaith bod 4,000 o bobl yng ngogledd y Fenni wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru na allent ffurfio clwstwr gydag ardaloedd mewn mannau eraill a ddylai fod wedi cael eu cynnwys yn eu barn hwy? Rydych wedi creu sefyllfa lle na fydd rhannau o Gymru yn ôl pob golwg yn cael y cymorth ychwanegol hwn. Sut y byddwch yn eu cyrraedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mark Isherwood perhaps deliberately fails to understand that, as Communities First has been reorganised, we have had to take account of the fact that communities have not stood still. While Communities First must remain focused on the least well-off communities in Wales, as measured by the Welsh index of multiple deprivation, I am happy to say that many communities have not stayed stuck in those statistics. I am not aware of the specific numbers around, for instance, Abergavenny north, but a number of communities have moved out of the poorest 10% and 30% of lower super-output areas. I would like to think that that is, in part, because of the good work and investment of Communities First throughout the previous Assembly terms.

Efallai fod Mark Isherwood yn fwriadol yn methu â deall, gan fod Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei had-drefnu, y bu'n rhaid inni ystyried y ffaith nad yw cymunedau wedi sefyll yn llonydd. Er bod yn rhaid i Gymunedau yn Gyntaf barhau i ganolbwyntio ar y cymunedau lleiaf cefnog yng Nghymru, fel y'i mesurwyd gan fynegai amddifadedd lluosog Cymru, rwy'n falch o ddweud nad yw'r ystadegau wedi aros yn ddigyfnewid mewn perthynas â llawer o'r cymunedau. Nid wyf yn ymwybodol o'r niferoedd penodol o gwmpas, er enghraifft, gogledd y Fenni, ond mae nifer o gymunedau wedi symud allan o'r 10% a 30% tlotaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is. Hoffwn feddwl bod hynny, yn rhannol, oherwydd gwaith da a buddsoddiad Cymunedau yn Gyntaf drwy gydol tymhorau blaenorol y Cynulliad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Lliniaru Tlodi Plant

Alleviating Child Poverty

14:28 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i helpu i liniaru tlodi plant yn sgîl diwygiadau lles? OAQ(4)0011(CTP)

7. What plans does the Minister have to help alleviate child poverty in view of welfare reforms? OAQ(4)0011(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Cardiff North. I am deeply concerned by the UK Government's welfare reforms and the impact on families with children in particular. That is why we are committed to using evidence from our own programme of research to target our efforts and to deliver support, wherever we can, to help those families cope.

Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd. Rwy'n pryderu'n fawr am ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU a'r effaith ar deuluoedd â phlant yn arbennig. Dyna pam rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio tystiolaeth o'n rhaglen ymchwil ein hunain i dargedu ein hymdrechion ac i roi cymorth, lle bynnag y gallwn, er mwyn helpu'r teuluoedd hynny i ymdopi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. It is estimated by an independent source, namely the IFS, which he has already referred to, that families with children are the group that will suffer the most from the welfare cuts, and we all know that children in poverty attain least, especially educationally. What can the Welsh Government do to try to ensure that children make the most of their opportunities at school? In his responses to previous questions, he talked about the life chance fund, which is very encouraging. That may be for extracurricular activities, but what about achieving in the mainstream of school? Is there anything more that the Welsh Government can do?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Yn ôl amcangyfrif gan ffynhonnell annibynnol, sef yr IFS, y mae eisoes wedi cyfeirio ati, teuluoedd â phlant yw'r grŵp a fydd yn dioddef fwyaf oherwydd y toriadau lles, a gŵyr pob un oonom mai plant mewn tlodi sydd â'r cyrhaeddiad lleiaf, yn enwedig yn addysgol. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i geisio sicrhau bod plant yn gwneud y mwyaf o'u cyfleoedd yn yr ysgol? Yn ei atebion i gwestiynau blaenorol, soniodd am y gronfa cyfleoedd bywyd, sy'n galonogol iawn. Gallai hynny fod ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, ond beth am gyflawni ym mhrif ffrwd yr ysgol? A oes unrhyw beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Julie Morgan is quite right to point out that poverty has an adverse impact on educational attainment. My colleague the Minister for Education and Skills has made breaking the link between deprivation and attainment one of the three priorities for his department.

The Welsh Government has made £36.8 million available in 2013-14, in the form of the pupil deprivation grant, to be paid directly into school budgets to support strategies to tackle that link between deprivation and attainment. One use to which schools are encouraged to put the deprivation grant is the setting up of a fund to join in, as it is called—or bursaries, if you like—which will allow pupils who may be struggling to meet the costs of extra-curricular activities to participate. Communities First clusters are also being invited to bid for £2 million of matched funding for the pupil deprivation grant, to support partnership working between communities in deprived areas and the schools that are embedded in them. Julie Morgan is also right to mention the life chances fund as a work in progress towards addressing these issues.

Mae Julie Morgan yn iawn i ddweud bod tlodi yn cael effaith andwyol ar gyrhaeddiad addysgol. Mae fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, wedi gwneud torri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrrhaeddiad yn un o'r tair blaenoriaeth ar gyfer ei adran.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau £36.8 miliwn ar gyfer 2013-14, ar ffurf y grant amddifadedd disgyblion, i'w dalu'n uniongyrchol i mewn i gyllidebau ysgolion i gefnogi strategaethau i fynd i'r afael â'r cyswllt hwnnw rhwng amddifadedd a chyrrhaeddiad. Un o'r pethau yr anogir ysgolion i ddefnyddio'r grant amddifadedd ar ei gyfer yw sefydlu cronfa i ymuno, fel y'i gelwir—neu fwsariaethau, os mynnwch—a fydd yn caniatáu i ddisgyblion a all fod yn ei chael yn anodd talu costau gweithgareddau allgyrsiol i gymryd rhan. Gwahoddir clystyrau Cymunedau yn Gyntaf hefyd i wneud cais am £2 filiwn o arian cyfatebol ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion, i annog cymunedau mewn ardaloedd difreintiedig a'r ysgolion sydd wedi'u hymgorffori ynddynt i weithio mewn partneriaeth. Mae Julie Morgan hefyd yn iawn i sôn am y gronfa cyfleoedd bywyd fel gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:31

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I rise to ask the Minister a question, not to mug him, as he seems to fear that some in my party are prone to do. Minister, only recently, Keith Towler, the Children's Commissioner for Wales, urged the Welsh Government to abandon its child poverty targets for 2020, claiming that it is highly unlikely that those targets will be achieved. Do you agree with the children's commissioner, and, if so, why do you not drop the pretence that your policies will help some of the poorest people in Wales?

Rwy'n codi i ofyn cwestiwn i'r Gweinidog, nid i'w fygio, gan ei bod yn ymddangos ei fod yn ofni bod rhai yn fy mhlaid yn dueddol o wneud hynny. Weinidog, yn ddiweddar, anogodd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i'w thargedau tlodi plant ar gyfer 2020, gan honni ei bod yn annhebygol iawn y caiff y targedau hynny eu cyflawni. A gytunwch â'r comisiynydd plant, ac, os felly, pam na wnewch chi roi'r gorau i esgus y bydd eich polisiau yn helpu rhai o'r bobl dlotaf yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:31

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I do not agree, and no, you will not mug me, Nick, and the Welsh Conservatives will not mug those who are unable to answer back for themselves. The Welsh Conservatives are intent on mugging the most vulnerable in our society. Children in low-income households are one of their primary targets, in terms of who will pay for their economic failure. I do not agree with the children's commissioner on this point either. I have great respect for Keith Towler, and the work that he does, but I believe that to abandon our commitment to the eradication of child poverty would be a backward step, and I will tell you why. It would involve listening to a counsel of despair, accepting that there is nothing that devolved government can do to mitigate and to work against the worst effects of this UK coalition Government.

Na, ni chytunaf, ac na, ni fyddwch yn fy mygio, Nick, ac ni fydd Ceidwadwyr Cymru yn mygio'r rheini na allant ateb yn ôl drostynt eu hunain. Mae Ceidwadwyr Cymru yn benderfynol o fygio'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Plant mewn cartrefi incwm isel yw un o'u targedau sylfaenol, o ran pwy fydd yn talu am eu methiant economaidd. Ni chytunaf â'r comisiynydd plant ar y pwynt hwn chwaith. Mae gennyf barch mawr at Keith Towler, a'r gwaith a wna, ond credaf y byddai rhoi'r gorau i'n hymrwymiad i ddileu tlodi plant yn gam yn ôl, a dywedaf pam wrthych. Byddai'n golygu gwrando ar gyngor anobaith, gan dderbyn nad oes dim y gall llywodraeth ddatganoledig ei wneud i liniaru effeithiau gwaethaf Llywodraeth glymblaid y DU a gweithio yn eu herbyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The opposition is involved in the rhetoric of harshness and cruelty; it is involved in the stigmatisation of families on low income. Alongside its friends in the tabloid press, the opposition paints the blackest picture possible of working people, people on low pay and people who are looking for work. It then expects me to adopt its brand of realism, which is to accept that there is no alternative. No, that will not happen.

Mae a wnelo'r wrthblaid â rhethreg llymder a chreulondeb; mae a wnelo â phardduo teuluoedd ar incwm isel. Ynghyd â'i ffrindiau yn y wasg tabloid, mae'r wrthblaid yn paentio'r darlun duaf posibl o bobl sy'n gweithio, pobl ar gyflogau isel a phobl sy'n chwilio am waith. Mae wedyn yn disgwyl imi fabwysiadu ei brand o realaeth, sef derbyn nad oes unrhyw ddewis arall. Na, ni fydd hynny'n digwydd.

14:33

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of the curious things about a time of welfare cuts and coming out of recession is that child poverty, being measured relatively, in relation to the rest of society, can actually show signs of improving, temporarily at least. Therefore, let us look at some real examples. Last year, in Carmarthenshire and Powys, 25 and 29 families and individuals, respectively, had to take bed and breakfast accommodation. I believe that this can only get worse with the bedroom tax. I know that this Government is against the use of bed and breakfast accommodation. In terms of the outcomes for the poorest families, this is the cruellest kind of outcome. Therefore, is this Government now able to give a commitment that there will be no further use of this accommodation for the poorest families and children in Wales?

Weinidog, un o'r pethau hynod am adeg o doriadau lles a dod allan o ddirwasgiad yw bod tlodi plant, sy'n cael ei fesur yn gymharol, mewn perthynas â gweddill y gymdeithas, yn gallu dangos arwyddion o wella, dros dro o leiaf. Felly, gadewch inni edrych ar rai enghreifftiau go iawn. Y llynedd, yn Sir Gaerfyrddin a Phowys, bu'n rhaid i 25 a 29 o deuluoedd, yn y drefn honno, gymryd llety gwely a brecwast. Credaf mai dim ond gwaethygu y gall hyn gyda'r dreth ystafell wely. Gwn fod y Llywodraeth hon yn erbyn defnyddio llety gwely a brecwast. O ran y canlyniadau ar gyfer y teuluoedd tlotaf, dyma'r math creulonaf o ganlyniad. Felly, a all y Llywodraeth hon bellach roi ymrwymiad na chaiff y math hwn o lety ei ddefnyddio mwyach ar gyfer y teuluoedd a'r plant tlotaf yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:33

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is right to point out that poverty figures can do curious things. I believe that there was a fall between 2004 and 2006 in terms of the overall child poverty figures, which was probably related to people's overall income, particularly those on low pay, being put under further pressure, and falling, so that relative incomes had fallen. That made it look as if there were fewer children in the poverty statistics. Some of your questions and points are not for me, in terms of my portfolio directly, but I will speak to my colleague on my left, Carl Sargeant, and ensure that you receive a response to the point that you raise around families in bed and breakfast accommodation.

Mae'r Aelod yn iawn i ddweud y gall ffigurau tlodi wneud pethau hynod. Credaf fod gostyngiad rhwng 2004 a 2006 o ran y ffigurau tlodi plant cyffredinol, a oedd, yn ôl pob tebyg, yn gysylltiedig â phwysau ychwanegol yn cael ei roi ar incwm cyffredinol pobl, yn enwedig y rheini ar gyflog isel, a bod yr incymau hynny'n gostwng, fel bod incwm cymharol wedi gostwng. Golygai hynny ei bod yn ymddangos fel pe bai llai o blant yn yr ystadegau tlodi. Nid yw rhai o'ch cwestiynau a'ch pwyntiau ar fy nghyfer i, o ran fy mhorthfolio yn uniongyrchol, ond siaradaf â'm cyd-Aelod ar fy chwith, Carl Sargeant, a sicrhau eich bod yn cael ymateb i'r pwynt a godir gennych ynghylch teuluoedd mewn llety gwely a brecwast.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Tlodi yn Nhorfaen

Poverty in Torfaen

14:34

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â thlodi yn Nhorfaen?
OAQ(4)0010(CTP)

8. Will the Minister make a statement on how he intends to tackle poverty in Torfaen? OAQ(4)0010(CTP)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:34

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Tackling poverty is a priority for this Government, as I have explained. We have awarded over £2.5 million to Communities First in Torfaen, including a community employability programme and a schools link family project. We have also awarded over £1.5 million to Families First funding in the authority to support families.

Mae mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, fel yr esboniais. Rydym wedi dyfarnu dros £2.5 miliwn i Gymunedau yn Gyntaf yn Nhorfaen, gan gynnwys rhaglen gyflogadwyedd gymunedol a phrosiect cysylltu teuluoedd ac ysgolion. Rydym hefyd wedi dyfarnu dros £1.5 miliwn i gyllid Teuluoedd yn Gyntaf yn yr awdurdod i gefnogi teuluoedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:35

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Unlike the Welsh Conservatives, who appear to be a little bored by this discussion on poverty this afternoon, I am sure that the rest of us are seeing a very big increase in cases of people who are being hit by their welfare reforms. In particular, I have been helping a disabled constituent who has lost her employment and support allowance and her disability living allowance and who has had no income whatsoever for the last six weeks. She lost her case at a tribunal appeal, and I am convinced that the decision would have been overturned had she taken an advocate with her to the hearing. What steps is the Welsh Government taking to support and resource independent advice services in Wales, some of which have also been very hard hit by more Government cuts at a time when their services are coming under maximum pressure? Also, what steps is the Welsh Government taking to ensure that people hit by welfare reform are aware of the importance of taking independent advice on their situation?

Yn wahanol i Geidwadwyr Cymru, yr ymddengys sydd wedi diflusu braidd ar y drafodaeth ar dlodi y prynhawn yma yn ôl pob golwg, rwy'n siŵr bod y gweddill ohonom yn gweld cynnydd mawr iawn yn nifer yr achosion o bobl y mae eu diwygiadau lles yn effeithio arnynt. Yn benodol, rwyf wedi bod yn helpu etholwr anabl sydd wedi colli ei lwfans cyflogaeth a chymorth a'i lwfans byw i'r anabl ac nad yw wedi cael unrhyw incwm o gwbl dros y chwe wythnos diwethaf. Collodd ei hachos mewn apêl tribiwnlys, ac rwy'n argyhoeddedig y byddai'r penderfyniad wedi'i wrthdroi pe byddai wedi mynd ag eiriolwr gyda hi i'r gwrandawriad. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ac ariannu gwasanaethau cyngor annibynnol yng Nghymru, y mae mwy o doriadau gan y Llywodraeth wedi effeithio'n fawr ar rai ohonynt ar adeg pan mae eu gwasanaethau yn wynebu'r pwysau mwyaf? Hefyd, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod pobl y mae diwygiadau lles yn effeithio arnynt yn ymwybodol o bwysigrwydd ceisio cyngor annibynnol ar eu sefyllfa?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is quite right to point out that there is a small but growing group of people who, because of welfare reform, are facing outright destitution, at least temporarily, and will have no income whatsoever, as they fall between the gaps of the welfare reforms that are being implemented by the UK Government. I wonder what the Members opposite might be saying to constituents of theirs who may present themselves in their surgeries—and I hope that they do—who are facing this sort of problem. There is nothing more distressing or shameful than to recognise that any Government or country would allow this sort of thing to happen.

Mae'r Aelod yn iawn i dynnu sylw at y ffaith bod grŵp bach ond cynyddol o bobl sydd, oherwydd diwygiadau lles, yn wynebu amddifadrwydd llwyr, o leiaf dros dro, ac na fyddant yn cael unrhyw incwm o gwbl, gan eu bod yn syrthio rhwng bylchau'r diwygiadau lles a weithredir gan Lywodraeth y DU. Tybed beth y gallai'r Aelodau gyferbyn fod yn ei ddweud wrth eu hetholwyr sy'n dod efallai i'w cynghorfeydd—ac rwy'n gobeithio y byddant yn gwneud hynny—sy'n wynebu'r math hwn o broblem. Nid oes dim yn peri mwy o ofid neu gywilydd na chydabod y byddai unrhyw Lywodraeth neu wlad yn caniatáu i'r math hwn o beth ddigwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Lynne Neagle is quite right again to point to the importance of advice and advocacy services. As I have mentioned, I will be calling a summit of the advisory community, for want of a better term, within Wales before the summer. I recognise its critical role and recognise that advice services are also under attack, through legal aid reforms in particular, by this UK Government. I will be issuing a challenge to advisory services across Wales to take a long hard look at the recent review of advisory services and also attempting to support them as much as I am able in terms of Welsh Government backing for their critical role.

Mae Lynne Neagle yn iawn eto i dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth. Fel y soniais, byddaf yn galw uwchgynhadledd o'r gymuned ymgynghorol, yn niffyg term gwell, yng Nghymru cyn yr haf. Rwy'n cydnabod ei rôl hanfodol ac yn cydnabod bod gwasanaethau cyngor hefyd yn wynebu bygythiad, drwy ddiwygiadau cymorth cyfreithiol yn arbennig, gan Lywodraeth y DU. Byddaf yn herio gwasanaethau cynghori ledled Cymru i edrych yn ofalus ar yr adolygiad diweddar o wasanaethau cynghori a byddaf hefyd yn ceisio eu cefnogi gymaint ag y gallaf o ran cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'w rôl allweddol.

14:37

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you acknowledge that nearly 30,000 people in Torfaen benefit from the tax cut by the UK Government that came to effect this month? Will you further acknowledge that 1,532 people in Torfaen will no longer pay tax? Can you think of a better way of tackling poverty than by putting money back in people's pockets?

Weinidog, a wnewch chi gydnabod bod bron i 30,000 o bobl yn Nhorfaen yn elwa ar y toriad treth gan Lywodraeth y DU a ddaeth i rym y mis hwn? A wnewch chi gydnabod ymhellach na fydd 1,532 o bobl yn Nhorfaen bellach yn talu treth? A allwch chi feddwl am ffordd well o fynd i'r afael â thlodi na thrwy roi arian yn ôl ym mhocedi pobl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will acknowledge it, William. [Interruption.]

Ie, rwy'n cydnabod hynny, William. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Order. The question has been put and we must hear the Minister's reply. In fairness, William Graham is being perfectly polite and is waiting patiently for the answer. He is not helped by the noise from the rest of his group.

W'rth gwrs, mae'r cwestiwn wedi ei roi a rhaid inni glywed ateb y Gweinidog. A bod yn deg, mae William Graham yn bod yn hollol gwrtais ac yn aros yn amyneddgar am yr ateb. Nid yw sŵn gweddill ei grŵp yn ei helpu.

14:38 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course I will acknowledge it, William, as I acknowledge any attractive, shiny object that is waved in my direction in an attempt to distract our attention from the main subject under debate. Yes, these small measures will help, but the fact remains that between £600 million and £1.1 billion, which is the Sheffield Hallam University figure that Members will have seen in their in-boxes, will be vacuumed out of the wallets, purses and pockets of the most vulnerable people in Wales as a result of the welfare and tax changes instigated by the UK Government. The changes that William Graham refers to are cosmetic in comparison to that fundamental shift in resources from the least well-off to the wealthiest.

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod hynny, William, yn yr un modd ag yr wyf yn cydnabod unrhyw wrthrych sgleiniog, deniadol sy'n cael ei chwifio i'm cyfeiriad mewn ymgais i dynnu ein sylw oddi ar brif bwnc y drafodaeth. Mae'n wir y bydd y mesurau bach hyn yn helpu, ond erys y ffaith y bydd rhwng £600 miliwn a £1.1 biliwn, sef ffigur Prifysgol Hallam Sheffield y bydd yr Aelodau wedi ei weld yn eu mewnflychau, yn cael ei sugno allan o waledi, pyrsiau a phocedi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru o ganlyniad i'r newidiadau lles a threth a gychwynwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r newidiadau y mae William Graham yn cyfeirio atynt yn rhai arwynebol o gymharu â'r newid sylfaenol hwnnw mewn adnoddau o'r rhai lleiaf cefnog i'r rhai cyfoethocaf.

Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr Ymchwiliad i Bolisi Morol yng Nghymru

Cynnig NDM5206 Dafydd Elis-Thomas

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Ionawr 2013.

The Environment and Sustainability Committee's Report on the Inquiry into Marine Policy in Wales

Motion NDM5206 Dafydd Elis-Thomas

The National Assembly for Wales:

Notes the report of the Environment and Sustainability Committee on its inquiry into marine policy in Wales which was laid in the Table Office on 22 January 2013.

14:39 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Mae'n bleser gennyf agor y ddatl ar yr adroddiad ar bolisi morol. Fel un sy'n cynrychioli arfordir y gorllewin a'r canolbarth, o Aberdesach i Aberdyfi a phwyntiau rhwng y ddau, rwy'n gwybod rhyw gymaint erbyn hyn am gwestiynau anodd yr arfordir.

It is a pleasure to open this debate on our report on marine policy. As one who represents the coastline of mid and west Wales, from Aberdesach to Aberdyfi and points in between, I know something now about the difficult questions in coastal areas.

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 2.40 p.m.

Sandy Mewies took the Chair at 2.40 p.m.

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Ionawr yn dilyn ymchwiliad a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2012 a hynny ar adeg pan oedd polisi morol yn hynod o danllyd, os gaf i ddweud, ar hyd arfordir Cymru. Diolchaf i'r tystion a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, ac mae'n dda gennyf weld fy nghyfaill Julie James yn ei sedd gyda ni heddiw— arbenigwraig os bu un erioed ar bolisi morol, yn enwedig o safbwynt cynllunio.

The report was published in January, following an inquiry launched in July 2012, at a time when marine policy was exceptionally contentious, if I may say so, along the Welsh coastline. I thank the witnesses who provided evidence to the committee, and I am pleased to see my colleague Julie James back in her seat here today—a specialist if ever there was one on marine policy, particularly from the planning perspective.

Rwy'n gwybod fy mod yn siarad â chynulleidfa eithaf gwybodus yn y fan hon, ond mae bob amser yn werth ailadrodd pwysigrwydd polisi morol i Gymru. Mae'r dyfroedd morol sy'n amgylchynu Cymru yn gyfoethog o ran bioamrywiaeth, mae ganddynt werth diwylliannol pwysig i gymaint o'n cymunedau ac mae tua 60% o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd arfordirol. Mae'r amgylchedd morol ac arfordrol yn cyfrannu £2.5 biliwn o ran cynnyrch crynswth a gwerth ychwanegol i economi Cymru ac yn cynnal 92,000 o swyddi. Os byth y byddwch yn ceisio mynd i gystadlu â Phrifysgol Bangor ar 'University Challenge', pob lwc i chi, ond dyma un o'r ffeithiau diddorol am Gymru: mae arwynebedd dyfroedd mewndirol Cymru yn 16,000 km sgwâr ac mae hynny bron ddwywaith maint Cymru. O hynny, mae 5,600 km sgwâr wedi'u dynodi mewn 125 o ardaloedd morol gwarchoddedig, sef 35% o ddyfroedd Cymru. Mae hynny'n dweud wrthy ch y math o amgylchedd nodedig sydd gennym.

Casgliad allweddol yr adroddiad hwn yw nad yw Llywodraeth Cymru—yr un presennol na'r rhai o'i flaen—na'r hen Swyddfa Gymreig, o barchus goffadwraeth, wedi rhoi'r flaenoriaeth na'r adnoddau digonol i'r dimensiwn morol. Yn ein barn ni, mae angen ystyried newid mewn blaenoriaethau ac adnoddau o'r daearol—nid i'r nefolion leoedd yn yr achos hwn—i'r morol os yw'r uchelgeisiau polisi mae Llywodraeth Cymru yn eu harddel yn mynd i gael eu gwireddu.

Mae cynllunio gofodol morol yn hanfodol, ond mae'r cynnydd i'r cyfeiriad hwnnw wedi bod yn araf ac mae diffyg cynlluniau'n creu ansicrwydd ymysg rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni. Mae cyfran helaeth o foroedd Cymru sydd wedi'u dynodi, fel y dywedais, yn ardaloedd morol gwarchoddedig gyda statws amgylcheddol aneglur ac mae diffygion yn eu rheolaeth, sy'n arwain at y ffaith nad yw'r cynnydd at gyflawni gofynion cyfarwyddebau Ewropeaidd yn cael eu gweithredu'n glir.

Felly, oherwydd ein dadansoddiad ni ar ôl gwranddo ar y dystiolaeth gan y rhanddeiliaid a'r cyfranwyr, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion cadarn yn yr adroddiad. Credwn ei bod yn hanfodol gweithredu'r rhain i wella polisi morol yng Nghymru, gan gynnwys blaenoriaeth uwch i bolisi morol, cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n dangos y blaenoriaethau a'r cyflawni mewn polisiau morol a chwblhau'r gwaith ar ymestyn ardaloedd gwarchodaeth arbennig erbyn diwedd Mawrth 2013—dyna'r hyn a ddywedwyd gennym yn wreiddiol, ond yn amlwg nid yw hynny'n mynd i ddigwydd. Hefyd roedd angen i'r Llywodraeth osod adroddiad gerbron y Cynulliad yn bodloni adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 erbyn Rhagfyr 2013. Dylai'r adroddiad hwnnw gynnwys arfarniad o statws amgylcheddol, llywodraethu a gorfodi mewn ardaloedd morol gwarchoddedig presennol.

I know that I am speaking to a knowledgeable audience in this place, but it is always worth repeating the importance of marine policy to Wales. The seas surrounding Wales are rich in terms of biodiversity, they have an important cultural value to so many of our communities and around 60% of the population of Wales lives in coastal areas. The marine and coastal environment contributes around £2.5 billion in terms of GDP and GVA to the Welsh economy and sustains 92,000 jobs. If ever you want to compete against Bangor University on 'University Challenge', good luck to you, but this is one of the interesting facts about Wales: the surface area of Welsh inshore waters is 16,000 sq km, which is almost twice the size of Wales. Of that, 5,600 sq km is under designation across 125 marine protected areas, equating to 35% of Welsh waters. That gives you some idea of the environment that we are talking about here.

The key conclusion of this report is that the Welsh Government—the current Government and its predecessors—and the former Welsh Office, may it rest in peace, has not given adequate resources or priority to the marine dimension. In our opinion, we need a change of priorities and resources from the terrestrial—not to the celestial in this case—to the marine if the Welsh Government is to achieve its policy ambitions.

Marine spatial planning is crucially important, but progress in this regard has been slow, and the lack of planning has created uncertainty among stakeholders and delivery partners. A large percentage of marine protected areas in Wales, as I said, have an unclear environmental status and there are deficiencies in their management, which leads us to the fact that the progress towards implementation of European directive requirements is not clear.

Therefore, because of our analysis, having listened to evidence from stakeholders and witnesses, we have made a number of firm recommendations in our report. We believe that it is crucial to implement these to improve marine policy in Wales, including giving higher priority to marine policy, publishing an action plan that demonstrates the priorities and achievements in terms of marine policy and completion of the work in extending special protected areas by the end of March 2013—that is what we originally said but, clearly, that is not going to happen. Also, the Government needed to lay a report before the Assembly, satisfying section 124 of the Marine and Coastal Access Act 2009 by the end of December 2013. That report should include an assessment of the environmental, governance and enforcement status in the current protected areas.

Ein consyrn, wrth baratoï'r adroddiad hwn bedair blynedd ar ôl cyflwyno Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r cyfrifoldebau yr oedd y Ddeddf wedi eu datganoli i Gymru—cyfrifoldebau a oedd wedi eu datganoli o San Steffan ar gais Llywodraeth Cymru. Ein barn ni—mae hyn yn amlwg, byddwn wedi meddwl, mewn unrhyw faes—yw pan fod Llywodraeth Cymru yn gwneud cais am gyfrifoldebau datganoledig, mae'n rhaid i'r Llywodraeth gymryd y dyletswyddau hynny o ddirif. Yn anffodus, nid ydym wedi canfod bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi digon o flaenoriaeth i'r cyfrifoldebau hyn. Canlyniad hyn yw bod y gwaith o gyflawni ymrwymiadau polisi a dyletswyddau statudol Llywodraeth Cymru mewn perygl, ac mae perthynas Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid arfordirol a morol wedi'i niweidio oherwydd hynny. Daethom i'r casgliad nad oedd amgylchedd morol Cymru wedi cael digon o flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, a bod angen ystyried newid mewn blaenoriaeth ac adnoddau o'r daearol i'r morol os oedd y materion hyn i gael eu gweithredu.

Mae busnesau morol a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wedi disgrifio'r meddylfryd hwn mewn gosodiad bach syml. Yr agwedd yw'r agwedd 'a morol'; atodiad i'r tir, fel petai, y mae'r môr wedi bod ym meddylfryd pobl, yn hytrach na gofod yn ei hawl ei hun, gyda pholisi morol yn ail neu'n drydedd ystyriaeth i lunwyr polisi. Er enghraifft, roedd diffyg cyfeiriad at yr amgylchedd morol yn y ddau ymgynghoriad mwyaf arwyddocaol a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar bolisi amgylchedd naturiol. Rydym wedi dweud yn yr adroddiad bod diffyg cynlluniau gofodol morol wedi creu ansicrwydd i rhanddeiliaid a phartneriaid, ac er bod cyfran uchel o foroedd Cymru wedi'u dynodi, mae eu statws yn ansicr. Yn sgîl hynny, rydym yn pryderu y bydd y penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud yn niffyg cynllun gofodol morol yn gallu cyfyngu'r opsiynau a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu ei chynllun gofodol morol. Mae hyn wedi creu'r perygl o beidio â dyrannu adnoddau gofodol cyfyngedig yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Dyma ni'n dod, wrth gloi'r anerchiad agoriadol hwn, at ymateb y Llywodraeth. Yn y fan hon mae diolchgarwch i'r cyn-Weinidog yn briodol, yn gyntaf, rwy'n credu, oherwydd roedd gan John Griffiths dalen caled yn y maes hwn, ac mewn sawl maes arall. Rwyf yn ddiolchgar iddo am ei barodrwydd bob amser i gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor, a'i barodrwydd i wrando ac i ymgynghori. Roedd hynny bach yn hwyr yn y dydd efallai, ond fe wnaeth hynny, ac roedd y pysgotwyr ym Mhen Llŷn ac mewn ardaloedd eraill yn sicr yn gwerthfawrogi ei gwmnïaeth a'i barodrwydd i gymryd diddordeb yn eu consyrn nhw. Mae hynny wedi cael ei ddweud wrthyf gan bysgotwyr ar hyd yr arfordir. Wrth ffarwelio â gŵr mor hynaws â'r cyn-Weinidog, mae'n bleser croesawu—nid wyf am ddweud 'gŵr ddim cweit mor hynaws'—gŵr hynod o benderfynol fel y Gweinidog newydd. Nid oeddwn am ddweud hyn, ond mae'n werth ei ddweud beth bynnag: nid wyf wedi gallu darganfod, wrth edrych yn ofalus ar y map, unrhyw fôr ym Mlaenau Gwent. Efallai bod modd gweld y môr. 'Nag oes', meddai'r Gweinidog. O'r gorau. Fodd bynnag, mae fy nghyfaill o Gaerffili yn dweud wrthyf fod yna ddŵr ym Mlaenau Gwent—sawl cronfa ddŵr, ond nid môr. Rwyf yn gwybod hefyd, o adnabod y Gweinidog ers rhai blynedd, ei fod wedi treulio digon o amser ar Fae Ceredigion i wybod beth yw môr. Mae hynny yn ei gyfiawnhau, yn yr ystyr hwnnw.

Our concern, when preparing this report four years after the introduction of the Marine and Coastal Access Act 2009, was that the Welsh Government had not implemented the responsibilities that the Act devolved to Wales—responsibilities that were devolved from Westminster at the request of the Welsh Government. It is our opinion—this is self-evident in any area, I would have thought—that when the Welsh Government asks for devolved powers, that Government has to take those responsibilities seriously. Unfortunately, we have not found that the Welsh Government has given adequate priority to these responsibilities. The result is that the work of implementing the policy commitments and statutory duties of the Welsh Government is put at risk, and the Welsh Government's relationship with coastal and marine stakeholders has been damaged as a result. We came to the conclusion that the Welsh marine environment has not been given adequate priority by the Welsh Government and that we need to consider a change in priority and resources from the terrestrial to the marine if these issues are to be properly resolved.

Marine businesses and key stakeholders in Wales have described this mindset in a simple statement. The attitude is an 'and marine' attitude. People's mindset has been that the sea is a bolt-on to the terrestrial, as it were, rather than a space in its own right, with marine policy a second or third consideration for policy makers. For example, there has been a lack of reference to the marine environment in the two most significant consultations that the Welsh Government has carried out on its natural environment policy. We have said in the report that the lack of marine spatial planning has created uncertainty for stakeholders and partners, and although a high percentage of Welsh seas are designated, their status is uncertain. As a result, we are concerned that decisions that will be taken in the absence of a marine spatial plan could restrict the options that will be available to the Welsh Government as it develops its marine spatial plan. This has created the risk of not allocating limited resources in the most effective way possible.

As I conclude my opening statement, I come to the Government's response. At this point, it is appropriate to thank the former Minister, first, I think, because John Griffiths did have a tough job in this area, as in a number of other areas. I am grateful to him for his willingness at all times to provide evidence to the committee, and his willingness to listen and to consult. It was perhaps a little late in the day, but he certainly did that, and the fishermen of the Llŷn peninsula and other areas very much appreciated his company and his willingness to take an interest in their concerns. That has been said to me by fishermen along the coastline. In saying farewell to such an affable gentleman as the former Minister, it is a pleasure to welcome—I do not want to say 'not quite such an affable gentleman'—such a determined gentleman as the new Minister. I was not going to say this, but I may as well: having looked very carefully at the map, I have not been able to find any sea in Blaenau Gwent. You may be able to see the sea. You cannot, according to the Minister. Okay. However, my colleague from Caerphilly tells me that there is water in Blaenau Gwent—a number of reservoirs, but no sea. I also know, having known the Minister for a number of years, that he has spent plenty of time at Cardigan bay to know what the sea looks like. That justifies his appointment in that sense.

Rwyf yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru ac i'r Gweinidog presennol—caiff ddweud ei bwt mewn munud—ac rwyf yn falch iawn o ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'n hargymhellion neu wedi'u derbyn mewn egwyddor. Mae ymateb y Llywodraeth yn dangos ei bod am gymryd camau i gynyddu'r flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i bolisi morol. Er nad yw rhai o'r camau yr ydych yn eu cymryd mor gyflym ag y byddem fel pwyllgor wedi'i ddymuno, rydym yn fodlon ar y cyfan eich bod wedi ymrwymo i wneud trefniadau a fydd yn bodloni'r rhan fwyaf o'r hyn yr ydym wedi'i argymhell erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Mae honno'n gryn dipyn o gamp, yn enwedig o ystyried yr adnoddau staff sydd gennych yn y maes hwn ac sydd wedi bod ar gael yn y gorffennol. Mae gennych staff rhagorol yn y maes hwn yn y corff newydd, sef Cyfoeth Naturiol Cymru—yr adnoddau dynol yn y corff hwnnw. Gobeithiaf y byddwch yn defnyddio'r bobl hynny fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi morol.

Byddwn yn edrych ymlaen eto at yr hyn a fydd yn digwydd ar ddechrau 2014, sef cyhoeddiad eich rhaglen morol integredig, a byddwn yn ei hasesu'n fanwl. Byddwn yn edrych ymlaen, felly, at dderbyn rhagor o fanylion oddi wrthy ch chi fel Gweinidog, gan obeithio y byddwch yn cwblhau'r gwaith yr ydych wedi ymrwymo iddo cyn diwedd 2013. Byddwn hefyd yn edrych ymlaen, fel arfer, at drafod adnoddau ar gyfer eich rhaglen forol pan fyddwch yn ymddangos o'n blaenau mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15. Felly, dymuniadau gorau i'r Gweinidog newydd, a diolch yn fawr, hyd yn hyn, am yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

I am grateful to the Welsh Government and the current Minister—he will have his say in a few moments—and I am very pleased that the Welsh Government has accepted all our recommendations or has accepted them in principle. The Government response demonstrates that it is to take steps to increase the priority given to marine policy. Although some of the steps that you are taking are not as swift as we as a committee would have wished, we are on the whole content that you are committed to making arrangements that will satisfy most of what we have recommended by the end of this calendar year. That is quite an achievement, particularly bearing in mind the staffing resource that you have in this area and that has been available in the past. You have excellent staff working in this area in the new body, Natural Resources Wales—the human resources in that body. I hope that you will make use of those individuals as you develop your marine policy.

We look forward once again to developments at the beginning of 2014 and the announcement of your integrated marine plan. We will assess it in detail. We look forward, therefore, to receiving greater detail from you as Minister. We hope that you will complete the work that you are committed to before the end of 2013. We will also look forward, as usual, to discussing resources for your marine programme when you appear before us in relation to the draft budget for 2014-15. Therefore, I wish the new Minister well and thank him for the response that we have received from the Welsh Government so far.

14:50

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I begin by supporting the Chair and in saying thank you to all the witnesses for their time and evidence. I also thank the clerk and his team for their endeavours during the inquiry, because we often forget the hard work put in by the teams that make our inquiries possible.

Our seas are an intrinsic part of our history, our way of life and our economy, and people across Wales and the UK value them highly. For our seas to continue to play this important role in people's lives and livelihoods, a healthy marine environment is vital. The UK has one of the richest marine environments in Europe. It is home to a wide variety of marine species and habitats. Additionally, we are only just beginning to understand the full extent of some of the services that the seas provide us with, such as their critical role in regulating our climate or in creating renewable energy. We have long recognised the need to manage the impact of the pressures caused by our activities, and some significant success has been achieved. However, we need to continue to adapt and develop policies that will protect our seas and marine environments for generations to come.

Dechreuaf drwy gefnogi'r Cadeirydd a thrwy ddiolch i'r holl dystion am eu hamser a'u tystiolaeth. Hoffwn ddiolch hefyd i'r clerc a'i dîm am eu hymdrechion yn ystod yr ymchwiliad, oherwydd rydym yn aml yn anghofio am y gwaith caled a wneir gan y timau sy'n ei gwneud yn bosibl i'n hymchwiliadau fynd rhagdynt.

Mae ein moroedd yn rhan annatod o'n hanes, ein ffordd o fyw a'n heconomi, ac mae pobl ledled Cymru a'r DU yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Er mwyn i'n moroedd barhau i chwarae'r rôl bwysig hon ym mywydau a bywoliaeth pobl, mae amgylchedd morol iach yn hanfodol. Mae gan y DU un o'r amgylcheddau morol cyfoethocaf yn Ewrop. Mae'n gartref i amrywiaeth eang o rywogaethau a chynefinoedd morol. Yn ogystal, megis dechrau yr ydym o ran deall maint llawn rhai o'r gwasanaethau y mae'r moroedd yn eu darparu inni, fel eu rôl hanfodol i reoleiddio ein hinsawdd neu greu ynni adnewyddadwy. Rydym wedi cydnabod ers amser bod angen rheoli effaith y pwysau a achosir gan ein gweithgareddau, a chafwyd rhywfaint o lwyddiant yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae angen inni barhau i addasu a datblygu polisiau a fydd yn gwarchod ein moroedd a'n hamgylcheddau morol am genedlaethau i ddod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I would like to claim those words as my own, but they actually come from a document signed by Ministers from all three devolved Governments and the UK Government, that document being 'The Marine Strategy Part One', published last December in response to the EU's marine strategy framework directive. So, Minister, please read what your predecessor signed up to, as it does go some way to signifying that the Welsh Government recognises the role that our maritime environment plays, and the issues identified in our inquiry need to be addressed.

Hoffwn hawlio mai fi piau'r geiriau hynny, ond maent yn dod mewn gwirionedd o ddogfen wedi'i llofnodi gan Weinidogion o bob un o'r tair Llywodraeth ddatganoledig a Llywodraeth y DU, sef 'Y Strategaeth Forol Rhan Un', a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf mewn ymateb i gyfarwydddeb fframwaith strategaeth forol yr UE. Felly, Weinidog, a fydddech cystal â darllen yr hyn yr ymrwymodd eich rhagflaenydd iddo, gan ei fod yn dangos i ryw raddau bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl y mae ein hamgylchedd morol yn ei chwarae, a bod angen mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein hymchwiliad.

14:52

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I am constantly reminded of what my predecessor has said.

Caf fy atgoffa drwy'n amser o'r hyn a ddywedodd fy rhagflaenydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:52

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good. In light of this commitment, I am pleased to note the Welsh Government's acceptance of all the recommendations in the committee's report on marine policy in Wales, even though some of them have been accepted in principle only. Despite this acknowledgement, I believe that there are not enough specific details in the response as to how the Government means to meet those recommendations. Recommendation 2 is actually the main driver of the report, and the need for the Welsh Government to deliver what I consider to be its obligation to the marine environment through this recommendation is fundamental. The response simply indicated that we can expect more detail on a new marine programme to be provided in 2013. Like the Chair, I look forward to scrutinising the detail later in the year.

Da iawn. Yn sgil yr ymrwymiad hwn, rwy'n falch o nodi bod Llywodraeth Cymru yn derbyn holl argymhellion adroddiad y pwylgor ar bolisi morol yng Nghymru, er bod rhai ohonynt wedi cael eu derbyn mewn egwyddor yn unig. Er gwaethaf y gydnabyddiaeth hon, credaf nad oes digon o fanylion penodol yn yr ymateb ynghylch sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflawni'r argymhellion hynny. Argymhelliad 2 mewn gwirionedd yw prif sbardun yr adroddiad, ac mae'r angen i Lywodraeth Cymru gyflawni'r hyn yr wyf yn ei ystyried yn un o'i rhwymedigaethau i'r amgylchedd morol drwy'r argymhelliad hwn yn hanfodol. Nododd yr ymateb yn syml y gallwn ddisgwyl i ragor o fanylion ar raglen forol newydd gael eu darparu yn ystod 2013. Fel y Cadeirydd, edrychaf ymlaen at graffu ar y manylion yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am sure that other contributors will focus on that one, so I will now move on to section 4 and recommendation 4, which reflects, as has already been pointed out, the slow progress that has been made on marine spatial planning. This is something that nearly every witness highlighted during our investigation. It is an EU requirement, and the impact that this may have on a variety of stakeholders can only create uncertainty for them and their delivery partners. Clear identification of spatial allocations for marine renewables, fisheries and marine conservation is critical for those activities to progress here in Wales. To strengthen the importance of developing a marine spatial plan, only in March this year, the European Commission published draft proposals for a new directive with the aim of establishing a common EU framework for maritime spatial planning and integrated coastal management. That directive aims to promote the sustainable use of maritime and coastal economies, and maritime and coastal resources. Again, I am sure that the Minister, having had it in his previous post, will consider these proposals fully in producing plans here in Wales for 2015. That is one of the issues that we must remember: the target for the directive is 2020, and there is progress, but we need to establish that progress in the years ahead.

Rwy'n siŵr y bydd cyfranwyr eraill yn canolbwyntio ar hynny, felly, byddaf yn awr yn symud ymlaen at adran 4 ac argymhelliad 4, sy'n adlewyrchu, fel y nodwyd eisoes, y cynnydd araf a wnaed ar gynllunio gofodol morol. Mae hyn yn rhywbeth a amlygwyd gan bron bob tyst yn ystod ein hymchwiliad. Mae'n un o ofynion yr UE, ac mae'r effaith y gallai hyn ei chael ar amryw randdeiliaid yn creu ansicrwydd iddynt hwy a'u partneriaid cyflawni. Mae nodi dyraniadau gofodol clir ar gyfer ynni adnewyddadwy morol, pysgodfeydd a chadwraeth forol yn hanfodol er mwyn i'r gweithgareddau hynny ddatblygu yma yng Nghymru. Er mwyn cryfhau pwysigrwydd datblygu cynllun gofodol morol, ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion drafft ar gyfer cyfarwydddeb newydd gyda'r nod o sefydlu fframwaith cyffredin i'r UE ar gyfer cynllunio gofodol morol a rheoli'r arfordir integredig. Nod y gyfarwydddeb honno yw hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o economïau morol ac arforol, ac adnoddau morol ac arforol. Unwaith eto, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog, ac yntau wedi ymdrin â hyn yn ei swydd flaenorol, yn ystyried y cynigion hyn yn llawn wrth baratoi cynlluniau yma yng Nghymru ar gyfer 2015. Dyna un o'r materion y mae'n rhaid inni ei gofio: y targed ar gyfer y gyfarwydddeb yw 2020, ac mae cynnydd yn cael ei wneud, ond mae angen inni atgyfnerthu'r cynnydd hwnnw yn y blynyddoedd i ddod.

Since the publication of this report, we have also seen progress made on the common fisheries policy. Again, I am sure that Minister is fully aware of that. I am sure that he will include considerations in that regard as he develops his marine plan.

Ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi gweld cynnydd o ran y polisi pysgodfeydd cyffredin. Unwaith eto, rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn gwbl ymwybodol o hynny. Rwy'n siŵr y bydd yn cynnwys ystyriaethau yn hynny o beth wrth iddo ddatblygu ei gynllun morol.

Recommendations 7 and 8 also look at taking forward marine protection areas, and we need to make significant movement on these, in particular with regard to their management, which is where we often highlighted the difficulties. Committee was concerned that, three years on—I will say three, because the Marine and Coastal Access Act 2009 was implemented in 2010—the application of that needs swift action to establish the details of future management and monitoring arrangements. The date set by the EU directive of 2008 was actually 2012-13, so we are actually hitting those targets.

We cannot forget that we will also need to work with our neighbours, because our waters border those of England and other areas. Therefore, the policies that we adopt must not only work for Wales but also for our partners. I will conclude by saying that we cannot achieve our goals for our marine environment in isolation. We cannot fall into the trap of continually making plans but not following them through. Delivery is the watchword and well done is better than well said. The Welsh Government needs to ensure that it continues to push forward to build an effective and secure marine policy within an ecosystem approach to our environment.

14:55

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to be taking part in this important debate today. I will start by echoing the words of our Chair and David Rees by thanking all those who took part in the inquiry and gave evidence, and the committee clerk and his team for putting the report together. We are blessed in this country to have some of the most sensational marine species and habitats found anywhere in the UK. The marine and coastal environment that surrounds this country is rich, not just in its biodiversity, but it is also culturally rich. It contributes billions of pounds to the Welsh economy, supporting thousands of jobs. That is why we have to carefully manage our marine environment and it is vitally important not just to our nation's future, but to that of the entire United Kingdom.

Welsh seas offer potential in terms of the production of clean, renewable energy, as well as sources of sustainable food and ecological tourism. We must ensure that we get the balance right and that we afford the necessary protections required to maintain a healthy and functioning ecosystem. That was certainly the basis behind our first recommendation because we felt that the Welsh Government has not afforded the appropriate level of priority to marine policy and strategic planning, which is required to ensure that our human activities are sensibly managed to enable sustainable development throughout Welsh seas. Having said that, I am pleased that the Government has accepted all of the recommendations made by the committee, which shows its commitment to the issue. What is needed now is an important step-change in delivery, with the Government utilising the legislative tools at its disposal, which came from the Marine and Coastal Access Act 2009, to effect changes to how our seas are managed now and into the future.

Mae argymhellion 7 ac 8 hefyd yn ystyried datblygu ardaloedd morol gwarchoddedig, ac mae angen inni wneud cryn dipyn o ran y rhain, yn enwedig o ran y ffordd y cânt eu rheoli, sef maes lle y gwnaethom yn aml dynnu sylw at yr anawsterau. Roedd y Pwyllgor yn bryderus, dair blynedd yn ddiweddarach—rwyf yn mynd i ddweud tair, gan i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ddod i rym yn 2010—fod angen gweithredu ar y broses o gymhwyso hynny yn gyflym er mwyn cadarnhau manylion trefniadau rheoli a monitro yn y dyfodol. Y dyddiad a bennwyd gan gyfarwydddeb yr UE yn 2008 oedd 2012-13 mewn gwirionedd, felly rydym mewn gwirionedd yn cyflawni'r targedau hynny.

Ni allwn anghofio y bydd angen inni hefyd weithio gyda'n cymdogion, gan fod ein dyfroedd yn ffinio â dyfroedd Lloegr ac ardaloedd eraill. Felly, rhaid i'r polisïau yr ydym yn eu mabwysiadu nid yn unig weithio i Gymru ond hefyd i'n partneriaid. Rwyf am gloi drwy ddweud na allwn gyflawni ein nodau ar gyfer ein hamgylchedd morol ar ein pennau ein hunain. Ni allwn barhau i wneud cynlluniau heb eu gweithredu. Cyflawni yw'r gair allweddol ac mae cyflawni rhywbeth yn dda yn well na dweud rhywbeth yn dda. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn parhau i fwrw ati i lunio polisi morol effeithiol a diogel drwy ddefnyddio dull ecosystem o ymdrin â'n hamgylchedd.

Rwy'n falch o gael cymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw. Dechreuaf drwy ategu geiriau ein Cadeirydd a David Rees drwy ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad ac a roddodd dystiolaeth, a chlerc y pwyllgor a'i dîm am baratoi'r adroddiad. Rydym yn ffodus yn y wlad hon bod gennym rai o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd morol mwyaf ysblennydd a geir unrhyw le yn y DU. Mae'r amgylchedd morol ac arfordol o amgylch y wlad hon yn gyfoethog, nid dim ond o ran ei bioamrywiaeth, ond mae hefyd yn gyfoethog yn ddiwylliannol. Mae'n cyfrannu biliynau o bunnoedd at economi Cymru, gan gynnal miloedd o swyddi. Dyna pam mae'n rhaid inni reoli ein hamgylchedd morol yn ofalus ac mae'n hanfodol bwysig nid yn unig i ddyfodol ein gwlad, ond i ddyfodol y Deyrnas Unedig gyfan.

Mae moroedd Cymru yn cynnig potensial o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy, glân, yn ogystal â ffynonellau bwyd cynaliadwy a thwristiaeth ecolegol. Rhaid inni sicrhau ein bod yn taro'r cydbwysedd iawn a'n bod yn rhoi'r diogelwch sy'n ofynnol i gynnal ecosystem iach a gweithredol. Dyna'n sicr oedd sail ein hargymhelliad cyntaf gan nad oeddem yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r lefel briodol o flaenoriaeth i bolisi morol a chynllunio strategol, sydd ei hangen i sicrhau bod ein gweithgareddau dynol yn cael eu rheoli'n synhwyrol er mwyn galluogi datblygu cynaliadwy ar hyd a lled moroedd Cymru. Wedi dweud hynny, rwy'n falch bod y Llywodraeth wedi derbyn yr holl argymhellion a wnaed gan y pwyllgor, sy'n dangos ei hymrwymiad i'r mater. Yr hyn sydd ei angen yn awr yw newid sylweddol, pwysig o ran y broses gyflawni, gyda'r Llywodraeth yn defnyddio'r dulliau deddfwriaethol sydd ar gael iddi, a ddeilliodd o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, i roi newidiadau ar waith i'r modd y caiff ein moroedd eu rheoli nawr ac yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Recommendations 2 and 3 are the next logical steps in that process. While the committee's recommendations were time limited, I appreciate that, with the establishment of Natural Resources Wales and the change in Minister, there may be some slippage, but I expect the detailed action plan to be available no later than the summer. I hope that the Minister, in his response, will be able to update us on that point. There are a number of recommendations regarding marine spatial planning. There has been too much fragmentation in the past, which has limited progress towards sustainable development. The co-ordinated production of marine spatial plans through the ecosystems approach is vital in moving forwards. It is also important that all stakeholders and communities are properly consulted and engaged in the process. Considering the full range of sectors and sea users in a spatial context allows decision makers to think how and where activities may take place.

I want to finally touch on recommendation 7. In the Minister's response to the committee's call for the extension of spatial protected areas to be completed by March 2013—the deadline set by his predecessor in the Countryside Council for Wales's remit letter—he said that the Welsh Government will work with Natural Resources Wales to complete the work before the end of this year. I hope that the Minister will be able to explain why there have been such delays. Will he be in a position to commit to ensuring that this will be one of his priorities in the coming months? I am pleased to have contributed to this debate and I hope that the Minister will be in a position to answer some of the specific issues that I have highlighted.

14:59

Llyr Huws Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn hefyd ategu'r diolchiadau sydd wedi cael eu rhoi i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad hwn. Hefyd, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd—achos rydym yn anghofio gwneud hynny weithiau—am fod yn llaw cadarn ar y llyw, fel bob amser, ac am ein tywys drwy'r ymgynghoriad mewn ffordd mor effeithiol. Nid yw'r adroddiad yn ddarllen hawdd iawn i Lywodraeth Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd wedi ei deffro—ac rwy'n credu ei fod wedi gwneud hynny—i'r angen i weithredu, fel rhyw fath o 'wake-up call' ar bolisi morol yng Nghymru.

Mae'r rhaglen forol integredig y mae'r Gweinidog yn cyfeirio ati yn ei ymateb i'r adroddiad wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac rwy'n gobeithio y bydd yn rhoi 'impetus' newydd i'r maes polisi hwn, ac, yn sicr, yn rhoi ffocws cliriach ar y blaenoriaethau sydd angen eu cyflawni. Fel y clywsom, mae moroedd tiriogaethol Cymru yn ddwywaith maint tirwedd Cymru, ac mae'r amgylchedd morol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu ynni adnewyddadwy i ni, mae'n ffynhonnell gynaliadwy o fwyd, mae'n diwallu dibenion hamdden, mae'n cyfrannu at ffactorau diwylliannol, a hefyd, wrth gwrs, mae'n hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'n gwbl deg, felly, i ddisgwyl i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu polisi morol yn fwy nag y mae wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf.

Argymhellion 2 a 3 yw'r camau rhesymegol nesaf yn y broses honno. Er bod i argymhellion y pwyllgor derfynau amser, gwerthfawrogaf, drwy sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru a phenodiad Gweinidog newydd, y gall fod rhywfaint o lithriant, ond disgwyliaf i'r cynllun gweithredu manwl fod ar gael erbyn yr haf fan bellaf. Gobeithio y bydd y Gweinidog, yn ei ymateb, yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y pwynt hwnnw. Mae nifer o argymhellion ynghylch cynllunio gofodol morol. Bu'r drefn yn rhy ddarniog yn y gorffennol, sydd wedi cyfyngu ar y cynnydd tuag at ddatblygu cynaliadwy. Mae'r broses gydgysylltiedig o baratoi cynlluniau gofodol morol ar sail ecosystemau yn hanfodol wrth symud ymlaen. Mae hefyd yn bwysig ymgynghori'n briodol â'r holl randdeiliaid a chymunedau a sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses. Mae ystyried holl sectorau a defnyddwyr y môr mewn cyddestun gofodol yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau feddwl sut a ble y gall gweithgareddau ddiwydd.

I gloi, hoffwn sôn am argymhelliad 7. Yn ymateb y Gweinidog i alwad y pwyllgor ar gyfer ymestyn ardaloedd gofodol gwarchoddedig i'w cwblhau erbyn mis Mawrth 2013—y terfyn amser a bennwyd gan ei ragflaenydd yn llythyr cylch gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru—dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gwblhau'r gwaith cyn diwedd y flwyddyn hon. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu egluro pam y bu oedi o'r fath. A fydd mewn sefyllfa i ymrwymo i sicrhau y bydd hyn yn un o'i flaenoriaethau yn y misoedd i ddod? Rwy'n falch o fod wedi cyfrannu at y ddatl hon a gobeithio y bydd y Gweinidog mewn sefyllfa i ateb rhai o'r materion penodol yr wyf wedi tynnu sylw atynt.

I wish to endorse the thanks given to everyone who has contributed to this inquiry. I also wish to thank the Chair—because we forget to do so on occasion—for having a firm hand on the tiller at all times and for leading us through this inquiry so effectively. The report does not make easy reading for the Welsh Government. I hope that it will have given the Government a wake-up call—and I think that it may have done so—in terms of the need to take action on marine policy in Wales.

The integrated marine programme that the Minister refers to in his response to the report is currently being developed, and I hope that will give a new impetus to this policy area, and, certainly, give a clearer focus on the priorities that need to be delivered. As we heard, the territorial seas of Wales are twice the size of the terrestrial environment of Wales, and the marine environment is used to provide renewable energy, it is a sustainable source of food, it meets leisure needs, it contributes to cultural factors, and also, of course, it is crucial to biodiversity in Wales. It is entirely fair, therefore, to expect the Welsh Government to prioritise marine policy more than it has done in past years.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Nid yw'n hawdd, rwy'n cydnabod, ddod o hyd i'r adnoddau angenrheidiol y byddai'n caniatáu i'r Llywodraeth wireddu'r cyfan o'r hyn y mae am ei wneud mewn byr o amser. Fodd bynnag, pan gofiwch, fel yr ydym wedi cael ein hatgoffa, fod yr amgylchedd morol yn cyfrannu £2.5 biliwn i GDP yng Nghymru, ac yn cynnal mwy na 92,000 o swyddi, rwy'n teimlo bod digon o le inni i gyd drïo yn galetach.

Yn ei dystiolaeth, gwrthgyferbynnodd fforwm arfordirol sir Benfro y ffaith bod 20 o bobl wedi'u clustnodi i weithio ar ddatblygu cynlluniau gofodol morol yn nwyrain Lloegr, tra bod dim ond un person oedd yn gwneud hynny yma yng Nghymru, a bod y person hwnnw neu honno bellach wedi cael ei aildasgïo i weithio ar yr ymgynghoriad ar barthau cadwraeth morol.

Yn ystod yr ymchwiliad, clywodd y pwyllgor gan nifer o randdeiliad sut oeddent wedi cyfrannu at sawl ymgynghoriad, wedi mynegi parodrwydd i gydweithio, ond wedyn bod y diffyg symud ymlaen a'r diffyg cynnydd ar rai o'r ymgynghoriadau hynny wedi peri rhwystredigaeth iddynt, wedi tanseilio, efallai, y berthynas oedd yn bodoli yn flaenorol ac yn sicr wedi erydu'r awydd ac efallai'r parodrwydd i gydweithio. Mae'r Gweinidog, er tegwch, yn ei ymateb i'r adroddiad, yn dweud ei fod yn adolygu sut orau i weithio gyda'r sefydliadau a randdeiliaid eraill i gael yr effaith cryfaf posibl. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn croesawu hynny oherwydd mae modd tynnu ar adnoddau ehangach i gyfrannu at y gwaith. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf, mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad clir ac ymroddiad i roi'r flaenoriaeth angenrheidiol i bolisi morol.

It is not easy, I acknowledge, to find the necessary resources that would enable the Government to achieve everything that it would wish to achieve in the short term. However, when you recall, as we have been reminded, that the marine environment contributes £2.5 billion to GDP in Wales, and supports more than 92,000 jobs, I feel that there is plenty of scope for us all to try harder.

In its evidence, the Pembrokeshire coastal forum contrasted the fact that 20 people had been allocated to work on developing marine spatial plans in the east of England, while only one person was doing that in Wales, and that person had now been retasked with work on the consultation on the marine conservation zones.

During the inquiry, the committee heard from a number of stakeholders how they had contributed to several consultations, had expressed a willingness to collaborate, but then the lack of moving forward and the lack of progress on some of those consultations had caused them frustration, had perhaps undermined the relationship that had previously existed and certainly had eroded the desire and perhaps the willingness to collaborate. The Minister, in fairness, in his response to the report, states that he is reviewing how best to work with the organisations and other stakeholders to achieve the maximum impact. I am sure that we all welcome that, because there is a way to draw upon wider resources to contribute to the work. However, in the first place, the Welsh Government needs to show clear leadership and commitment to giving the necessary priority to marine policy.

Over a third of Welsh waters are designated for protection, but their management clearly needs to be improved. Designation without appropriate management does not constitute protection in my book. Given the lack of resources and capacity within the Government, getting the management of existing marine protected areas right, I believe, needs to be a greater priority than designating new, highly protected marine conservation zones. We have already heard references to the disappointment that the Minister's response to recommendation 7 points to the postponement of the extension of special protection areas for seabirds. This further delay to providing seabirds in Wales with protection while at sea risks compounding current failures in delivering adequate protection for the species at existing sites. We have heard about the EU targets that were set for full extension of the special protection areas network to the marine environment by 2008, but to date only one truly marine SPA has been designated, in Carmarthen bay. We know that the Government had promised the delivery of marine extensions before the end of the financial year just gone, and this now has been pushed back further to the end of this year. There is a risk that, if rapid progress is not made, the Welsh Government will miss this key target, leading to a delay in protection for marine bird life. To truly deliver a well-managed network of MPAs a clear marine action plan is needed: one that sets out the roles of the Welsh Government, Natural Resources Wales and other stakeholders in its delivery. Failure to ensure appropriate management of existing MPAs in Welsh waters has resulted in over 50% of marine site features failing to fulfil their objective of achieving favourable conservation status. That, as I am sure that we will all agree, is not good enough.

Mae dros draean o ddyfroedd Cymru wedi'u dynodi i'w gwarchod, ond yn amlwg mae angen gwella'r ffordd y cânt eu rheoli. Nid yw dynodiad heb reolaeth briodol yn gyfystyr â gwarchod yn fy marn i. O ystyried y diffyg adnoddau a gallu o fewn y Llywodraeth, mae angen rhoi mwy o flaenoriaeth ar sicrhau bod yr ardaloedd morol gwarchoddedig presennol yn cael eu rheoli'n briodol, yn fy marn i, nag ar ddynodi parthau cadwraeth morol o dan warchodaeth ddwys. Rydym eisoes wedi clywed cyfeiriadau at y siom bod ymateb y Gweinidog i argymhelliad 7 yn awgrymu y caiff y broses o ymestyn ardaloedd gwarchodaeth arbennig ar gyfer adar y môr ei gohirio. Mae'r oedi pellach hwn cyn gwarchod adar y môr yng Nghymru tra byddant ar y môr yn peri'r risg y caiff y methiannau presennol o ran sicrhau gwarchodaeth ddigonol i'r rhywogaethau yn eu safleoedd presennol eu dwysáu. Rydym wedi clywed am dargedau'r UE a bennwyd ar gyfer y broses o ymestyn y rhwydwaith ardaloedd gwarchodaeth arbennig yn llawn i'r amgylchedd morol erbyn 2008, ond hyd yma dim ond un ardal gwarchodaeth arbennig forol mewn gwirionedd sydd wedi cael ei dynodi, a hynny ym mae Caerfyrddin. Gwyddom fod y Llywodraeth wedi addo cyflwyno estyniadau morol cyn diwedd y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben, ac mae hyn bellach wedi cael ei ohirio eto tan ddiwedd y flwyddyn hon. Mae perygl, os nad oes cynnydd cyflym yn cael ei wneud, y bydd Llywodraeth Cymru yn methu â chyflawni'r targed allweddol hwn, gan arwain at oedi cyn gwarchod bywyd adar morol. Er mwyn darparu rhwydwaith a reolir yn dda o ardaloedd morol gwarchoddedig mae angen cynllun gweithredu morol clir: un sy'n nodi rolau Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth ei gyflwyno. Mae methu â sicrhau bod yr ardaloedd morol gwarchoddedig presennol yn cael eu rheoli'n briodol yn nyfroedd Cymru wedi arwain at dros 50% o nodweddion morol safleoedd yn methu â chyflawni'r nod o gyrraedd statws cadwraeth ffafriol. Nid yw hynny, fel y byddwn i gyd yn cytuno mae'n siŵr gennyf, yn ddigon da.

15:04

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I start by thanking the Chair and other committee members for their work during the course of this inquiry. I would particularly like to thank Julie James, who made an outstanding contribution to the work of the committee. Her knowledge proved invaluable to the committee's work.

One of the recurring points raised during this inquiry was the importance and complexity of the marine environment, and the lack of appropriate recognition of this by successive Welsh Governments; this was reflected in the nature of our recommendations. I welcome the fact that 10 of the committee's recommendations have been accepted, particularly recommendation 5, on sharing data with other bodies.

One thing that has been repeated is the lack of marine spatial planning. There is a huge opportunity to share data from other bodies. Evidence was given by the Crown Estate, universities and other organisations about the data that they had that could be made available to the Welsh Government to help inform its plans. I urge the Minister to take up the offers made by those institutions to share their data, not least because it would free up resources that would otherwise be spent on gathering those data to focus on other aspects of the marine environment.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Cadeirydd ac aelodau eraill y pwyllgor am eu gwaith yn ystod yr ymchwiliad hwn. Yn benodol, hoffwn ddiolch i Julie James, a wnaeth gyfraniad rhagorol i waith y pwyllgor. Bu ei gwybodaeth yn amhrisiadwy i waith y pwyllgor.

Un o'r pwyntiau a gododd dro ar ôl tro yn ystod yr ymchwiliad hwn oedd pwysigrwydd a chymhlethdod yr amgylchedd morol, a diffyg cydnabyddiaeth briodol o hyn gan Lywodraethau olynol Cymru; adlewyrchwyd hyn yn natur ein hargymhellion. Croesawaf y ffaith bod 10 o argymhellion y pwyllgor wedi cael eu derbyn, yn enwedig argymhelliad 5, ar rannu data gyda chyrrff eraill.

Un peth sydd wedi cael ei ailadrodd yw'r diffyg cynllunio gofodol morol. Mae cyfle gwych i rannu data gan gyrrff eraill. Rhoddodd Ystad y Goron, prifysgolion a sefydliadau eraill dystiolaeth ar y data a oedd ganddynt y gellid eu rhoi i Lywodraeth Cymru i helpu i lywio ei chynlluniau. Anogaf y Gweinidog i fanteisio ar y cynigion a wnaed gan y sefydliadau hynny i rannu eu data, yn bennaf am y byddai'n rhyddhau adnoddau a fyddai fel arall yn cael eu defnyddio ar gasglu'r data hynny i ganolbwyntio ar agweddau eraill ar yr amgylchedd morol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am, however, very disappointed that recommendation 2, to publish the action plan for the marine environment, was accepted in principle only. The committee set the deadline of April 2013 precisely because of the specific recommendations that needed to be achieved before Natural Resources Wales came into being. The deadline was also intended to focus Natural Resources Wales and the Welsh Government on the challenge that exists in the marine environment given the fact that there has not been a clear strategic direction, which the chair acknowledged in the Chamber today. There has not been a clear strategic direction from successive Welsh Governments on the marine environment and marine spatial planning.

Minister, I very much welcome the fact that your portfolio now joins together the environment in one sense and fisheries. I think that it was amply demonstrated that some of the communication problems and difficulties faced in the marine conservation zone consultations arose out of the separation of these areas in the Welsh Government, and out of not looking at the marine environment as a whole environment that encompasses economic activity as well as environmental activity.

I know that you have promised, as your response states, that you will provide more detail to us on this in 2013. You have accepted recommendation 2 and will provide those details this year. However, I ask you to provide them sooner rather than later, because we, as a committee, felt that in order to achieve the other recommendations a clear strategic direction needed to be set and a path laid out. One of the witnesses who gave evidence to us said that

'part of the problem at the moment with the resourcing and delivery environment in the Welsh Government for marine issues is that there are a multitude of policy and delivery issues that have to be delivered. They are all trying to be delivered simultaneously and that means that all of them get so far, but you do not end up doing any of them well. I suspect that there would be more to be gained by dealing with fewer issues, and by tackling the priority issues and making sure that they are done properly and well, rather than spreading yourself so thinly that you are making a token effort to make progress across all fronts, but are not actually making any meaningful progress'.

I echo David Rees's words that we need to hear 'well done', not 'well said'. That is why recommendation 2 and the time limits that have been set in the other recommendations were felt by the committee to be so important.

Fodd bynnag, rwy'n siomedig iawn bod argymhelliad 2, i gyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer yr amgylchedd morol, wedi cael ei dderbyn mewn egwyddor yn unig. Pennodd y pwyllgor derbyn amser, sef Ebrill 2013 yn union oherwydd yr argymhellion penodol yr oedd angen eu cyflawni cyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ddod i fodolaeth. Bwriad y terfyn amser hefyd oedd sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar yr her sy'n bodoli yn yr amgylchedd morol o ystyried y ffaith na fu cyfeiriad strategol clir, y cydnabu'r cadeirydd yn y Siambr heddiw. Ni fu cyfeiriad strategol clir gan Lywodraethau olynol Cymru ar yr amgylchedd morol a chynllunio gofodol morol.

Weinidog, croesawaf yn fawr y ffaith bod eich portffolio bellach yn uno'r amgylchedd mewn un ystyr â physgodfeydd. Credaf inni weld yn glir bod rhai o'r problemau a'r anawsterau cyfathrebu a wynebir mewn ymgynghoriadau ynglŷn â pharthau cadwraeth morol yn deillio o'r ffaith bod y meysydd hyn wedi'u gwahanu yn Llywodraeth Cymru, ac o beidio ag ystyried yr amgylchedd morol fel amgylchedd cyfan sy'n cwmpasu gweithgarwch economaidd yn ogystal â gweithgarwch amgylcheddol.

Gwn eich bod wedi addo, fel y noda eich ymateb, y byddwch yn rhoi mwy o fanylion inni ar hyn yn 2013. Rydych wedi derbyn argymhelliad 2 a byddwch yn darparu'r manylion hynny eleni. Fodd bynnag, gofynnwch ichi eu darparu heb oedi, oherwydd rydym ni, fel pwyllgor, yn teimlo er mwyn cyflawni'r argymhellion eraill fod angen pennu cyfeiriad strategol clir a gosod llwybr. Dywedodd un o'r tystion a roddodd dystiolaeth inni

rhan o'r broblem ar hyn o bryd o ran darparu adnoddau a'r amgylchedd cyflawni yn Llywodraeth Cymru ar gyfer materion morol yw bod lluo o faterion polisi a chyflawni y mae'n rhaid eu cyflawni. Ceisir cyflawni pob un ar yr un pryd ac mae hynny'n golygu bod pob un ohonynt yn cyrraedd ryw bwynt, ond nad oes yr un yn cael ei gyflawni'n dda. Rwy'n amau y byddai'n well delio â nifer lai o faterion, a mynd i'r afael â'r materion â blaenoriaeth a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n briodol ac yn dda, yn hytrach na cheisio gwneud gormod, a cheisio gwneud cynnydd ar bob agwedd ond heb wneud unrhyw gynnydd ystyrlon mewn gwirionedd.

Ategap eiriau David Rees fod angen inni wneud pethau'n dda yn hytrach na dweud pethau'n dda. Dyna pam bod y pwyllgor yn teimlo bod argymhelliad 2 a'r terfynau amser sydd wedi'u pennu yn yr argymhellion eraill mor bwysig.

15:09

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am extremely grateful to be taking part in this debate. As the Chair of the Environment and Sustainability Committee has said, it is a particularly important topic and one that has not received, by any stretch of the imagination, the prioritisation that it merits. I would also like to add my thanks to those of the Chair and others to both the committee staff and the Research Service, and also to acknowledge the particularly significant role that Julie James, who re-joins us in the Senedd this week, has played in this particular report.

Rwy'n hynod ddiolchgar o gael cymryd rhan yn y ddadl hon. Fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, mae'n bwnc arbennig o bwysig ac yn un nad yw wedi derbyn y flaenoriaeth y mae'n deilwng ohoni o bell ffordd. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Cadeirydd ac eraill, i staff y pwyllgor a'r Gwasanaeth Ymchwil, a hefyd gydnabod y rôl arbennig o arwyddocaol y mae Julie James, sy'n ailymuno â ni yn y Senedd yr wythnos hon, wedi'i chwarae yn yr adroddiad penodol hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In many ways, the central conclusion of our investigation is that the marine environment has been largely neglected by all levels of government in Wales and the UK. This has been the case for decades, so that is not in any sense a partisan point. In saying so, I think that it is important that we do not look backwards but look forwards. The true potential of our marine habitats has been neither understood nor exploited. By 'potential', I am not just referring to fishing, tourism and renewable energy generation, although these are important. It is vital that we take account of the fish stocks, the bird life and, indeed, the much-needed protection for sustainable conservation. In conducting our inquiry I believe that I can speak for all members of the committee in saying that our appreciation of the nuanced complexities that came across to us through the many stakeholder contributions that we received in our evidence sessions has been refreshed, and we have gained a much closer understanding of the importance of the marine environment.

Unlike the well-defined and relatively better understood spatial conformity on land, our seas and coastlines combine to form a multi-dimensional shared space, which somehow has to accommodate the needs of fish, birds, marine mammals and, indeed, the occasional human. Such a mix requires a level of spatial planning not previously seen in the UK. While I am reassured that such plans are on the cards, in line with existing integrated coastal zone management and some more advanced ongoing work in England, it is clear that we need to further enhance the process in Wales. As part of this, I am very pleased to see that the Welsh Government has accepted—to varying degrees, admittedly—all 13 of the recommendations put forward in our report. I look forward to monitoring progress on those with my committee colleagues.

I welcome the Minister's appointment and, indeed, as Antoinette, who has now left us, said in her remarks, it is important that the portfolio now has a more coherent shape to it to take forward progress. It is vital that the Minister, and, indeed, Natural Resources Wales staff, appear before our committee on a regular basis so that we can ensure that progress is made and that the pace of progress is maintained.

The somewhat difficult birth and ongoing teething problems of Natural Resources Wales make this a somewhat difficult exercise. It is particularly important that we maximise the impact of the recommendations that the Government has accepted. Historically, there has been a clear deficit of marine expertise, both in the Environment Agency Wales and the Countryside Council for Wales, with key units remaining part of the Welsh Government. Now that these have been brought together in the new body, we are presented with a genuine opportunity to lead the UK on marine management. At this point, it is right to note that it is a Welsh lady, indeed, a native of Dwyfor Meirionnydd and my own region of Mid and West Wales, in the form of Lowri Evans, who heads up the European Union's section in this particular area of work in the Directorate-General for Maritime Affairs and Fisheries. That is really important for us in taking this forward.

Mewn sawl ffordd, casgliad canolog ein hymchwiliad yw bod yr amgylchedd morol wedi cael ei esgeuluso i raddau helaeth gan bob lefel o lywodraeth yng Nghymru a'r DU. Mae hyn wedi bod yn wir ers degawdau, felly nid yw hynny mewn unrhyw fodd yn bwynt pleidiol. Wedi dweud hynny, credaf ei bod yn bwysig nad ydym yn edrych yn ôl ond yn edrych ymlaen. Nid yw gwir botensial ein cynefinoedd morol wedi cael ei ddeall ac ni fanteiswyd arno ychwaith. O ran 'potensial', nid wyf yn cyfeirio at bysgota, twristiaeth a chynhyrchu ynni adnewyddadwy yn unig, er bod y rhain yn bwysig. Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y stociau pysgod, adar ac, yn wir, y camau gwarchod sydd eu hangen yn ddirfawr er mwyn sicrhau cadwraeth gynaliadwy. Wrth gynnal ein hymchwiliad credaf y gallaf siarad ar ran pob un o aelodau'r pwyllgor a dweud ein bod wedi dod i ddeall o'r newydd y cymhlethodau cynnil a gyflewyrdd inni drwy'r cyfraniadau lu gan randdeiliaid yn ein sesiynau tystiolaeth, a'n bod yn deall pwysigrwydd yr amgylchedd morol yn llawer gwell erbyn hyn.

Yn wahanol i'r cydffurfiad gofodol pendant a ddeellir yn gymharol well ar y tir, mae ein moroedd a'n morliniau yn dod ynghyd i ffurfio gofod cyffredin amldimensiwn, sydd rhywsut yn gorfod diwallu anghenion pysgod, adar, mamaliaid y môr ac, yn wir, ambell i fod dynol. Mae cymysgedd o'r fath yn gofyn am lefel o gynllunio gofodol nas gwelwyd o'r blaen yn y DU. Er fy mod wedi fy sicrhau bod cynlluniau o'r fath ar y gweill, yn unol â'r gwaith presennol ar reoli parthau arforol integredig a rhywfaint o waith mwy datblygedig sy'n mynd rhagddo yn Lloegr, mae'n amlwg bod angen inni wella'r broses yng Nghymru ymhellach. Fel rhan o hyn, rwy'n falch iawn o weld bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn—i wahanol raddau, rhaid cyfaddef—pob un o'r 13 o argymhellion a gyflwynwyd yn ein hadroddiad. Edrychaf ymlaen at fonitro cynnydd ar y rheini gyda fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor.

Croesawaf benodiad y Gweinidog ac, yn wir, fel y dywedodd Antoinette, sydd bellach wedi ymadael, yn ei sylwadau, mae'n bwysig bod i'r portffolio natur fwy cydlynol bellach er mwyn gweithredu. Mae'n hanfodol bod y Gweinidog, ac, yn wir, staff Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ymddangos gerbron ein pwyllgor yn rheolaidd fel y gallwn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod cyflymder y cynnydd yn cael ei gynnal.

Mae lansiad braidd yn anodd a phroblemau cychwynnol parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud hwn yn ymarfer braidd yn anodd. Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn manteisio i'r eithaf ar effaith yr argymhellion y mae'r Llywodraeth wedi'u derbyn. Yn hanesyddol, bu diffyg amlwg o ran arbenigedd morol, yn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, gydag unedau allweddol yn aros yn rhan o Lywodraeth Cymru. Gan fod y rhain wedi cael eu dwyn ynghyd yn y corff newydd bellach, cawn gyfle gwirioneddol i arwain y gad yn y DU o ran rheoli morol. Ar y pwynt hwn, mae'n briodol nodi mai merch o Gymru, yn wir, brodores o Ddwyfor Meirionnydd a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, fy rhanbarth i, sef Lowri Evans, sy'n arwain adran yr Undeb Ewropeaidd yn y maes gwaith penodol hwn yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Faterion Morol a Physgodfeydd. Mae hynny'n bwysig iawn inni wrth fwrw ymlaen â hyn.

Historically, there has been a deficit, and now we have an opportunity. To that end, we must ensure both that our knowledge base is retained and that the personnel base significantly expanded. Throughout our evidence sessions, it was absolutely clear that there has not been a sufficient concentration of expertise within the regulatory and advisory bodies. That must change.

I also like to take this opportunity to ask the Minister to use his response to outline how he intends to address this deficit in the coming years. While there may be a number of reasons for the failure to implement the special protection area extensions, fears have been raised with me that the decision to integrate the marine extensions into the consultation that is now due gives cause for concern. In summing up, I ask that the Minister gives his absolute assurance that there will be no further slippage on this important matter, given the protected areas that merit our further attention.

15:15

Alun Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Like others before me, I thank all Members from all sides of the Chamber who have taken part in this debate this afternoon, and also for the way in which they have conducted this inquiry and report. Like others, I very much welcome my very good friend from Swansea, Julie James, back to the Chamber and back to this place. You were greatly missed in the committee; I say that as a Deputy Minister who was terrified by some of your questions, which I occasionally tried to answer. I know that the committee and other Members will also join me in thanking my predecessor in this role, John Griffiths, for his work on taking forward this policy area.

I am forever grateful to Dafydd Elis-Thomas, Chair of the committee, for the way in which he steered the inquiry and presented the report to Members this afternoon. In doing so, he has well identified the report's clear themes and priorities and the concerns of Members.

I want to say this at the outset: I fully recognise and acknowledge the fundamental point that the committee makes about the relative prioritisation of marine policy in successive Welsh Governments. We accept that point completely and without qualification. We want to take marine policy forward in a serious way that acknowledges its importance not only to the people and communities of the coast but to the whole country, and which recognises our domestic and international responsibilities. I hope that I will go some way this afternoon to reassure the committee and the Chamber of the priority that I will ensure that this policy area will have within this Government in the time that I am in office.

Members of the committee will be aware that I strengthened the fisheries team as Deputy Minister. I saw that we required a strengthened team in that policy area to ensure that we were delivering on our responsibilities. I will bring the same seriousness and priority to the remaining marine policy areas.

Yn hanesyddol, bu diffyg, ac erbyn hyn mae gennym gyfle. I'r perwyl hwnnw, rhaid inni sicrhau bod ein sylfaen wybodaeth yn cael ei chadw a bod personél yn cael ei ehangu'n sylweddol. Drwy gydol ein sesiynau tystiolaeth, roedd yn gwbl glir nad oes digon o arbenigedd o fewn y cyrff rheoleiddio a chynghori. Rhaid i hynny newid.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ofyn i'r Gweinidog ddefnyddio ei ymateb i amlinellu sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn y blynyddoedd i ddod. Er y gall fod nifer o resymau am y methiant i weithredu'r estyniadau i'r ardaloedd gwarchodaeth arbennig, codwyd ofnau gyda mi fod y penderfyniad i integreiddio'r estyniadau morol o fewn yr ymgynghoriad sydd bellach ar droed yn peri pryder. I grynhoi, gofynnaf i'r Gweinidog roi ei sicrwydd llwyr na fydd dim llithriad pellach ar y mater pwysig hwn, o ystyried yr ardaloedd gwarchoddedig sy'n haeddu ein sylw pellach.

Fel eraill sydd eisoes wedi siarad, hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau o bob ochr i'r Siambr sydd wedi cymryd rhan yn y ddatl hon y prynhawn yma, a hefyd am y ffordd y maent wedi cynnal yr ymchwiliad ac wedi llunio'r adroddiad hwn. Fel eraill, croesawaf yn fawr iawn fy ffrind da o Abertawe, Julie James, yn ôl i'r Siambr ac yn ôl i'r lle hwn. Roedd colled fawr ar eich ôl yn y pwyllgor; rwy'n dweud hynny fel Dirprwy Weinidog a oedd yn ofni rhai o'ch cwestiynau, y byddwn yn ceisio eu hateb o bryd i'w gilydd. Gwn y bydd y pwyllgor ac Aelodau eraill hefyd yn ymuno â mi i ddiolch i'm rhagflaenydd yn y rôl hon, John Griffiths, am ei waith o ran datblygu'r maes polisi hwn.

Rwy'n fythol ddiolchgar i Dafydd Elis-Thomas, Cadeirydd y pwyllgor, am y modd iddo lywio'r ymchwiliad a chyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau y prynhawn yma. Wrth wneud hynny, mae wedi nodi yn dda themâu a blaenoriaethau clir yr adroddiad a materion sydd o bwys i'r Aelodau.

Rwyf am ddweud hyn ar y dechrau: rwy'n sylweddoli ac yn cydnabod yn llwyr y pwynt sylfaenol y mae'r pwyllgor yn ei wneud am y graddau y cafodd polisi morol ei flaenoriaethu gan Lywodraethau olynol Cymru. Rydym yn derbyn y pwynt hwnnw yn llwyr ac yn ddi-amod. Rydym yn awyddus i ddatblygu polisi morol mewn ffordd ddifrifol sy'n cydnabod ei bwysigrwydd nid yn unig i bobl a chymunedau'r arfordir, ond i'r wlad gyfan, ac sy'n cydnabod ein cyfrifoldebau domestig a rhyngwladol. Gobeithio y byddaf yn gwneud rhywfaint y prynhawn yma i dawelu meddwl y pwyllgor a'r Siambr ynghylch y flaenoriaeth y byddaf yn sicrhau y bydd y Llywodraeth hon yn ei rhoi i'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod y byddaf yn y swydd.

Bydd aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol imi gryfhau'r tîm pysgodfeydd fel Dirprwy Weinidog. Gwelais fod angen tîm cryfach arnom yn y maes polisi hwnnw er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau. Byddaf yn ymdrin â'r meysydd polisi morol eraill gyda'r un difrifoldeb ac yn rhoi'r un flaenoriaeth iddynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Members in their contributions reflected on the importance of developing integrated and cross-cutting policies. I accept the holistic approach that Members called for. Points have been well made in debate this afternoon that the marine environment should not be viewed in isolation, and that it should complement the Welsh Government's key policy priorities, including jobs and a focus on communities. That well-made point is accepted by Government.

I am committed to taking forward the ecosystem-based approach that Government has already pioneered. Our ambitions are to achieve clean, healthy, safe, productive and biologically diverse seas, while fully recognising the needs of local communities and the country as a whole. We have tremendous opportunities in our seas for developing marine and tidal energy, and I hope that Members will be assured that that will also be a priority for me.

Members referred to the changes made to these portfolios over the last few weeks and months. Like others, I think that combining marine policy and fisheries within one portfolio will allow us to achieve better integration. Bill Powell in particular will be glad to hear that I am again wearing my listening wellies this afternoon, as I was yesterday. As such, I got it right—he did not. [Laughter.] I will not embarrass him further, not today, at least. I hope that he and other Members will be pleased to hear that as part of establishing my new department, I am taking the opportunity to bring together our work on marine policy and fisheries, and we will create a single unit and division within my department to deal with all policies relating to marine policy and fisheries.

Although this is not a debate specifically on fisheries, Members have referred to it in conversation and in debate. The opportunities provided by the revised common fisheries policy are very clear and real. We have spoken today about the holistic management of the waters around our coasts. We have already spoken to the Irish Government and our colleagues in the UK administrations about the opportunities provided by the regional management of, in particular, the Irish sea waters. I hope that we will be able to join together on all sides of the Chamber in looking at how we manage the waters around our coast, particularly in terms of the Irish sea. I hope that we will be able to establish a regional structure within the Irish sea that involves all the different governments and administrations on both sides of those waters, as well as representatives in Governments of other member states who have a relevant and fair interest in the Irish sea, to put many of these principles into action and into practice in managing the waters around our coast and the waters within which we have an interest. I hope that we will be able to do that, certainly within the coming few months and years.

Myfyriondd aelodau yn eu cyfraniadau ar bwysigrwydd datblygu polisiau integredig a thrawsbynciol. Derbyniat y dull cyffannol y galwodd yr Aelodau amdano. Gwnaed y pwyntiau yn dda yn y ddadl y prynhawn yma na ddylai'r amgylchedd morol gael ei ystyried ar ei ben ei hun, ac y dylai ategu blaenoriaethau polisi allweddol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys swyddi a ffocws ar gymunedau. Mae'r pwynt da hwnnw yn cael ei dderbyn gan y Llywodraeth.

Rwy'n ymrwymedig i fwrw ymlaen â'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau y mae'r Llywodraeth eisoes wedi rhoi cynnig arno. Ein huchelgais yw sicrhau moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol, tra'n cydnabod yn llawn anghenion cymunedau lleol a'r wlad yn ei chyfanrwydd. Mae gennym gyfleoedd aruthrol yn ein moroedd ar gyfer datblygu ynni'r môr a'r llanw, ac gobeithio y bydd yr Aelodau wedi cael sicrwydd y bydd hynny hefyd yn flaenoriaeth imi.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y newidiadau a wnaed i'r portffolios hyn dros yr ychydig wythnosau a misoedd diwethaf. Fel eraill, credaf y bydd cyfuno polisi a physgodfeydd morol yn un portffolio yn ein galluogi i sicrhau gwell integreiddio. Bydd Bill Powell yn arbennig yn falch o glywed fy mod unwaith eto yn gwisgo fy esgidiau glaw sy'n gwrandio y prynhawn yma, fel yr oeddwn ddoe. Fel y cyfryw, fi oedd yn iawn—nid efe. [Chwerthin.] Ni fyddaf yn codi cywilydd arno ymhellach, nid heddiw, o leiaf. Gobeithio y bydd ef ac Aelodau eraill yn falch o glywed fel rhan o'r broses o sefydlu fy adran newydd, rwy'n achub ar y cyfle i uno ein gwaith ar bolisi morol a physgodfeydd, a byddwn yn creu un uned ac is-adran o fewn fy adran i ymdrin â'r holl bolisiau sy'n ymwneud â pholisi morol a physgodfeydd.

Er nad yw hon yn drafodaeth benodol ar bysgodfeydd, mae Aelodau wedi cyfeirio atynt mewn sgorsiau a dadleuon. Mae'r cyfleoedd a ddarperir gan y polisi pysgodfeydd cyffredin diwygiedig yn glir ac yn real iawn. Rydym wedi sôn heddiw am y broses o reoli'r dyfroedd o amgylch ein harfordiroedd yn gyffannol. Rydym eisoes wedi siarad â Llywodraeth Iwerddon a'n cymheiriaid yng ngweinyddiaethau'r DU ynghylch y cyfleoedd a ddarperir gan y broses o reoli'r rhanbarthol ddyfroedd môr Iwerddon, yn arbennig. Gobeithio y byddwn yn gallu ymuno â'n gilydd ar bob ochr i'r Siambr o ran edrych ar sut rydym yn rheoli'r dyfroedd o amgylch ein harfordir, yn enwedig o ran môr Iwerddon. Gobeithio y byddwn yn gallu sefydlu strwythur rhanbarthol o fewn môr Iwerddon sy'n cynnwys yr holl wahanol lywodraethau a gweinyddiaethau ar bob ochr i'r dyfroedd hynny, yn ogystal â chynrychiolwyr mewn Llywodraethau o aelod-wladwriaethau eraill sydd â diddordeb perthnasol a theg ym môr Iwerddon, i roi llawer o'r egwyddorion hyn ar waith o ran rheoli'r dyfroedd o amgylch ein harfordir a'r dyfroedd y mae gennym ddiddordeb ynddynt. Gobeithio y byddwn yn gallu gwneud hynny, yn sicr o fewn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

I have said that we will ensure that the work on marine conservation zones will complement the review of the management of our existing marine sites and that both should complement the wider work on marine planning and the marine strategy framework directive. I understand the concerns that have been expressed by Members on all sides this afternoon. Those concerns have been noted and will be recognised in how we take this forward. One of the key themes that I hope we will be able to address in developing policy in this way is that of communication and working with people, especially the local coastal communities, and reflecting both the ecosystem approach and the needs of the fisheries industries around our coasts. I hope that Members will be reassured that I will continue to ensure that we have a balanced approach that recognises the needs of conservation and also recognises the economic needs of our coastal communities.

I disagree with the points that Bill Powell made on the establishment of Natural Resources Wales. We are working very closely in partnership in establishing the new body. I hope that we will be able to ensure that the marine programme within NRW is effectively supported and that we will be able to bring together a number of different partners that have an interest in progressing this policy, particularly some of our universities, which have some excellent expertise that we need to mobilise and deploy. Again, talking about the wider policy area, I have seen for myself how the Ireland-Wales EU programmes have developed and have benefitted the development of knowledge and expertise around the management of the waters of the Irish sea. I hope that we will be able to continue to do that.

Members have made a number of points regarding the future planning and our ability to deliver this within a reasonable time frame. I can give Members a commitment today that we have already been progressing the fisheries strategy, which I hope we will be able to publish in the coming few months. I will ensure that it is integrated with the wider marine plan and we will publish this prior to the end of the year. I have heard what you have said, Antoinette, and we will do that sooner rather than later.

I will finish, if I may, by repeating a small point on some of the powers available to us. I signed the fisheries concordat with other UK administrations last May. We are taking forward the devolution of significant aspects of management of the fisheries in terms of registration of the fleet and quota management. I will make further statements to this place on those matters. The final point that I will make, with your indulgence, temporary Chair, is that it is clear that we need additional powers in order to manage the marine environment outside our own immediate waters. I have raised those matters with the United Kingdom Government already and we will continue to raise those matters. We have, as a Welsh Government, already made this a part of our written evidence to the Silk commission. So, we will seek those additional powers and we will work with the committee and others to deliver our shared ambitions to deliver a clean and healthy marine environment.

Rwyf wedi dweud y byddwn yn sicrhau y bydd y gwaith ar barthau cadwraeth morol yn ategu'r adolygiad o'r broses o reoli ein safleoedd morol presennol ac y dylai'r ddau ategu'r gwaith ehangach ar gynllunio morol a'r gyfarwydddeb fframwaith strategaeth forol. Deallaf y pryderon a fynegwyd gan Aelodau ar bob ochr y prynhawn yma. Nodwyd y pryderon hynny ac fe'u cydnabyddir o ran y ffordd rydym yn bwrw ymlaen â hyn. Un o'r themâu allweddol yr wyf yn gobeithio y byddwn yn gallu rhoi sylw iddi wrth ddatblygu polisi yn y modd hwn yw cyfathrebu a gweithio gyda phobl, yn enwedig y cymunedau arfordirol lleol, ac adlewyrchu'r dull ecosystemau ac anghenion diwydiannau pysgodfeydd o amgylch ein harfordiroedd. Gobeithio y bydd yr Aelodau wedi cael sicrwydd y byddaf yn parhau i sicrhau bod gennym ddull cytbwys sy'n cydnabod anghenion cadwraeth a hefyd yn cydnabod anghenion economaidd ein cymunedau arfordirol.

Anghytunaf â'r pwyntiau a wnaeth Bill Powell ar sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn gweithio'n agos iawn mewn partneriaeth i sefydlu'r corff newydd. Gobeithio y byddwn yn gallu sicrhau bod y rhaglen forol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei chefnogi'n effeithiol ac y byddwn yn gallu dwyn ynghyd nifer o bartneriaid gwahanol sydd â diddordeb mewn datblygu'r polisi hwn, yn arbennig rhai o'n prifysgolion, sydd â chryn arbenigedd y mae angen inni fanteisio arno. Unwaith eto, gan drafod y maes polisi ehangach, rwyf wedi gweld drosof fy hun sut y mae rhaglenni Iwerddon-Cymru yr UE wedi datblygu ac wedi bod o fudd i'r broses o ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd yn ymwneud â rheoli dyfroedd môr Iwerddon. Gobeithio y byddwn yn gallu parhau i wneud hynny.

Mae Aelodau wedi gwneud nifer o bwyntiau am y gwaith o gynllunio yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni hyn o fewn cyfnod rhesymol. Gallaf addo i Aelodau heddiw ein bod eisoes wedi bod yn datblygu'r strategaeth pysgodfeydd, yr wyf yn gobeithio y byddwn yn gallu ei chyhoeddi yn ystod y misoedd sydd i ddod. Byddaf yn sicrhau ei bod yn cael ei hintegreiddio â'r cynllun morol ehangach a byddwn yn cyhoeddi hyn cyn diwedd y flwyddyn. Rwyf wedi clywed yr hyn a ddywedwyd gennych, Antoinette, a byddwn yn gwneud hynny yn fuan.

Rwyf am orffen, os caf, drwy ailadrodd pwynt bach am rai o'r pwerau sydd ar gael inni. Llofnodais y concordat pysgodfeydd â gweinyddiaethau eraill y DU fis Mai diwethaf. Rydym yn bwrw ymlaen â datganoli agweddau arwyddocaol ar reoli'r pysgodfeydd o ran cofrestru'r fflyd a rheoli cwota. Byddaf yn gwneud datganiadau pellach i'r lle hwn ar y materion hynny. Y pwynt olaf yr wyf am ei wneud, os caf, Gadeirydd dros dro, yw ei bod yn amlwg bod angen pwerau ychwanegol er mwyn rheoli'r amgylchedd morol y tu allan i'n dyfroedd uniongyrchol. Rwyf wedi codi'r materion hynny gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes a byddwn yn parhau i godi'r materion hynny. Rydym, fel Llywodraeth Cymru, eisoes wedi gwneud hyn yn rhan o'n tystiolaeth ysgrifenedig i gomisiwn Silk. Felly, byddwn yn ceisio'r pwerau ychwanegol hynny a byddwn yn gweithio gyda'r pwyllgor ac eraill i gyflawni ein huchelgais ar y cyd i ddarparu amgylchedd morol glân ac iach.

15:24

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call on the Chair of the Environment and Sustainability Committee, Dafydd Elis-Thomas, to respond.

Diolch, Weinidog. Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Dafydd Elis-Thomas, i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:24

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth ymateb i'r ddadl hon a'i chloi, carwn gyfeirio at rai o'r digwyddiadau llawen a thrist sydd wedi cymryd lle ers inni gyhoeddi'r adroddiad. Cyfeiriwyd at y ddogfen gan yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn â chynllunio gofodol morol, ac mae'n braf meddwl bod ein hargymhellion yn cyd-fynd â fframweithiau sy'n newid yn neddfau Ewrop. Fe gefais innau gyfle hefyd i annerch cynhadledd yn adeilad y Llywodraeth—nid wyf yn cael mynd i'r fan honno yn aml iawn—yng Nghyffordd Llandudno. Cynhadledd ar ddyfodol Môr Iwerddon ydoedd ac roedd yn dangos y cydweithrediad sydd yn digwydd yn y dimensiwn hwnnw eto rhwng y prifysgolion a'r Llywodraethau yn yr ardal honno.

In responding and concluding this debate, I would like to refer to some of the joyous and sad incidents that have taken place since the publication of the report. Reference was made to the document produced by the European Union on marine spatial planning, and I am pleased that our recommendations correspond to the frameworks that are evolving within European legislation. I also had an opportunity to address a conference at the Government building in Llandudno Junction—I do not often get to visit that building. It was a conference on the future of the Irish sea and it demonstrated the collaboration that is ongoing in that dimension between the universities and Governments in that particular area.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mater trist y carwn gyfeirio ato hefyd oedd y golled ddychrynlyd i'r gymuned academiaidd forol oherwydd marwolaeth ddisyfyd yr ysgolhaig ifanc disglair Dr Eilir Hedd Morgan o ysgol gwyddorau morol Prifysgol Bangor. Roedd ei ofal am ddyfroedd moroedd Cymru yn ysbrydoliaeth a charwn gyflwyno gweddill y ddadl hon i'w goffadwriaeth.

One matter of sadness that I would like to refer to was the dreadful loss to the marine academic community of the untimely death of the bright young academic Dr Eilir Hedd Morgan from the school of marine science at Bangor University. His care for the Welsh marine environment was inspirational and I would like to dedicate the remainder of this debate to his memory.

Diolch yn fawr i'r cyfeillion o'r pwyllgor am eu cyfraniadau, yn enwedig David Rees am bwysleisio'r hyn yr oedd y Gweinidog wedi ei dderbyn yn gymynrodd gan y Gweinidog blaenorol, sef y ffaith fod y ddogfen wedi ei harwyddo ar ran y Deyrnas Unedig a'r angen i weithredu ar hynny a'r angen am bartneriaeth rhwng y polisi pysgodfeydd a'r polisi morol cyffredinol. Diolch i Russell George am bwysleisio bod y dimensiwn ecosystemaidd yn ganolog i hyn i gyd, bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog a bod angen wrth ddemocratiaeth ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn gyson. Diolch i Llyr am ei eiriau caredig am y Cadeirydd. Yn sicr, bydd yn cael ei galw yn gynharach yn awr yng nghyfarfodydd y pwyllgor—[Torri ar draws.] Na, nid wyf yn meddwl. Roeddwn yn croesawu yn fawr ei alwad am arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru a'i ddadl am ddefnyddio adnoddau drwy gael cyfundrefn o gynllun gweithredol morol, a dywedaf mewn dau funud pa mor falch roeddwn fod y Gweinidog hefyd yn derbyn hynny. Roeddwn yn falch am gyfeiriadau Antoinette Sandbach at gymhlethdod y gofod morol a'r cydweithrediad angenrheidiol rhwng rhanddeiliaid eraill megis Ystâd y Goron. Rwy'n meddwl bod weithiau gamddealltwriaeth yn rhai rhannau o'r Senedd ynglŷn â beth yw gwir swyddogaeth Ystâd y Goron. Mae rhai yn meddwl bod a wnelo rhywbeth â'i Mawrhydi'r Frenhines, ond mae Ystâd y Goron fel rhanddeilad morol yn allweddol yn unrhyw ddatblygiad.

Many thanks to colleagues from the committee for their contributions, particularly David Rees for emphasising what the Minister has accepted as a legacy from his predecessor Minister, which is the fact that the document had been signed on behalf of the United Kingdom, and the need for action on that and the need for partnership between the common fisheries policy and the wider marine policy. I would like to thank Russell George for emphasising that the ecosystem dimension is at the heart of all of this, that sustainable development is a core principle and that we need democracy and consistent consultation with stakeholders. I would like to thank Llyr for his kind words about the Chair. He will certainly be called earlier in committee meetings from now on—[Interruption.] No, perhaps not. I very much welcomed his demand for clear leadership from the Welsh Government and for the use of resources by having a regime of a marine action plan, and I will say how pleased I was that the Minister accepted that. I was pleased that Antoinette Sandbach referred to the complexities of the marine space and the necessary collaboration between other stakeholders such as the Crown Estate. I think that there is some misunderstanding in certain parts of the Senedd on the real function of the Crown Estate. Some think that it has something to do with Her Majesty the Queen, but the Crown Estate as a marine stakeholder is crucial in any development.

Diolch i William Powell, unwaith eto, am ei gyfraniad ac am y gwaith mae'n ei wneud fel dirprwy Gadeirydd answyddogol y pwyllgor ar rai adegau pan wyf yn gorfod gwneud pethau eraill sy'n ymwneud â gwaith y pwyllgor y tu fas i'r pwyllgor. Roedd ei bwyslais ar yr amrywiaeth yn y môr a'r pysgodfeydd, yr adar a'r mamaliaid—gan roi dynoliaeth ar y diwedd, yn wahanol i'r salmydd cynt, a oedd yn meddwl bod dyn yn tra-arglwyddiaethu dros y greadigaeth, ond nid fel hynny rydym i fod i feddwl yn y dyddiau hyn. Diolch am ei eiriau caredig at fy etholwraig nodedig Lowri Evans.

Diolch i'r Gweinidog, yn derfynol. Rwyf wedi nodi ei eiriau clir iawn, sef ei fod yn derbyn y cyfan sydd yn yr adroddiad yn ddiamod. Roeddwn yn arbennig o ddiolchgar iddo am y datganiad ei fod yn cryfhau'r tîm yn y maes morol, fel y mae wedi cryfhau'r tîm yn maes pysgodfeydd, a'i fod yn bwriadu symud yn integredig a holistig yn y meysydd hyn ac y bydd cyfuniad clir rhwng y polisi morol a physgodfeydd o fewn ei adran. Mae hyn yn bwysig iawn i ni fel rhanddeiliaid, fel pwyllgor sy'n rhanddeiliad ei bolisi, a rhanddeiliaid allanol, fel ein bod yn gallu craffu'n iawn ar waith y Gweinidog a'r swyddogion drwy ofalu bod yr adrannau yn integredig. Diolch am ei sylwadau hefyd ynglŷn â Môr Iwerddon a'r strwythur rhanbarthol newydd. Yn fy marn i yr achubiaeth ar gyfer pysgodfeydd mewnfordirol Cymru fydd gallu cael dealltwriaeth a chydweithrediad rhanbarthol. Rwy'n gobeithio na fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn peri unrhyw anhawster yn y cyfeiriad hwn, oherwydd rydym yn ddibynnol arni wrth gydweithio gyda rhanbarthau eraill a gwledydd fel Iwerddon o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn y strwythur y mae'r Comisiwn Ewropeaidd ac Ewrop fel undeb yn gyfrifol amdano.

I thank William Powell, once again, for his contribution and for the work that he does as unofficial deputy Chair to the committee on the occasions when I am called away on other activities relating to the work of the committee outwith the committee. His emphasis on marine variety and fisheries, the birds and the mammals—placing humankind at the end, unlike the psalmists, who thought that mankind dominated the creation, but that is not how we think of things today. I thank him for his kind reference to my constituent Lowri Evans.

I thank the Minister, in conclusion. I noted his very clear statement that he accepts everything in the report unconditionally. I was particularly pleased about the statement he made in terms of strengthening the team in the marine area, in the same way that he has strengthened the fisheries team, and that he intends to pursue an integrated and holistic approach in these areas and that there will be a clear link-up between marine policy and fisheries within his department. This is crucial to us as stakeholders, as a committee that is a stakeholder of his policy, and external stakeholders, so that we can properly scrutinise the work of the Minister and his officials in ensuring that those departments are integrated. I would also like to thank him for his comments on the Irish sea and the new regional structure. In my opinion, the salvation of Welsh fisheries will be the ability to have better understanding and collaboration at a regional level. I very much hope that the United Kingdom Government will not cause any difficulties in this regard, because we are dependent upon it in collaborating with other regions and nations such as Ireland within the European Union in the structure for which the European Commission and the European Union are responsible.

15:29

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Environment and Sustainability Committee's report. Does any Member object? I see that there is no objection. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor yng Nghymru

Deholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

Cynnig NDM5205 William Graham

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn Lloegr rewi'r dreth gyngor am y drydedd flwyddyn yn olynol.
2. Yn nodi ymhellach bod Llywodraeth yr Alban wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn yr Alban rewi'r dreth gyngor ar gyfer 2013/2014; a bod y rhewi hwnnw wedi bod ar waith ers 2008/2009.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y cynnig yw y dylid nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig felly wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Motion accepted.

Welsh Conservatives Debate: Council Tax in Wales

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

Motion NDM5205 William Graham

The National Assembly for Wales:

1. Notes that the UK Government has made support available to local authorities in England to freeze council tax for a third successive year.
2. Further notes that the Scottish Government has made support available to local authorities in Scotland to freeze council tax for 2013/2014; and that such a freeze has been in place since 2008/2009.

3. Yn credu bod rheidrwydd moesol ar awdurdodau lleol i wario arian cyhoeddus gyda gofal a doethineb; gan sicrhau bod cyfraddau'r dreth gyngor mor isel â phosibl i breswylwyr.

4. Yn gresynu at wrthodiad parhaus Llywodraeth Cymru i ddefnyddio cyllid canlyniadol i gynorthwyo awdurdodau lleol i rewi'r dreth gyngor ledled Cymru; gan roi cymunedau o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr a'r Alban.

5. Yn gresynu ymhellach bod biliau'r dreth gyngor yng Nghymru wedi cynyddu 148 y cant ers 1997/1998, ac yn credu bod cynnydd andwyol o'r fath wedi rhoi pwysau diangen ar aelwydydd sydd o dan bwysau.

3. Believes local authorities have a moral imperative to spend public money with care and prudence; ensuring council tax rates are as low as possible for residents.

4. Regrets the persistent refusal of the Welsh Government to utilise consequential funding to support local authorities to deliver a Wales-wide council tax freeze; placing communities at a disadvantage in comparison to those in England and Scotland.

5. Further regrets that, since 1997/1998, council tax bills in Wales have increased by 148 per cent and believes such crippling rises have placed undue pressure on hard-pressed households.

15:30

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

We very much welcome today's debate, as council tax is such a contentious issue—certainly in this Chamber, but more so in the many hard-working households out there. This is of no surprise, given that, since 1997, the people of Wales have suffered increase after increase, rise after rise, and hike after hike in their council tax spend. Over the past 16 years, hard-working families have faced such steep increases adding up to an eye-watering total of 148%. Band E properties have seen their tax rise from £495 to £1,226. This is despite the Welsh gross disposable household income being lower than the UK average in 2010.

Make no mistake here today that the austerity programme of the UK Government is simply a product of the boom-and-bust legacy from the Labour Government. Thirteen years in power, and that is the legacy that you have left Wales. However, despite this, the UK coalition still sees fit today to help our hard-pressed families, and to pass on a freeze to local authorities, if they could, and to council tax payers. There is a huge gap between local authorities in England and Scotland, which have frozen their council tax for three successive years, and those in Wales, which are not allowed to do the same. Our households in Wales deserve equality; they also deserve fairness. I believe that this motion will ensure—if we had the support of the Welsh Labour Government, and Welsh Labour backbenchers—that we could put our Welsh residents on an equal footing with those in the rest of the UK.

England and Scotland have taken the initiative to freeze council tax by providing money—

15:32

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention from Joyce Watson?

15:32

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynigiau y cynnig.

Croesawn y ddadl heddiw yn fawr, gan fod treth gyngor yn fater mor ddadleuol—yn sicr, yn y Siambr hon, ond i raddau helaethach yn yr holl aelwydydd hynny sy'n gweithio'n galed ledled Cymru. Nid yw hynny'n syndod, o ystyried bod pobl Cymru, ers 1997, wedi wynebu cynnydd ar ôl cynnydd, codiad ar ôl codiad a naid ar ôl naid yn eu gwariant treth gyngor. Dros y 16 mlynedd diwethaf, mae teuluoedd sy'n gweithio'n galed wedi wynebu codiadau aruthrol, hyd at gyfanswm eithriadol o 148%. Mae treth eiddo Band E wedi codi o £495 i £1,226. A hynny er gwaethaf y ffaith bod incwm aelwydydd crynswth i'w wario yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU yn 2010.

Peidied neb ag amau yma heddiw bod rhaglen cynilo Llywodraeth y DU yn deillio'n llwyr o etifeddiaeth ffynnu a methu y Llywodraeth Lafur. Dair mlynedd ar ddeg mewn grym, a dyna'r etifeddiaeth rydych wedi'i gadael i Gymru. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae clymblaid y DU yn dal i gredu bod angen helpu ein teuluoedd sy'n dioddef caledi, gan drosglwyddo'r gallu i rewi i awdurdodau lleol, os gallai wneud hynny, ac i dalwyr y dreth gyngor. Mae bwlch enfawr rhwng awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban, sydd wedi rhewi eu treth gyngor am dair blynedd yn olynol, a'r rhai yng Nghymru, na chânt wneud yr un fath. Mae ein haelwydydd yng Nghymru yn haeddu cydraddoldeb, ac maent yn haeddu tegwch. Credaf y bydd y cynnig hwn yn sicrhau—pe ceid cefnogaeth Llywodraeth Llafur Cymru, ac aelodau meinciau cefn Llafur Cymru—y gallem roi chwarae teg i drigolion yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU.

Mae Lloegr a'r Alban wedi cymryd camau blaengar i rewi'r dreth gyngor drwy roi arian—

A dderbyniwch ymyriad gan Joyce Watson?

Gwnaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:32

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wish to point out, in case you are not aware, that, on average, council tax in Wales is 18% lower than it is in England. Therefore, are you saying that you want to increase it by 18%?

Hoffwn dynnu sylw at y ffaith, rhag ofn na wyddoch hyn, fod y dreth gyngor yng Nghymru 18% yn is nag yn Lloegr ar gyfartaledd. Felly, a ydych yn dweud eich bod am ei chynyddu 18%?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:32

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The gap is fast catching up. [Laughter.] The value of property is lower here too.

Mae'r bwlch yn prysur gau. [Chwerthin.] Mae gwerth eiddo yn is yma hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

England and Scotland have taken the initiative to freeze council tax by providing money to cash-strapped councils. England has recently extended funding for councils to keep council tax bills low during 2013-14 and 2014-15. Over the last three years, the Government has provided a total of £1.777 billion to councils to support them in freezing their council tax. Such action represents a real-terms cut in council tax of 9.5%, which is a significant boost to those households that are struggling to pay their bills. In Scotland, council tax has been consistently frozen since 2008, and will remain so during the life of the present Scottish Parliament. This shows that freezing council tax, and maintaining low rises, can and must be done. We should be looking at these figures and realising that Welsh homeowners are being badly let down. We are already doing that—you are not.

Mae Lloegr a'r Alban wedi cymryd camau blaengar i rewi'r dreth gyngor drwy roi arian i gynghorau sy'n brin o arian. Yn ddiweddar, cynyddodd Lloegr y cyllid a roddwyd i gynghorau er mwyn cadw biliau treth gyngor yn isel yn ystod 2013-14 a 2014-15. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi rhoi cyfanswm o £1.777 biliwn i gynghorau i'w helpu i rewi eu treth gyngor. Mae camau o'r fath yn cyfateb i ostyngiad o 9.5% mewn treth gyngor mewn termau real, sy'n hwb sylweddol i'r aelwydydd hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Yn yr Alban, mae'r dreth gyngor wedi cael ei rhewi'n gyson ers 2008, a bydd yn parhau felly yn ystod tymor presennol Senedd yr Alban. Dengys hyn y gellir rhewi'r dreth gyngor, a chadw at godiadau isel, a bod yn rhaid gwneud hynny. Dylem fod yn ystyried y ffigurau hyn ac yn sylweddoli nad yw deiliaid cartrefi yng Nghymru yn cael chwarae teg o bell ffordd. Rydym eisoes yn gwneud hynny—nid ydych chi.

Wales was given £38.9 million in consequential funding to finally put council tax freezes back on the agenda, but this has been spent elsewhere. Many people ask me where it has been spent. I do not believe that any one of you on the Labour benches could say where that money has been spent. In Ynys Môn, homeowners face a rise of some 5% for 2013-14. This is unsustainable, unaffordable and grossly unfair to many homeowners in that area. Since 2010, council tax increases have equated to £99 on average, as opposed to an average of just £17 in England. On top of these rises, the highest police precept in England and Wales is right here in south Wales, at 7%. That figure is astounding, more so as 12 other police and crime commissioners across the UK have committed to freeze their precepts, and a further 18 have set their rises at just 2%.

Rhodddwyd £38.9 miliwn o arian canlyniadol i Gymru er mwyn gallu ystyried rhewi'r dreth gyngor, ond fe'i gwariwyd ar feysydd eraill. Mae llawer o bobl yn gofyn imi ble y'i gwariwyd. Ni chredaf y gallai unrhyw un ohonoch ar feinciau Llafur ddweud ble y gwariwyd yr arian hwnnw. Ar Ynys Môn, mae deiliaid cartrefi yn wynebu cynnydd o tua 5% ar gyfer 2013-14. Mae hyn yn anghyaliadwy, yn anfforddiadwy ac yn gwbl annheg i lawer o ddeiliaid cartrefi yn yr ardal honno. Ers 2010, cafwyd codiadau treth gyngor o £99 ar gyfartaledd, o gymharu â chyfartaledd o ddim ond £17 yn Lloegr. Yn ogystal â'r codiadau hyn, mae'r lefel uchaf o ran praesept yr heddlu i'w gweld yma yn y de, sef 7%. Mae'r ffigur hwnnw yn anhygoel, yn arbennig gan fod 12 o gomisiynwyr heddlu a throseddau eraill ledled y DU wedi ymrwymo i rewi eu praeseptau, a bod 18 arall wedi pennu codiadau o 2% yn unig.

I am proud to say that, in Wales, there is a fine example of a local authority in Monmouthshire. It has frozen its council tax in previous years and is doing so again. It is doing this through capping the chief executive's salary, abolishing corporate directors and replacing them with chief officers on a reduced salary, through collaboration with Torfaen County Borough Council and Gwent Police and through changing working patterns. In other words, it is cutting down wasteful spending. The local government agenda in Wales should be driven to achieve this model as an example of how local authorities have a moral duty to keep council tax low and of how they can do so.

Mae'n bleser gennyf ddweud, yng Nghymru, bod enghraifft wych o awdurdod lleol yn Sir Fynwy. Rhewodd ei dreth gyngor yn y gorffennol ac mae'n gwneud hynny eto. Mae'n gwneud hyn drwy gapio cyflog y prif weithredwr, diddymu cyfarwyddwyr corfforaethol a phenodi prif swyddogion ar gyflog is yn eu lle, drwy gydweithredu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Heddlu Gwent a thrwy newid patrymau gwaith. Hynny yw, mae'n lleihau ei wariant gwastraffus. Dylai'r agenda llywodraeth leol yng Nghymru anelu at gyflawni'r model hwn fel enghraifft o'r ddyletswydd foesol sydd ar awdurdodau lleol i gadw'r dreth gyngor yn isel a sut y gallant wneud hynny.

As I have outlined many times before in this Chamber, using guidance such as the UK Government's '50 Ways to Save' would be a great initiative and of great assistance to both councils and council tax payers. If the Minister, in her new role as the Minister for local government would like these tips, I would gladly pass them on to her. I urge you, Minister, to have a look at the automatic right for a referendum on excessive council tax rises. This is for increases over 2% and has helped as a deterrent to ensure fairness and efficiency. This is driving local government in England. Let us do that for Wales.

I cannot accept the amendments tabled to this motion for a number of reasons. The Member's colleagues in Westminster have agreed on funding for council tax freezes, and I suggest he does the same. We should be encouraging councils to freeze their council tax by giving them the financial support that has come to Wales specifically for this purpose and which would allow them to do so. Furthermore, I would prefer to see local authorities become responsible to their electorate through the threat of a referendum. I know that the Welsh Government seeks to claim that no referendum has been held in England, but that proves the point. This is not a debate about devolving powers; we are asking for immediate assistance to release people from the yoke of taxation.

Amendment 2 talks about fairness, but what is unfair is that council tax in Wales has risen faster than in England and Scotland. Also, the Silk commission is some way off its second stage of reporting. This debate is about giving homeowners financial assistance in the here and now.

In closing, we are looking to the Welsh Government to take our homeowners out of the vicious spiral of increasing tax bills. The Welsh Government has the funding to do so and has had the opportunity to help squeezed households. Instead, we are looking increasingly isolated because of the Welsh Government's approach. We have suggested some sensible measures, which will help local authorities and hard-pressed council tax payers, as well as ensuring that local authorities are answerable to the electorate when thinking about such increases. I will end with a quote from the Prime Minister of the United Kingdom, David Cameron, in answer to my colleague Guto Bebb MP:

'People in Wales know who to blame for not having their council tax frozen. It is the Labour Assembly Government in Wales—they are to blame—they are the ones who are charging hardworking people more for their council tax.'

It is now up to the Welsh Government to decide if it will truly help the people of Wales by giving financial support through a council tax freeze. I doubt that you will listen, but those are the strong words from these benches. [Interruption.]

Fel y soniais sawl gwaith o'r blaen yn y Siambr hon, byddai defnyddio canllawiau fel '50 Ways to Save' Llywodraeth y DU yn fenter arbennig ac o gymorth mawr i gynghorau a thalwyr y dreth gyngor. Os hoffai'r Gweinidog, yn ei rôl newydd fel Gweinidog Llywodraeth Leol, ddarllen yr awgrymiadau hyn, byddwn yn fwy na pharod i'w hanfon ati. Erfyniaf arnoch, Weinidog, i ystyried yr hawl awtomatig i gael refferendwm ar godiadau treth gyngor gormodol. Mae'n berthnasol i godiadau dros 2% ac mae wedi helpu i atal codiadau a sicrhau tegwch ac effeithlonrwydd. Dyma'r hyn sy'n llywio trefniadau llywodraeth leol yn Lloegr. Gadewch inni wneud hynny dros Gymru.

Ni allaf dderbyn y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig hwn am sawl rheswm. Mae cyd-Aelodau'r Aelod yn San Steffan wedi cytuno ar gyllid i rewi'r dreth gyngor, ac awgrymaf y dylai yntau wneud yr un peth. Dylem fod yn annog cynghorau i rewi eu treth gyngor drwy roi'r cymorth ariannol sydd wedi dod i Gymru yn benodol at y diben hwn ac a fyddai'n eu galluogi i wneud hynny. At hynny, byddai'n well gennyf weld awdurdodau lleol yn cymryd cyfrifoldeb am eu hetholwyr drwy fgythiad refferendwm. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn ceisio honni na chynhaliwyd unrhyw refferendwm yn Lloegr, ond mae hynny'n profi'r pwynt. Ni dadl am ddatganoli pwerau mo'r ddadl hon, rydym yn gofyn am gymorth ar unwaith i ryddhau pobl rhag iau trethiant.

Mae gwelliant 2 yn sôn am degwch, ond yr hyn sy'n annheg yw bod y dreth gyngor yng Nghymru wedi cynyddu'n gyflymach nag yn Lloegr a'r Alban. Hefyd, mae peth amser cyn y bydd comisiwn Silk yn barod i gyflwyno ail gam ei adroddiad. Mae a wnelo'r ddadl hon â rhoi cymorth ariannol i ddeiliad cartrefi yn awr.

Wrth gloi, gofynnwn i Lywodraeth Cymru gael gwared ar y cynnydd dibaid ym miliau treth ein deiliaid cartrefi. Mae gan Lywodraeth Cymru yr arian i wneud hynny a'r cyfle i helpu aelwydydd sy'n dioddef. Yn lle hynny, oherwydd dull gweithredu Llywodraeth Cymru rydym yn fwyfwy ynysig. Rydym wedi awgrymu rhai camau synhwyrol, a fydd yn helpu awdurdodau lleol a thalwyr y dreth gyngor sy'n ei chael hi'n anodd, yn ogystal â sicrhau bod awdurdodau lleol yn atebol i etholwyr wrth ystyried codiadau o'r fath. Dof i ben drwy ddyfynnu Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, David Cameron, wrth ateb fy nghyd-Aelod, Guto Bebb AS:

Mae pobl yng Nghymru yn gwybod pwy y dylent feio am y ffaith nad yw eu treth gyngor wedi'i rhewi. Llywodraeth Lafur y Cynulliad yng Nghymru—Llafur sydd ar fai—Llafur sy'n codi taliadau treth gyngor uwch ar bobl sy'n gweithio'n galed.

Penderfyniad Llywodraeth Cymru ydyw bellach o ran a fydd yn mynd ati o ddirif i helpu pobl Cymru drwy roi cymorth ariannol drwy rewi'r dreth gyngor. Rwy'n amau na fyddwch yn gwranddo, ond dyna'r geiriau cadarn o'r meinciau hyn. [Torri ar draws.]

15:38

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. The two amendments to the motion have been selected and I call on Peter Black to move amendments 1 and 2 tabled in the name of Aled Roberts.

Trefn. Dewiswyd y ddau welliant i'r cynnig a galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gwelliant 1—Aled Roberts

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn credu mai awdurdodau lleol ddylai benderfynu ar lefelau gwariant awdurdodau lleol a'r dreth gyngor, fel rhan o agenda lleoliaeth gynhwysfawr.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw'r dreth gyngor yn system drethiant gynyddol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio a allai pwerau newydd sydd wedi'u cynnig gan Gomisiwn Silk ei galluogi i ddatblygu system drethiant decach i gyllido gwariant awdurdodau lleol.

Amendment 1—Aled Roberts

Delete point 4 and replace with:

Believes that council tax and local authority expenditure levels should be decided by local authorities, as part of a comprehensive localism agenda.

Amendment 2—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Believes that council tax is not a progressive system of taxation and calls on the Welsh Government to examine whether new powers proposed by the Silk Commission could allow it to develop a fairer system of taxation to fund local authority expenditure.

15:38

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

In doing so, I will explain that the reason we have tabled these amendments is to address two fundamental flaws in this motion. First, the motion itself does not appear to understand or be committed to the concept of localism. Localism is about empowerment and letting local councils decide for themselves what level of tax they want to impose. It is about letting local councils make their own decisions and not have the Welsh Government make the decisions for them. Yes, the amount of money being made available to local councils is important and helps them in that decision, but if you start saying, 'Here's a sum of money; we want you to freeze your council tax', it very much becomes top-down management of local councils, which is not the way in which I believe local democracy should be working. I want to emphasise that by replacing point 4 with the strong principle that council tax and local authority expenditure levels should be decided by local authorities as part of their own localism agenda, and, for that decision, they are accountable to local electors in local elections who can decide that they are happy with those decisions, and if they are not happy, they should throw out the councillors and elect a new set of councillors who will do their business. It is not for this Welsh Government to tell local councils what council tax they should be setting and how they should set it.

The second principle that we find important, but which is not reflected in this motion is one about the council tax system itself. My view is that the council tax system has always been a flawed system. It is not fair and representative, and it does not reflect people's ability to pay—

Cynigiad welliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

Wrth wneud hynny, egluraf pam ein bod wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn er mwyn ymdrin â dau ddiffyg sylfaenol yn y cynnig hwn. Yn gyntaf, ymddengys nad yw'r cynnig ei hun yn deall y cysyniad o leoliaeth ac nad yw'n ymrwymedig iddo. Mae a wnelo lleoliaeth â grymuso cynghorau lleol a chaniatáu iddynt benderfynu drostynt eu hunain pa lefel o dreth y maent am ei gosod. Mae a wnelo â chaniatáu i gynghorau lleol wneud eu penderfyniadau eu hunain, yn hytrach na gadael i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ar eu rhan. Ydy, mae'r swm o arian sydd ar gael i gynghorau lleol yn bwysig ac yn eu helpu i wneud y penderfyniad hwnnw, ond drwy ddechrau dweud, 'Dyma swm o arian, rydym am ichi rewi eich treth gyngor', daw'n broses o reoli cynghorau lleol o'r brig i'r bôn, ac nid dyna ddiben democratiaeth leol, yn fy marn i. Hoffwn bwysleisio hynny drwy dynnu pwynt 4 a chyflwyno'r egwyddor gadarn mai awdurdodau lleol ddylai bennu lefelau gwariant treth gyngor ac awdurdodau lleol fel rhan o'u hagenda leoliaeth eu hunain, ac, o ran y penderfyniad hwnnw, eu bod yn atebol i etholwyr lleol mewn etholiadau lleol a all benderfynu eu bod yn fodlon ar y penderfyniadau hynny, ac os nad ydynt yn fodlon, dylent gael gwared ar y cynghorwyr ac ethol cynghorwyr newydd i gynnal eu busnes. Nid swyddogaeth Llywodraeth Cymru yw dweud wrth gynghorau lleol pa dreth gyngor y dylent ei phennu a sut y dylid ei phennu.

Mae'r ail egwyddor sy'n bwysig, yn ein barn ni, ond na chaiff ei hadlewyrchu yn y cynnig hwn, yn ymwneud â system y dreth gyngor ei hun. Bu system dreth cynghorau bob amser yn ddiffygiol, yn fy marn i. Nid yw'n deg nac yn gynrychioliadol, ac nid yw'n adlewyrchu gallu pobl i dalu—

15:40

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A ildiwch?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:40

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:40

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way. I hear what you say about local councils being responsible for setting the levels of council tax, but would you agree that if this Welsh Government has resource from the UK Government to help those councils keep their council tax down, then they should do that?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am ildio. Deallaf yr hyn a ddywedwch o ran cyfrifoldeb cynghorau lleol am bennu lefelau treth gyngor, ond a fydddech yn cytuno os oes gan Llywodraeth Cymru adnoddau gan Lywodraeth y DU i helpu'r cynghorau hynny i gadw'r dreth gyngor yn isel, y dylai wneud hynny?

15:40

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This Welsh Government gets its resource from the UK Government. That resource is not hypothecated; it does not say how we should spend it. That is for the Welsh Government and Welsh Assembly to decide. This is also part of a wider localism agenda to decide what that money is spent on. We have to spend that according to our own priorities. I think that it was our judgment at the last budget and the budget before that that extra money should be put into capital where it could generate jobs and help people to have affordable homes in which they could live because we felt that that was an important priority for the Welsh Government. Again, it is about making decisions at the appropriate level. The UK Government gives us that money, but it does not tell us how to spend it, and that is absolutely right and is the whole basis of the devolution settlement.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hadnoddau gan Lywodraeth y DU. Nid yw'r adnoddau hynny yn cael eu neilltuo; nid yw'n dynodi sut y dylem eu gwario. Penderfyniad Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cymru yw hynny. Mae hyn hefyd yn rhan o agenda leoliaeth ehangach i benderfynu sut y dylid gwario'r arian hwnnw. Rhaid inni ei wario yn ôl ein blaenoriaethau ein hunain. Credaf inni benderfynu yn y gyllideb ddiwethaf a'r gyllideb cyn hynny y dylid buddsoddi'r arian ychwanegol hwnnw mewn cyfalaf lle y gallai gynhyrchu swyddi a helpu pobl i gael cartrefi fforddiadwy lle y gallent fyw gan ein bod o'r farn bod hynny'n flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru. Unwaith eto, mater o wneud penderfyniadau ar y lefel briodol ydyw. Mae Llywodraeth y DU yn rhoi'r arian hwnnw inni, ond nid yw'n dynodi sut y dylid ei wario, ac mae hynny'n gwbl briodol. Dyna union sail y setliad datganoli.

I was saying that the council tax system itself is not a progressive one; it does not reflect people's ability to pay, and how this motion is tabled and set out is effectively fiddling with a flawed system. We will have differing views as to what the council tax should be replaced with. I happen to believe in a local income tax, but I am sure that other Members here would disagree with that. However, if you are going to criticise the council tax system, instead of playing with what you have got, you should look at what should replace it.

Roeddwn yn dweud nad yw system y dreth gyngor ei hun yn system gynyddol; nid yw'n adlewyrchu gallu pobl i dalu, ac mae'r ffordd y cafodd y cynnig hwn ei gyflwyno a'i osod ond yn cyflwyno mân newidiadau i system ddiffygiol i bob pwrpas. Bydd gan bawb ei farn o ran yr hyn y dylid ei gyflwyno yn lle'r dreth gyngor. Fel mae'n digwydd, credaf mai treth incwm leol fyddai orau, ond rwy'n siŵr y byddai Aelodau eraill yma yn anghytuno â hynny. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu beirniadu system y dreth gyngor, yn lle chwarae â'r system bresennol, dylech ystyried opsiynau amgen yn ei lle.

I wish to refer to a very important report that came out in 2007, which is the Lyons inquiry into local government. Sir Michael Lyons came to the conclusion that council tax is not broken, but that it is under too much pressure, is seen as unfair and

Hoffwn gyfeirio at adroddiad pwysig iawn a gyhoeddwyd yn 2007, sef ymchwiliad Lyons i lywodraeth leol. Daeth Syr Michael Lyons i'r casgliad nad yw'r dreth gyngor yn ddiffygiol, ond ei bod o dan ormod o bwysau, ei bod yn cael ei hystyried yn annheg

'has some limitations in that it is not a naturally buoyant source of revenue.'

a bod rhai cyfyngiadau yn yr ystyr nad yw'n ffynhonnell referniw naturiol hynawf.

In the summary report he says that

Yn yr adroddiad cryno noda fod

'Council tax tends to bear the strain of pressures in the whole local government finance system. Making council tax sustainable for the future will depend not just on the design of the tax itself, but on whether service expectations can be managed and met in a way that stops council tax from coming under unsustainable pressure.'

y dreth gyngor yn dueddol o deimlo straen pwysau yn y system gyfan o ran cyllid llywodraeth leol. Bydd sicrhau bod y dreth gyngor yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol yn dibynnu nid yn unig ar ffurf y dreth ei hun, ond ar ba un a ellir rheoli disgwyliadau gwasanaethau a'u bodloni mewn ffordd sy'n atal pwysau anghynaliadwy ar y dreth gyngor.

However, this is the key point:

Fodd bynnag, dyma'r pwynt allweddol:

'Local authorities need real flexibility to set spending plans in a way that reflects local choice about service provision and tax rates, even where this means doing less in areas which are not a high priority for local people.'

It is my contention that we have never had that freedom in local government and it does need to have much greater freedom in that. However, on the future of council tax, I look to the Silk commission to give us the powers. Once we have the powers, it is only right that we, as a Welsh Assembly, start to look seriously at what the alternatives are to the council tax system so that we can ensure that, where local government is under pressure when it does impose additional taxes to keep services at the front line, the people who can afford to pay, pay the most and those who can least afford to pay, pay the least. That is a reasonable principle to apply in any taxation system and certainly one that should be applied in terms of the council tax system.

15:43

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will attempt to do two things: the first is to outline the difficulties facing local government and the complexities of local government, and, secondly, to discuss council tax and the relative council tax levels of England and Wales. Before I do that, I wish to say to Peter Black that there are many faults with the council tax system, but one of its great advantages is that it is one of the most difficult taxes to avoid. Income tax, which you mentioned, is unfortunately avoided by far too many people.

Local authorities are large and complex organisations. I will first concentrate on the two most expensive services. Social services, for example, face continually upwards financial pressures. First, there is demographic change—the population is ageing and there is great demand for homecare and other age-related services. If hospitals are to be able to discharge the frail and elderly, then packages of care either at home or within a care or nursing home will be needed. We discussed that when we were talking about health earlier and the need to be able to discharge people.

That can only be done through the help of local authorities, and they need to raise money for it. These care packages do not come cheaply. If they are not available, then delayed hospital discharges will occur and what is known as bedblocking. The health boards start to have ever-increasing problems in dealing with people who are sick.

Mae angen hyblygrwydd gwirioneddol ar awdurdodau lleol i lunio cynlluniau gwariant mewn ffordd sy'n adlewyrchu dewisiadau lleol o ran y gwasanaethau a ddarperir a chyfraddau treth, hyd yn oed lle bydd hyn yn golygu gwneud llai mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth uchel i bobl leol.

Fy nadl i yw na fu'r rhyddid hwnnw erioed ar gael i lywodraeth leol ac mae angen llawer mwy o ryddid arni yn hynny o beth. Fodd bynnag, o ran dyfodol y dreth gyngor, gobeithio y bydd comisiwn Silk yn rhoi'r pwerau inni. Unwaith y bydd y pwerau gennym, ni fydd ond yn briodol inni, fel Cynulliad Cymru, ddechrau ystyried o ddirif sut y gellir disodli system y dreth gyngor er mwyn inni allu sicrhau, lle bo llywodraeth leol o dan bwysau pan fo'n gorfodi trethi ychwanegol i gadw gwasanaethau rheng flaen, mai'r bobl a all fforddio talu sy'n talu fwyaf a'r bobl a all fforddio talu leiaf sy'n talu'r lleiaf. Mae hynny'n egwyddor resymol i'w chymhwyso at unrhyw system drethiant ac yn sicr yn un y dylid ei chymhwyso o ran system y dreth gyngor.

Hoffwn wneud dau beth: yn gyntaf, amlinellu'r anawsterau sy'n wynebu llywodraeth leol a chymhlethdodau llywodraeth leol, ac, yn ail, trafod y dreth gyngor a lefelau treth gyngor cymharol Cymru a Lloegr. Cyn imi wneud hynny, hoffwn ddweud wrth Peter Black bod system y dreth gyngor yn ddiffygiol mewn sawl ffordd, ond un o'i manteision mawr yw ei bod yn un o'r trethi mwyaf anodd i'w hosgoi. Yn anffodus, mae gormod o bobl o lawer yn osgoi treth incwm, a grybwyllwyd gennyh.

Mae awdurdodau lleol yn sefydliadau mawr a chymhleth. Yn gyntaf, canolbwytiaf ar y ddau wasanaeth drutaf. Mae gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, yn wynebu pwysau ariannol cynyddol drwy'r amser. Yn gyntaf, ceir newid demograffig—mae'r boblogaeth yn heneiddio a cheir galw mawr am ofal cartref a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag oedran. Er mwyn i ysbytai allu rhyddhau pobl eiddil ac oedranus, bydd angen pecynnau gofal naill ai yn y cartref neu mewn cartref gofal neu nyrsio. Trafodwyd hynny wrth sôn am iechyd yn gynharach a'r angen i allu rhyddhau pobl o'r ysbyty.

Dim ond â chymorth awdurdodau lleol y gellir gwneud hynny, ac mae angen iddynt godi arian ar ei gyfer. Nid yw'r pecynnau gofal hyn yn rhad. Os nad ydynt ar gael, bydd achosion o oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a'r hyn a elwir yn flocio gwelyau. Bydd y byrddau iechyd yn dechrau cael problemau cynyddol wrth ymdrin â phobl sy'n sâl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The second area of social services is children's services. No-one wants to see another death or the serious neglect of a child. This budget has increased substantially over recent years. Turning to education, there is a commitment to increasing expenditure in schools—this is something that I agree with and that the Labour Government is committed to. However, the schools budget is the largest single item of local authority expenditure. An awful lot of expenditure happens in those two areas, which are increasing, thus putting pressure on local authorities. Time precludes me from outlining in full the importance of food hygiene inspectors, dealing with rats, trading standards, road and pavement resurfacing, buses, housing, refuse collection, recycling, refuse disposal, building control and planning. Those are just some of the services that local authorities provide. Each of the above has cost implications and resident demands. I suggest that Members read an A to Z of the council services in their area to get to grips with exactly what councils are doing.

Turning to council tax, Welsh Labour's strong record of support for local government means that, despite the council tax freeze in England, the average band D council tax in Wales continues to be £230 lower than in England. That is almost £5 a week. The Welsh Labour Government's support for local government over the current spending review period has continued to increase, while the settlement in England, on a like-for-like basis, has decreased. There will be serious problems within the English local government system before too long. Despite the rhetoric over the council tax freeze, figures show that a third of Tory-led councils in England are ignoring the policies of their own Government and are voting for council tax increases. A total of 40% of all authorities in England have chosen not to accept the funding available for the council tax freeze and are, instead, increasing council tax. Not one of those councils will have taken that decision lightly. Not one of those councils will have wanted to do that, especially those facing elections in May. They made the decision in order to protect key services or, in many cases, just to meet statutory requirements and avoid court action. Many people will remember the Gloucester judgment and others, where people have gone to court when the expected facilities have not been available.

Yr ail faes o wasanaethau cymdeithasol yw gwasanaethau plant. Nid oes neb am weld plentyn arall yn marw nac yn cael ei esgeuluso'n ddifrifol. Mae'r gyllideb hon wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gan droi at addysg, ceir ymrwymiad i wario mwy ar ysgolion—mae hyn yn rhywbeth y cytunaf ag ef ac y mae'r Llywodraeth Lafur yn ymrwymedig iddo. Fodd bynnag, cyllideb yr ysgolion yw'r eitem unigol fwyaf o wariant awdurdodau lleol. Ceir cryn dipyn o wariant yn y ddau faes hyn, sy'n cynyddu, gan felly roi pwysau ar awdurdodau lleol. Nid oes gennyf amser i amlinellu'n llawn bwysigrwydd arolygwyr hylendid bwyd, ymdrin â llygod mawr, safonau masnach, gosod arwynebau newydd ar ffyrdd a phalmentydd, bysiau, tai, casglu sbwriel, ailgylchu, gwaredu sbwriel, rheoli adeiladu a chynllunio. Dyma rai o'r gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu darparu. Mae i bob un ohonynt oblygiadau o ran costau ac mae galw amdanynt gan drigolion. Awgrymaf y dylai'r Aelodau ddarllen rhestr A i Y o wasanaethau'r cyngor yn eu hardal er mwyn deall yn union yr hyn y mae cyngorau yn ei wneud.

Gan droi at y dreth gyngor, mae hanes cryf Llafur Cymru o gefnogi llywodraeth leol yn golygu, er gwaethaf y penderfyniad i rewi'r dreth gyngor yn Lloegr, bod y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yng Nghymru yn parhau £230 yn is nag yn Lloegr. Mae hynny bron i £5 yr wythnos. Mae cefnogaeth Llywodraeth Lafur Cymru i lywodraeth leol yn ystod cyfnod yr adolygiad presennol o wariant wedi parhau i gynyddu, ond mae'r setliad yn Lloegr, ar sail tebyg at ei debyg, wedi lleihau. Bydd problemau difrifol o fewn system llywodraeth leol Lloegr cyn bo hir. Er gwaethaf y rhethreg ynglŷn â rhewi'r dreth gyngor, dengys ffigurau fod traean o'r cyngorau Torïaidd yn Lloegr yn anwybyddu polisiau eu Llywodraeth eu hunain ac yn pleidleisio o blaid cynyddu'r dreth gyngor. Mae cyfanswm o 40% o'r holl awdurdodau yn Lloegr wedi dewis peidio â derbyn yr arian sydd ar gael i rewi'r dreth gyngor ac, yn lle hynny, maent yn cynyddu'r dreth gyngor. Nid ar chwarae bach y bydd y cyngorau hynny wedi gwneud y penderfyniad hwnnw. Ni fydd yr un ohonynt wedi bod yn awyddus i wneud hynny, yn enwedig y rhai sy'n wynebu etholiadau ym mis Mai. Gwnaethant y penderfyniad er mwyn diogelu gwasanaethau allweddol, neu, mewn sawl achos, i fodloni gofynion statudol ac osgoi achosion llys. Bydd sawl un yn cofio dyfarniad Caerloyw a dyfarniadau eraill, lle yr aeth pobl i'r llys pan nad oedd y cyfleusterau disgwylidiedig ar gael.

I wish to make some final points. Janet Finch-Saunders mentioned the pay of chief officers—chief executives in particular. This used to be governed by a chief officer's pay scale. However, a Conservative Government—yes, a Conservative Government—did away with it, in order to attract high achievers from the private sector. Since then, we have seen a substantial increase in chief officers' pay, and these are mainly the same people who would have been appointed if we had not seen the removal of the pay scale. I believe that we should reintroduce pay bands for chief officers. It makes life easier. It was based on population, and it was easy; everyone knew exactly what the system was. The same thing has happened in education, has it not? Headteachers keep moving from band to band. How many headteachers have been refused promotion from one band to the next, despite the fact that they may well have had bad Estyn reports and not done particularly well in terms of the banding of the Minister for Education and Skills? This is one of those things that when you open it up to put it up, that is what happens.

I also believe that council tax and local authority levels should be decided by local authorities. This is where Peter Black and I are in agreement. Authorities are then accountable to their electorate for the services that they provide and the taxes that are raised. We have a name for this: it is called 'democracy'. It is really important that local councils work that way. We have had a situation where people seem to think that the Assembly's job is to passport money to local authorities and for local authorities do as we say. That is not democracy, and it is really important that we have a system where people make decisions locally, and stand and fall at the ballot box. That is what democracy is all about.

Hoffwn wneud rhai pwyntiau i gloi. Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at gyflog prif swyddogion—prif weithredwyr yn arbennig. Yn flaenorol, byddent yn cael eu rheoli gan raddfa cyflogau prif swyddogion. Fodd bynnag, diddymodd Llywodraeth Geidwadol—ie, Llywodraeth Geidwadol—y raddfa honno, er mwyn denu'r goreuon o'r sector preifat. Ers hynny, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol o ran cyflogau prif swyddogion, ac ar y cyfan, dyma'r union bobl a fyddai wedi cael eu penodi pe na ddiddymid y raddfa cyflogau. Credaf y dylem ailgyflwyno bandiau cyflog ar gyfer prif swyddogion. Mae'n gwneud bywyd yn haws. Roedd yn seiliedig ar boblogaeth, ac roedd yn hawdd, roedd pawb yn gwybod yn union beth oedd y system. Mae'r un peth wedi digwydd ym maes addysg, onid yw? Mae penaethiaid yn symud o fand i fand drwy'r amser. Faint o weithiau y gwrthodwyd codi pennaeth o un band i'r nesaf, er gwaethaf y ffaith eu bod o bosibl wedi cael adroddiad gwael gan Estyn ac na wnaethant yn arbennig o dda o ran bandiau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau? Dyma un o'r pethau sy'n digwydd pan fyddwch yn llacio ar y drefn er mwyn cynyddu'r graddfeydd.

Credaf hefyd mai awdurdodau lleol ddylai bennu'r dreth gyngor a lefelau awdurdodau lleol. Rwy'n cytuno â Peter Black yn hynny o beth. Wedyn bydd awdurdodau yn atebol i'w hetholwyr am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r trethi a godir. Mae gennym enw am hynny: cyfeirir ato fel 'democratiaeth'. Mae'n bwysig iawn bod cynghorau lleol yn gweithio yn y fath fodd. Rydym wedi bod mewn sefyllfa lle y ymddengys fod pobl yn credu mai swyddogaeth y Cynulliad yw rhoi arian i awdurdodau lleol ac i awdurdodau lleol wneud fel y dywedwn. Nid democratiaeth yw hynny, ac mae'n bwysig iawn bod system ar waith lle y mae pobl yn gwneud penderfyniadau yn lleol, ac yn cael eu barnu drwy'r blwch pleidleisio. Dyna ystyr democratiaeth.

15:48 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Our motion makes it clear that the UK Government has made support available to local authorities in England to freeze council tax. I listened with interest to what you said there, Mike Hedges, and you are quite right to point out that not all councils across the border in England have used that money to freeze council tax. However, we would say that at least they had a choice. If you are going to talk about democracy and about supporting councils in Wales, you should at least give those councils in Wales a choice, if they want to freeze council tax without making cuts, to do so.

Mae ein cynnig yn ei gwneud yn glir bod Llywodraeth y DU wedi cynnig cymorth i awdurdodau lleol yn Lloegr rewi'r dreth gyngor. Gwrandewais gyda diddordeb ar yr hyn a ddywedasoch yn hynny o beth, Mike Hedges, ac rydych yn llygad eich lle i nodi nad yw pob cyngor dros y ffin yn Lloegr wedi defnyddio'r arian hwnnw i rewi'r dreth gyngor. Fodd bynnag, o leiaf cawsant ddewis. Os ydych yn sôn am ddemocratiaeth a rhoi cymorth i gynghorau yng Nghymru, dylech o leiaf roi dewis i'r cynghorau hynny yng Nghymru rewi'r dreth gyngor heb wneud toriadau, os ydynt am wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:49 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The thing is, in Wales, authorities have had more money than authorities have had in England, even including the money aimed at keeping the council tax down. Therefore, there has been more money coming in.

Y pwynt yw, yng Nghymru, bod awdurdodau wedi cael mwy o arian nag awdurdodau yn Lloegr, hyd yn oed yn cynnwys yr arian sydd wedi'i anelu at leihau codiadau treth gyngor. Felly, bu mwy o arian yn dod i mewn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:49 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, it is true that we start from a lower base in Wales. However, as Janet Finch-Saunders pointed out in her opening contribution, the rate of increase in Wales is the problem—148% has been the rate of increase in recent years. That really is unsustainable. I am sure that, given your local government background, you know that in your heart of hearts, Mike.

Ydy, mae'n wir ein bod yn dechrau o sylfaen is yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y nododd Janet Finch-Saunders yn ei chyfraniad agoriadol, cyfradd y cynnydd yng Nghymru yw'r broblem—bu cyfradd cynnydd o 148% yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hynny'n gwbl anghynaliadwy. Rwy'n siŵr, o ystyried eich cefndir o fewn llywodraeth leol, eich bod yn gwybod hynny mewn gwirionedd, Mike.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Of course, the UK Government has, via the Barnett formula, also provided funding to the Welsh Government to do the same here in terms of a council tax freeze, should it choose to do so. However, as households the length and breadth of Wales know only too well, that, sadly, has not happened, thereby putting the people of Wales at a financial disadvantage compared with families and households across the border in England. In fact, it is not just a disadvantage compared with families in England, as they are also at a disadvantage compared with families and households in Scotland, which has once again promoted a council tax freeze this year. We often ask why, if something is good enough for Scotland, it is not good enough for Wales. Here is a classic example of something that is being implemented in Scotland thanks to funding from the UK Government. The Welsh Government could choose to do it, but chooses not to.

I disagree with what you said, Peter Black, in your contribution. You are quite right that devolution does allow different choices here, and we all, as democrats, have the right to put forward policies that we think are right. However, if you asked families out there whether they would rather the Welsh Government spend the money that was earmarked for their pockets, I know exactly what they would say to you. They would say, 'For goodness' sake, make our lives a little bit easier at this difficult time'.

Wrth gwrs, mae Llywodraeth y DU, drwy fformiwla Barnett, hefyd wedi rhoi arian i Lywodraeth Cymru i wneud yr un peth yma o ran rhewi'r dreth gyngor, os bydd yn dewis gwneud hynny. Fodd bynnag, fel y gŵyr aelwydydd ar hyd a lled Cymru, yn anffodus, ni ddigwyddodd hynny, gan olygu bod pobl Cymru o dan anfantais ariannol o gymharu â theuluoedd ac aelwydydd dros y ffin yn Lloegr. Yn wir, nid dim ond o gymharu â theuluoedd yn Lloegr y maent o dan anfantais, maent hefyd o dan anfantais o gymharu â theuluoedd ac aelwydydd yn yr Alban, sydd unwaith eto wedi annog awdurdodau i rewi'r dreth gyngor eleni. Rydym yn aml yn gofyn pam, os oes rhywbeth yn ddigon da i'r Alban, nad yw'n ddigon da i Gymru. Dyma enghraifft ardderchog o ryw beth sydd ar waith yn yr Alban diolch i arian gan Lywodraeth y DU. Gallai Llywodraeth Cymru ddewis gwneud hynny, ond mae'n dewis peidio â gwneud.

Anghytunaf â'r hyn a ddywedasoch, Peter Black, yn eich cyfraniad. Rydych yn llygad eich lle bod datganoli yn caniatáu dewisiadau gwahanol yma, ac mae gan bob un ohonom, fel Democratiaid, yr hawl i gyflwyno polisiau sy'n briodol, yn ein barn ni. Fodd bynnag, pe gofynnech i deuluoedd ar lawr gwlad a fyddai'n well ganddynt i Lywodraeth Cymru wario'r arian a neilltuwyd ar eu cyfer, gwn yn union beth y byddent yn ei ddweud wrthy. Byddent yn dweud, 'O ddirif calon, gwnewch ein bywydau rywfaint yn haws yn ystod y cyfnod anodd hwn'.

15:51 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You stated that Welsh council tax payers are at a disadvantage compared with council tax payers in England, but they are paying less council tax, so how are they at a disadvantage?

Dywedasoch fod talwyr y dreth gyngor yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â thalwyr y dreth gyngor yn Lloegr, ond maent yn talu llai o dreth gyngor, felly sut y maent o dan anfantais?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:51 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, but as you know all too well, Rhodri Glyn Thomas—because you, like me, have attacked the Welsh Government over this over the last 10 years—people in Wales are poorer. Despite 14 years of the land of milk and honey presented to the people of Wales by the Welsh Labour Party in one form or another, believe it or not, people in Wales are still some of the poorest in the United Kingdom. So, you would not expect them to be paying the same rates of council tax, and you would not expect them to be paying such a gross increase in their council tax each year either—at least, I would not expect them to.

Ydynt, ond fel y gwyddoch yn iawn, Rhodri Glyn Thomas—gan eich bod chi, fel finnau, wedi beirniadu Llywodraeth Cymru am hyn dros y 10 mlynedd diwethaf—mae pobl yng Nghymru yn dlotach. Er gwaethaf 14 mlynedd o wlad sy'n llifeirio o laeth a mêl a gyflwynwyd i bobl Cymru gan Blaid Lafur Cymru ar ryw ffurf neu'i gilydd, credwch neu beidio, mae pobl yng Nghymru yn dal i fod ymhlith y tlotach yn y Deyrnas Unedig. Felly, ni fydddech yn disgwyl iddynt fod yn talu'r un cyfraddau o ran y dreth gyngor, ac ni fydddech yn disgwyl iddynt fod yn talu cynnydd mor sylweddol yn eu treth gyngor bob blwyddyn ychwaith—o leiaf, ni fyddwn i'n disgwyl hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:52 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:52 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have taken two already, Leanne. Maybe a little bit later, if I have time. I want to make some progress.

Rwyf wedi derbyn dau ymyriad eisoes, Leanne. Efallai ychydig yn ddiweddarach, os bydd amser. Rwyf am fwrw ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, we know that the money is coming, and I think that people should be allowed to keep a bit more of their money. This is not a case of them being given money, remember, by the Government; it is councils that are being given money to allow people to keep their own money, because it is people in Wales who are working and earning that money, and it is people who should be allowed to make the choices for themselves and their families.

Janet Finch-Saunders stole some of my thunder, as I was also going to mention Monmouthshire County Council. In fact, it is a good news story, so I will just touch on it. As we know, Monmouthshire is delivering, for the second year running, a council tax freeze—it is one of two authorities in Wales trying to do that. Look at Monmouthshire. It is a large rural area, and it costs more to deliver services over an area like that, as other AMs who represent large rural areas, such as Russ George, will know. Also, if you look at further statistics in Monmouthshire, it has one of the largest populations of over-85s in Wales, but it has managed to balance the books and deliver a council tax freeze, as I said, for the second year running, without any help from the Welsh Government in terms of providing that money for a council tax freeze. Look, as Janet Finch-Saunders says, at some of the things that they have done. The chief executive salary has been capped at £110,000, with no annual increments—I do not think that that is a bad policy. There has been the replacement of four directors with three chief officers on reduced salaries. Also, there have been £1 million of annual savings. Monmouthshire has truly led the way in showing what a twenty-first century council can do. In the new council offices, there are only 50% of the desks of the previous local authority building. It can do it, and other councils can do it, but just think what local authorities would be able to do if only they were given the necessary support from the Welsh Government. I urge you to support this motion and to give local authorities to support that they deserve.

Felly, gwyddom fod yr arian yn dod, a chredaf y dylai pobl allu cadw ychydig yn fwy o'u harian. Nid mater o roi arian iddynt gan y Llywodraeth ydyw, cofiwch; cynghorau sy'n cael yr arian er mwyn galluogi i bobl gadw eu harian eu hunain, gan mai pobl yng Nghymru sy'n gweithio ac yn ennill yr arian hwnnw, a dylai'r bobl gael cyfle i wneud y dewisiadau iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd.

Llwyddodd Janet Finch-Saunders i achub y blaen arnaf i raddau, gan fy mod innau hefyd yn bwriadu sôn am Gyngor Sir Fynwy. Yn wir, mae'n stori o lawenydd mawr, felly soniaf yn fras amdani. Fel y gwyddom, mae Sir Fynwy, am yr ail flwyddyn yn olynol, yn rhewi'r dreth gyngor—mae'n un o ddau awdurdod yng Nghymru sy'n ceisio gwneud hynny. Edrychwch ar Sir Fynwy. Mae'n ardal wledig fawr, ac mae'n costio mwy i ddarparu gwasanaethau dros ardal o'r fath, fel y bydd yr ACau eraill sy'n cynrychioli ardaloedd gwledig mawr, fel Russ George, yn gwybod. Hefyd, os edrychwch ar ystadegau pellach ar gyfer Sir Fynwy, mae ganddi un o'r poblogaethau mwyaf o bobl dros 85 oed yng Nghymru, ond mae wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb a rhewi'r dreth gyngor, fel y dywedais, am yr ail flwyddyn yn olynol, heb unrhyw help gan Lywodraeth Cymru o ran rhoi'r arian hwnnw ar gyfer rhewi'r dreth gyngor. Edrychwch, fel y dywed Janet Finch-Saunders, ar rai o'r pethau y mae wedi'u gwneud. Rhoddwyd cap o £110,000 ar gyflog y prif weithredwr heb unrhyw godiadau blyneddol—ni chredaf fod hynny'n ddrwg o beth. Cyflogwyd tri phrif swyddog ar gyflogau is yn lle pedwar cyfarwyddwr. Hefyd, gwnaed arbedion blyneddol o £1 filiwn. Mae Sir Fynwy esiampl o'r hyn y gall cyngor yn yr unfed ganrif ar hugain ei wneud. Yn swyddfeydd newydd y Cyngor, dim ond 50% o'r desgiau a oedd yn adeilad blaenorol yr awdurdod lleol a geir. Gall wneud hynny, a gall cyngorau eraill wneud hynny, ond meddylwch beth y gallai awdurdodau lleol ei wneud pe caent ond y cymorth angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru. Erfyniaf arnoch i gefnogi'r cynnig hwn a rhoi'r cymorth i awdurdodau lleol y maent yn ei haeddu.

15:54

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

A ninnau i gyd yn meddwl i'r Blaid Geidwadol newid yng Nghymru ers y dyddiau hynny cyn 1999 pan oedd yn gwrthwynebu datganoli ac yn ymgyrchu yn ei erbyn. Yr hyn a gawn gan y Blaid Geidwadol y prynhawn yma yw bod yn rhaid i Gymru wneud yr un peth yn union â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr ac, yn wir, fod yn rhaid i ni wrando ar David Cameron. Hynny yw, mae David Cameron, a'i gefndir breintiedig a'i addysg breifat, yn gwybod yn well na phobl sydd wedi cael eu hethol gan etholwyr yng Nghymru am yr hyn sydd orau i Gymru, ac mae'n deall y sefyllfa lawer iawn yn well na'r 60 o bobl sy'n eistedd yn y senedd-dy hwn a etholwyd yn uniongyrchol gan bobl Cymru ac sy'n atebol iddynt.

We all thought that the Conservative Party in Wales had changed since those days in 1999 when it opposed devolution and campaigned against it. What we are hearing from the Conservative Party this afternoon is that Wales has to do exactly what they are doing in England and that, indeed, we have to listen to David Cameron. That is: David Cameron, with his privileged background and private education, knows better than Welsh electors what is best for Wales, and understands the situation better than the 60 people who sit in this legislature, who were directly elected by the people of Wales and who are answerable to them.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae egwyddor sylfaenol yn hyn o beth: egwyddor datganoli. Os yw datganoli yn digwydd, yna nid yw'r un peth yn union â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, diolch i'r drefn, yn digwydd yng Nghymru. Mae gennym flaenoriaethau gwahanol ac mae gennym anghenion gwahanol. Yr hyn rydym wedi penderfynu ei wneud yn y senedd-dy hwn yw blaenoriaethu'r arian hwnnw mewn ffordd wahanol. Gallwch anghytuno â hynny ond, os ydych chi credu mewn datganoli a democratiaeth, ni allwch ddweud nad oes hawl gan y senedd-dy hwn i wneud y penderfyniad hwn.

Mae nifer o bwyntiau wedi cael eu crybwyll ac ni fyddaf yn mynd dros y tir hwnnw eto, ond mae'r sefyllfa yng Nghymru yn sylfaenol wahanol. Un o'r pethau sy'n fy mhoeni am y ddadl y prynhawn yma yw bod y Ceidwadwyr fel pe baent yn ymdrin â'r dreth gyngor fel rhyw fath o gosb ar bobl Cymru. Mae'r dreth gyngor yno i sicrhau bod pobl yn yr ardaloedd sy'n cael eu cynrychioli gan eu hawdurdodau lleol yn cael gwasanaethau sylfaenol. Mae'r dreth gyngor yno i greu swyddi; nid cosb ydyw. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu bod anghenion arbennig, dylai fod ganddo'r hawl i godi'r dreth gyngor os mai dyna ym mae'n credu sydd orau i'r ardal. Mae awdurdodau lleol yn atebol i'w hetholwyr yn y pen draw pan ddaw etholiad i'r cyngor sir.

Er enghraifft, mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu creu cronfa dai i fynd i'r afael â'r problemau enfawr sy'n wynebu pob awdurdod lleol yng Nghymru o ganlyniad i dreth ystafell wely'r glymblaid yn San Steffan. Penderfyniad Cyngor Gwynedd yw mai dyna yw'r peth priodol i wneud yn y sefyllfa hon, a rhaid parchu'r penderfyniad hwnnw. Pan gawn ni drafodaeth gall a synhwyrol am y dreth gyngor a sut y mae'n cael ei defnyddio, byddaf yn ddigon parod i gymryd rhan yn y drafodaeth honno. Fodd bynnag, nid wyf yn barod i gymryd rhan yn y drafodaeth hon sy'n dweud wrthym, mewn gwirionedd, i anghofio am ddatganoli ac awdurdodau lleol, a bod David Cameron a'r glymblaid yn San Steffan yn gwybod yn well nag unrhyw un beth sydd ei angen yng Nghymru.

There is a basic principle here: the principle of devolution. If we have devolution, Wales does not exactly duplicate what happens in England, thank goodness. We have different priorities and we have different needs. What we have decided to do in this legislature is to prioritise that money in a different way. You may disagree with that but if you believe in devolution and democracy, you cannot say that this legislature has no right to make that decision.

A number of points have been made and I will not rehearse those points, but the situation in Wales is fundamentally different. One of the things that worry me about the debate this afternoon is that the Conservatives appear to be dealing with council tax as if it was some kind of penalty on the people of Wales. Council tax is there to ensure that people in areas represented by local authorities have access to basic services. Council tax is there to create jobs; it is not a penalty. If a local authority decides that there are special requirements, it should be able to raise council tax if it is of the view that that is the best way forward for the area. Local authorities are ultimately answerable to their electorates, in county council elections.

For example, Gwynedd Council has decided to create a housing fund to deal with the huge problems facing all Welsh local authorities as a result of the Westminster coalition's bedroom tax. Gwynedd Council decided that that was the appropriate thing to do in this situation, and that decision must be respected. When we have a sensible and rational debate on council tax and how it is used, I will be more than willing to take part. However, I am not willing to participate in this debate, which is really telling us to forget about devolution and local authorities and that David Cameron and the Westminster coalition know better than anyone else what is needed in Wales.

15:57

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way. Rhodri, you have spoken eloquently about devolution and the importance of respecting that. I agree with you, but what is wrong with giving local authorities in Wales the money to freeze council tax and giving them the choice—in response to their local electorate, as you say—as to whether they make that freeze? Why should we do it here? Why not them?

Diolch am ildio. Rhodri, gwnaethoch siarad yn huawdl am ddatganoli a phwysigrwydd parchu hynny. Cytunaf â chi, ond beth sydd o'i le o ran rhoi'r arian i awdurdodau lleol yng Nghymru rewi'r dreth gyngor a rhoi'r dewis iddynt—mewn ymateb i'w hetholwyr lleol, fel y dywedwch—pa un a ddylid ei rhewi? Pam y dylem ei wneud yma? Pam nad hwy?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gadewch inni fod yn glir ynglŷn â beth y byddai'r arian hwn yn ei gynrychioli i'r bobl sy'n talu'r dreth. Awgrymodd y Ceidwadwyr ein bod yn sôn am gannoedd o bunnoedd y flwyddyn i bob unigolyn a phob tŷ mewn ardal awdurdod lleol. Ar gyfartaledd, mae codiadau yn y dreth gyngor yn 2.9% yng Nghymru; byddai hynny yn cynrychioli £27 y flwyddyn i bob trethdalwr, neu ychydig dros 50c yr wythnos. Mae'r Ceidwadwyr yn dweud y byddai hynny'n gweddwid bywydau pobl yng Nghymru. Gyda llaw, nid oes sôn yn y ddadl hon am yr holl bwysau sy'n cael ei roi ar drethdalwyr yng Nghymru. Beth am y ffaith bod budd-dal y dreth gyngor wedi cael ei ddatganoli gyda 10% o ddiffyg? Mae hynny'n mynd i roi pwysau ar y bobl wanaf a'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. Nid yw'r Ceidwadwyr yn cyfeirio at hynny o gwbl. Mae hon yn ddadl gwbl ffals a'r cyfan y mae'r Ceidwadwyr am ddweud wrthym y prynhawn yma yw: 'Gwnewch yr hyn y mae Lloegr yn ei ddweud. Gwnewch yr hyn y mae David Cameron yn ei ddweud. Anwybyddwch flaenoriaethau pobl Cymru. Mae'n rhaid ichi ddilyn yn slafaid yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr.'

Let us be clear about what that money would represent to council tax payers. The Conservatives suggested that we were talking about hundreds of pounds a year to all individuals and households in local authority areas. The average increases in council tax in Wales are 2.9%; that would represent a figure of £27 a year to all taxpayers, or a little over 50p a week. The Conservatives say that that would transform the lives of Welsh people. By the way, no mention has been made in this debate of all the pressures being heaped on Welsh taxpayers. What about the fact that council tax benefit was devolved with a deficit of 10%? That will put pressure on the weakest and most vulnerable in society. The Conservatives make no reference to that. This is a completely false argument and all that the Conservatives are telling us this afternoon is: 'Do what England is doing. Do what David Cameron says. Ignore the priorities of the people of Wales. You must stick slavishly to what is taking place in England.'

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Listening to the Welsh Conservatives gives the impression that the coalition Government has nothing to do with the cuts in spending in the everyday lives of our people. The UK coalition Government is truly the fabled elephant in the room. It is the biggest cause of our misery but, according to the Welsh Conservatives, it is in bad taste to mention it, so I will not.

O wrando ar y Ceidwadwyr Cymreig byddai rhywun yn cael yr argraff nad oes a wnelo'r Llywodraeth glymblaid mewn unrhyw ffordd â'r toriadau o ran gwariant ym mywydau beunyddiol ein pobl. Llywodraeth glymblaid y DU yn wir yw'r elfiant chwedlonol yn yr ystafell. Mae'n achosi'r diflastod pennaf inni ond, yn ôl y Ceidwadwyr Cymreig, nid yw'n chwaethus sôn amdani, felly ni wnaf hynny.

Council tax is our money to pay for our services. To merely freeze council tax is to cut the services available. The Welsh Government has sought to protect public services. Earlier this year, the Minister for local government announced that the Welsh Government would provide additional help to individuals facing a reduction in their council tax support. That followed the funding cut imposed by the Tory-led UK Government. It fully understood devolution at that point. It gave us the right to decide, but it cut the budget by 10%, and it did not give any money. It is a funny thing with the Tories: they understand devolution, they understand cutting budgets, but at the same time they fundamentally fail to understand the right for us to determine our own spending and to pass that on to local government to determine its spending. Let us be clear: an extra £22 million in funding has gone into local authorities to help them with bills in this new financial year alone. The Minister has said that the additional cash will make sure that those people eligible for council tax support in Wales will continue to receive their full entitlement. The Welsh Labour Government has kept its response to the council tax benefit changes under review. There has been careful financial management and prudent use of reserves and departmental budgets. That has meant that the Welsh Labour Government has been able to provide additional resource and return the council tax support budget to the level that it was at before the Tory-led UK Government made its cuts—the very cuts that they do not want you to hear about today.

Treth gyngor yw ein harian i dalu am ein gwasanaethau. Mae rhewi'r dreth gyngor yn cyfateb i dorri'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu gwasanaethau cyhoeddus. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi help ychwanegol i unigolion sy'n wynebu gostyngiad o ran lefel y cymorth a gânt gyda'r dreth gyngor. Roedd hynny'n dilyn toriad ariannol a orfodwyd gan Lywodraeth Doriaidd y DU. Roedd yn deall datganoli yn llawn bryd hynny. Rhoddodd yr hawl inni benderfynu, ond gostyngodd y gyllideb 10%, ac ni roddodd unrhyw arian. Mae'n sefyllfa ryfedd gyda'r Toriaid: maent yn deall datganoli, maent yn deall torri cyllidebau, ond ar yr un pryd maent yn methu'n llwyr â deall yr hawl inni bennu ein gwariant ein hunain a throsglwyddo'r hawl honno i lywodraeth leol er mwyn iddi bennu ei gwariant. Gadewch inni fod yn eglur: rhoddwyd £22 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau lleol i'w helpu gyda biliau yn ystod y flwyddyn ariannol newydd hon yn unig. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd yr arian ychwanegol yn sicrhau y bydd y bobl hynny sy'n gymwys i gael cymorth treth gyngor yng Nghymru yn parhau i gael eu hawliad llawn. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi parhau i adolygu ei hymateb i'r newidiadau o ran budd-dal y dreth gyngor. Gwelwyd rheolaeth ariannol ofalus a defnydd darbodus o gronfeydd wrth gefn a chyllidebau adrannol. O ganlyniad, llwyddodd Llywodraeth Lafur Cymru i ddarparu adnoddau ychwanegol a dychwelyd cyllideb cymorth y dreth gyngor i'r un lefel â'r lefel cyn toriadau Llywodraeth Doriaidd y DU—yr union doriadau nad ydynt am ichi glywed sôn amdanynt heddiw.

The Tories seem to be arguing on the one hand for a freeze in council tax as a virtue. In fact, and in practice, to freeze means to cut. Let us be clear what we are talking about. It means to cut services to the young and the old and the disabled. It means to close and reduce the opening hours of perhaps libraries, leisure facilities and drop-in centres. It means that those who can pay and who can afford it will get those services, because the one thing that the Tories have not explained here today is that, when councils freeze their council tax, they become charging authorities, and the people who have to pay are the very people who cannot afford it. You actually direct your cuts at them and force the people who can least afford to pay to buy the services that you provide as a local authority, because the only services that a local authority provides are essential services. You are not in a private sector business here. You are in the business of providing essential services.

Ymddengys fod y Torïaid yn dadlau ar y naill law o blaid rhewi'r dreth gyngor fel rhinwedd. Yn wir, ac yn ymarferol, mae rhewi yn golygu torri. Gadewch inni fod yn glir o ran yr hyn rydym yn sôn amdano. Mae'n golygu torri gwasanaethau i'r ifanc a'r henoed a'r anabl. Mae'n golygu cau a lleihau oriau agor llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden a chanolfannau galw heibio, o bosibl. Mae'n golygu y bydd y rheini sy'n gallu talu ac sy'n gallu eu fforddio yn cael y gwasanaethau hynny, gan mai'r un peth nad esboniodd y Torïaid yma heddiw yw pan fydd cynghorau yn rhewi eu treth gyngor, dônt yn awdurdodau sy'n codi tâl, a'r bobl sy'n gorfod talu yw'r union bobl na allant fforddio gwneud hynny. Mewn gwirionedd, rydych yn cyfeirio eich toriadau atynt ac yn gorfodi'r bobl sy'n gallu fforddio talu leiaf i brynu'r gwasanaethau a ddarperir gennych fel awdurdod lleol, gan mai dim ond gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan awdurdod lleol. Nid busnes sector preifat ydyw ond busnes sy'n darparu gwasanaethau hanfodol.

16:02 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for giving way. Worryingly, I find myself in total agreement with you for once, Joyce. What we are saying is that if the Welsh Government provided money to local authorities to make that council tax freeze, then they would not have to make the sorts of cuts that you are talking about. Your Government is not giving councils the money to do that.

Diolch i'r Aelod am ildio. Er mawr bryder, cytunaf yn llwyr â chi am unwaith, Joyce. Rydym yn dweud pe darparai Llywodraeth Cymru arian i awdurdodau lleol rewi'r dreth gyngor yn y fath fodd, yna ni fyddai'n rhaid iddynt wneud y toriadau rydych yn sôn amdanynt. Nid yw eich Llywodraeth yn rhoi'r arian i gynghorau wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:03 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have heard some things in my life, and that is just another amazing one from the Tories. What you are actually saying, and what actually happened in England, is that you top-slice the budget. You top-slice the budget and decide that people would have less money before they could start to provide the services, and yet you think that we ought to do exactly the same here in Wales.

Clywais rai pethau anhygoel yn fy mywyd, a dyna un arall gan y Torïaid. Mewn gwirionedd, yr hyn yr ydych yn ei ddweud, a'r hyn a ddigwyddodd yn Lloegr mewn gwirionedd, yw eich bod yn brigdorri'r gyllideb. Rydych yn brigdorri'r gyllideb ac yn penderfynu y byddai gan bobl lai o arian cyn y gallent ddechrau darparu'r gwasanaethau, ac eto, rydych yn credu y dylem wneud yn union yr un peth yma yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Antoinette Sandbach a godod—

Antoinette Sandbach rose—

16:03 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we do not do the same things in Wales, and I am not taking another intervention because I do not have much time. I have heard quite enough this afternoon about why things are not necessary. I am absolutely dismayed to have heard that the £180 maternity benefit was a waste of money. You tell that to people when you go knocking their doors in a few months' time and wait for the response.

Wel, nid ydym yn gwneud yr un pethau yng Nghymru, ac ni dderbyniaf ymyriad arall oherwydd nid oes gennyf lawer o amser. Rwyf wedi clywed hen ddigon y prynhawn yma o ran pam nad oes angen pethau. Rwy'n siomedig iawn clywed mai gwastraff arian oedd y budd-dal mamolaeth o £180. Dywedwch hynny wrth bobl pan fyddwch yn curu ar eu drysau ymhen ychydig fisoedd ac arhoswch am yr ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:04 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the document 'Delivering for Wales', Welsh Labour claimed to stand by people in hard-pressed communities. However, the reality is somewhat different. The fact is that while the Westminster Government has sought to ease the pressure on household budgets caused by increases in council tax, the Welsh Government has not. For the third successive year, the UK Government has provided funding to local authorities to freeze council tax in England. As a result, council tax bills will rise less than 1%, on average, in England this year.

Yn y ddogfen 'Cyflawni dros Gymru', honnodd Llafur Cymru ei bod yn cefnogi pobl mewn cymunedau sydd dan bwysau. Fodd bynnag, mae'r realiti ychydig yn wahanol. Er bod Llywodraeth San Steffan wedi ceisio lleddfu'r pwysau er gyllidebau aelwydydd a achoswyd gan godiadau treth gyngor, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud hynny. Am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae Llywodraeth y DU wedi rhoi arian i awdurdodau lleol rewi'r dreth gyngor yn Lloegr. O ganlyniad, bydd biliau treth gyngor yn codi llai nag 1%, ar gyfartaledd, yn Lloegr eleni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:05 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are, of course, avoiding the issue of council tax benefits. Local authorities in England have to fund a 10% deficit in council tax benefits. You are not painting an accurate picture.

Rydych, wrth gwrs, yn osgoi trafod budd-daliadau treth gyngor. Rhaid i awdurdodau lleol yn Lloegr ariannu diffyg o 10% mewn budd-daliadau treth gyngor. Nid ydych yn rhoi darlun cywir.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:05 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rhodri, you mention priorities and means, and I will reply to you in a moment. The fact is that we are talking about benefits for the public in Wales. The Governments of England and Scotland are doing it, and you are not following those big brothers here. You just want to make a stand as a younger brother—I am right about this—and go in the wrong direction.

Rhodri, rydych yn cyfeirio at flaenoriaethau ac adnoddau, ac ymatebaf ichi mewn munud. Y ffaith amdani yw ein bod yn sôn am fudd-daliadau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae Llywodraethau Lloegr a'r Alban yn gwneud hynny, ac nid ydych yn dilyn esiampl y brodyr mawr yma. Rydych am wneud safiad fel brawd iau—rwy'n iawn am hyn—a mynd i'r cyfeiriad anghywir.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rhodri Glyn Thomas a gododd—

Rhodri Glyn Thomas rose—

16:05 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just a minute, Rhodri. This means that council tax bills in England have risen by only £17 since 2010-11. The Welsh Government could have done the same thing, but it has not; that is a shame. It should have supported pensioners and hard-working families in Wales by using the money provided by Westminster to freeze council tax here; it has chosen not to do so. Since 2010-11, council tax bills in Wales have risen by £99, compared to £17 in England. You can judge for yourself who is losing out here—the public or you.

Arhoswch funud, Rhodri. Mae hyn yn golygu mai dim ond £17 y mae biliau treth gyngor yn Lloegr wedi codi ers 2010-11. Gallai Llywodraeth Cymru fod wedi gwneud yr un peth, ond ni wnaeth, mae hynny'n drueni. Dylai fod wedi cefnogi pensïynwyr a theuluoedd sy'n gweithio'n galed yng Nghymru drwy ddefnyddio'r arian a roddodd San Steffan i rewi'r dreth gyngor yma; dewisodd beidio â gwneud hynny. Ers 2010-11, mae biliau treth gyngor yng Nghymru wedi codi £99, o gymharu â £17 yn Lloegr. Gallwch farnu dros eich hun pwy sydd ar eu colled—chi neu'r cyhoedd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

This year, the average council tax rise in Wales is 3.2%, but the poorest communities in South Wales East face the largest increase. This year, council tax in Merthyr Tydfil will increase by 3.7%, while in Blaenau Gwent it will increase 4.3%, thanks to the Labour Government. On this side of the Chamber, we recognise the need to help families and pensioners in these tough times—the Labour Welsh Government clearly does not. Welsh Labour has decided to use the money for its own purposes.

Eleni, ceir cynnydd cyfartalog o 3.2% yn y dreth gyngor yng Nghymru, ond y cymunedau tlotaf yn Nwyrain De Cymru sy'n wynebu'r cynnydd mwyaf. Eleni, bydd y dreth gyngor ym Merthyr Tudful yn cynyddu 3.7%, a bydd yn cynyddu 4.3% ym Mlaenau Gwent, diolch i'r Llywodraeth Lafur. Ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym yn cydnabod bod angen helpu teuluoedd a phensiynwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn—yn amlwg nid yw Llywodraeth Lafur Cymru yn cydnabod hynny. Mae Llafur Cymru wedi penderfynu defnyddio'r arian at ei dibenion ei hun.

The Welsh Government is happy to pay lip service to tackling poverty, but it has failed, for three years running, to take the opportunity to relieve the council tax burden in Wales. It believes that it knows best how to spend the money, rather than leaving it in the pockets of Welsh people. Putting money in people's pockets stimulates the local economy. Ninety-nine per cent of businesses in Wales are small and medium-sized enterprises. These are the very businesses that would benefit most from giving people increased spending power.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon esgus mynd i'r afael â thlodi, ond methodd, dair blynedd yn olynol, ag achub ar y cyfle i leddfu baich y dreth gyngor yng Nghymru. Cred mai hi sy'n gwybod orau sut i wario'r arian, yn hytrach na'i adael ym mhocedi pobl Cymru. Mae rhoi arian ym mhocedi pobl yn rhoi hwb i'r economi leol. Busnesau bach a chanolig yw 99 y cant o fusnesau yng Nghymru. Dyma'r union fusnesau a fyddai'n elwa fwyaf pe bai gan bobl fwy o bŵer gwario.

For the sixth year in a row, all 32 local authorities in Scotland have signed up to implement a council tax freeze. Council tax will be frozen in England for the third year running. This will not happen in Wales, surprisingly. Council tax bills may be lower, on average, in Wales than in England because properties are cheaper here. However, bills are rising at a much quicker pace, penalising hard-pressed households in the tough economic climate in this part of the world. Average wages are also lower in Wales than in England. As has been mentioned, we remain the poorest nation in the UK. I ask colleagues to support our motion.

Am y chweched flwyddyn yn olynol, mae pob un o'r 32 o awdurdodau lleol yn yr Alban wedi ymrwymo i rewi'r dreth gyngor. Caiff y dreth gyngor ei rhewi yn Lloegr am y drydedd flwyddyn yn olynol. Nid felly yng Nghymru, er syndod. Efallai bod biliau treth gyngor yn is, ar gyfartaledd, yng Nghymru nag yn Lloegr gan fod eiddo yn rhatach yma. Fodd bynnag, mae biliau yn cynyddu yn llawer cyflymach, gan gosbi aelwydydd sydd o dan bwysau yn yr hinsawdd economaidd anodd yn y rhan hon o'r byd. Mae cyflogau cyfartalog hefyd yn is yng Nghymru nag yn Lloegr. Fel y soniwyd eisoes, ni yw'r wlad dlotaf yn y DU o hyd. Gofynnaf i gyd-Aelodau gefnogi ein cynnig.

16:09 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I find it quite strange that the Conservative group brought this debate forward knowing what a mess the party has created around council tax at the UK Government level. The Member for Aberconwy stood up to tell us how disgraceful it was that we had not had a council tax freeze. However, she was a member of a local authority cabinet. During her time in that cabinet, and during her time on Conwy County Borough Council, which she fails to mention now, every year without fail, council tax was raised.

Mae'n rhyfedd gennyf mai grŵp y Ceidwadwyr sydd wedi cyflwyno'r ddatl hon o wybod sut lanastr a wnaeth y blaid o ran y dreth gyngor ar lefel Llywodraeth y DU. Safodd yr Aelod dros Aberconwy i ddatgan ei bod yn warthus nad oeddem wedi rhewi'r dreth gyngor. Fodd bynnag, roedd yn aelod o gabinet awdurdod lleol. Yn ystod ei chyfnod yn y cabinet hwnnw, ac yn ystod ei chyfnod ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, nad yw'n cyfeirio ato yn awr, bob blwyddyn yn ddi-ffael, codwyd y dreth gyngor.

Antoinette Sandbach a gododd—

Antoinette Sandbach rose—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:10 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wait a minute. Every year, bills went up. In 2005-06, the Member for Aberconwy voted to raise the bill by 7.4%; the following year, in 2006-07, it went up by a further 5%; the year after that, it went up by 5% again. Therefore, I think that we have the right to let the people of Aberconwy know that that is what the Member was doing before she became an Assembly Member. Now, she appears to be trying to tell everybody that she has seen the light. I do not know on what road you were travelling when you saw the light about a council tax freeze, but I wish that some of your colleagues would take the same route. Come on, let us have the answer.

Arhoswch funud. Bob blwyddyn, cynyddodd y biliau. Yn 2005-06, pleidleisiodd yr Aelod dros Aberconwy i godi'r bil 7.4%; y flwyddyn ganlynol, yn 2006-07, cododd 5% arall; y flwyddyn wedi hynny, cododd 5% eto. Felly, credaf fod gennyf yr hawl i roi gwybod i bobl Aberconwy mai dyna a wnaeth yr Aelod cyn iddi ddod yn Aelod Cynulliad. Yn awr, ymddengys ei bod yn datgan wrth bawb ei bod wedi gweld y goleuni. Ni wn ar ba ffordd roeddech yn teithio pan welsoch y goleuni o ran rhewi'r dreth gyngor, ond trueni na wnaiff rhai o'ch cyd-Aelodau ddilyn yr un trywydd. Dewch ymlaen, gadewch inni gael yr ateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:11 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What you failed to mention was that, two years before I became a member of that council, the Labour-run county council in Conwy put in place a 9.5% increase. The following year, because it was an election year, it raided the reserves and put in place a 3.8% council tax increase. We were then told that we had to put that money back in the reserves. That is what the Labour Government did here. It was a case of—

Yr hyn na wnaethoch gyfeirio ato oedd y ffaith, ddwy flynedd cyn imi ddod yn aelod o'r cyngor hwnnw, bod y cyngor sir o dan arweiniad Llafur wedi pennu cynnydd o 9.5%. Y flwyddyn ganlynol, gan ei bod yn flwyddyn etholiad, defnyddiodd y cronfeydd wrth gefn a phennodd gynydd o 3.8% yn y dreth gyngor. Wedyn, dywedwyd wrthym fod yn rhaid inni ddychwelyd yr arian hwnnw i'r cronfeydd wrth gefn. Dyna a wnaeth y Llywodraeth Llafur yn yr achos hwn. Y funud y—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:11 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I stop you there?

A gaf eich atal yn y fan honno?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:11 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was a case of the minute that it changed the—

Y funud y newidiodd y—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:11 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I stop you there? May I stop the Member there?

A gaf eich atal yn y fan honno? A gaf atal yr Aelod yn y fan honno?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:11	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Why?	Pam?	Senedd.tv Fideo Video
16:11	Ann Jones Bywgraffiad Biography It was an intervention.	Ymyriad ydoedd.	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography It was an intervention. Would you mind sitting down for the moment because I want—	Ymyriad ydoedd. A fyddech cystal ag eistedd am funud gan fy mod am—	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography May I just finish this point?	A gaf orffen y pwynt hwn?	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography No. Would you mind sitting down?	Na chewch. A fyddech cystal ag eistedd?	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography An accusation, with respect—	Mae cyhuddiad, gyda phob parch—	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography Would you mind sitting down?	A fyddech cystal ag eistedd?	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography An accusation is being levied at me—	Mae cyhuddiad yn cael ei wneud yn fy erbyn—	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography Would you—	A fyddech—	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography On a point of order—	Ar bwynt o drefn—	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography I am being very patient at the moment and I am asking you to sit down for the last time. I say to every Member here that, if anybody—Assembly Members, Ministers or shadow Ministers—wishes to make an intervention, they should not do it from a sitting position, but stand up properly to do it. When Members are speaking, we will listen to Members speaking. This is an important debate. Thank you.	Rwy'n bod yn amyneddgar iawn ar hyn o bryd ac yn gofyn ichi eistedd am y tro olaf. Dywedaf wrth bob Aelod yma, os bydd unrhyw un—Aelodau'r Cynulliad, Gweinidogion neu Weinidogion cysgodol—yn awyddus i wneud ymyriad, na ddylid gwneud hynny ar eu heistedd, ond y dylent sefyll ar eu traed i wneud hynny. Pan fydd Aelodau yn siarad, gwrandawn ar yr Aelodau yn siarad. Mae hon yn ddadl bwysig. Diolch.	Senedd.tv Fideo Video
16:12	Ann Jones Bywgraffiad Biography Thank you very much for that. If that is the accusation, then 7.4% on top of what you were trying to claim, plus another 5% and then another 5% makes it still unreliable. However, I feel that talking about a council tax freeze now is almost like having a transformation on the road to Damascus and I do not think that that is something that you have done.	Diolch yn fawr iawn am hynny. Os mai dyna'r cyhuddiad, yna mae 7.4% ar ben yr hyn yr oeddech yn ceisio ei honni, ynghyd â 5% arall ac wedyn 5% arall yn golygu ei fod yn annibynadwy o hyd. Fodd bynnag, teimlaf fod trafod rhewi'r dreth gyngor yn awr bron fel cael trawsffurfiad ar y ffordd i Ddamascus ac ni chredaf eich bod wedi gwneud hynny.	Senedd.tv Fideo Video

The reality about all of this is that we know that the Conservative group advocated a 20% cut to education budgets. [Interruption.] Well, the Conservative group has said that. The Conservative group wants to scrap free school breakfasts. There is a raft of other cuts that you want that would hit the most vulnerable the hardest. These are the issues. With regard to the issue around the council tax benefit scheme, you need to go back and talk to your colleagues in England—those who are not taking up the council tax benefit reduction scheme. These are prominent councils that are controlled by Tories. The Minister for local government's own council will not even do it because it can see a massive shortfall and that it is not the issue that it should concentrate on.

You just do not get it, I am sorry. I thought that the Tories were beginning to get devolution and the idea of devolution, but, I am sorry, you just do not. There are many of you looking to go to Westminster, and I think that that is the nasty party at work once again. We are finding now that you are hampering the devolution settlement. I believe that, with regard to your motion today, as much as you have tried to toss it around and put the blame back here, the people of Wales will see who really is standing up for them, and it is certainly not the party in blue.

16:14 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I call the next speaker, I will tell Members that I have been reminded which colour button turns all the microphones off. I will not hesitate to use it next time.

16:15 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Average council tax bills have increased by 148% in Wales since 1999 under Welsh Labour-led Governments. It is sneaky and disingenuous for Welsh Labour to argue that council tax is substantially lower on average in Wales than in England, when disposable household income is also lower in Wales than in the other UK nations.

Labour in Wales has form in this area. It previously undermined public trust in the council tax system by mishandling the revaluation of property values. Despite its promises then, revaluation was not cost-neutral; a third of Welsh households went up a band or more, and only 8% of households went down. It is now denying assistance to Welsh households with daily living costs by failing to pass on the money provided by the UK coalition Government to freeze council tax in Wales.

A Flintshire constituent told me that wages are far lower in Wales than in England, so it is only logical, he said, that Welsh council tax should be kept far lower than English council tax, otherwise greater hardship would occur. He added that, for those on low wages but above benefit thresholds, the cost of council tax is disproportionately high. He therefore asked you to eliminate any council tax rises. He said that money has been granted by the UK Government for this purpose and people with families to house and feed will be grateful to you for using it for its intended purpose.

Y gwir am hyn oll yw ein bod yn gwybod bod grŵp y Ceidwadwyr wedi argymhell gostyngiad o 20% i gyllidebau addysg. [Torri ar draws.] Wel, mae grŵp y Ceidwadwyr wedi dweud hynny. Mae grŵp y Ceidwadwyr yn awyddus i gael gwared â'r cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion. Mae llu o doriadau eraill yr ydych am eu cyflwyno a fyddai'n cael yr effaith fwyaf dinistriol ar y rhai mwyaf agored i niwed. O ran y cynllun budd-dal treth gyngor, mae angen ichi siarad â'ch cyd-Aelodau yn Lloegr eto—y rhai nad ydynt yn rhoi'r cynllun i leihau'r budd-dal treth gyngor ar waith. Mae'r rhain yn gynghorau mawr wedi'u rheoli gan Doriaid. Ni fydd cyngor y Gweinidog Llywodraeth Leol ei hun hyd yn oed yn ei roi ar waith oherwydd gall weld diffyg sylweddol ac nid dyna y dylem fod yn rhoi sylw iddo.

Mae'n ddrwg gennyf ond nid ydych yn deall dim. Roeddwn yn credu bod y Toriaid yn dechrau deall datganoli a'r syniad o ddatganoli, ond, mae'n ddrwg gennyf, nid yw hynny'n wir. Mae llawer ohonoch yn bwriadu mynd i San Steffan, a chredaf mai'r blaidd gas sydd ar waith unwaith eto. Rydym yn gweld yn awr eich bod yn llesteirio'r setliad datganoli. O ran eich cynnig heddiw, cymaint ag yr ydych wedi ceisio bwrw'r bai yma, credaf y bydd pobl Cymru yn gweld pwy sy'n eu hamddiffyn go iawn, ac yn sicr, nid y blaidd las sy'n gwneud hynny.

Cyn imi alw'r siaradwr nesaf, hoffwn hysbysu'r Aelodau fy mod wedi cael fy atgoffa pa liw botwm sy'n diffodd yr holl feicroffonau. Byddaf yn fwy na pharod i'w ddefnyddio y tro nesaf.

Mae biliau treth gyngor ar gyfartaledd wedi cynyddu 148% yng Nghymru ers 1999 o dan Lywodraethau wedi'u harwain gan Lafur Cymru. Mae'n llechwraidd ac yn anonest i Lafur Cymru ddadlau fod y dreth gyngor yn sylweddol is ar gyfartaledd yng Nghymru nag yn Lloegr, pan fo incwm gwario aelwydydd hefyd yn is yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU.

Mae Llafur yng Nghymru wedi gwneud enw iddi'i hun yn y maes hwn. Tansailiodd ymddiriedaeth y cyhoedd yn system y dreth gyngor yn y gorffennol drwy gamreoli'r broses o ailbriso gwerth eiddo. Er gwaethaf ei haddewidion bryd hynny, nid oedd y broses ailbriso yn gost-niwtral; cododd traean o gartrefi Cymru fand neu fwy, a dim ond 8% o gartrefi a aeth i lawr. Bellach mae'n gwrthod rhoi cymorth i aelwydydd yng Nghymru gyda chostau byw beunyddiol drwy fethu â throsglwyddo'r arian a roddwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU i rewi'r dreth gyngor yng Nghymru.

Dywedodd etholwr o Sir y Fflint wrthyf fod cyflogau yn llawer is yng Nghymru nag yn Lloegr, felly ei bod ond yn rhesymegol, dywedodd, y dylid cadw'r dreth gyngor yng Nghymru yn llawer is na'r dreth gyngor yn Lloegr, neu y byddai mwy o galedi. Ychwanegodd, i'r rheini ar gyflogau isel ond sydd uwchlaw'r trothwyon budd-dal, fod cost y dreth gyngor yn anghymesur o uchel. Felly gofynnodd ichi gael gwared ar unrhyw godiadau yn y dreth gyngor. Dywedodd fod Llywodraeth y DU wedi rhoi'r arian hwnnw at y diben hwn ac y bydd pobl â theuluoedd i'w cartrefu a'u bwyo yn ddiolchgar ichi am ei ddefnyddio at y diben bwriadedig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Another constituent told me that, if anyone should have their council tax frozen, it should be us. He said that we pay the same prices for things as people in England do, but get much less in wages. He said, 'Please ask the Welsh Government to give us a break'.

A Vale of Clwyd constituent e-mailed, saying,

'I am writing to you as my AM to ask you to support a freeze on council tax in Wales. The UK Government has given Wales the money to do this. Council tax penalises many people like me just above the benefits threshold and having to pay the tax out of low wages'.

Welsh taxpayers are losing out once again because of Labour's decision-making. Although the UK Government has given funding to the Welsh Government to support households with their council tax bills, communities in Wales are the only ones in mainland Britain being denied the chance to benefit from a council tax freeze.

The UK Government has provided support for local authorities to freeze council tax for three successive years. In Scotland, council tax bills have been frozen for the sixth year, leaving cash-strapped Welsh households isolated and lagging behind at the bottom of the pack yet again. In England, almost two thirds of councils are reducing or freezing council tax by taking advantage of the UK Government's latest support package. Across England, council tax bills will rise by an average of just 0.8% compared with an average 3.2% rise in Wales and the 4.8% rise hitting households on the isle of Anglesey, a legacy of Welsh Labour's commissioners. Nearly two thirds of local authorities in England will take advantage of the UK Government's offer of a council tax freeze, and the Scottish Government, as we have heard, has made support available to Scottish councils to freeze council tax for six years. All 32 Scottish local authorities have signed up to implement a council tax freeze.

Although households in England can veto excess council tax rises, Labour has created a democratic deficit by denying such a right to households in Wales. Its approach to reform of the council tax system was shambolic, subjecting households across Wales to weeks of unnecessary uncertainty.

Dyweddod etholwr arall wrthyf, pe bai treth gyngor unrhyw un gael ei rhewi, mai ni oedd hynny. Dywedodd ein bod yn talu'r un prisiau am bethau ag y mae pobl yn Lloegr, ond yn cael cyflogau llawer is. Dywedodd, 'Gofynnwch i Lywodraeth Cymru roi cyfle inni'.

Anfonodd etholwr o Ddyffryn Clwyd neges e-bost, gan ddatgan,

Ysgrifennaf atoch fel fy AC i ofyn ichi gefnogi cynnig i rewi'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi'r arian i Gymru wneud hyn. Mae'r dreth gyngor yn cosbi llawer o bobl fel fi sydd ychydig uwchlaw'r trothwy budd-daliadau ac yn gorfod talu'r dreth allan o gyflogau isel.

Mae trethdalwyr yng Nghymru ar eu colled unwaith eto oherwydd penderfyniadau Llafur. Er bod Llywodraeth y DU wedi rhoi arian i Lywodraeth Cymru helpu aelwydydd gyda'u biliau treth gyngor, cymunedau yng Nghymru yw'r unig rai ar dir mawr Prydain sy'n cael eu hamddifadu o'r buddiannau sy'n gysylltiedig â rhewi'r dreth gyngor.

Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi cymorth i awdurdodau lleol rewi'r dreth gyngor am dair blynedd yn olynol. Yn yr Alban, rhewyd biliau treth gyngor am y chweched flwyddyn, gan adael aelwydydd yng Nghymru sy'n brin o arian ar eu pennau eu hunain ac ar ei hôl hi ar waelod y domen unwaith eto. Yn Lloegr, mae bron i ddwy ran o dair o'r cyngorau yn lleihau neu'n rhewi'r dreth gyngor drwy fanteisio ar becyn cymorth diweddaraf Llywodraeth y DU. Ledled Lloegr, dim ond 0.8% y bydd biliau treth gyngor yn codi ar gyfartaledd, o gymharu â chynnydd o 3.2% ar gyfartaledd yng Nghymru a'r cynnydd o 4.8% a fydd yn effeithio ar aelwydydd ar Ynys Môn, etifeddiaeth gan gomisiynwyr Llafur Cymru. Bydd bron i ddwy ran o dair o awdurdodau lleol yn Lloegr yn manteisio ar gynnig Llywodraeth y DU i rewi'r dreth gyngor, ac mae Llywodraeth yr Alban, fel y clywsom, wedi rhoi cymorth i gyngorau yn yr Alban rewi'r dreth gyngor ers chwe blynedd. Mae pob un o'r 32 o awdurdodau lleol yn yr Alban wedi cytuno i rewi'r dreth gyngor.

Er y gall aelwydydd yn Lloegr roi feto ar godiadau gormodol yn y dreth gyngor, mae Llafur wedi creu diffyg democrataidd drwy wrthod rhoi hawl o'r fath i aelwydydd yng Nghymru. Gwnaeth draed moch o'r broses o ddiwygio system y dreth gyngor, gan beri wythnosau o ansicrwydd diangen i aelwydydd ledled Cymru.

We live in tough economic times—we all agree on that—but those responsible now stand on the sidelines heckling. Ministers in this Welsh Government remind me of the film—I forget what it is called; some of you might remind me—in which pernicious people cause car crashes and then return to the crash site to salivate over the injury and damage caused. Putting money back into people's pockets in tough times is absolutely key, as is trusting people to have control over their own money, households and communities. Freezing council tax can play a key role in stimulating local economies. All relief during difficult economic times is helpful for hard-pressed households, and it is nothing less than shocking that, while communities in England and Scotland are being offered much-needed support, Labour has once again denied it to communities in Wales. Instead, it continues to spend more on less, subsidising rather than tackling the deep-rooted and longstanding causes of the problems facing Wales today.

Rydym yn byw mewn cyfnod economaidd anodd—mae pob un ohonom yn cytuno â hynny—ond mae'r rhai sy'n gyfrifol yn awr yn sefyll ar y cyrion yn gweiddi. Mae Gweinidogion yn y Llywodraeth hon yng Nghymru yn fy atgoffa o'r ffilm—nid wyf yn cofio ei henw, efallai y gall rhai ohonoch fy atgoffa—lle mae pobl ddiistriol yn achosi damweiniau car ac yna yn dychwelyd i leoliad y ddamwain i lafoerio dros yr anafiadau a'r difrod a achoswyd. Mae dychwelyd arian i bocedi pobl yn ystod cyfnodau anodd yn hollol allweddol, felly hefyd ymddiried mewn pobl i reoli eu harian, eu haelwydydd a'u cymunedau eu hunain. Gall rhewi'r dreth gyngor chwarae rhan allweddol wrth ysgogi economïau lleol. Mae unrhyw ryddhad yn ystod cyfnodau economaidd anodd yn ddefnyddiol i aelwydydd dan bwysau, ac mae'n hollol syfrdanol, tra bo cymunedau yn Lloegr a'r Alban yn cael cynnig cymorth y mae dirfawr ei angen, fod Llafur unwaith eto wedi gwrthod rhoi'r cymorth hwnnw i'w chymunedau yng Nghymru. Yn lle hynny, mae'n parhau i wario mwy ar lai, gan roi cymhorthdal yn lle mynd i'r afael â'r ffactorau dwfn a hirsefydledig sy'n achosi'r problemau y mae Cymru yn eu hwynebu heddiw.

16:20

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

I call on the Assembly to reject this motion. I am happy to discuss the importance of financial management in local government and the role of council tax, and to debate the comparisons between our approach in Wales and the approach in England. The Welsh Government's support for local government over the current spending review period has increased, while the settlement in England on a like-for-like basis has decreased. We have channelled the available funding into the core settlement, rather than packaging part of it as a grant for freezing council tax. Of course, if local authorities wish to freeze their council tax, as some councils have done, they are able to do this within the funding provided. So, they do have that choice, which Nick Ramsay failed to recognise. I recognise that times are difficult for families in Wales. However, the pressures on our schools and our social services mean that a great deal of the money available for local government must be used to support the delivery of those and other front-line services. Mike Hedges referred to the importance of care packages to keep people out of hospital and to ease the growing pressures on the NHS.

Galwaf ar y Cynulliad i wrthod y cynnig hwn. Rwy'n barod i drafod pwysigrwydd rheolaeth ariannol mewn llywodraeth leol a rôl y dreth gyngor, ac i drafod y cymariaethau rhwng yr hyn a wnawn yng Nghymru a'r hyn a wneir yn Lloegr. Mae cymorth Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol yn ystod cyfnod yr adolygiad presennol o wariant wedi cynyddu, ond mae'r setliad yn Lloegr ar sail tebyg at ei debyg wedi lleihau. Rydym wedi sianelu'r arian sydd ar gael i'r setliad craidd, yn hytrach na pheycynnu rhan ohono fel grant i rewi'r dreth gyngor. Wrth gwrs, os bydd awdurdodau lleol yn awyddus i rewi eu treth gyngor, fel y mae rhai cynghorau wedi gwneud, gallant wneud hyn o fewn yr arian a ddarperir. Felly, maent yn cael y dewis hwnnw, rhywbeth na lwyddodd Nick Ramsay i'w gydnabod. Rwy'n cydnabod ei fod yn gyfnod anodd i deuluoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r pwysau ar ein hysgolion a'n gwasanaethau cymdeithasol yn golygu bod yn rhaid defnyddio cryn dipyn o'r arian sydd ar gael i lywodraeth leol i helpu i ddarparu'r gwasanaethau hynny a gwasanaethau rheng flaen eraill. Cyfeiriodd Mick Hedges at bwysigrwydd pecynnau gofal i gadw pobl allan o'r ysbyty a lliniaru'r pwysau cynyddol ar y GIG.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The UK Government is giving English local authorities the option of receiving a grant equivalent to a 1% increase in council tax, provided that they commit to freezing council tax this year. However, almost 40% of authorities in England have chosen not to accept the funding and have opted to increase council tax instead. There are a number of authorities from across the political spectrum that are planning increases of over 4% and one Conservative council is planning an increase of almost 8%. Choices about how to use the consequential funding that comes to Wales in recognition of UK Government decisions are matters for Welsh Ministers. The additional funding received in Wales as a result of the UK Government's decision to freeze council tax in England last year has been invested in a package of measures to stimulate the economy and to protect jobs. Those actions complement our longer-term economic strategy and will deliver more sustainable benefits. It is far better in the circumstances to use the consequentials that we receive to invest in jobs and growth. As Rhodri Glyn Thomas said, it is a consequence of devolution that we are able to make decisions that we believe are best for the people of Wales.

Mae Llywodraeth y DU yn rhoi'r dewis i awdurdodau lleol yn Lloegr gael grant sy'n cyfateb i gynydd o 1% yn y dreth gyngor, ar yr amod eu bod yn ymrwymo i rewi'r dreth gyngor eleni. Fodd bynnag, mae bron i 40% o awdurdodau yn Lloegr wedi dewis peidio â derbyn y cyllid ac wedi dewis cynyddu'r dreth gyngor yn lle hynny. Mae nifer o awdurdodau o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol yn bwriadu cyflwyno codiadau o dros 4% ac mae un cyngor Ceidwadol yn bwriadu cyflwyno codiad o bron i 8%. Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw gwneud dewisiadau o ran sut y dylid defnyddio'r arian canlyniadol a ddaw i Gymru i gydnabod penderfyniadau Llywodraeth y DU. Buddsoddwyd yr arian ychwanegol a ddaeth i Gymru o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i rewi'r dreth gyngor yn Lloegr y llynedd mewn pecyn o fesurau i roi hwb i'r economi ac i ddiogelu swyddi. Mae'r camau hynny yn ategu ein strategaeth economaidd tymor hwy a byddant yn esgor ar fuddiannau mwy cynaliadwy. O dan yr amgylchiadau, mae'n llawer gwell defnyddio'r arian canlyniadol a gawn i fuddsoddi mewn swyddi a thwf. Fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, diolch i ddatganioli, gallwn wneud penderfyniadau sydd, yn ein barn ni, o fudd i bobl Cymru.

16:22 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You have just said that you are not passing on that consequential money to councils to freeze council tax. Therefore, councils in Wales do not have the choice that councils in England and Scotland have, do they?

Rydych newydd ddweud nad ydych yn trosglwyddo'r arian canlyniadol hwnnw i gynghorau i rewi'r dreth gyngor. Felly, nid oes gan gynghorau yng Nghymru yr un dewis â chynghorau yn Lloegr a'r Alban, nac oes?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:22 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They have the choice to freeze council tax within the core funding that we give them.

Gallant ddewis rhewi'r dreth gyngor o fewn yr arian craidd a roddwn iddynt.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

In Wales, the level of council tax continues to be a matter for each local authority to determine. It is very important for authorities to act responsibly and reasonably in balancing the need to provide key services with the need to limit the burden on hard-pressed families. However, I believe that these decisions are best taken locally by local authorities, which are accountable to their electorate. I will use the powers available to me to limit increases if I must, but I believe in giving local democracy the space to make the right decisions, as that is true localism. Joyce Watson and Rhodri Glyn Thomas made excellent points about the UK Government welfare cuts. I will just correct you, Rhodri, however: council tax support has not been devolved, it has been abolished. As a Welsh Government, we found the extra £22 million that we made available to families in relation to this. As a Government, we have provided local authorities with a positive settlement, despite the financial conditions and the massive cut to our budget by the UK Government of £1.7 billion over two years. Believe me, Janet, people will know who to blame for it. They will blame David Cameron and the rest of his Cabinet.

Yng Nghymru, mae lefel y dreth gyngor yn parhau'n fater i bob awdurdod lleol benderfynu arno. Mae'n bwysig iawn i awdurdodau weithredu mewn ffordd gyfrifol a rhesymol wrth bwysio a mesur yr angen i ddarparu gwasanaethau allweddol yn erbyn yr angen i gyfyngu'r baich ar deuluoedd dan bwysau. Fodd bynnag, credaf mai awdurdodau lleol, sy'n atebol i'w hetholwyr, sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniadau hyn yn lleol. Defnyddiaf y pwerau sydd ar gael imi i gyfyngu ar godiadau os bydd rhaid, ond credaf y dylid rhoi'r rhyddid i ddemocratiaeth leol wneud y penderfyniadau priodol, gan mai dyna yw lleoliaeth go iawn. Gwnaeth Joyce Watson a Rhodri Glyn Thomas bwyntiau ardderchog am doriadau lles Llywodraeth y DU. Ond hoffwn eich cywiro, Rhodri: ni ddatganolwyd cymorth y dreth gyngor, fe'i diddymwyd. Fel Llywodraeth Cymru, daethom o hyd i'r £22 miliwn ychwanegol a gynigiwyd gennym i deuluoedd yn hyn o beth. Fel Llywodraeth, rydym wedi rhoi setliad cadarnhaol i awdurdodau lleol, er gwaethaf yr amodau ariannol a'r gostyngiad aruthrol o £1.7 biliwn dros ddwy flynedd i'n cyllideb gan Lywodraeth y DU. Coeliwch chi fi, Janet, bydd pobl yn gwybod pwy i'w feio. Byddant yn beio David Cameron a gweddill ei Gabinet.

Council tax rises in recent years have been in line with inflation. Our continuing commitment to supporting local government means that, despite the council tax freezes in England, the average band D council tax in Wales remains much lower than in England. This year, it is £230 lower. I am not clear as to where Janet Finch-Saunders gets her figures from, so, if you do not mind, I will not be coming to you for any tips, Janet. Over the past decade, council tax levels in Wales have been consistently lower than those in Scotland. It is only very recently, after years of council tax freezes in Scotland, that we have seen council tax there at levels similar to here in Wales. Since the Assembly was formed, Welsh Government funding for local government in Wales has almost doubled. The funding we provide has broadly kept pace with the increase in local authority expenditure.

To respond to the Liberal Democrats' amendment 1, as Peter Black already knows, having worked in local government for several years, local authorities have the power to set their own council tax levels. They receive the majority of their funding through the revenue settlement; it is unhypothecated, which means that it is for each authority to decide how it spends its allocation. Therefore, I am happy to support amendment 1, and it is good to see Peter recognising the mistakes being made by his colleagues in the UK Government.

I call on the Assembly to reject the Liberal Democrats' amendment 2. The current council tax system is broadly sound. The reduction scheme that we have put in place for 2013-14 ensures that those who need help with their council tax bills will receive the necessary support.

Bu'r cynnydd yn y dreth gyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn unol â chwyddiant. Mae ein hymrwymiad parhaus i gefnogi llywodraeth leol yn golygu, er gwaethaf y ffaith bod y dreth gyngor wedi'i rhewi yn Lloegr, bod y dreth gyngor gyfartalog ym mand D yng Nghymru yn parhau yn llawer is nag yn Lloegr. Eleni, mae £230 yn is. Nid wyf yn siŵr beth yw ffynhonnell ffigurau Janet Finch-Saunders, felly, os nad oes ots gennyich, ni ddof atoch am unrhyw gyngor, Janet. Yn ystod y degawd diwethaf, mae lefelau'r dreth gyngor yng Nghymru wedi bod yn gyson is na lefelau'r Alban. Dim ond yn ddiweddar iawn, ar ôl blynyddoedd o rewi'r dreth gyngor yn yr Alban, y mae lefelau'r dreth gyngor yno yn debyg i'r lefelau yma yng Nghymru. Ers ffurfio'r Cynulliad, mae arian Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol yng Nghymru bron wedi dyblu. Mae'r arian a ddarperir gennym fwy neu lai yn gyson â'r cynnydd yng ngwariant awdurdodau lleol.

Er mwyn ymateb i welliant 1 y Democratiaid Rhyddfrydol, fel y gŵyr Peter Black eisoes, ar ôl gweithio ym maes llywodraeth leol ers sawl blwyddyn, mae gan awdurdodau lleol y pŵer i bennu lefelau'r dreth gyngor eu hunain. Daw'r rhan fwyaf o'u harian drwy'r setliad refeniw, nid yw wedi'i neilltuo, sy'n golygu y gall pob awdurdod benderfynu sut i wario ei ddyraniad. Felly, rwy'n fwy na pharod i gefnogi gwelliant 1, ac mae'n bleser gweld Peter yn cydnabod y camgymeriadau a wneir gan ei gyd-Aelodau yn Llywodraeth y DU.

Galwaf ar y Cynulliad i wrthod gwelliant 2 y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae system bresennol y dreth gyngor yn gyffredinol gadarn. Mae'r cynllun gostyngiadau yr ydym wedi'i roi ar waith ar gyfer 2013-14 yn sicrhau y bydd y rhai y mae angen help arnynt gyda'u biliau treth gyngor yn cael y cymorth angenrheidiol.

16:25 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Members for their contributions to the debate. The way in which councils spend taxpayers' money is a matter of huge importance. Households paying council tax expect it to be used in a way that delivers services that are best value for money. The Welsh Conservatives believe that when the Welsh Government has the means at its disposal to freeze council tax through consequential funding, it should do so and that Welsh households should benefit in the same way as those in England and Scotland.

Mike Hedges, in his contribution, failed to acknowledge that the average asking price for houses in Wales is thousands of pounds lower than it is in England. In respect of Rhodri Glyn Thomas's housing fund—

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl. Mae'r ffordd y mae cynghorau yn gwario arian trethdalwyr yn eithriadol o bwysig. Mae aelwydydd sy'n talu'r dreth gyngor yn disgwyl iddi gael ei defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwasanaethau sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian. Cred y Ceidwadwyr Cymreig, pan fo gan Lywodraeth Cymru'r gallu i rewi'r dreth gyngor drwy arian canlyniadol, y dylai wneud hynny ac y dylai aelwydydd yng Nghymru gael yr un buddiannau ag aelwydydd yn Lloegr a'r Alban.

Yn ei gyfraniad, methodd Mike Hedges â chydabod bod y pris gofyn cyfartalog am dai yng Nghymru filoedd o bunnoedd yn is na'r pris cyfatebol yn Lloegr. O ran cronfa dai Rhodri Glyn Thomas—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:26 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A dderbyniwch ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:26 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, thank you. The housing associations in Gwynedd told me in the eisteddfod last year that, although they were aware of the need for one-bedroomed houses in Gwynedd, they could not invest in and build that housing because the council had failed to bring the housing up to the Welsh quality housing standard before it passed the housing stock to the housing associations.

Na wnaif, diolch. Dywedodd y cymdeithasau tai yng Ngwynedd wrthyf yn yr eisteddfod y llynedd, er eu bod yn ymwybodol o'r angen am dai un ystafell wely yng Ngwynedd, na allent fuddsoddi yn y tai hynny na'u hadeiladu am fod y cyngor wedi methu â sicrhau bod tai yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru cyn trosglwyddo'r stoc dai i'r cymdeithasau tai.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:26	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Will you take an intervention?</p>	<p>A dderbyniwch ymyriad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:26	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>No. I referred to your contribution—[Interruption.] The millions of pounds—[Interruption.]</p>	<p>Na. Cyfeiriais at eich cyfraniad—[Torri ar draws.] Mae miliynau o bunnoedd—[Torri ar draws.]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:26	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p>Order. The Member said 'no'.</p>	<p>Trefn. Dywedodd yr Aelod 'na'.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:26	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>I referred to your contribution and explained what the housing associations told me about why there was a lack of one-bedroomed accommodation available in Gwynedd.</p> <p>Millions and millions of pounds of capital investment is being passed on to Wales: £59 million for a broadband support scheme and £2 billion for investment in railways. The Minister talks about a £1.7 billion cut, but that is coming back to Wales, and even more than what is cut is being invested by the UK Government in Wales. That is investment that was not made by a UK Labour Government and was not made by the Welsh Assembly Government.</p> <p>Janet said that many constituents were asking her where the money has gone. The answer for the council tax payers in north, west and mid Wales is that it has been raided for vanity projects, for example, the £52 million spent on the airport. That money could have been circulating in the local economies in north Wales, mid Wales and west Wales. The council tax could have been frozen and that money could have gone across Wales and benefited the whole of Wales. Yesterday, during the statement on the airport, I was told that I had no locus on a national airport, which is a disgrace. It is an example of £52 million of completely wasteful spending by the Welsh Labour Government that could have gone into the pockets of hard-pressed council tax payers across Wales.</p>	<p>Cyfeiriais at eich cyfraniad ac esboniais beth a ddywedodd y cymdeithasau tai wrthyf o ran pam bod diffyg llety un ystafell wely yng Ngwynedd.</p> <p>Mae miliynau a miliynau o bunnoedd o fuddsoddiad cyfalaf yn cael ei drosglwyddo i Gymru: £59 miliwn ar gyfer cynllun cymorth band eang a £2 biliwn i'w fuddsoddi mewn rheilffyrdd. Mae'r Gweinidog yn sôn am ostyngiad o £1.7 biliwn, ond mae hynny'n cael ei ddychwelyd i Gymru, ac mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi hyd yn oed mwy yng Nghymru na'r swm sy'n gysylltiedig â thoriadau. Mae hynny'n fuddsoddiad na wnaed gan Lywodraeth Lafur y DU ac na wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.</p> <p>Dywedodd Janet fod llawer o etholwyr yn gofyn iddi ble y mae'r arian wedi mynd. Yr ateb i dalwyr y dreth gyngor yn y gogledd, y gorllewin a'r canolbarth yw bod yr arian wedi'i ysbeilio ar gyfer prosiectau porthi balchder, er enghraifft, y £52 miliwn a wariwyd ar y maes awyr. Gellid bod wedi dosbarthu'r arian hwnnw i'r economïau lleol yn y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin. Gellid bod wedi rhewi'r dreth gyngor a gellid bod wedi dosbarthu'r arian hwnnw ledled Cymru ac er budd Cymru gyfan. Ddoe, yn ystod y datganiad am y maes awyr, dywedwyd wrthyf nad oedd gennyf unrhyw locus ar faes awyr cenedlaethol, sy'n warthus. Mae'n enghraifft o £52 miliwn o wariant cwbl wastraffus gan Lywodraeth Lafur Cymru y gellid bod wedi'i roi ym mhocedi talwyr y dreth gyngor sydd o dan bwysau ledled Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Year after year, I have watched successive Labour Governments squeeze local councils by passing on spending settlements that are below inflation rates. They have cut local council budgets year after year, and that is why local councils are placed in the impossible position of trying to decide which services to deliver: it is because the Welsh Government holds back the funding and gives below-inflation settlements to local councils. It is a wholly irresponsible—[*Interruption.*] Thank you for speaking up, Joyce Watson, because you have reminded me that in 2008 we had one of the biggest financial disasters seen in this country, caused by years of Labour mismanagement and a failure to oversee the UK banking sector. The irresponsible setting up of the Financial Services Authority, which was done by Gordon Brown and Tony Blair, left this country in the biggest mess that it has seen for years, with the biggest peacetime deficit ever seen. This is quite clear. We accept that the Welsh Government has the opportunity to make choices and to spend money on things like an airport, instead of standing up for people in north Wales and for people across the whole of Wales. That is another waste of money. That is what gets council tax payers so angry in north Wales, south Wales and mid Wales. [*Interruption.*]

Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rwyf wedi gwyllo Llywodraethau Llafur olynol yn gwasgu cynghorau lleol drwy drosglwyddo setliadau gwariant iddynt sy'n is na chyfraddau chwyddiant. Maent wedi torri cyllidebau cynghorau lleol flwyddyn ar ôl blwyddyn, a dyna pam mae cynghorau lleol yn cael eu rhoi yn y sefyllfa amhosibl o geisio penderfynu pa wasanaethau i'w darparu: gan fod Llywodraeth Cymru yn dal yr arian yn ôl ac yn rhoi setliadau is na chwyddiant i gynghorau lleol. Mae'n gwbl anghyfrifol—[*Torri ar draws.*] Diolch am eich geiriau, Joyce Watson, gan eich bod wedi fy atgoffa yn 2008 inni gael un o'r trychinebau ariannol mwyaf a welwyd yn y wlad hon, wedi'i hachosi gan flynyddoedd o gamreoli gan y Blaid Lafur a methiant i oruchwylio sector bancio'r DU. O ganlyniad i'r penderfyniad anghyfrifol i sefydlu'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, a wnaed gan Gordon Brown a Tony Blair, gadawyd y wlad hon yn y llanstr mwyaf a welwyd ers blynyddoedd, gyda'r diffyg mwyaf a welwyd erioed yn ystod cyfnod o heddwch. Mae hyn yn gwbl amlwg. Derbyniwn fod Llywodraeth Cymru yn cael cyfle i wneud dewisiadau ac i wario arian ar bethau fel maes awyr, yn lle amddiffyn pobl yn y gogledd a phobl ledled Cymru. Dyna enghraifft arall o wastraffu arian. Dyna pam mae talwyr y dreth gyngor yn y gogledd, y de a'r canolbarth mor ddig. [*Torri ar draws.*]

16:30 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I would like to hear the response to this debate, as I am sure other people would.

Trefn. Hoffwn glywed yr ymateb i'r ddadl hon, fel pobl eraill, mae'n siŵr gennyf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:31 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is what gets council tax payers angry. They see money coming to Cardiff, and they see it being spent on Cardiff when it could go back into their own pockets and back into their local economies.

Dyna pam mae talwyr y dreth gyngor yn ddig. Maent yn gweld arian yn dod i Gaerdydd, ac maent yn gweld yr arian hwnnw'n cael ei wario ar Gaerdydd yn hytrach na'i ddychwelyd i'w pocedi hwy ac i'w heconomiau lleol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Jenny Rathbone a gododd—

That is why you should support this motion. I am sorry, Jenny, I know that I have finished before my time is up.

Jenny Rathbone rose—

Dyna pam y dylech gefnogi'r cynnig hwn. Mae'n ddrwg gennyf, Jenny, gwn fy mod wedi gorffen cyn bod fy amser ar ben.

16:31 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. In that case, I will defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.32 p.m.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.32 p.m.

Dadl Plaid Cymru: Llywodraeth Leol: Caffael a Seilwaith

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 4 yn enw William Graham, a gwelliannau 3 a 5 yn enw Aled Roberts.

Cynnig NDM5202 Jocelyn Davies

Plaid Cymru Debate: Local Government: Procurement and Infrastructure

The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 4 in the name of William Graham, and amendments 3 and 5 in the name of Aled Roberts.

Motion NDM5202 Jocelyn Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

Calls on the Welsh Government to:

a) adolygu'r rheolau caffael mewn llywodraeth leol i'w gwneud yn haws i gwmnïau a busnesau lleol gynnig am waith a gwasanaethau a darparu cyrsiau hyfforddi i swyddogion caffael mewn awdurdodau lleol;

a) review the rules on local government procurement to make it easier for local firms and businesses to bid for work and services and to provide training courses for procurement officers in local authorities;

b) gweithio gydag awdurdodau lleol i ddenu cyfleoedd cyflogaeth newydd a sicrhau cymaint o gyflogaeth leol â phosibl pan fydd prosiectau seilwaith mawr ar y gweill; ac

b) work with local authorities to attract new employment opportunities and to maximise local employment when large infrastructure projects are planned; and

c) darparu rhagor o adnoddau i awdurdodau lleol gynnal a chadw eu rhwydwaith ffyrdd mewn cyflwr da.

c) provide greater resources for local authorities to maintain their road network in good condition.

16:32

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am very pleased to open Plaid Cymru's debate this afternoon about the importance of procurement in local government. When we are seeking to get better value for money, procurement is a vital part of our armoury. An estimated £4.3 billion is spent on public procurement by Welsh public bodies, of which our local authorities play a significant role. Procurement is one of the success stories of our National Assembly, and it shows why a body representing Wales was so deeply needed. There has been a substantial increase, from 35% to 52%, in goods and services procured from within Wales in the past decade, which of course includes the years of the One Wales Government. That is money spent directly in the local economy, creating and supporting employment. However, in a time of austerity, this is no time to rest on our laurels. Larger countries such as France or Germany have an internal public procurement rate of around 98%. It is therefore not overly ambitious to demand that Wales reaches a target of around 75% for our internal procurement. Value Wales says that every percentage point increase means the creation of 2,000 jobs in the Welsh economy. That would mean around 46,000 new jobs in the Welsh economy through improved procurement—roughly the same number of people who have found themselves out of work since the recession began. These new jobs would be a result not only of the initial investment, but of the multiplier effect of that money circulating within the Welsh economy. Spending that money with local companies in our local communities can have a significant knock-on investment effect, particularly if we pay closer attention to the impact of community benefits clauses in public procurement. Specifically, I refer to the use of apprenticeships to teach skills and provide opportunities to young people and to Welsh-language employment opportunities. We were therefore pleased when the Government joined Plaid Cymru in January to support our amendment for a mandatory obligation on all public bodies to implement the Welsh procurement policy. In that debate in January, Plaid Cymru repeated earlier calls for legislation in this field to ensure that best practice is conducted across the board, particularly by local authorities. We already know of examples of good practice in local authorities from Plaid Cymru councils and others, and I am sure that we will hear more about these examples during the course of this debate, including how specialist procurement experts in local authorities not only can produce savings, but can boost the local economy—as featured in the recommendations of the McClelland report.

Since that debate in January, the Government has announced a new national procurement service, and this will create a vehicle

'to buy common and repetitive spend "once for Wales".'

However, Plaid Cymru's concern is that if it is not operated correctly, we may see savings, but not the full benefits in Wales. Creating more centralised procurement, with larger bulk orders, may shut out Welsh firms from those markets, so we must ensure that all new developments open up opportunities for Welsh businesses and certainly do not close them down. More detail on the operation of this national procurement service is therefore required.

Mae'n bleser mawr cael agor dadl Plaid Cymru y prynhawn yma sydd a wnelo â phwysigrwydd caffael mewn llywodraeth leol. Wrth inni geisio cael gwell gwerth am arian, mae gwaith caffael yn adnodd hanfodol. Amcangyfrifir bod £4.3 biliwn yn cael ei wario ar gaffael cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ac mae ein hawdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig yn hynny o beth. Mae gwaith caffael yn un o lwyddiannau ein Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n dangos pam roedd angen mor ddiffrw am gorff sy'n cynrychioli Cymru. Bu cynnydd sylweddol, o 35% i 52%, mewn nwyddau a gwasanaethau a gaffaelir o Gymru yn ystod y degawd diwethaf, sydd wrth gwrs yn cynnwys blynyddoedd Llywodraeth Cymru'n Un. Mae hynny'n arian a wariwyd yn uniongyrchol yn yr economi leol, gan greu a chefnogi cyflogaeth. Fodd bynnag, mewn cyfnod o galedi, nid dyma'r amser i orffwys ar ein rhwyfau. Mae gan wledydd mwy o faint fel Ffrainc neu'r Almaen gyfradd caffael cyhoeddus mewnol o tua 98%. Felly, nid yw'n rhy uchelgeisiol mynnu bod Cymru yn cyrraedd targed o tua 75% ar gyfer ein gwaith caffael mewnol. Dywed Gwerth Cymru fod pob pwynt canran o gynnydd yn golygu creu 2,000 o swyddi yn economi Cymru. Byddai hynny'n golygu tua 46,000 o swyddi newydd yn economi Cymru drwy well caffael—tua'r un nifer o bobl sydd wedi colli eu swyddi ers i'r dirwasgiad ddechrau. Byddai'r swyddi newydd hyn yn deillio nid yn unig o'r buddsoddiad cychwynnol, ond hefyd o effaith luosi'r arian hwnnw yn cylchredeg o fewn economi Cymru. Gall gwario'r arian hwnnw gyda chwmnïau lleol yn ein cymunedau lleol gael sgil-effaith buddsoddi sylweddol, yn enwedig os rhoddwn fwy o sylw i effaith cymalau budd cymunedol caffael cyhoeddus. Cyfeiriaf yn benodol at y defnydd o brentisiaethau i addysgu sgiliau a rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ac at gyfleoedd cyflogaeth Cymraeg. Roeddem felly yn falch pan ymunodd y Llywodraeth â Phlaid Cymru ym mis Ionawr i gefnogi ein gweliant ar gyfer rhwymedigaeth orfodol ar bob corff cyhoeddus i weithredu polisi caffael Cymru. Yn y ddadl honno ym mis Ionawr, ailadroddodd Plaid Cymru alwadau cynharach am ddeddfwriaeth yn y maes hwn i sicrhau bod arfer gorau yn cael ei gynnal yn gyffredinol, yn enwedig gan awdurdodau lleol. Rydym eisoes yn gwybod am enghreifftiau o arfer da mewn awdurdodau lleol gan gynghorau Plaid Cymru ac eraill, ac rwy'n siŵr y byddwn yn clywed mwy am yr enghreifftiau hyn yn ystod y ddadl hon, gan gynnwys sut y gall arbenigwyr caffael mewn awdurdodau lleol nid yn unig sicrhau arbedion, ond hefyd roi hwb i'r economi leol—fel y nodwyd yn argymhellion adroddiad McClelland.

Ers y ddadl honno ym mis Ionawr, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi gwasanaeth caffael cenedlaethol newydd, a fydd yn gyfrwng

i brynu gwariant cyffredin ac ailadroddus unwaith i Gymru.

Fodd bynnag, mae Plaid Cymru yn pryderu os na chaiff ei weithredu'n gywir, efallai y byddwn yn gweld arbedion, ond ni fydd y buddiannau llawn yng Nghymru. Gall creu system gaffael fwy canolog, sydd â swmparchebion mwy o faint, olygu bod cwmnïau o Gymru yn cael eu cau allan o'r marchnadoedd hynny, felly mae'n rhaid inni sicrhau bod pob datblygiad newydd yn esgor ar gyfleoedd i fusnesau Cymru ac yn sicrhau yn osgoi eu cau i lawr. Felly, mae angen mwy o fanylion am weithrediad y gwasanaeth caffael cenedlaethol hwn.

Many businesses are very keen for processes to be simplified, to ensure that they can participate in the local economy and can play their part in boosting local employment. That is why, at local government level in particular, we have argued for contracts to be unbundled. A conscious effort must be made to remove barriers, to make it easier for small, local firms, not only to apply, but also to win those contracts. The Government tells us that it will consider legislating if internal procurement rates do not improve. Plaid Cymru, however, believes that the evidence for legislation is already there, and that evidence is documented within the McClelland report. We need to legislate to help Welsh business, and draft legislation in Scotland provides a blueprint for this.

To conclude, it is clear that we must use procurement more effectively. Local authorities have a clear role to play in this. More effective procurement will improve the skills in our workforce, it will increase employment opportunities in our communities and it will boost the Welsh economy. I hope that the Government, which has, in fairness, so far made many steps in the right direction on this agenda, will act now and begin the legislative process to make sure that we get the best value for money that our procurement can buy.

Mae llawer o fusnesau yn awyddus iawn i brosesau gael eu symleiddio, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan yn yr economi leol a chwarae eu rhan wrth hybu cyflogaeth leol. Dyna pam, ar lefel llywodraeth leol yn arbennig, rydym wedi dadlau dros ddatfwrddu contractau. Rhaid mynd ati i ddileu rhwystrau, er mwyn ei gwneud hi'n haws i gwmnïau bach lleol nid yn unig wneud cais, ond hefyd ennill y contractau hynny. Mae'r Llywodraeth yn dweud wrthym y bydd yn ystyried deddfu os nad yw cyfraddau caffael mewnol yn gwella. Mae Plaid Cymru, fodd bynnag, yn credu bod y dystiolaeth dros gael deddfwriaeth eisoes yno, a bod dystiolaeth i'w chael yn adroddiad McClelland. Mae angen inni ddeddfu er mwyn helpu busnesau Cymru ac mae deddfwriaeth ddrafft yn yr Alban yn darparu glasbrint ar gyfer hyn.

I gloi, mae'n amlwg bod yn rhaid inni ddefnyddio gwaith caffael yn fwy effeithiol. Mae gan awdurdodau lleol ran amlwg i'w chwarae yn hyn o beth. Bydd gwaith caffael mwy effeithiol yn gwella sgiliau ein gweithlu, yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn ein cymunedau ac yn rhoi hwb i economi Cymru. Gobeithio y bydd y Llywodraeth, sydd, a bod yn deg, hyd yn hyn, wedi cymryd llawer o gamau i'r cyfeiriad cywir ar yr agenda hon, yn gweithredu yn awr ac yn dechrau ar y broses ddeddfwriaethol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gwerth gorau am arian y gall ein gwaith caffael ei brynu.

16:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the five amendments to the motion, and I call on Byron Davies to move amendments 1, 2 and 4, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Byron Davies i gynnig gwelliannau 1, 2 a 4, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

Gwelliant 1—William Graham

Amendment 1—William Graham

Cynnwys is-bwynt a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new sub-point a) and re-number accordingly:

'amlinellu ei ymrwymiad i gefnogi busnesau lleol i gynnig am gontractau llywodraeth leol;'

'outline its commitment to supporting local businesses to bid for local government contracts;'

Gwelliant 2—William Graham

Amendment 2—William Graham

Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt b):

Insert at end of sub-point b):

'gan sicrhau bod y sector preifat lleol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, yn cymryd rhan lawn yn y broses hon'.

'ensuring that the locally based private sector, including social enterprises, is fully involved in this process'.

Gwelliant 4—William Graham

Amendment 4—William Graham

Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt c):

Insert at end of sub-point c):

'a sicrhau bod ei phrosiectau rhwydwaith ffyrdd ei hun yn dangos yr arfer gorau i awdurdodau lleol, gan osgoi gorwario diangen a sicrhau gwerth am arian'.

'and to ensure its own road network projects demonstrate best practice for local authorities, avoiding unnecessary overspend and ensuring value for money'.

16:37

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I rise to move amendments 1, 2 and 4 tabled in the name of William Graham.

Codaf i gynnig gwelliannau 1, 2 a 4 a gyflwynwyd yn enw William Graham.

First, I want to thank Plaid Cymru for bringing this important debate forward on the back of the Enterprise and Business Committee task and finish group on procurement, which was a fascinating experience, as it certainly educated me in the intricacies of procurement. I know that my colleague Janet Finch-Saunders will speak to amendments 1 and 2 in more depth, but I want to touch on them briefly before concentrating on amendment 4.

Our amendment 1 strengthens the case for making procurement accessible. We need a clear commitment to supporting local businesses to bid for local government contracts. The biggest concern to me in local government procurement is the now common practice of grouping contracts. There are major issues to this, not least the fact that local small and medium-sized enterprises are simply priced out of the market. In social services, for example, there may be contracts to look after differing clients in different geographical areas, and if you group them, many SMEs are simply incapable of delivering major contracts and are thus forced to give up or, even worse, to close their doors. This practice will also create huge issues in the long run, I believe. It will create monopolies and, I fear, it will deliver far worse care as a result. So, we need a balance between value for money and quality of service, and this must be demonstrated by a clear commitment and direction from Government.

Amendment 2 is essential, and I hope that Plaid Cymru will appreciate the thinking behind it. We must recognise the importance of including the private sector in the planning process. There is a great deal of merit to including other operating models, such as social enterprises, and this is neatly expressed in the amendment. If we are to attract new employment opportunities and maximise local employment when large infrastructure projects are planned, we cannot do it in a closed public sector talking shop. So, while I will happily admit that I do not think that you intended to give that impression, our amendment will go a long way to recognising the importance of partnership in delivering this goal.

Finally, there is amendment 4, and I think it worth reading out in full. It states that we call on the Welsh Government to

'ensure its own road network projects demonstrate best practice for local authorities, avoiding unnecessary overspend and ensuring value for money'.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am ddod â'r ddatllybys hon gerbron yn dilyn y Pwyllgor Menter a Busnes ar gaffael, a oedd yn brofiad diddorol iawn, gan ei fod yn sicrhau wedi fy addysgu am natur gymhleth gwaith caffael. Gwn y bydd fy nghyd-Aelod Janet Finch-Saunders yn manylu ar welliannau 1 a 2, ond hoffwn sôn amdanynt yn gryno cyn canolbwyntio ar welliant 4.

Mae gwelliant 1 yn cryfhau'r achos dros sicrhau bod gwaith caffael yn hygyrch. Mae angen ymrwymiad clir i helpu busnesau lleol i wneud cais am gontractau llywodraeth leol. Y pryder mwyaf i mi ym maes caffael llywodraeth leol yw'r arfer o grwpio contractau sydd bellach yn gyffredin. Mae problemau mawr yn gysylltiedig â hyn, yn enwedig y ffaith bod busnesau bach a chanolig lleol yn syml yn cael eu priso allan o'r farchnad. O ran gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, efallai y bydd contractau i ofalu am gleientiaid gwahanol mewn gwahanol ardaloedd daearyddol, ac os cânt eu grwpio gyda'i gilydd, mae llawer o fusnesau bach a chanolig, yn syml, yn methu â chyflawni contractau mawr ac felly yn cael eu gorfodi i roi'r gorau iddi neu, hyd yn oed yn waeth, i gau eu drysau. Bydd yr arfer hwn hefyd yn creu problemau enfawr yn yr hirdymor yn fy marn i. Bydd yn creu monopoliau ac, ofnaf, bydd yn darparu gofal gwaeth o lawer o ganlyniad. Felly, mae angen cydbwysedd rhwng gwerth am arian ac ansawdd gwasanaethau, a rhaid i hyn gael ei ddangos gan ymrwymiad a chyfeiriad clir gan y Llywodraeth.

Mae gwelliant 2 yn hanfodol, a gobeithiaf y bydd Plaid Cymru yn gwerthfawrogi'r meddylfryd y tu ôl iddo. Mae'n rhaid inni gydnabod pwysigrwydd cynnwys y sector preifat yn y broses gynllunio. Mae'n werth cynnwys modelau gweithredu eraill, fel mentrau cymdeithasol, a chaiff hyn ei fynegi'n ddestlus yn y gwelliant. Os ydym am ddenu cyfleoedd cyflogaeth newydd a chynyddu nifer y swyddi lleol pan fydd prosiectau seilwaith mawr yn yr arfaeth, ni allwn wneud hynny mewn siop siarad sector cyhoeddus gaeedig. Felly, er fy mod yn fodlon cyfaddef nad wyf yn credu eich bod wedi bwriadu rhoi'r argraff honno, bydd ein gwelliant yn help mawr wrth gydnabod pwysigrwydd partneriaeth wrth gyflawni'r nod hwn.

Yn olaf, mae gwelliant 4, a chredaf ei bod yn werth ei ddarllen ar goedd yn llawn. Dywed ein bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i

'sicrhau bod ei phrosiectau rhwydwaith ffyrdd ei hun yn dangos yr arfer gorau i awdurdodau lleol, gan osgoi gorwario diangen a sicrhau gwerth am arian'.

That is key. We must ensure that lessons have been learnt from the past. We have debated the Wales Audit Office report in the Chamber many times and I am not here to beat the Government with a stick on it. However, it is worth noting the shortcomings of Government in Cardiff bay: its lack of oversight and the financial mismanagement of past infrastructure problems. Let us not forget that while Members in the Chamber moan and shout about the lack of capital moneys available in Wales, successive Welsh Governments in this building have wasted close to £1 billion in overspend in ill-thought-out unmanaged schemes. It is vital that the Labour Welsh Government should lead on value for money and instils some faith into public sector-led infrastructure projects again.

The public perception, which has been echoed by independent reports, is that infrastructure projects, led by the public sector, are overpriced—often, if not always, delayed and sometimes the priorities are wrong. We need to explore all avenues to help local government with procurement. For the reasons that I have just outlined, I commend our amendments to the Chamber.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Dileu 'ffyrdd' yn is-bwynt c) a rhoi 'trafnidiaeth' yn ei le.

Gwelliant 5—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'cyflwyno deddfwriaeth i ddatblygu economïau lleol drwy roi pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol adfywio canol trefi, ysgogi creu swyddi yn lleol a chaniatáu i awdurdodau lleol gadw rhywfaint o'r arian a ddaw o ardrethi busnes er mwyn ysgogi twf economaidd.'

Mae hynny'n allweddol. Mae'n rhaid inni sicrhau bod gwersi wedi cael eu dysgu o'r gorffennol. Trafodwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn y Siambr droeon ac nid wyf yma i guro'r Llywodraeth â ffon ar y mater hwnnw. Fodd bynnag, mae'n werth nodi diffygion y Llywodraeth ym Mae Caerdydd: ei diffyg goruchwyliaeth a chamreoli ariannol mewn perthynas â phroblemau seilwaith blaenorol. Gadewch inni beidio ag anghofio, er bod Aelodau yn y Siambr yn cwyno ac yn gweiddi am y diffyg arian cyfalaf sydd ar gael yng Nghymru, fod Llywodraethau olynol Cymru yn yr adeilad hwn wedi gwastraffu bron £1 biliwn mewn gorwariant drwy gynlluniau heb eu rheoli nas ystyriwyd yn ddigon gofalus. Mae'n hanfodol y dylai Llywodraeth Lafur Cymru arwain ar werth am arian a meithrin rhywfaint o ffydd mewn prosiectau seilwaith a arweinir gan y sector cyhoeddus eto.

Canfyddiad y cyhoedd, a ategwyd gan adroddiadau annibynnol, yw bod prosiectau seilwaith, a arweinir gan y sector cyhoeddus, wedi'u gorbrisio—yn aml, os nad bob amser, yn cael eu hoedi ac weithiau mae'r blaenoriaethau yn anghywir. Mae angen inni archwilio'r holl lwybrau i helpu llywodraeth leol â chaffael. Am y rhesymau rwyf newydd eu hamlinellu, cymeradwyaf ein gwelliannau i'r Siambr.

Amendment 3—Aled Roberts

In sub-point c) delete 'road' and replace with 'transport'.

Amendment 5—Aled Roberts

Add as new sub-point at end of motion:

'introduce legislation to develop local economies by conferring additional powers on local authorities to regenerate town centres, stimulate local job creation and allow local authorities to retain some of the proceeds of business rates in order to incentivise economic growth.'

16:41

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 3 and 5 in the name of Aled Roberts.

I would also like to thank Plaid Cymru for bringing this debate forward today. A lot of the introduction was about procurement, which is an important lever in how local authorities can drive economic growth. However, we have a wider opportunity here to debate the role of local authorities in broader terms in that agenda. What is the role of our local authorities? What can passion, ambition and a sense of direction do in our local communities if we empower and enable our local authorities to act more decisively? Our amendments, with that in mind, seek to add to the ideas that you have presented. I would like to talk about some of those now.

Cynigiau welliannau 3 a 5 yn enw Aled Roberts.

Hoffwn hefyd ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Roedd a wnelo llawer o'r cyflwyniad â chaffael, sy'n arf pwysig yn y modd y gall awdurdodau lleol hybu twf economaidd. Fodd bynnag, mae gennym gyfle ehangach yma i drafod rôl awdurdodau lleol yn ehangach yn yr agenda honno. Beth yw rôl ein hawdurdodau lleol? Beth y gall angerdd, uchelgais ac ymdeimlad o gyfeiriad ei wneud yn ein cymunedau lleol pe grymuswyd a galluogwyd ein hawdurdodau lleol i ymddwyn yn fwy pendant? Mae ein gwelliannau, gyda hynny mewn golwg, yn ceisio ychwanegu at y syniadau a gyflwynwyd gennych. Hoffwn sôn am rai o'r rheini yn awr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Procurement, which was the hub of the motion, is of course an important tool, but we need ambition and positivity there. One of the problems that we have is that with all the strategies in the world, the application of those strategies is sometimes where we fail. In the task and finish group on procurement—which Leanne and I were both part of—one of the things that we heard was that the lack of a sense of esteem for the profession of purchasing in local authorities was a real barrier and problem that we need to overcome.

I absolutely agree on the issue of unbundling contracts so that they are not too big for us to bite off chunks. It is really important that local authorities should know their local companies and the structures of their local economies so that they do not design contracts in such a way as to rule out their local firms from bidding for them. That is part and parcel of the unbundling process. You have to know what you have in the local area before you can design a contract that is possible for them to tackle.

Another issue is how local is local? We often hear that a contract has gone to a Welsh company, but then we find out that it is a Welsh branch of a company that may be based somewhere else. I wonder whether we want to differentiate between those companies that have a branch in Wales and those companies where the tree is growing in Wales. Is there a difference in where the money ends up and where the bulk of the money from the contracts is spent? We need to have a better understanding of that: what we mean by local and what we mean by Welsh.

Infrastructure is another important element here. There are some fantastic opportunities coming to us over the next decade or so. There is the electrification of the Valleys lines and the Great Western mainline, but there are other potential projects such as the eastern link road around Cardiff towards the M4 and there are discussions about what we can do to improve the M4 and tackle congestion around Newport. Those are massive opportunities for us, but I sound a note of caution, because many of these big projects may not suit Welsh firms given that we know that many of Wales's home-grown businesses are smaller and that relatively few of them are the kind of big organisations that can take on these kinds of jobs. We have to make sure that we are liaising between the Welsh Government, the UK Government and local authorities to make sure that those are bundled in an appropriate way and allow local companies to bid.

In terms of the third point on the road network for local authorities, we agree that it is important, but the point of our amendment is to point out that, actually, local authorities have a much broader role in terms of transport, and we want to broaden this point a little to encompass the idea that local authorities have an opportunity here that encompasses active travel, the way they use buses and community transport, and all of those things are important too. Of course the road network is an investment, but these are investments that local authorities make as well.

Mae caffael, sef ffocws y cynnig, wrth gwrs yn arf pwysig, ond mae angen uchelgais a natur gadarnhaol yno. Un o'r problemau sydd gennym yw, a bod â'r holl strategaethau yn y byd, mai'r ffordd y gweithredir y strategaethau hynny yw'r maes lle rydym yn methu weithiau. Yn y grŵp gorchwyl a gorffen ar gaffael—yr oedd Leanne a minnau yn rhan ohono—un o'r pethau a glywsom oedd bod y diffyg ymdeimlad o barch tuag at y proffesiwn prynu mewn awdurdodau lleol yn rhwystr gwirioneddol ac yn broblem y mae angen inni ei goresgyn.

Cytunaf yn llwyr â dadfwndelu contractau fel nad ydynt yn rhy fawr inni eu rhannu. Mae'n bwysig iawn y dylai awdurdodau lleol fod yn gyfarwydd â'u cwmnïau lleol a strwythurau eu heconomïau lleol fel nad ydynt yn dylunio contractau mewn ffordd sy'n atal eu cwmnïau lleol rhag gwneud cais amdanynt. Mae hynny'n rhan annatod o'r broses ddadfwndelu. Rhaid ichi fod yn gyfarwydd â'r hyn sydd yn yr ardal leol cyn y gallwch ddylunio contract y gallant fynd i'r afael ag ef.

Mater arall yw pa mor lleol yw lleol? Rydym yn aml yn clywed bod contract wedi cael ei ddyfarnu i gwmni o Gymru, ond yna cawn wybod mai cangen Cymru o gwmni a all fod wedi'i leoli rywle arall ydyw. Tybed a ddylem wahaniaethu rhwng y cwmnïau hynny sydd â changen yng Nghymru a'r cwmnïau hynny lle mae'r goeden yn tyfu yng Nghymru. A oes gwahaniaeth o ran ble mae'r arian yn mynd yn y pen draw a ble y caiff y rhan fwyaf o'r arian sy'n gysylltiedig â'r contractau ei wario? Mae angen inni feithrin gwell dealltwriaeth o hynny: beth yw ystyr lleol a beth yw ystyr cwmni o Gymru.

Mae seilwaith yn elfen bwysig arall yma. Mae rhai cyfleoedd gwych ar y gorwel dros y degawd nesaf. Caiff rheilffyrdd y Cymoedd a phrif linell Great Western eu trydaneiddio, ond mae prosiectau posibl eraill megis y ffordd gyswllt ddwyreiniol o amgylch Caerdydd tuag at yr M4 a cheir trafodaethau am yr hyn y gallwn ei wneud i wella'r M4 a mynd i'r afael â thagfeydd o amgylch Casnewydd. Mae'r rheini yn gyfleoedd enfawr inni, ond rhaid gochel, oherwydd efallai na fydd llawer o'r prosiectau mawr hyn yn addas i gwmnïau o Gymru o ystyried ein bod yn gwybod bod llawer o fusnesau cynhenid Cymru yn llai o faint ac mai nifer gymharol fechan ohonynt sy'n ddigon mawr i allu cyflawni'r mathau hyn o brosiectau. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ein bod yn cydgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol er mwyn gwneud yn siŵr bod y rheini yn cael eu bwndelu mewn ffordd briodol ac yn caniatáu i gwmnïau lleol wneud cais.

O ran y trydydd pwynt ar y rhwydwaith ffyrdd i awdurdodau lleol, cytunwn ei bod yn bwysig, ond pwynt ein gwelliant yw nodi bod gan awdurdodau lleol, mewn gwirionedd, rôl lawer ehangach o ran trafnidiaeth, ac rydym am ehangu'r pwynt hwn ychydig i gynnwys y syniad bod gan awdurdodau lleol gyfle yma sy'n cynnwys teithio llesol, y ffordd y maent yn defnyddio bysiau a thrafnidiaeth gymunedol, ac mae pob un o'r pethau hynny'n bwysig hefyd. Wrth gwrs, mae'r rhwydwaith ffyrdd yn fuddsoddiad, ond mae'r rhain yn fuddsoddiadau y mae awdurdodau lleol yn eu gwneud hefyd.

Finally, on our amendment 5, we want to see local authorities empowered to act, but we also want to see them incentivised to act. We want to give them a reason for driving growth in their local economies. Just last week, I was in Pontypridd meeting a group of traders in local town centres and shopping streets, and they were telling me that they have frustrations with their local authority because they feel that there is nothing in it for the local authority to drive the economy forward. They feel that this is not a priority; when there are things that the local authority has to do, the things that the local authority might want to do but might not be able to put resource towards get put on the back burner. We want to see local authorities incentivised. We want to see them able to keep a proportion of the business rates that they generate, and be able to reinvest that money in driving economic growth in their local communities, because who better to do it than our local authorities?

Yn olaf, ar welliant 5, rydym am weld awdurdodau lleol yn cael eu grymuso i weithredu, ond rydym hefyd am eu gweld yn cael eu cymell i weithredu. Rydym yn awyddus i roi rheswm iddynt hybu twf yn eu heconomiâu lleol. Dim ond yr wythnos diwethaf roeddwn ym Mhontypridd yn cwrdd â grŵp o fasnachwyr o ganol trefi a strydoedd siopa lleol, ac roeddent yn dweud wrthyf eu bod yn teimlo'n rhwystredig gyda'u hawdurdod lleol oherwydd eu bod yn teimlo nad oes unrhyw gymhelliant gan yr awdurdod lleol i hybu'r economi. Ni chredant fod hyn yn flaenoriaeth; pan fo pethau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud, efallai y caiff y pethau y mae'r awdurdod lleol am eu gwneud ond nad ydynt o reidrwydd yn gallu rhoi adnoddau tuag atynt eu gohirio. Rydym am weld awdurdodau lleol yn cael eu cymell. Rydym am eu gweld yn gallu cadw cyfran o'r ardrethi busnes y maent yn eu cynhyrchu, ac yn gallu ailfuddsoddi'r arian hwnnw yn y gwaith o lywio twf economaidd yn eu cymunedau lleol, oherwydd onid ein hawdurdodau lleol sydd yn y sefyllfau orau i wneud hynny?

16:46

Ieuan Wyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel ym mhob pregeth dda, mae tri phen i'r cynnig heddiw, sef: rheolau caffael mewn llywodraeth leol; sicrhau cyflogaeth leol mewn cynlluniau seilwaith mawr; a chynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd sirol. I ddelio â chaffael yn y lle cyntaf, dyma faes, fel yr ydym wedi clywed yn barod, sy'n hynod ddryys i bob haen o lywodraeth, ond yn fwy felly i awdurdodau lleol. Mae £4 biliwn bob blwyddyn yn cael ei dyfarnu drwy gytundebau gan y sector cyhoeddus, gydag oddeutu hanner yn dod gan awdurdodau lleol. Mae'r contractau yn gallu amrywio, o adeiladu ffyrdd i osod cytundebau torri gwair mewn ardaloedd lleol, ond mae pob un ohonynt yn gyfle i facsimeiddio cyflogaeth leol. Er, yn naturiol, mae'n rhaid sicrhau gwerth am arian, nid yw hynny'n golygu derbyn y pris isaf bob tro.

Rydym yn deall yn iawn nad oes modd i gyrff cyhoeddus ddyfarnu contractau i gwmnïau lleol yn unig, ond mae modd gwneud sawl peth y byddai'n ei gwneud yn haws i gwmnïau lleol gystadlu. Yn gyntaf, mae angen safoni a symleiddio'r dull o osod contractau. Mae peth gwaith wedi ei wneud yn y maes hwn, ond efallai fod angen gwneud ychydig yn fwy. Mae angen sicrhau bod cwmnïau bychain a chanolig eu maint yn cael hyfforddiant yn y dull o wneud ceisiadau am gytundebau. Mae diffyg capasiti, profiad a sgiliau yn ei gwneud yn anodd i nifer o gwmnïau gystadlu yn effeithiol.

Hefyd, mae'n rhaid sicrhau bod contractau yn cael eu hysbysebu yn fwy cyson a bod awdurdodau lleol yn dilyn canllawiau cenedlaethol yn hyn o beth. Rwy'n cofio un o gyn-Weinidogion cyllid y Llywodraeth yn cyhoeddi dogfen a oedd yn dangos yr amrywiaeth enfawr yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn hysbysebu eu contractau yn gyhoeddus—roedd hynny'n dibynnu ar bris, wrth gwrs. Mae angen inni safoni hynny fel bod cwmnïau lleol yn cael gywybod pryd yn union mae'r contractau hyn i'w gosod.

As with all good sermons, there are three heads to this motion today: procurement rules in local government; ensuring local employment in major infrastructure projects; and maintaining the county road network. First, to deal with procurement, this is an area, as we have already heard, that all levels of government find extremely complex, but particularly so within local authorities. Some £4 billion per annum is allocated through contracts in the public sector, with approximately half of that amount coming from local authorities. The contracts can vary from ones for road construction to ones for grass mowing in local areas, but each and every one is an opportunity to maximise local employment. Although, quite naturally, we have to ensure value for money, that does not always mean going for the lowest price.

We fully understand that public bodies cannot award contracts only to local companies, but a number of things could be done to make it easier for local companies to compete. First, we need to standardise and simplify the method of laying contracts. Some work has been done in this area, but perhaps more needs to be done. We need to ensure that small and medium-sized enterprises are given training in applying for contracts. A lack of capacity, experience and skills makes it difficult for many companies to compete effectively.

Furthermore, we need to ensure that contracts are advertised in a consistent manner and that local authorities follow national standards in this regard. I recall one of the Government's former Ministers for finance publishing a document that outlined the huge variation in the way that local authorities publicly advertised their contracts—it all depended on the price, of course. We need to standardise practice so that local companies know exactly when contracts are to be advertised.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod unrhyw gwmni sy'n ennill contract yn deall bod cyfrifoldeb i sicrhau cyflogaeth leol. Er enghraifft, i ddelio â phwynt Eluned Parrott, os yw contract yn rhy fawr i gwmni o Gymru fod mewn sefyllfa i'w gael, yna dylid ei gwneud yn glir i'r cwmni sy'n cael y contract bod disgwyl iddo sicrhau bod is-gontractau yn cael eu rhoi i gwmnïau lleol.

Mae'r cymal olaf ym mhwynt (a), y cyfeiriwyd ato gan Eluned Parrott, a Leanne, yn sôn am drefnu cyrsiau hyfforddiant i swyddogion caffael sy'n gweithio i awdurdodau lleol. Ar y gorau, fel yr ydym yn ei wybod, mae'r safon yn amrywio, a byddai'n dda pe gallai'r Llywodraeth ariannu cwrs hyfforddiant. Os wyf yn cofio'n iawn, mae cynlluniau ar y gweill, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu ein diweddarau ar y ffordd o helpu awdurdodau lleol.

I droi at brosiectau seilwaith mawr, o ganlyniad i fabwysiadu cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru—y WIIP, fel y mae'n cael ei alw—mae angen i ni sicrhau bod y contractau mawr hyn yn rhoi hwb sylweddol i'r economi leol a rhanbarthol, bod cwmnïau lleol yn cael cytundebau a bod pobl leol yn cael gwaith. O gofio bod yr economi yn hynod o fregus mewn sawl ardal, gan gynnwys fy ardal i ar Ynys Môn, dylem sicrhau bod pobl leol yn elwa o'r buddsoddiadau sylweddol sydd ar y gweill, boed yn y sector gyhoeddus neu'r sector breifat. Yn aml iawn, mae angen cymorth ar awdurdodau lleol i sicrhau bod hynny'n digwydd. Pan fo angen sgiliau arbennig, er enghraifft, mae angen i'r Llywodraeth fod yn barod i ysgwyddo rhan o gost sefydlu prentisiaethau a chysiau hyfforddiant; rwy'n gwybod bod hynny'n digwydd mewn rhai meysydd, ond efallai y gallwn ei wneud mewn meysydd eraill hefyd.

Yn ogystal â hyn, mae angen rhoi cymorth ymarferol i awdurdodau lleol drafod cynlluniau mawr gyda chwmnïau mawr, sy'n aml yn gwmnïau rhyngwladol. Mae problemau capasiti mewn awdurdodau lleol bach, ac mae gan y Llywodraeth, yn adran yr economi, swyddogion hynod o brofiadol y gellid gwneud trefniadau secondiad dros dro ar eu cyfer. Mae rhai o'r cynlluniau hyn mor fawr—er enghraifft, yr Wylfa yn fy etholaeth i—mae'n bosibl nad oes gan yr awdurdod lleol yr holl brofiad sydd ei angen ac y byddai'n croesawu cymorth.

Yn olaf, trof at gyflwr y ffyrdd. Rwy'n gweld bod amser wedi fy nghuro, ond hoffwn ddweud bod angen arian i wneud gwelliannau bach y byddent yn golygu bod nifer o'n ffyrdd mewn ardaloedd gwledig yn llawer iawn mwy diogel. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ymateb yn gadarnhaol i'n cynnig heddiw.

It is important to ensure that any company that is awarded a contract understands the responsibility to provide local employment. For example, to deal with Eluned Parrott's point on this matter, if a contract is too large for a company in Wales to access, then it should be made clear to the successful company that there is an expectation upon it to subcontract to local companies.

Eluned Parrott and Leanne referred to the final clause in point (a), which refers to training courses for local authority procurement officers. As we know, the standard is, at best, patchy, and it would be positive if the Government could fund this training. If I recall correctly, there are some plans in the pipeline, and I hope that the Minister can give us an update on how we can assist local authorities.

Turning to major infrastructure projects, as a result of the adoption of the Wales infrastructure investment plan—the WIIP, as it is known—we need to ensure that these large contracts provide a significant boost to the local and regional economy, that local companies are awarded contracts and that local people are employed. Bearing in mind that the economy is especially vulnerable in many areas, including my area of Anglesey, we should ensure that local people benefit from the major investments that are in the pipeline, be they in the public sector or the private sector. Very often, local authorities need assistance to ensure that that occurs. When particular skills are required, for example, the Government needs to be willing to shoulder some of the financial burden of establishing apprenticeships and training courses; I know that that happens in some areas, but perhaps it could be rolled out further.

In addition, we need to provide practical support to local authorities in their negotiation of major projects with large companies, which are often multinational companies. There are capacity issues in smaller local authorities, while the Government's department for the economy has extremely experienced officials who could be seconded temporarily. Some of these projects are so large—such as Wylfa in my constituency—that it is possible that the local authority would not have all the necessary experience and would welcome the support.

Finally, I turn to the state of our roads. I see that time is against me, but I would just like to say that funding is required to make minor improvements that would mean making many of our rural roads far safer. I hope that the Government will respond positively to our motion today.

16:51

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that this is a useful debate to be having on how we can reap the benefits from the Welsh Government's procurement policy to ensure value for money as well as maximise community benefit.

Credaf fod hon yn ddadl ddefnyddiol i'w chael ar sut y gallwn elwa ar fuddiannau polisi caffael Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwerth am arian yn ogystal â'r budd gorau posibl i'r gymuned.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would expect that it should be possible for grass mowing to be contracted to local businesses. However, when it comes to large infrastructure projects that require major investment to reap the benefits, it is difficult to see how small local companies could be enabled to bid for such contracts. Nevertheless, Ieuan Wyn Jones has just pointed out some of the ways in which we can leverage local benefits, in terms of the subcontracting of goods and services and ensuring that the skills are available to ensure that those big contracts are also working in the wider interests of the community and that we are maximising those benefits.

Particular care needs to be taken where large companies, sometimes with much deeper pockets than the public bodies that are commissioning services, are involved to ensure that we are not falling foul of the law of unintended consequences.

I want to look at waste-management services as one of the large infrastructure projects that we will need to commission in future. Wales is the only country in the UK to have set statutory targets for local authorities, requiring them to recycle 70% of municipal waste by 2025. The Government has rightly implemented initiatives to reduce, re-use and recycle. In that context, the Petitions Committee was right to question, in response to a report that we debated here in February, whether we will continue to need to burn recyclable or, indeed, non-recyclable waste after 2020.

I am particularly anxious about the recent appointment of Viridor, a large company, as the preferred provider for a 25-year contract to incinerate waste on behalf of five local authorities, including Cardiff Council, without having properly tied down the benefits that may accrue from this. The site is just south of the Cardiff Central constituency, so the matter must be of considerable interest to my constituents.

With regard to possible health risks, research on the toxicity of particles coming out of incinerators that are so small that they will not be stopped by filters is pretty thin. The Petitions Committee recommended that the Welsh Government should look at the feasibility of further research on this matter to explore the health risks associated with small particles. I am particularly concerned that these five local authorities have locked themselves into a 25-year contract. The preferred provider may not have finally won the contract, but they are already building this incinerator without knowing whether such an incineration service will be required in the future or, indeed, what the benefits will be in terms of local employment, or other local benefits. Have they entered into a contract that is a disincentive to recycling? Evidence was gathered by the Petitions Committee regarding an incinerator company in Stoke, where a £650,000 fine was levied against the local authority because it was not supplying enough waste to feed their incinerator beast. Has Prosiect Gwyrdd committed a similar error?

Byddwn yn disgwyl y gellid dyfarnu contract torri gwair i fusnesau lleol. Fodd bynnag, o ran prosiectau seilwaith mawr lle mae angen buddsoddi'n helaeth er mwyn sicrhau budd, mae'n anodd gweld sut y gallai cwmnïau bach lleol wneud cais am gontractau o'r fath. Serch hynny, mae Ieuan Wyn Jones newydd nodi rhai o'r ffyrdd y gallwn sicrhau buddiannai lleol, o ran is-gontractio newyddau a gwasanaethau a sicrhau bod y sgiliau ar gael i sicrhau bod y contractau mawr hynny hefyd yn gweithio er budd ehangach y gymuned a'n bod yn gwneud y gorau o'r buddiannau hynny.

Mae angen cymryd gofal arbennig pan fo cwmnïau mawr, sydd weithiau â phocedi llawer dyfnach na'r cyrff cyhoeddus sy'n comisiynu gwasanaethau, yn rhan o'r broses er mwyn sicrhau nad ydym yn torri'r gyfraith o ran canlyniadau anfwriadol.

Hoffwn edrych ar wasanaethau rheoli gwastraff fel un o'r prosiectau seilwaith mawr y bydd angen i ni eu comisiynu yn y dyfodol. Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd wedi gosod targedau statudol i awdurdodau lleol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt ailgylchu 70% o wastraff trefol erbyn 2025. Mae'r Llywodraeth, yn gywir, wedi gweithredu mentrau i leihau, aildddefnyddio ac ailgylchu. Yn y cyddestun hwnnw, roedd y Pwyllgor Deisebau yn iawn i ofyn, mewn ymateb i adroddiad a drafodwyd gennym yma ym mis Chwefror, pa un a fydd angen inni barhau i losgi gwastraff y gellir ei ailgylchu neu, yn wir, wastraff na ellir ei ailgylchu ar ôl 2020.

Rwy'n arbennig o bryderus am benodiad diweddar Viridor, cwmni mawr, fel y dewis ddarparwr ar gyfer contract 25 mlynedd i losgi gwastraff ar ran pum awdurdod lleol, gan gynnwys Cyngor Caerdydd, heb roi ystyriaeth briodol i'r buddiannau a all ddeillio o hyn. Mae'r safle ychydig i'r de o etholaeth Canol Caerdydd, felly rhaid bod y mater o ddiddordeb mawr i'm hetholwyr.

O ran risgiau iechyd posibl, prin yw'r ymchwil i wenwyndra gronynnau sy'n dod allan o losgyddion sydd mor fach na fyddant yn cael eu hatal gan hidlyddion. Argymhellodd y Pwyllgor Deisebau y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y posibilrwydd o ymchwil bellach i'r mater hwn er mwyn ystyried y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â gronynnau bach. Rwy'n arbennig o bryderus bod y pum awdurdod lleol hyn wedi ymrwymo i gontract 25 mlynedd. Efallai na wnaeth y dewis ddarparwr ennill y contract yn y diwedd, ond maent eisoes yn adeiladu'r llosgydd hwn heb wybod a fydd angen gwasanaeth llosgi o'r fath yn y dyfodol, neu, yn wir, beth fydd y buddiannau o ran cyflogaeth leol, neu fuddiannau lleol eraill. A ydynt wedi ymrwymo i gontract sy'n anghymhelliad i ailgylchu? Casglwyd tystiolaeth gan y Pwyllgor Deisebau ynghylch cwmni llosgi yn Stoke, lle cafodd dirwy o £650,000 ei rhoi i'r awdurdod lleol am nad oedd yn cyflenwi digon o wastraff i fwydo ei fwystfil o losgydd. A yw Prosiect Gwyrdd wedi cyflawni gwall tebyg?

In future, there may be other ways of disposing of non-recyclable waste, even if we generate as much of it as we currently do. Technology is developing all the time for reducing recycling and disposing of waste. Emerging technologies can be squeezed out by such 25-year contracts. They can squeeze out things that are environmentally less harmful.

Yn y dyfodol, efallai y bydd ffyrdd eraill o gael gwared ar wastraff na ellir ei ailgylchu, hyd yn oed os ydym yn cynhyrchu cymaint ohono ag a wneir ar hyn o bryd. Mae technoleg yn datblygu drwy'r amser ar gyfer lleihau ailgylchu a gwaredu gwastraff. Gall technolegau sy'n dod i'r amlwg fynd yn angof o ganlyniad i gontractau 25 mlynedd o'r fath. Gallant olygu y caiff pethau sydd yn amgylcheddol llai niweidiol eu diystyru.

Viridor has been given the go-ahead for a £600 million contract, £250 million of which is to be provided by Cardiff Council, without having properly scrutinised the potential benefits or disadvantages. Who is to benefit from the waste-to-energy plant that is already being built, and will it provide value for money? What will the spin-offs be in terms of employment opportunities or other social benefits?

Mae Viridor wedi cael y golau gwyrdd ar gyfer contract gwerth £600 miliwn, y darperir £250 miliwn ohono gan Gyngor Caerdydd, heb gynnal gwaith craffu digonol ar y manteision na'r anafanteision posibl. Pwy fydd yn cael budd o'r safle gwastraff-i-ynni sy'n cael ei adeiladu yn barod, ac a fydd yn darparu gwerth am arian? Beth fydd y sgil-ffeithiau o ran cyfleoedd cyflogaeth neu fuddiannau cymdeithasol eraill?

- 16:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Conclude now, please. Dewch i ben yn awr, os gwelwch yn dda.
- 16:56 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
What will the— Beth fydd y—
- 16:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You must finish. Mae'n rhaid ichi orffen.
- 16:56 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
What will the strategy be to ensure that the profits from this contract are spent locally? Beth fydd y strategaeth i sicrhau bod yr elw o'r contract hwn yn cael ei wario'n lleol?
- 16:57 **Llyr Huws Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Mae Plaid Cymru, ers tro, wedi bod yn galw ar y Llywodraeth i gymryd camau i gynyddu ein cyfradd caffael mewnlol ni yng Nghymru i 75%. Fel yr ydym eisoes wedi clywed, mae adran caffael y Llywodraeth, Gwerth Cymru, wedi cyfrifo y byddai gwneud hynny yn creu miloedd ar filoedd o swyddi—46,000 o swyddi—yn y sector breifat os ydym yn gwireddu'r potensial hwnnw. Byddai hynny, wrth gwrs, yn rhoi hwb y mae mawr ei angen i'n heconomi yng Nghymru. Mae'r lefel honno yn gyraeddadwy os edrychwn ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni mewn gwledydd eraill.

Plaid Cymru has, for quite some time, been calling on the Government to take steps to increase our internal procurement rates in Wales to 75%. As we have already heard, the Government's procurement department, Value Wales, has estimated that doing so would create thousands of jobs—46,000 jobs—in the private sector if we were to achieve that potential. That, of course, would give a much-needed boost to our economy in Wales. That level is achievable if we look at what has been achieved in other nations.
- Rydym wedi clywed yn flaenorol am lwyddiant y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod dros hanner gwerth y cytundebau hynny yn aros yng Nghymru, ond, yn sicr, mae mwy i'w wneud ac mae tipyn o ffordd eto i fynd. Mewn dadl flaenorol yma, bu i Blaid Cymru ddangos yn glir sut y gall y £4.3 biliwn sy'n cael ei wario ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn gael ei ddefnyddio yn well er mwyn tyfu busnesau Cymru ac er mwyn cryfhau economi Cymru. Fel Aelod sy'n derbyn negeseuon a chynrychiolaeth gan fusnesau bychain a chanolig eu maint yn gyson ynglŷn â'r rhwystrdigaethau y maen nhw'n dal i'w hwynebu yn y maes hwn—ac mae Ieuan Wyn Jones wedi cyfeirio at nifer ohonynt yn flaenorol—mae'n glir bod llawer iawn o ffordd eto i fynd er mwyn sicrhau bod y cwmnïau llai hynny yn gallu cystadlu ac, yn fwy na chystadlu, yn llwyddo i ennill siâr decach o'r cytundebau sy'n dod gerbron.

We have heard previously about the successes of previous years in ensuring that over half of the value of all of those contracts remained in Wales, but, certainly, there is more to be done and there is quite some way to go. In a previous debate in this place, Plaid Cymru clearly demonstrated how that £4.3 billion spent on public procurement in Wales annually could be used more effectively in order to develop Welsh business and in order to strengthen the Welsh economy. As a Member who receives messages and correspondence regularly from small and medium-sized enterprises about the frustrations that they still face in this particular area—and Ieuan Wyn Jones referred to many of those already—it is clear that there is quite some way to go in ensuring that those smaller companies are able to compete, and not just compete but also get a fairer share of the contracts brought forward.

Mae Plaid Cymru hefyd wedi galw dro ar ôl tro ar y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth—Bil caffael cyhoeddus—i wneud y polisi cyfredol ar gaffael yn orfodol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Mae ein galwadau ni yn cael eu cefnogi gan sawl darn o ymchwil annibynnol. Mae adolygiad McClelland yn argymhell y dylai gweithredu polisi fod yn ddyletswydd yn hytrach nag yn opsiwn ac y dylid ei gwneud yn amod grant cyllid.

Mewn datganiad gan Lywodraeth Cymru ar 6 Rhagfyr y llynedd, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ddatganiad polisi ar gaffael a oedd yn dweud nad oedd hi'n ystyried mabwysiadu'r polisiau yn y datganiad hwnnw fel rhai dewisol a'i bod bellach yn bryd ystyried y potensial i ddeddfu er mwyn sicrhau bod economi Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu datblygu. Yna, ar 15 Ionawr eleni, pleidleisiodd Llywodraeth Cymru o blaid gwelliant gan Blaid Cymru i gynnig gan y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn ddyletswydd orfodol ar gyrff cyhoeddus i weithredu polisiau'r Llywodraeth yn hyn o beth. Mae Plaid Cymru yn falch iawn bod y Llywodraeth, o'r diwedd, yn dangos y bwriad, o leiaf, i ddeddfu er budd busnesau yng Nghymru.

Fodd bynnag, rydym yn dal i aros i glywed gan y Llywodraeth pryd y bydd y deddfwriaeth hon yn cael ei dwyn o flaen y Siambr. Gobeithio y gall y Gweinidog a'r Llywodraeth achub ar y cyfle heddiw i'n goleuo ychydig ar y mater hwn.

Roedd y datganiad polisi cyn y Nadolig hefyd yn nodi y byddai Gwerth Cymru yn gyfrifol am weithredu'r polisi a monitro ei fabwysiadu. Gobeithio y gall y Gweinidog roi diweddariad inni am y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma ar y gwaith penodol hwnnw.

Mewn datganiad mwy diweddar gan y Gweinidog, ar 12 Mawrth, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn sefydlu gwasanaeth caffael cenedlaethol newydd gyda chyllid o £5.9 miliwn dros dair blynedd, er mwyn mabwysiadu'r arferion a amlinellwyd yn y datganiad polisi blaenorol. A wnaiff y Gweinidog ddarparu mwy o fanylion am y canlyniadau mae'r Llywodraeth yn eu disgwyl yn sgîl y buddsoddiad hwn o bron i £6 miliwn? Sut y gellir mesur y canlyniadau hyn, a sut y gallwn ni fel Cynulliad graffu ar y cynnydd a gyflawnir?

Mae Plaid Cymru wedi galw ar y Llywodraeth i anelu at gyrraedd cyfradd caffael mewnol o 75%, i gyfateb i'r hyn a gyflawnir gan Public Contracts Scotland yn yr Alban. Fodd bynnag, rydym yn dal i aros i glywed pa welliannau mae'r Llywodraeth yn anelu amdanynt a beth yw'r amserlen. Mae'r ffaith bod pob 1% o gynnydd a wireddir o ran cadw'r gwariant hwn yng Nghymru yn creu 2,000 o swyddi ychwanegol yn cyfiawnhau ymrwymiad llawer mwy dwys gan ein Llywodraeth genedlaethol i wireddu'r potensial hwn. Mae pwerau ychwanegol wedi cael eu buddsoddi ynom gan bobl Cymru brin ddwy flynedd yn ôl, a daeth yr amser inni ddefnyddio'r pwerau hynny i ddeddfu er budd busnesau Cymru, yr economi Gymreig a phobl Cymru gyfan.

Plaid Cymru has also called time and again on the Government to introduce legislation—a public procurement Bill—in order to make the current procurement policy a requirement for public bodies. Our demands are supported by many pieces of independent research. The McClelland review recommends that implementing a policy should be a requirement rather than an option and that it should be a condition of grant.

In a statement by the Welsh Government on 6 December last year, the Minister for Finance announced a policy statement on procurement, stating that she was not considering adopting the policies in that statement as optional ones and that it was now time to consider the potential for legislation in order to ensure the development of the Welsh economy and public services in Wales. Then, on 15 January this year, the Welsh Government voted in favour of a Plaid Cymru amendment to a Government motion to introduce legislation to make it a mandatory requirement for public bodies to implement Government policies in this area. Plaid Cymru is extremely pleased that the Government is finally showing its intent, at least, to legislate for the benefit of Welsh businesses.

However, we are still waiting to hear from the Government when this legislation will be brought before the Chamber. I hope that the Minister and the Government will take this opportunity today to enlighten us on this issue.

The policy statement issued before Christmas noted that Value Wales would be responsible for the implementation of the policy and monitoring its adoption. I hope that the Minister can give us an update on progress to date on that particular work.

In a more recent statement by the Minister for Finance, on 12 March, the Government announced that it was to establish a new national procurement service with funding of £5.9 million over three years, in order to adopt the practices outlined in the previous policy statement. Will the Minister provide us with further details about the outcomes that the Government expects as a result of that investment of almost £6 million? How can those outcomes be measures, and how can we as an Assembly scrutinise the progress being made?

Plaid Cymru has called on the Government to aim at reaching an internal procurement rate of 75%, corresponding with what is being achieved by Public Contracts Scotland. However, we are still waiting to hear what improvements the Government is aiming for and what its timetable is. The fact that every 1% of progress made in terms of retaining expenditure here in Wales creates an additional 2,000 jobs justifies a far more intensive commitment by our Government to achieving this potential. Additional powers were invested in us by the people of Wales some two years ago, and the time has now come for us to use those powers and to legislate for the benefit of Welsh businesses, the Welsh economy and the people of the whole of Wales.

I am pleased to speak in today's debate about procurement in Wales. I agree, as do members of my group, with the overall principles of the motion before us. Many of us in the Chamber have made powerful arguments in favour of reviewing the current problems that we face, and I welcome many of the comments made.

Byron Davies AM remarked that the biggest concern in terms of local government procurement is the common practice of grouping contracts. I will stop there, because this is not just about local authorities—this is about all levels of procurement in Wales, whether it is here in the National Assembly for Wales or the Welsh Government, or in any public body in receipt of public money. Today, it is apt to remind Members that the late Margaret Thatcher said that there is no such thing as public money, but there is taxpayers' money.

Small and medium-sized enterprises are being priced out of the market because they are incapable of delivering major contracts. In an earlier debate, I spoke about the wasted spend of taxpayers' money. I remind Plaid Cymru Members on the opposite benches that during the One Wales Government and under a Plaid Cymru-led local authority—Conwy County Borough Council—there was £1 million overspend on a cycle track, £1 million overspend on a swimming pool, £3 million overspend on Maesdu bridge, and, only recently, £500,000 overspend on home to school transport. It is fair to say that KPMG, the external auditors, have made some very serious recommendations to that authority.

On amendment 2, Byron Davies explained that if we are to attract new employment opportunities and maximise local employment when large infrastructure projects are planned, we cannot do it in a closed public sector shop.

Amendment 4 ensures that lessons have been learned from the past, and it mentions the Wales Audit Office report, which fell short of condemning the past practices of Welsh Government for its lack of oversight and financial mismanagement of past infrastructure projects. It is vital that Welsh Government leads on value for money and instills faith again in public sector-led infrastructure projects. However, the public perception is that infrastructure projects led by the public sector are overpriced, delayed, wrongly prioritised and often lacking in transparency.

The Conservative amendments broaden the points made in this debate and I fully endorse the inclusion of private enterprise within local government procurement, as this opens up more competition in this sector.

Mae'n bleser gennyf siarad yn y ddadl heddiw am gaffael yng Nghymru. Cytunaf, fel y gwna aelodau fy ngrŵp, ag egwyddorion cyffredinol y cynnig ger ein bron. Mae llawer ohonom yn y Siambr wedi dadlau'n gryf o blaid adolygu'r problemau presennol sy'n ein hwynebu, a chroesawaf lawer o'r sylwadau a wnaed.

Dyweddodd Byron Davies AC mai'r pryder mwyaf o ran caffael llywodraeth leol yw'r arfer cyffredin o grwpio contractau. Ni af ymhellach, oherwydd nid yw hyn yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn unig—mae hyn yn ymwneud â phob lefel o gaffael yng Nghymru, boed yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru neu Lywodraeth Cymru, neu mewn unrhyw gorff cyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus. Heddiw, mae'n briodol cofio i'r diweddar Margaret Thatcher ddweud nad oes y fath beth ag arian cyhoeddus, ond mai arian trethdalwyr ydyw.

Caiff busnesau bach a chanolig eu prisio allan o'r farchnad oherwydd na allant gyflenwi contractau mawr. Mewn dadl gynharach, siaradais am wastraffu arian trethdalwyr. Atgoffaf Aelodau Plaid Cymru ar y meinciau gyferbyn, yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un ac o dan awdurdod lleol wedi'i arwain gan Blaid Cymru—Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy—roedd gorwariant o £1 filiwn ar lwybr beicio, £1 filiwn ar bwl nofio, £3 miliwn ar bont Maesdu, a, dim ond yn ddiweddar, £500,000 ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae'n deg dweud bod KPMG, yr archwilwyr allanol, wedi gwneud rhai argymhellion difrifol iawn i'r awdurdod hwnnw.

O ran gwelliant 2, eglurodd Byron Davies, os ydym am ddenu cyfleoedd cyflogaeth newydd a sicrhau cynifer o swyddi lleol â phosibl pan fo prosiectau seilwaith mawr yn cael eu cynllunio, ni allwn wneud hynny mewn siop sector cyhoeddus gaeedig.

Mae gwelliant 4 yn sicrhau bod gwersi wedi cael eu dysgu o'r gorffennol, ac mae'n sôn am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd, fwy neu lai, yn condemnio arferion blaenorol Llywodraeth Cymru am ei diffyg goruchwyliaeth a'i chamreoli ariannol o ran prosiectau seilwaith yn y gorffennol. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn arwain ar werth am arian ac yn ailennyn ffydd mewn prosiectau seilwaith a arweinir gan y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, canfyddiad y cyhoedd yw bod prosiectau seilwaith a arweinir gan y sector cyhoeddus yn cael eu gorbrisio, eu hoedi, eu blaenoriaethu'n anghywir ac yn aml nad oes unrhyw dryloywder.

Mae gwelliannau'r Ceidwadwyr yn ymhelaethu ar y pwyntiau a wnaed yn y ddadl hon ac rwy'n llwyr gefnogi cynnwys mentrau preifat mewn caffael llywodraeth leol, gan fod hyn yn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y sector hwn.

Recently, I was pleased to take part, with Alun Ffred Jones AM—[Interruption.]—on a panel at Bangor University business school to discuss the problems with procurement as a whole. Needless to say, the McClelland report came up. The issue that was raised was that, simply, many public bodies across Wales—mainly local authorities, but others as well—do not have the expertise and the skills. Recently, I met with the Royal Academy of Engineering, with Nicholas Ramsay AM and Mark Isherwood—[Interruption.]

Yn ddiweddar, roedd yn bleser gennyf gymryd rhan, gydag Alun Ffred Jones AC—[Torri ar draws.]—ar banel yn ysgol fusnes Prifysgol Bangor i drafod problemau caffael yn eu cyfanrwydd. Afraid dweud, cyfeiriwyd at adroddiad McClelland. Y mater a godwyd oedd, yn syml, nad oedd gan lawer o gyrff cyhoeddus ledled Cymru—yn bennaf awdurdodau lleol, ond eraill yn ogystal—yr arbenigedd a'r sgiliau. Yn ddiweddar, cyfarfûm â'r Academi Beirianneg Frenhinol, gyda Nicholas Ramsay AC a Mark Isherwood—[Torri ar draws.]

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. I do not know why there is all this ooing and aahing when a Member is referring in such a courteous fashion to other Members. I just wish that similar levels of courtesy applied throughout the Chamber.

Trefn. Nid wyf yn gwybod pam mae cymaint o dwrw pan fo Aelod yn cyfeirio at Aelodau eraill mewn ffordd mor gwrtais. Trueni nad oes lefelau tebyg o gwrteisi ymhob rhan o'r Siambr.

17:06 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
It too confirmed that it has real concerns about major infrastructure projects, such as road projects, that are taking place across Wales and the UK—we are talking devolution; we are talking Wales—where those technical engineering skills do not exist when it comes to procurement. Darren Millar, Mark Isherwood, Antoinette and I met recently with north Wales building and construction companies. They also pointed out—it relates to Eluned Parrott's point about what is local and how we keep procurement in Wales—that, quite often, they lose out to much larger companies from England. When it comes to the pre-assessment phase, it sometimes costs £200,000 or £300,000 to put their bids forward, and they just cannot compete. Then they see vans and lorries delivering from England, but they manage to register an office here in Wales. We have to be clamping down on those kinds of practices.

Cadarnhaodd hefyd fod ganddo bryderon gwirioneddol ynghylch prosiectau seilwaith mawr, megis prosiectau ffyrdd, sy'n cael eu cynnal ledled Cymru a'r DU—rydym yn sôn am ddatganoli; rydym yn sôn am Gymru—lle nad yw'r sgiliau peirianneg technegol hynny'n bodoli ym maes caffael. Yn ddiweddar, gwnaeth Darren Millar, Mark Isherwood, Antoinette a minnau gyfarfod â chwmnïau adeiladu o ogledd Cymru. Nodwyd ganddynt hefyd—mae'n ymwneud â phwynt Eluned Parrott am ystyr lleol a sut rydym yn cadw caffael yng Nghymru—eu bod, yn aml iawn, yn colli allan i gwmnïau llawer mwy o Loegr. Yn ystod y cyfnod cyn asesu, mae weithiau'n costio £200,000 neu £300,000 i gyflwyno eu cynigion, ac, yn syml, ni allant gystadlu. Yna, maent yn gweld faniau a lorïau cyflenwi o Loegr, ond maent yn llwyddo i gofrestru swyddfa yma yng Nghymru. Mae'n rhaid inni roi terfyn ar y mathau hynny o arferion.

Despite commitments to support SMEs, the feedback from Recruitment and Employment Confederation members in Wales is that practices on the ground continue to militate against SMES. For example, local authorities are driving down margins to an unsustainable level in sectors such as care.

Er gwaethaf ymrwymïadau i gefnogi busnesau bach a chanolig, yr adborth a gafwyd gan aelodau'r Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth yng Nghymru yw bod arferion ar lawr gwlad yn parhau i filwrio yn erbyn busnesau bach a chanolig. Er enghraifft, mae awdurdodau lleol yn gostwng terfynau elw i lefel anghynaliadwy mewn sectorau fel gofal.

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. Conclude with this now, please.

Trefn. Gorffennwch gyda hyn yn awr, os gwelwch yn dda.

17:07 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I welcome today's debate on local government procurement. This is a key area that we must improve upon, in order to allow smaller and more local businesses—

Croesawaf y ddadl hon heddiw ar gaffael llywodraeth leol. Mae hwn yn faes allweddol y mae'n rhaid inni wella arno, er mwyn galluogi busnesau llai a mwy lleol—

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you. That is a nice point on which to finish.

Diolch. Mae hynny'n bwynt da i orffen arno.

17:07 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Mae'n bleser cael dilyn Ms Janet Finch-Saunders, Aelod Cynulliad. Diolch iddi am gyfeirio ataf mewn modd mor foneddigaidd. [Chwerthin.]

It is a pleasure to follow Ms Janet Finch Saunders, Assembly Member. I thank her for referring to me in such a courteous manner. [Laughter.]

Reit, caffael. Gyda chaffael, hyd y gwelaf, mae pawb yn cytuno y dylem fod yn cymryd gwell mantais o'r arian sydd yn cylchredeg yng Nghymru er budd cwmnïau yng Nghymru. Mae'r unig ddatl yn ymwneud â sut rydych yn cyflawni hynny. Yn anffodus, rydym wedi cael adroddiad ar ôl adroddiad, rydym yn cael trafodaethau a chynadledau ac mae rhywun yn teimlo weithiau ein bod ni'n cymhlethu'r sefyllfa yn ormodol.

Yr unig beth rwyf eisiau ei wneud heddiw yw cyfeirio at un enghraifft syml iawn lle mae corff cyhoeddus wedi cymryd camau sydd wedi gwarchod swyddi ac wedi rhoi bywoliaeth gyson dros y blynyddoedd oherwydd ei bolisi caffael. Digwyddodd hyn yn y gogledd-orllewin mewn nifer o gynghorau. Rwy'n cyfeirio'n arbennig at Gyngor Arfon, pan oeddwn i'n aelod yno gyntaf ar ddechrau'r 1990au. Yr hyn a oedd wedi digwydd ers degawd oedd ei fod wedi cynnwys yn ei bolisi cynllunio yr angen i bob tŷ a phob adeilad masnachol ar y stryd fawr fod wedi cael ei doi gyda llechi Cymreig. Wrth gwrs, roedd rheolau'r Undeb Ewropeaidd yn golygu na allech ddweud hynny, gan y byddai hynny'n anghystadl, felly'r geiriad oedd 'llechi Cymreig neu lechi o ansawdd cyffelyb'. Roedd hynny'n golygu y gallech ddadlau bod rhai llechi—a oedd fel arfer yn rhatach, gyda llaw—o Sbaen, ac weithiau hyd yn oed o Tsieina, yn gallu cael eu defnyddio. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, roedd yn rhoi mantais aruthrol i'r chwarieli hynny a oedd yn dal i weithio yn y gogledd-orllewin. Oni bai am y cymal bach hwnnw yn y polisi cynllunio, does dim dwywaith, yn fy barn i, y byddai chwarieli Bethesda wedi cau ers blynyddoedd—nid ei bod yn gwerthu yn unig i'r farchnad leol, ond mae hynny'n rhoi sail iddi fod yn allforio a gwerthu cynhyrchion o lechi i'r diwydiant adeiladu. Felly, mae modd ychwanegu cymalau i gytundebau ac amodau cynllunio sydd yn gallu bod o les i'r gymuned leol. Mae 200 o bobl yn dal i gael eu cyflogi yn y chwarieli ym Methesda ac, oherwydd caniatâd cynllunio diweddar, nid oes dwywaith y bydd hynny'n parhau am degawdau eto. Mewn ardal fel Bethesda, sydd mor ddifreintiedig mewn cymaint o ffyrdd, mae'r gyflogaeth honno yn eithriadol o bwysig. Rwy'n eithriadol o falch bod cynghorau lleol yn yr ardal honno wedi bod mor hirben â gwneud hynny.

Felly, yr unig beth rwyf yn ei ddweud heddiw yw hyn: tra bod trafodaethau a dogfennau yn briodol iawn, mae'n rhaid ichi gymryd camau ymarferol. Mae'r rheini yn bosibl heb ddisgwyl am ddeddfu gan y Llywodraeth, ond rwy'n cytuno gyda'r alwad y dylai'r Llywodraeth hon ddeddfu yn y maes hwn ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod yr arian cyhoeddus sydd gennym yng Nghymru yn gweithio er budd pobl Cymru.

Right then, procurement. As far as I can see, on procurement, we all agree that we should be taking better advantage of the money circulating in Wales for the benefit of Welsh companies. The only argument centres on how you achieve that. Unfortunately, we have had report after report, we have had discussions and conferences and one feels, sometimes, that we are overly complicating the situation.

All that I want to do today is refer to one very simple example of where a public body has taken steps that have safeguarded jobs and sustained people's living over the years because of its procurement policy. This happened in north-west Wales in a number of councils. I refer specifically to Cyngor Arfon, when I was first a member there in the early 1990s. What had happened there for a decade was that its planning policy had included a requirement for all houses and commercial buildings on the high street to be roofed with Welsh slates. Of course, European Union rules meant that you could not say that, as it would be uncompetitive, so the wording referred to 'Welsh slates or slates of a similar quality'. That meant that you could argue that some slates—which were usually cheaper, by the way—from Spain and sometimes even from China could be used. However, the reality was that that secured a huge advantage for those quarries that were still in operation in north-west Wales. Without that brief clause in the planning policy there is no doubt, in my mind, that the Bethesda quarry would have closed down years ago—it is not just that it is selling slates for the local market, but that is giving it a basis on which to export and sell slate products to the construction industry. Therefore, clauses can be added to contracts and planning conditions that can benefit the local community. Today, 200 people are still employed in the quarry in Bethesda and, as a result of recent planning permissions, there is no doubt that that will continue for decades to come. In an area like Bethesda, which is so deprived in so many ways, such employment is exceptionally important. I am very pleased that local councils in that area were so long-sighted in doing that.

Therefore, the only thing that I am saying today is: while documents and discussions are very appropriate, you must take practical steps. It is possible to do that without having to wait for Government legislation, but I agree with the call for this Government to legislate in this area now, in order to ensure that the public money that we have in Wales works for the benefit of the Welsh people.

17:11

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance

I am pleased to support this motion. I believe that it reflects and endorses our Wales procurement policy statement. It is particularly useful and welcome to focus this afternoon on local government and the opportunities and levers for local government to maximise procurement opportunities for local business. It helpfully follows the Government debate that I led in November on procurement policy, and we have had other opposition debates and debates led by Plaid Cymru. It provides me with an opportunity to update you on progress. It is also welcome to respond to such constructive scrutiny and contributions from across the Chamber this afternoon.

Mae'n bleser gennyf gefnogi'r cynnig hwn. Credaf ei fod yn adlewyrchu ac yn cefnogi datganiad polisi caffael Cymru. Mae'n arbennig o ddefnyddiol ac yn braf canolbwyntio'r prynhawn yma ar lywodraeth leol a'r cyfleoedd a'r dulliau i lywodraeth leol achub ar gyfleoedd caffael ar gyfer busnesau lleol. Yn ddefnyddiol, mae'n dilyn dadl y Llywodraeth a arweiniais ym mis Tachwedd ar bolisi caffael, ac rydym wedi cael dadleuon eraill gan y gwrthbleidiau a dadleuon dan arweiniad Plaid Cymru. Mae'n rhoi cyfle imi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am gynnydd. Croesawaf y cyfle hefyd i ymateb i graffu a chyfraniadau mor adeiladol o bob rhan o'r Siambr y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Wales procurement policy statement lays out nine principles against which public procurement should be carried out, with specific actions for the public sector and Welsh Government. Adoption of this policy by local authorities will make it easier for local businesses to bid for contracts. I said in December when I published the Wales procurement policy statement that

'I do not consider adoption to be optional'.

Llyr Gruffydd referred to the point that I made. The potential for legislation is being considered, but if you look at the policy statement that I made and that is now being delivered, you will see that it incorporates two important developments that have been touched on this afternoon. It requires the use of the Supplier Qualification Information Database—SQulD—approach to pre-qualification. It also makes the community-benefits approach integral, so that additional local employment and training opportunities can be secured. Use of the SQulD has grown, in terms of progress, with all sectors committed to this approach.

Its use in construction is linked to the growth in contract or framework places being awarded to businesses with a Welsh headquarters—standing at over two thirds for the last two years, from only one third in 2010. This, again, is the progress that colleagues want to hear about. I have seen this personally in action in a number of my recent visits. On 22 April, I met with Wynne Construction at the local education authority Ysgol y Bont project in Llangefni and saw how, having won the contract, Wynne Construction provides local supply chain opportunities and employment. I met with the apprentices on site and saw the difference that that had made.

My colleague the Minister for Economy, Science and Transport is funding the improvements to the national procurement website, Sell2Wales. That will move to a new platform from June, and we will start to build an electronic SQulD, which will enable suppliers to store and re-use their responses. This is about reducing costs and making the process better and simplifying it. We already have over 22,000 supplier SQulD responses collated from within our e-tender tool.

Not much has been said this afternoon about our community-benefits approach. This is crucial; it is innovative and it is proven. The last projects reported that 82% of the £282 million investment was re-invested in Wales through direct salaries or the supply chain. People have received training, over 80 projects worth £4 billion are under way, and we have made the approach a requirement of the Wales infrastructure investment plan.

Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cyflwyno naw egwyddor fel sail i gaffael cyhoeddus, gyda chmau gweithredu penodol ar gyfer y sector cyhoeddus a Llywodraeth Cymru. Bydd mabwysiadu'r polisi hwn gan awdurdodau lleol yn ei gwneud yn haws i fusnesau lleol wneud cais am gontractau. Dywedais ym mis Rhagfyr pan gyhoeddais ddatganiad polisi caffael Cymru

nad wyf yn ystyried mabwysiadu fel opsiwn dewisol.

Cyfeiriodd Llyr Gruffydd at y pwynt a wneuthum. Mae'r potensial ar gyfer deddfwriaeth yn cael ei ystyried, ond os edrychwch ar y datganiad polisi a wneuthum sydd bellach yn cael ei gyflawni, byddwch yn gweld ei fod yn cynnwys dau ddatblygiad pwysig a grybwyllwyd y prynhawn yma. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr—SQulD—ym maes cyn cymhwysio. Mae hefyd yn gwneud yr elfen buddiannau cymunedol yn rhan annatod o'r broses, fel y gellir sicrhau cyfleoedd gwaith a hyfforddi lleol ychwanegol. Mae'r defnydd o SQulD wedi tyfu, o ran cynnydd, gyda phob sector wedi ymrwymo iddi.

Mae ei defnydd yn y diwydiant adeiladu yn gysylltiedig â'r twf mewn lleoedd contract neu fframwaith sy'n cael eu dyfarnu i fusnesau â phencadlys yng Nghymru—dros ddwy ran o dair ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf, o gymharu â dim ond un rhan o dair yn 2010. Dyma, unwaith eto, y cynnydd y mae Aelodau eraill yn awyddus i glywed amdano. Gwelais hyn ar waith yn bersonol yn ystod nifer o ymweliadau diweddar. Ar 22 Ebrill, cyfarfûm â Wynne Construction ym mhrosiect Ysgol y Bont, Llangefni yr awdurdod addysg lleol a gwelais sut, ar ôl ennill y contract, mae Wynne Construction yn darparu cyfleoedd a gwaith o fewn y gadwyn gyflenwi leol. Cyfarfûm â'r prentisiaid ar y safle a gwelais y gwahaniaeth y mae hynny wedi'i wneud.

Mae fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn ariannu'r gwelliannau i'r wefan gaffael genedlaethol, gwerthwchigymru. Bydd honno'n symud i lwyfan newydd o fis Mehefin, a byddwn yn dechrau llunio SQulD electronig, a fydd yn galluogi cyflenwyr i storio ac aildefnyddio eu hymatebion. Mae a wnelo hyn â lleihau costau a gwneud y broses yn well ac yn symlach. Mae gennym eisoes dros 22,000 o ymatebion SQulD gan gyflenwyr a gasglwyd o fewn ein hadnodd e-dendro.

Ni fu llawer o sôn y prynhawn yma am yr elfen buddiannau cymunedol. Mae hyn yn hanfodol; mae'n arloesol ac yn ddull profedig. Nododd y prosiectau diwethaf fod 82% o'r buddsoddiad o £282 miliwn wedi cael ei hailfuddsoddi yng Nghymru drwy gyflogau uniongyrchol neu'r gadwyn gyflenwi. Mae pobl wedi derbyn hyfforddiant, mae dros 80 o brosiectau gwerth £4 biliwn ar waith, ac rydym wedi gwneud hyn yn un o ofynion y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru.

That very much follows what Ieuan Wyn Jones had said should be the approach. If we look back to the local government compact, which was agreed in December 2011, it included full adoption of the generic standard supply qualification questions in SQuID, the use of community benefits clauses in contracts in excess of £2 million, where community benefits can be realised, and work with the Welsh Government to develop and implement a set of standard of contract procedure rules.

The McClelland review highlighted where there are capability gaps—and Eluned Parrott and others commented on this—particularly in local government, in terms of the Welsh public sector. Therefore, there is variable adoption of Welsh Government procurement policy. We have made it clear that, over the coming year, we will be closely monitoring adoption. I repeat that we will be considering legislation, and I am looking carefully at what is happening in Scotland. I have also announced that a procurement fitness check programme will commence this summer. It is important that we look at the issues of capacity and training. I am supporting the development of capability through the home-grown talent project. That is providing over 200 training days and supporting 42 officers of local authorities and other public sector bodies to gain professional qualifications. Twenty-two young trainees are completing a three-year programme of placement and training. We are working with the University of South Wales, and with Cardiff, Swansea and Bangor universities in the development of the profession. I believe that we must have all been at Bangor University on the same day, during its week-long series of procurement policy discussions and seminars. In fact, I spoke at the event, and Alun Ffred Jones and Janet Finch-Saunders also engaged in it. We have also sponsored the first ever Welsh National Procurement Awards. This is about developing a creative procurement network.

The national procurement service, which I announced with the Minister for local government, has also been mentioned this afternoon. The decision to establish that service was also part of the McClelland review, and the aim of the service is to procure common and repetitive spend once for Wales. I will be making an oral statement on this in a few weeks' time, and so I will be able to respond fully to scrutiny and questions on that, as the service goes live in November. The national procurement service is not only to secure efficiencies; it will develop opportunities for local supply chains.

Mae hynny'n agos iawn at y dull a nodwyd gan Ieuan Wyn Jones. Os edrychwn yn ôl ar y compact llywodraeth leol, y cytunwyd arno ym mis Rhagfyr 2011, roedd yn cynnwys mabwysiadu'r cwestiynau safonol generig ar gymwysterau cyflenwyr yn SQuID yn llawn, y defnydd o gymalau buddiannau cymunedol mewn contractau gwerth dros £2 filiwn, lle gellir gwireddu buddiannau cymunedol, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu set safonol o reolau gweithdrefn contract.

Amlygodd adolygiad McClelland fylchau o ran gallu—a gwnaeth Eluned Parrott ac eraill sylwadau ar hyn—yn enwedig mewn llywodraeth leol, o ran y sector cyhoeddus yng Nghymru. Felly, caiff polisi caffael Llywodraeth Cymru ei fabwysiadu i raddau gwahanol. Rydym wedi nodi'n glir, dros y flwyddyn i ddod, y byddwn yn monitro mabwysiadu'n ofalus. Dywedaf eto y byddwn yn ystyried deddfwriaeth, ac rwy'n edrych yn ofalus ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban. Cyhoeddais hefyd y bydd rhaglen gwirio ffitrwydd caffael yn dechrau yr haf hwn. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar allu ac adnoddau a hyfforddiant. Cefnogaf y broses o feithrin gallu drwy'r prosiect Defnyddio Doniau Cymru. Mae hwnnw'n darparu dros 200 o ddiwrnodau hyfforddi ac yn helpu 42 o swyddogion awdurdodau lleol a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus i ennill cymwysterau proffesiynol. Mae 22 o hyfforddeion ifanc yn cwblhau rhaglen tair blynedd o leoliadau a hyfforddiant. Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol De Cymru, a phrifysgolion Caerdydd, Abertawe a Bangor i ddatblygu'r proffesiwn. Mae'n rhaid ein bod ni i gyd wedi bod ym Mhrifysgol Bangor ar yr un diwrnod, yn ystod ei chyfres wythnos o hyd o drafodaethau a seminarau polisi caffael. Yn wir, siaradais yn y digwyddiad, a chymerodd Alun Ffred Jones a Janet Finch-Saunders ran hefyd. Rydym hefyd wedi nodi Gwobrau Caffael Cenedlaethol cyntaf Cymru. Mae a wnelo hyn â datblygu rhwydwaith caffael creadigol.

Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol, a gyhoeddais gyda'r Gweinidog llywodraeth leol, hefyd wedi cael ei grybwyll y prynhawn yma. Roedd y penderfyniad i sefydlu'r gwasanaeth hwnnw hefyd yn rhan o adolygiad McClelland, a nod y gwasanaeth yw caffael gwariant cyffredin ac ailadroddus unwaith ar gyfer Cymru. Byddaf yn gwneud datganiad llafar ar hyn ymhen ychydig wythnosau, ac felly byddaf yn gallu ymateb yn llawn i graffu a chwestiynau ar hynny, gan fod y gwasanaeth yn mynd yn fyw ym mis Tachwedd. Nid yw'r gwasanaeth caffael cenedlaethol ond yn ymwneud â sicrhau arbedion effeithlonrwydd; bydd yn datblygu cyfleoedd ar gyfer cadwyni cyflenwi lleol.

Turning to investment in our road network, we have already provided local authorities with significant additional revenue funds, enabling them to make the borrowing arrangements required to invest in maintenance. I have met contractors across Wales who have benefited from this input of innovative finance, which has enabled local authorities to invest over £60 million in local road maintenance in the last financial year and another £100 million over the next two years—some £170 million of valuable investment in total. Again, I have met contractors and apprentices and there are community benefits as a result of that. In terms of the impact on construction, it is interesting to look at construction employment in Wales, which has only fallen by 0.4% compared to 15% in other parts of the UK. I believe that the input of that innovative finance to support local authorities has benefited that sector.

I will support all the amendments other than Aled Roberts's second amendment, which was promoted by Eluned Parrott this afternoon. We do not believe that additional legislation is necessary. The Minister will be making a statement on business rates next week. Through our Wales infrastructure investment plan, we will continue to develop and identify innovative routes to finance to ensure that, despite considerable and, indeed, harsh reductions to our budgets by the UK Government, the Welsh economy continues to benefit from much-needed infrastructure development and from a robust Wales procurement policy statement.

Gan droi at fuddsoddi yn ein rhwydwaith ffyrdd, rydym eisoes wedi rhoi cryn dipyn o arian referniw ychwanegol i awdurdodau lleol, gan eu galluogi i wneud y trefniadau benthyca sy'n ofynnol i fuddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw. Cyfarfûm â chontractwyr ledled Cymru sydd wedi elwa ar y cyllid arloesol hwn, sydd wedi galluogi awdurdodau lleol i fuddsoddi dros £60 miliwn yn y gwaith o gynnal a chadw ffyrdd lleol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf a £100 miliwn arall dros y ddwy flynedd nesaf—cyfanswm o tua £170 miliwn o fuddsoddiad gwerthfawr. Unwaith eto, cyfarfûm â chontractwyr a phrentisiaid a cheir buddiannau cymunedol o ganlyniad i hynny. O ran yr effaith ar adeiladu, mae'n ddiddorol edrych ar gyflogaeth adeiladu yng Nghymru, sydd ond wedi gostwng 0.4% o gymharu â 15% mewn rhannau eraill o'r DU. Credaf fod y cyllid arloesol hwnnw i gefnogi awdurdodau lleol wedi bod o fudd i'r sector hwnnw.

Byddaf yn cefnogi'r holl welliannau heblaw am ail welliant Aled Roberts, a gafodd ei hyrwyddo gan Eluned Parrott y prynhawn yma. Nid ydym yn credu bod angen deddfwriaeth ychwanegol. Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar ardrethi busnes yr wythnos nesaf. Drwy ein cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, byddwn yn parhau i ddatblygu a nodi llwybrau arloesol i ariannu er mwyn sicrhau, er gwaethaf gostyngiadau sylweddol ac, yn wir, rhai llym i'n cyllidebau gan Lywodraeth y DU, mae economi Cymru yn parhau i elwa o ddatblygiad seilwaith mawr ei angen ac o ddatganiad polisi caffael Cymru cadarn.

17:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Rhodri Glyn Thomas to reply to the debate.

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:19 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Croesawaf yn fawr iawn y gefnogaeth drawsbleidiol sydd wedi bod i'r ddadl hon, a gyflwynwyd gan Plaid Cymru. Mae'n braf iawn clywed pawb yn y Siambr hon yn cytuno ar bwnc, yn enwedig ar ôl y ddadl flaenorol. Ond, fel y mae nifer o'r siaradwyr wedi ei nodi—soniodd Alun Ffred Jones am hyn—yr ydym wedi bod yn trafod hyn nawr ers 14 blynedd, ac rydym i gyd yn dweud pa mor bwysig yw sicrhau bod caffael cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei gyflwyno i gwmnïau o Gymru, ac eto yr ydym yn dal yn methu â sicrhau bod y mwyafrif o'r cytundebau yn mynd iddynt. Rydym wedi cyrraedd rhyw 50%, ond mae gwaith eto i'w wneud.

Rwy'n falch iawn hefyd fod y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r ddadl hon ac, yn ddigon pwrpasol, mae hi wedi sôn am yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi ei gyflawni eisoes, ac yr ydym yn croesawu hynny wrth reswm. Eto i gyd, cododd Llyr Huws Gruffydd gwestiwn ynglŷn â deddfu ar y mater hwn er mwyn symud y broses ymlaen a sicrhau ein bod yn gwireddu'r potensial llawn ac yn cyrraedd o leiaf 75% o gaffael cyhoeddus yn mynd i gwmnïau o Gymru, yn debyg i'r hyn sydd wedi digwydd eisoes yn yr Alban.

I warmly welcome the cross-party support for this debate, tabled by Plaid Cymru. It is excellent to hear everyone in the Chamber agreeing on an issue, particularly given the previous debate. However, as many speakers have noted—Alun Ffred Jones mentioned this—we have been discussing this issue for 14 years, and we all say how important it is to ensure that public procurement in Wales is available to Welsh companies, but we are still failing to ensure that the majority of contracts are awarded to them. We have reached a figure of around 50%, but there is still further work to be done.

I am also very pleased that the Minister responded very positively to this debate and, quite appropriately, she has mentioned what the Government has achieved to date, and we welcome that naturally. However, Llyr Huws Gruffydd raised the question of legislating in this area in order to move this process forward and to ensure that we achieve the full potential available to us and reach a figure of at least 75% of public procurement being awarded to Welsh companies, as has already been achieved in Scotland.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Agorodd Leanne Wood y ddadl gan bwysleisio'r ffaith er bod llwyddiannau i'w dathlu, mae llawer mwy i'w wneud eto. Y peth pwysig, wrth gwrs, fel yr oedd hi'n ei nodi, yw pan fydd cytundebau fel hyn yn mynd i gwmnïau o Gymru, mae swyddi yn cael eu creu a'u cynnal yng Nghymru. Cawsom ddarlun o hynny gan Alun Ffred Jones a gyfeiriodd at y sefyllfa a oedd yn bodoli yng ngogledd-orllewin Cymru a'r modd y mae cwmni chwarelu arbennig ym Methesda wedi cael ei gynnal. Nododd fod y ffaith bod y cytundeb hwnnw'n bodoli o flwyddyn i flwyddyn, ac o ddegawd i ddegawd erbyn hyn, yn caniatáu iddo ffynnu yn y gweithgareddau eraill y mae'n eu cyflawni.

Roedd Byron Davies yn gefnogol iawn, ac rwy'n gwerthfawrogi hynny, ynghyd â chefnogaeth Janet Finch-Saunders. Rydym yn hapus iawn i gefnogi eich gwelliannau chi, a gobeithio y bydd hynny hefyd yn cyfrannu at y cytundeb barn sydd yn bodoli yma.

Soniodd Eluned Parrott am y pwysigrwydd yr ydym i gyd yn sôn amdano o ran sicrhau bod y contractau hyn yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fel y gall cwmnïau lleol llai gynnig amdanynt a'u derbyn. Roedd hi hefyd—ac ni fydd neb yn dadlau â hyn—yn sôn am yr angen am uchelgais o ran gweledigaeth awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn gallu derbyn gwelliant 4, sef eich gwelliant cyntaf, ond byddwn yn atal ein pleidlais ar welliant 5, ac rwy'n meddwl ein bod ni yn hyn o beth yn rhannu amheuaeth y Gweinidog am y gwelliant arbennig hwn. Nid wyf wedi cael fy argyhoeddi bod angen deddfwriaeth i sicrhau hyn, ac nid wyf yn credu eich bod wedi cyfiawnhau yn eich cyfraniad chi ychwaith yr angen am ddeddfwriaeth ar y mater hwn. Felly, fe fyddwn yn atal ein pleidlais ar y gwelliant arbennig hwn.

Yn ei gyfraniad ef, fe ddadansoddodd Ieuan Wyn Jones y modd y gellir yn ymarferol gyflawni'r broses o sicrhau bod cwmnïau cymharol fach o Gymru yn gallu sicrhau'r contractau hyn, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle nad ydynt yn gallu cystadlu am y contract yn ei gyfanrwydd. Hynny yw, mae modd gosod cymalau yn y cytundeb a fydd yn sicrhau bod gwaith is-gontractio yn mynd i gwmnïau o Gymru. Rwy'n meddwl bod y cyfraniad hwnnw yn un pwysig iawn yn y cyd-destun hwn oherwydd, fel y dywedais yn gynharach, yr ydym wedi bod yn sôn am hyn am gynifer o flynyddoedd, gan bwysleisio pa mor hanfodol ydyw i'r economi yng Nghymru, ond yr ydym dal mewn sefyllfa lle mae 50% o'r cytundebau hyn yn mynd i gwmnïau y tu allan i Gymru. Fe nododd Ieuan Wyn Jones hefyd bwysigrwydd creu prentisiaethau o gwmpas y cytundebau hynny, ac fe gyfeiriodd y Gweinidog hefyd at hynny yn ei chyfraniad hi.

Fe gyfeiriodd Jenny Rathbone at faes pwysig iawn, sef rheoli gwastraff, a'r cyfleoedd sydd i'w cael yn y fan honno i sicrhau bod y cytundebau hynny yn mynd i gwmnïau o Gymru. Mae'n amlwg bod cyfleoedd gwych yn y fan hon. Wrth ddod â'r ddadl hon i ben, rwy'n apelio bod y cytundeb barn sydd wedi ei greu o ganlyniad i'r ddadl hon yn y Cynulliad yn esgor ar weithredu ymarferol ac ein bod i gyd yn derbyn ein cyfrifoldebau. Yn sicr, mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb—roedd y Gweinidog yn sôn ei bod yn mynd i wneud datganiad pellach ac y bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am yr economi yn gwneud datganiad yn fuan. Gobeithio y gallwch ein sicrhau y bydd deddfwriaeth yn deillio o hyn, oherwydd rwy'n credu bod cytundeb barn yn y lle hwn bod angen deddfwriaeth i symud y broses hon ymlaen yn sylweddol.

Leanne Wood, in opening the debate, emphasised the fact that although there are successes that we should celebrate, there remains a great deal still to be done. The important thing, of course, as she noted, is that when contracts like this are awarded to Welsh companies, employment is then created and sustained in Wales. Alun Ffred Jones painted a picture of that, referring to the situation in north-west Wales and the way that a particular quarrying company in Bethesda has been supported. He noted that the fact that that contract has existed from year to year, and from decade to decade by now, ensures that it can prosper in the other activities in which it is involved.

Byron Davies was very supportive and I appreciate that, as I appreciate the support of Janet Finch-Saunders on this issue. We are happy to support your amendments to the motion, and I hope that that will contribute to the unanimity that exists here.

Eluned Parrott also referred to the importance that we all mention of ensuring that these contracts are laid in such a way that will ensure that smaller local companies are able to tender for them and win. She also mentioned—and no-one would argue with this—the need for ambition in terms of the vision of local authorities. We are also able to support amendment 4, your first amendment, but we are going to abstain on amendment 5, and I think that we share the Minister's doubts on this particular amendment. I have yet to be convinced that we need legislation in order to secure this, and I am not sure that you managed to convince us in your contribution of us of the need for legislation on this matter. Therefore, we will abstain on that amendment.

In his contribution, Ieuan Wyn Jones analysed the way in which practical steps can be taken to achieve this aim of ensuring that relatively small companies from Wales are able to secure these contracts, even in situations where they cannot compete for the contract as a whole. That is, it is possible to include clauses in the contract that will ensure that sub-contracts are awarded to Welsh companies. I think that that contribution is very important in this context because, as I said earlier, we have been discussing this for a number of years, emphasising how crucial it is to the Welsh economy, but we still find ourselves in a position where 50% of these contracts are awarded to companies outwith Wales. Ieuan Wyn Jones also noted the importance of creating apprenticeships around these contracts, and the Minister also made reference to that in her contribution.

Jenny Rathbone referred to a very important area, namely waste management, and the opportunities that exist in that area to ensure that those contracts are awarded to companies from Wales. It is clear that there are excellent opportunities in this area. In concluding this debate, I appeal that the consensus that has been created as a result of this debate in the Assembly leads to practical action and that we all accept our responsibilities. Certainly, the Government has a responsibility—the Minister mentioned that she was going to make a further statement and the Minister responsible for the economy will be making a statement shortly. I hope that you can assure us that legislation will emerge from this, because I think that there is consensus in this place that legislation is needed to move this process forward significantly.

Mae gennym i gyd gyfrifoldeb i fynd yn ôl i'n hardaloedd ein hunain ac atgoffa awdurdodau lleol ledled Cymru am y cyfleoedd a'r potensial sy'n bodoli. Yn ei gyfraniad, roedd Llyr Huws Gruffydd yn sôn am botensial o 46,000 o swyddi. Meddylwch beth fyddai hynny'n ei wneud o ran gweddnewid economi Cymru a rhoi gobaith gwirioneddol—yn enwedig i bobl ifanc yng Nghymru sydd ar hyn o bryd mewn sefyllfa economaidd ddyrys ac anodd—o swyddi yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y byddwn i gyd yn derbyn ein cyfrifoldebau ac yn ceisio gweithredu'n ymarferol i hyrwyddo hyn. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb â mwy na geiriau, ac yn ymateb â gweithredu deddfwriaethol er mwyn maximeiddio'r potensial sydd i'w gael yn y fan hon. Roeddwn yn falch iawn o glywed y gefnogaeth unedig, am unwaith, a oedd yn bodoli yn y Siambr ar y pwnc pwysig hwn.

We all have a responsibility to go back to our own areas and remind local authorities throughout Wales of the opportunities and the potential that exists. In his contribution, Llyr Huws Gruffydd mentioned a potential 46,000 jobs. Think what that could do in terms of transforming the Welsh economy and giving real hope—particularly to young people in Wales who are currently in a difficult and complex economic situation—of jobs in Wales. I hope that we will all accept our responsibilities and try to take practical steps to promote this. I hope that the Welsh Government will respond with more than words, and respond with legislative action in order to maximise the potential that exists in this area. I was very pleased to hear the cross-party support, for once, that existed in the Chamber on this important issue.

17:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. I defer all voting under this item until voting time.

Cynigir y dylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Felly, gohiraf yr holl bleidleisio sy'n gysylltiedig â'r eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cyllid ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of William Graham, and amendments 2 and 3 in the name of William Graham.

Welsh Liberal Democrats Debate: Funding for Social Care in Wales

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw William Graham, a gwelliannau 2 a 3 yn enw William Graham.

Cynnig NDM5204 Aled Roberts

Motion NDM5204 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu bod y system gyllido ar gyfer gofal hirdymor yn y DU wedi bod yn annigonol, yn annheg ac yn anghynaliadwy yn rhy hir ac yn croesawu cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer ei diwygio.

1. Believes that for too long the funding system for long-term care in the UK has been inadequate, unfair and unsustainable and welcomes the UK Government's plans for reform.

2. Yn cydnabod na fu erioed cymaint o frys o ran yr angen i sicrhau system gynaliadwy i dalu am ofal yng Nghymru, gan nodi gyda phryder:

2. Recognises that the need to secure a sustainable system for paying for care in Wales has never been more urgent, noting with concern that:

a) y bydd angen rhywfaint o ofal a chymorth ar dros wyth o bob deg o bobl 65 oed neu hŷn yn ddiweddarach yn eu bywydau ac y rhagamcanir y bydd nifer y bobl yng Nghymru sy'n 65 oed a hŷn wedi dyblu erbyn 2035;

a) more than eight out of ten people aged 65 or over will need some care and support in their later lives and that the number of people in Wales aged 65 and over is projected to double by 2035;

b) yr amcangyfrifir bod dros 17,000 o bobl â dementia yng Nghymru ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu 31% cant dros yr 20 mlynedd nesaf;

b) there are currently estimated to be over 17,000 people with dementia in Wales and this figure is predicted to rise by 31% over the next 20 years;

c) bod un o bob tri o bobl, yn ôl ymchwil ar ddefnyddwyr gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain, yn credu bod 'gofal i'w gael am ddim fel y mae'r GIG' ac nad oes diben cynllunio ar gyfer costau gofal hirdymor yn y dyfodol;

c) according to consumer research by the Association of British Insurers, one in three people believe that 'care is free like the NHS' and that there is no point in planning for future long term care costs;

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

d) y bydd un o bob deg o deuluoedd yn wynebu costau gofal o £100,000 neu fwy yn ystod eu hoes, fel yr amlygwyd gan Gomisiwn Dilnot.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i system newydd o gyllido gofal yng Nghymru a chadarnhau'r cyllid canlyniadol Barnett a fydd yn deillio o'r cyhoeddiad ar gyllido gofal cymdeithasol yn Adolygiad o Wariant 2013.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio argymhellion Comisiwn Dilnot fel sail ar gyfer diwygio cyllid gofal cymdeithasol yng Nghymru ar frys, gan gynnwys:

a) sicrhau bod pobl wedi'u diogelu rhag costau uchel eu gofal cymdeithasol;

b) cyflwyno cynllun â chost wedi'i chapio ac ymestyn trothwy'r profion modd;

c) ymestyn y cynllun taliadau gohiriedig i bob un y mae'n ofynnol iddo dalu am ofal preswyl;

d) cyflwyno Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol i wella cysondeb y chymorth;

e) sicrhau bod y rhai a ddaw'n oedolion ac sydd ag angen gofal a chymorth eisoes yn gymwys i gael cymorth am ddim gan y wladwriaeth i ddiwallu eu hanghenion gofal;

f) gwella argaeledd a hygyrchedd gwybodaeth a chymorth i bobl ddeall eu hopsiynau a pharatoi a chynllunio am gostau gofal.

d) one in ten families will be hit with care costs of £100,000 or more in their lifetime, as highlighted by the Dilnot Commission.

3. Calls on the Welsh Government to outline the key principles that will underpin a new care funding system in Wales and to clarify the Barnett consequential that will result from the announcement on social care funding within the 2013 Spending Review.

4. Calls on the Welsh Government to use the Dilnot Commission recommendations as a basis for implementing urgent reform of funding for social care in Wales, including to:

a) ensure that people are protected from the high costs of their social care;

b) introduce a capped cost scheme and extend the means testing threshold;

c) extend the deferred payment scheme to all those who are required to pay for residential care;

d) introduce a National Eligibility Framework to improve consistency of support;

e) ensure that those entering adulthood with an existing care and support need are eligible for free state support to meet their care needs;

f) improve the availability and accessibility of information and support for people to understand their options and prepare and plan for care costs.

17:27

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

My colleagues will outline our approach to the amendments tabled this afternoon. I am sure that many in the Chamber are familiar with the Jenny Joseph poem entitled 'Warning'. In one verse, a lady warns her relatives that when she grows old she intends to wear purple with a red hat that does not suit her. While she gobbles up samples in shops, she will spend her pension on brandy, summer gloves and satin sandals. She sounds like a woman after my own heart. However, I suspect that the reality for her would be that her pension would be spent on the costs of care. While ageing is a positive experience and, for my generation, we can look forward to a retirement that is longer and healthier than ever before, many of us will go on to develop care needs.

Cynigiau y cynnig.

Bydd fy nghyd-Aelodau yn amlinellu'r ffordd y bwriadwn ymdrin â'r gwelliannau a gyflwynwyd y prynhawn yma. Rwy'n siŵr bod llawer yn y Siambr yn gyfarwydd â cherdd enwog Jenny Joseph, 'Warning'. Mewn un pennill, mae gwraig yn rhybuddio ei pherthnasau pan fydd yn mynd yn hen ei bod yn bwriadu gwisgo porffor gyda het goch nad yw'n addas iddi. Tra'n lloccio samplau mewn siopau, bydd yn gwario ei phensiwn ar frandi, menig haf a sandalau sidan. Mae'n swnio fel gwraig wrth fodd fy nghalon. Fodd bynnag, rwy'n amau mai'r realiti yw y byddai ei phensiwn yn cael ei wario ar gostau gofal. Er bod heneiddio yn brofiad cadarnhaol ac, i'm cenedlaeth, gallwn edrych ymlaen at ymdeoliad sy'n hwy ac yn iachach nag erioed o'r blaen, bydd llawer ohonom yn datblygu anghenion gofal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

For too long the issue of how we pay for long-term care has been dodged by politicians of all political colours. While recognising the problems, we have not been able to develop a consensus on how we move forward. Our constituents are urging us, quite rightly, once again, to act. Sarah Rochira, the Commissioner for Older People in Wales, stated that as she travels around Wales, meeting and speaking with older people, they have been clear and consistent in telling her that what they want is a system for paying for care that is transparent and easy to understand, and which does not penalise people who have saved, and does not force people to sell their homes.

I have been around long enough to remember the publication of the report of the royal commission under the previous Labour Government. Over a decade ago, that work was completed, its findings rejected and little progress was made. The publication of the Dilnot commission report represents a new attempt to quantify the problem and to propose a solution.

The Westminster Government's response to Dilnot, I believe, represents a significant step forward. What we need now is clarity from the Welsh Government as to what its proposals will be for Wales. The demography of Wales means that that is even more important and pressing than ever. Our population is ageing and we have a higher proportion of older people than the rest of the UK does. The number of people in Wales aged 65 and over is projected to double by 2035—I will almost be there myself, but not quite. There are currently estimated to be over 17,000 people in Wales living with dementia, and that figure is predicted to rise by 31% over the next 20 years.

I know from years of casework that paying for care and the actual costs of care come as a real shock to many families. It represents a significant financial blow at a time of great stress and psychological upheaval that those families are already dealing with when confronted by a relative needing that long-term care, and perhaps needing to move into residential care and out of the family home. Research shows that, worryingly, a third of people believe that social care is free, just like the NHS—free at the point of delivery. They are simply unprepared for what may await them. The current system is also hugely complex, and, to be blunt, there are unintended consequences for the NHS. I admit that I have come across constituents who have kept their relatives in a NHS bed to fend off the moment when they as a family will start having to pay for care. We have seen long and difficult battles that have cost the NHS a great deal of money, with families battling to get continuing NHS healthcare funding in order to try to stave off being required to pay for care.

Ers gormod o amser mae gwleidyddion o bob plaid wedi osgoi ymdrin â sut rydym yn talu am ofal hirdymor. Er inni gydnabod y problemau, nid ydym wedi llwyddo i gael consensws ynglŷn â'r ffordd y dylem weithredu ar hyn. Mae ein hetholwyr yn ein hannog, a hynny'n gwbl briodol, unwaith eto, i weithredu. Dywedodd Sarah Rochira, y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru, wrth iddi deithio o amgylch Cymru, yn cyfarfod ac yn siarad â phobl hŷn, maent wedi bod yn glir ac yn gyson wrth ddweud wrthi mai'r hyn yr hoffent ei weld yw system ar gyfer talu am ofal sy'n dryloyw ac yn hawdd ei deall, ac nad yw'n cosbi pobl sydd wedi cynilo, ac nad yw'n gorfodi pobl i werthu eu cartrefi.

Rwyf wedi bod ym myd gwleidyddiaeth yn ddigon hir i gofio adroddiad y comisiwn brenhinol yn cael ei gyhoeddi o dan y Llywodraeth Lafur flaenorol. Dros ddegawd yn ôl, cafodd y gwaith hwnnw ei gwblhau, cafodd ei ganfyddiadau eu gwrthod ac ychydig o gynnydd a wnaed. Mae cyhoeddi adroddiad comisiwn Dilnot yn ymdrech o'r newydd i fesur maint y broblem a chynnig ateb.

Mae ymateb Llywodraeth San Steffan i Dilnot, fe gredaf, yn gam bras ymlaen. Yr hyn sydd ei angen arnom yn awr yw eglurder o du Llywodraeth Cymru o ran yr hyn y bydd yn ei gynnis i Gymru. Mae demograffeg Cymru yn golygu bod hynny'n bwysicach fyth. Mae ein poblogaeth yn heneiddio ac mae gennym gyfran uwch o bobl hŷn na gweddill y DU. Rhagwelir y bydd nifer y bobl yng Nghymru sy'n 65 oed a throsodd yn dyblu erbyn 2035—byddaf innau bron â bod yn eu plith, ond ddim yn hollol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod dros 17,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda dementia, a rhagwelir y bydd y ffigur hwnnw yn cynyddu 31% dros yr 20 mlynedd nesaf.

Gwn o flynyddoedd o waith achos fod talu am ofal a chostau gwirioneddol gofal yn ysgytwad go iawn i llawer o deuluoedd. Mae'n ergyd ariannol sylweddol ar adeg o straen mawr a chynnwrf seicolegol y mae'r teuluoedd hynny eisoes yn eu hwynebu pan fo angen gofal hirdymor ar berthynas, a phan fo angen iddynt symud i ofal preswyl o bosibl ac allan o'r cartref teuluol. Dengys ymchwil, ac mae'n achos pryder, fod un rhan o dair o bobl yn credu bod gofal cymdeithasol yn rhad ac am ddim, yn union fel y GIG—am ddim ar adeg darparu. Yn aml, nid ydynt yn barod i'r hyn sy'n eu hwynebu o bosibl. Mae'r system bresennol yn hynod gymhleth hefyd, ac, a dweud y gwir, ceir canlyniadau anfwriadol i'r GIG. Rwy'n cyfaddef fy mod wedi dod ar draws etholwyr sydd wedi cadw eu perthnasau mewn gwely GIG i ohirio'r amser y byddant fel teulu yn dechrau gorfod talu am ofal. Rydym wedi gweld brwydrau hir ac anodd sydd wedi costio llawer iawn o arian i'r GIG, gyda theuluoedd yn brwydro i barhau i gael gofal iechyd parhaus a ariennir gan y GIG, er mwyn ceisio osgoi'r gofyniad i dalu am ofal.

As Welsh Liberal Democrats, we welcome very much the reforms that we have seen so far in Wales. We struggled in the early days to make the thresholds for assessment that little bit more generous when we did not have law-making powers here. We welcomed very much the introduction of those crucial eight weeks of free nursing care and rehabilitation that the Government introduced almost a decade ago. More recently, we have supported the £50 cap on non-residential care introduced by the Welsh Government, and we recognise that that has made a big difference to families, especially in areas such as mine, when the council was charging a great deal more for home care services. We also welcome the futureproofing in the new Social Services and Well-being (Wales) Bill that does provide scope for amending that to create a new system for paying for care here in Wales. I understand why the Deputy Minister wanted to await the publication of the Dilnot report before making any moves here in Wales. The interconnected benefits and pensions systems and the sheer costs involved make it very difficult, I recognise, for the Welsh Government to act completely independently in this area. That is the reality of where we are. However, we now have the Westminster Government's response to Dilnot, and clarity on how it intends to move forward, and there is clarity around the situation in Scotland. The Minister's own advisory group on the Dilnot proposals has now produced its own conclusions, which were published back in February. It concluded, like our motion today, that it supports the principle of raising the capital threshold. It also supports extending the deferred payments system, and a national eligibility framework across the country. It concurs with Dilnot around the costs of those moving into adulthood who have had their costs met as younger people, and recognises, like Dilnot, the need for improved information for, and increased awareness among, the Welsh public to allow individuals to plan for their futures.

We believe that we need to go one step further. The Welsh Government has already accepted the principle of cost-sharing between the individual and the state by setting that cap of £50 for home care. We believe that that principle should extend to other forms of care in other arenas. While we accept that, as we move forward, we, as a society, will do more and more to keep people at home for longer—care provided in people's own homes is often what they desire more than anything else—we have to acknowledge that, given the changing nature of our society, we will never be able to end the need for residential care altogether. In fact, I have met constituents who are very glad to move into residential care—it has ended the isolation that they have felt living in their own homes for many years.

On reflection, Deputy Presiding Officer, I do not think that I will aspire to wearing purple with a red hat that does not suit me. What I do aspire to, like my constituents, is a fair and sustainable system for paying for long-term care that allows us all to plan and to be aware of what awaits us should we need those services—a system that allows us to treat our oldest citizens with the dignity that they deserve, with high-quality care led by highly trained and well-respected professionals.

Fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rydym yn croesawu'n fawr y diwygiadau a welwyd yng Nghymru hyd yn hyn. Yn y dyddiau cynnar cawsom drafferth i wneud y trothwyon ar gyfer asesu ychydig yn fwy hael pan nad oedd gennym bwerau deddfu yma. Roeddem yn croesawu'n fawr y penderfyniad i gyflwyno'r wyth wythnos hollbwysig o ofal nyrsio ac adsefydlu am ddim a gyflwynwyd gan y Llywodraeth bron ddegawd yn ôl. Yn fwy diweddar, rydym wedi cefnogi'r cap o £50 ar ofal dibreswyl a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac rydym yn cydnabod bod hynny wedi gwneud gwahaniaeth mawr i deuluoedd, yn enwedig mewn ardaloedd fel fy ardal i, pan oedd y cyngor yn codi llawer mwy am wasanaethau gofal cartref. Rydym hefyd yn croesawu'r ymgais i sicrhau bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol ac sy'n rhoi cyfle i'w ddiwygio i greu system newydd ar gyfer talu am ofal yma yng Nghymru. Deallaf pam bod y Dirprwy Weinidog yn awyddus i aros nes bod adroddiad Dilnot wedi'i gyhoeddi cyn cymryd unrhyw gamau yma yng Nghymru. Mae'r systemau budd-daliadau a phensiynau rhyng-gysylltiedig a maint y costau dan sylw yn ei gwneud yn anodd iawn, fe gydnabyddaf, i Lywodraeth Cymru weithredu'n gwbl annibynnol yn y maes hwn. Dyna'r sefyllfa sydd ohoni. Fodd bynnag, rydym bellach wedi cael ymateb Llywodraeth San Steffan i Dilnot, ac eglurder ynghylch sut y mae'n bwriadu symud ymlaen, a cheir eglurder ynghylch y sefyllfa yn yr Alban. Mae grŵp ymgynghorol y Gweinidog ei hun ar gynigion Dilnot bellach wedi dod i'w gasgliadau ei hun, a gyhoeddwyd yn ôl ym mis Chwefror. Daeth i'r casgliad, fel ein cynnig heddiw, ei fod yn cefnogi'r egwyddor o godi'r trothwy cyfalaf. Mae hefyd yn cefnogi ymestyn y system taliadau gohiredig, a fframwaith cymhwyster cenedlaethol ledled y wlad. Mae'n cyd-fynd â Dilnot ynglŷn â chostau'r rhai sy'n symud i fyd oedolion y talwyd eu costau fel pobl iau, ac yn cydnabod, fel Dilnot, yr angen am well gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru, a mwy o ymwybyddiaeth, i alluogi unigolion i gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

Credwn fod angen inni fynd gam ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi derbyn egwyddor rhannu costau rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth trwy osod y cap o £50 am ofal yn y cartref. Credwn y dylai'r egwyddor honno ymestyn i fathau eraill o ofal mewn meysydd eraill. Er ein bod yn derbyn y byddwn, yn y dyfodol, fel cymdeithas, yn gwneud mwy a mwy i gadw pobl yn eu cartrefi am gyfnod hwy—gofal a ddarperir yng nghartrefi pobl eu hunain yn aml yw'r hyn a ddymunant yn fwy na dim arall—rhaid inni gydnabod, o ystyried natur newidiol ein cymdeithas, na fyddwn byth yn gallu rhoi terfyn ar yr angen am ofal preswyl yn gyfan gwbl. Yn wir, rwyf wedi cwrdd ag etholwyr sy'n awyddus iawn i symud i ofal preswyl—mae wedi rhoi diwedd ar yr ymdeimlad o fod wedi'u hynysu a fu ganddynt wrth fyw yn eu cartrefi eu hunain am flynyddoedd lawer.

O feddwl eto, Ddirprwy Lywydd, ni chredaf y byddaf yn dyheu am wisgo porffor gyda het goch nad yw'n addas imi. Yr hyn yr wyf yn dyheu amdano, fel fy etholwyr, yw system deg a chynaliadwy ar gyfer talu am ofal hirdymor sy'n galluogi pob un ohonom i gynllunio a bod yn ymwybodol o'r hyn a wynebwn os bydd angen y gwasanaethau hynny arnom—system sy'n ein galluogi i drin ein dinasyddion hynaf gyda'r urddas y maent yn ei haeddu, gyda gofal o safon uchel a arweinir gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi i safon uchel ac sy'n uchel eu parch.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the three amendments to the motion and I call on William Graham to move amendment 1 tabled in his name.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig a galwaf ar William Graham i gynnis gwelliant 1 a gyflwynwyd yn ei enw.

Gwelliant 1—William Graham

Amendment 1—William Graham

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 1, and re-number accordingly:

'Yn cydnabod methiant Llywodraethau dilynol y Cynulliad o ran darparu cymorth teg a fforddiadwy i bobl agored i niwed ag anghenion gofal cymdeithasol.'

'Acknowledges the failure of successive Assembly Governments to deliver equitable and affordable support for vulnerable people with social care needs.'

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 1 in my name.

Cynigaf welliant 1 yn fy enw.

As an ideal, social care supports people of all ages with certain physical, cognitive or age-related conditions in carrying out personal care or domestic routines. It helps people to sustain employment in paid or unpaid work, education, learning, leisure and other social support systems. It encourages people to build social relationships and participate fully in society.

Yn ddefnyddiol, mae gofal cymdeithasol yn helpu pobl o bob oedran sydd â chyflyrau corfforol, cyflyrau gwybyddol neu gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran penodol i gyflawni arferion gofal personol neu ddomestig. Mae'n helpu pobl i gynnal cyflogaeth mewn gwaith cyflogedig neu ddi-dâl, addysg, dysgu, hamdden a systemau cymorth cymdeithasol eraill. Mae'n annog pobl i feithrin cydberthnasau cymdeithasol a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

The Commissioner for Older People in Wales has stated consistently that paying for care is a major concern and constant worry for older people, and that the current system is both confusing and complex. Worryingly, when care is needed, many older people have no idea how much it will cost and they are often concerned that they will have to sell their homes.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru wedi dweud yn gyson fod talu am ofal yn bryder mawr a chysion i bobl hŷn, a bod y system bresennol yn ddrylyd ac yn gymhleth. Yr hyn sy'n achosi pryder, pan fo angen gofal, yw'r ffaith nad oes gan lawer o bobl hŷn unrhyw syniad faint y bydd yn ei gostio, ac maent yn aml yn pryderu y bydd yn rhaid iddynt werthu eu cartrefi.

Residential care has seen a huge transformation over the past decade. It has, effectively, evolved into a two-tier system. Years ago, residential homes provided support for significant numbers of people who would move around their local neighbourhoods with some independence but who required assistance or prompting with cooking and, perhaps, personal care. Now, such clients are still there but in smaller numbers, and many are self-funding.

Mae gofal preswyl wedi cael ei weddnewid yn ystod y degawd diwethaf. Mae wedi datblygu'n system ddwy haen i bob diben. Flynyddoedd yn ôl, byddai cartrefi preswyl yn darparu ar gyfer niferoedd mawr o bobl a fyddai'n symud o gwmpas eu cymdogaethau lleol gyda rhywfaint o annibyniaeth, ond yr oedd arnynt angen cymorth neu anogaeth gyda choginio ac, efallai, gofal personol. Erbyn hyn, mae cleientiaid o'r fath yn bodoli o hyd, ond mewn niferoedd llai, ac mae llawer yn hunanariannu.

Under the current system, each local authority may decide the level at which people are entitled to state support. Assessment processes are different and charging practices vary widely. There are, in fact, 22 different systems across Wales—one for each local authority. The result of such local variability is that people in very similar circumstances, with similar levels of need and financial resources, can be treated very differently and experience vastly different outcomes.

O dan y system bresennol, gall pob awdurdod lleol benderfynu ar ba lefel y mae gan bobl hawl i gael cymorth y wladwriaeth. Mae prosesau asesu yn wahanol ac mae arferion codi tâl yn amrywio'n fawr. Mewn gwirionedd, mae 22 system wahanol ledled Cymru—un i bob awdurdod lleol. O ganlyniad i amrywio lleol o'r fath gall pobl mewn amgylchiadau tebyg iawn, gyda lefelau tebyg o angen ac adnoddau ariannol, gael eu trin yn wahanol iawn a wynebu canlyniadau gwahanol iawn.

Access to social care is often labelled a postcode lottery and is seen as being manifestly unfair. The level of variability adds complexity and leads many to be confused as to how the system can work for their benefit. Older people want the Welsh Government to outline the key principles that will underpin a new care funding system, with their voices at the heart of the reform process.

Mae mynediad at ofal cymdeithasol yn aml yn cael ei alw'n loteri cod post a'i ystyried yn amlwg yn annheg. Mae lefel yr amrywio yn ychwanegu cymhlethdod ac yn achosi dryswch i lawer ynghylch sut y gall y system weithio er eu budd hwy. Mae pobl hŷn am i Lywodraeth Cymru amlinellu'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i system ariannu gofal newydd, gyda'u lleisiau wrth galon y broses ddiwygio.

I endorse the commission's recommendation that the Government must devote greater resources to the adult social care system. As well as funding for new reforms, additional public funding for the means-test system is urgently required. The commission recognised the Government's commitment to social care in the latest spending review. However, the impact of the wider local government settlement appears to have meant that the additional resources have not yet found their way to social care budgets in some areas. I suggest that the resources made available locally for adult social care should be completely transparent. Any periodic review of local government financing should have regard to the importance of the sustainability of funding for adult social care.

Although I endorse the commission's report, I am somewhat sceptical about the realities of implementation. The Deputy Minister's statement in March suggested that a different system from the one currently being developed in England may be introduced in Wales. Hopefully, this will avoid the very confusion that the report is trying to prevent. I recall the Welsh Government not providing free personal care for disabled people in Wales, despite a pledge in the 2003 Assembly elections. At that time, the Welsh Government blamed legal issues over definitions of 'free' and 'disabled' and pointed to evidence from Scotland, where the demand for free care rose after it was introduced.

Everyone wishes to see a sustainable care sector, yet a recent report indicates that the number of United Kingdom care homes going into administration has more than doubled. Media attention focused on Southern Cross, but we have also seen a number of smaller companies go under, including the north Wales-based Southern Care Group and the south-west Wales-based Kappians Care. Without fees covering costs, we feel that we will see more homes cease trading, particularly those in less affluent areas, where private clients are unable to subsidise state-funded ones. The possibility of a truly shared budget with the relevant part of the health service remains elusive.

Reforming social care is a key issue and must be addressed urgently. It is important that changes implemented in Wales not only bring an end to the anxiety and uncertainty around paying for care, but are also sustainable and ensure the best possible outcomes for older people, both now and in the future.

Cymeradwyaf argymhelliad y comisiwn bod yn rhaid i'r Llywodraeth neilltuo mwy o adnoddau ar gyfer y system gofal cymdeithasol i oedolion. Yn ogystal ag arian ar gyfer diwygiadau newydd, mae angen arian cyhoeddus ychwanegol ar gyfer y system prawf modd fel mater o frys. Cydnabu'r comisiwn ymrwymiad y Llywodraeth i ofal cymdeithasol yn yr adolygiad diweddaraf o wariant. Fodd bynnag, ymddengys mai effaith y setliad llywodraeth leol ehangach yw nad yw'r adnoddau ychwanegol wedi cyrraedd cyllidebau gofal cymdeithasol mewn rhai ardaloedd. Awgrymaf y dylai'r adnoddau a ddarperir yn lleol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion fod yn gwbl droyloyw. Dylai unrhyw adolygiad cyfnodol o arian llywodraeth leol roi sylw i bwysigrwydd cynaliadwyedd arian ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion.

Er fy mod yn cymeradwyo adroddiad y comisiwn, rwyf braidd yn amheus ynglŷn â'r broses o'i roi ar waith mewn gwirionedd. Awgrymodd datganiad y Dirprwy Weinidog yn mis Mawrth y gallai system wahanol i'r un sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn Lloegr gael ei chyflwyno yng Nghymru. Gobeithio y bydd hyn yn osgoi'r union ddrwsych y mae'r adroddiad yn ceisio ei atal. Cofiaf i Lywodraeth Cymru beidio â darparu gofal personol am ddim i bobl anabl yng Nghymru, er gwaethaf addewid yn etholiadau'r Cynulliad yn 2003. Ar y pryd, roedd Llywodraeth Cymru yn beio problemau cyfreithiol ynghylch diffiniadau o 'am ddim' ac 'anabl' gan gyfeirio at dystiolaeth o'r Alban, lle cynyddodd y galw am ofal am ddim ar ôl ei gyflwyno.

Mae pawb yn dymuno gweld sector gofal cynaliadwy, ac eto mae adroddiad diweddar yn dangos bod nifer y cartrefi gofal yn y Deyrnas Unedig sy'n mynd i ddwylo'r gweinyddwyr wedi mwy na dyblu. Canolbwyntiodd sylw'r cyfryngau ar Southern Cross, ond rydym hefyd wedi gweld nifer o gwmnïau llai yn mynd i'r wal, gan gynnwys Grŵp Southern Care yn y gogledd a Kappians Care yn y de-orllewin. Heb ffioedd sy'n talu am gostau, teimlwn y byddwn yn gweld mwy o gartrefi yn rhoi'r gorau i fasnachu, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd llai cefnog, lle na all cleientiaid preifat gymorthdalu'r rhai a ariennir gan y wladwriaeth. Mae'r posibilrwydd o gyllideb a rennir mewn gwirionedd â'r rhan berthnasol o'r gwasanaeth iechyd yn parhau i edrych y tu hwnt i'n cyrraedd.

Mae diwygio gofal cymdeithasol yn fater allweddol a rhaid rhoi sylw iddo ar fyrder. Mae'n bwysig bod y newidiadau a weithredir yng Nghymru nid yn unig yn rhoi terfyn ar y pryder a'r ansicrwydd ynghylch talu am ofal, ond eu bod hefyd yn gynaliadwy ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl hŷn, yn awr ac yn y dyfodol.

17:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Bethan Jenkins to move amendments 2 and 3 tabled in the name of Jocelyn Davies.

Gwelliant 2—Jocelyn Davies

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl 'yn rhy hir'.

Gwelliant 3—Jocelyn Davies

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnis gwelliannau 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Jocelyn Davies.

Amendment 2—Jocelyn Davies

In point 1, delete all after 'unsustainable'.

Amendment 3—Jocelyn Davies

Delete point 4 and replace with:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sefydlu atebion interim tecach i ffioedd gofal cymdeithasol, sy'n adlewyrchu anghenion Cymru, o fewn yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

b) Sicrhau bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gwneud darpariaeth ariannol ddigonol ar gyfer cynnal teuluoedd a gofalwyr anffurfiol eraill yn y tymor hir.

c) Sicrhau bod modd cyllido gofal cymdeithasol yn gynaliadwy, ac yn credu y byddai sefydlu fformiwla cyllido gyda Llywodraeth y DU sy'n adlewyrchu anghenion Cymru yn helpu i ddarparu'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni hyn.'

'Calls on the Welsh Government to:

a) Establish a fairer interim solution to charges in social care that reflects the needs of Wales within the current resources available.

b) Ensure that the Social Services and Well-being Bill makes adequate financial provision for the long term support of family and other informal carers.

c) Ensure that social care can be sustainably funded, and believes that securing a funding formula with the UK Government that reflects the needs of Wales will help provide the resources required to achieve this.'

17:41

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies.

We all know that an ageing population means that care and costs are, unfortunately, going to rise, and the number of over-65s will rise by over a third, from 539,000 in 2008 to 729,000 by 2023—from 18% to 23% as a proportion of the total population. At the same time, severe financial pressure on local government means that the increased demand cannot be met through the delivery of services in the same way. The Dilnot commission reported that:

'The current system is confusing, unfair and unsustainable. People are unable to plan ahead to meet their future care needs. Assessment processes are complex and opaque. Eligibility varies depending on where you live and there is no portability if you move between local authorities. Provision of information and advice is poor, and services often fail to join up.'

The Dilnot commission proposed setting a maximum cap, of between £25,000 and £50,000, on what a person would be expected to pay towards care. The UK Government has revised the cap upwards to £70,000. However, here in Wales, the amount that local authorities can charge for non-residential care has been capped as a result of a previous commitment of the One Wales Government, and now the Welsh Government is proposing wide-ranging reform as part of the Social Services and Well-being (Wales) Bill, as we already know. However, as yet, it has not come to a firm view as to whether the Dilnot cap proposals should be adopted in Wales, preferring instead to look for a Wales-based solution.

Cynigiad welliannau 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies.

Gwyddom oll fod poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu bod gofal a chostau, yn anffodus, yn mynd i gynyddu, ac y bydd nifer y bobl dros 65 oed yn cynyddu dros draean, o 539,000 yn 2008 i 729,000 erbyn 2023—o 18% i 23% fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth. Ar yr un pryd, mae pwysau ariannol difrifol ar lywodraeth leol yn golygu nad oes modd ateb y galw cynyddol drwy ddarparu gwasanaethau yn yr un modd. Dywedodd comisiwn Dilnot:

Mae'r system bresennol yn ddryslyd, yn annheg ac yn anghynaliadwy. Ni all pobl gynllunio ymlaen llaw i ddiwallu eu hanghenion gofal yn y dyfodol. Mae prosesau asesu yn gymhleth ac yn aneglur. Mae cymhwyster yn amrywio yn dibynnu ar ble rydych yn byw ac nid oes modd trosglwyddo darpariaeth os byddwch yn symud rhwng awdurdodau lleol. Mae'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir yn wael, ac yn aml nid yw'r gwasanaethau yn gydgyssylltiedig.

Cynigiodd comisiwn Dilnot osod terfyn uchaf, o rhwng £25,000 a £50,000, ar yr hyn y byddai disgwyl i rywun ei dalu tuag at ofal. Mae Llywodraeth y DU wedi codi'r cap i £70,000. Fodd bynnag, yma yng Nghymru, mae'r swm y gall awdurdodau lleol ei godi am ofal dibreswyl wedi ei gapio o ganlyniad i ymrwymiad blaenorol Llywodraeth Cymru'n Un, ac yn awr mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygiadau eang fel rhan o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fel y gwyddom eisoes. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid yw wedi dod i farn bendant ynghylch a ddylai cynigion Dilnot ar y cap gael eu mabwysiadu yng Nghymru, gan ddewis chwilio am ateb i Gymru yn lle hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There are strengths to the Dilnot proposals. They address the issue of elderly people selling their homes to pay for residential care by proposing a substantial, but not unlimited, cap on the cost of social care. The UK Government believes that insurance markets for social care are more likely to develop if total liability is capped. That will ensure that the cost of social care is spread across an individual's life through premiums. However, a charge of £70,000 for social care is a smaller proportion of the value of a home in the south-east of England than elsewhere. As people with no assets already get free social care, the main losers as a result of this proposal are likely to be the people who own their own home but for whom such a cap would eat up a substantial part of the value of a home in many parts of Wales. Introducing an insurance system may begin a shift towards the privatisation of health and social care, as policy makers become tempted to use insurance markets and means-testing to cover medical treatment.

First, we propose that point 1 of the motion be amended by deleting the words

'and welcomes the UK Government's plans for reform'.

I believe that we need to be more inquiring with regard to these proposals and subject them to proper scrutiny before welcoming them. If they are any good, I am sure that we will welcome them in due course.

Similarly, with regard to our amendment 3, which proposes to delete point 4 of the motion and replace it with the text that we have provided, it is premature to ask the Welsh Government to endorse the Dilnot report. We need a far more cohesive debate in the Chamber about how, in Wales, we intend to tackle the issue of payment for care.

Part b) in amendment 3 states that we must:

'Ensure that the Social Services and Well-being Bill makes adequate financial provision for the long term support of family and other informal carers.'

We need to ensure that section 26 of the Bill gives clear guidance for local authorities on how they can ensure that no family carer faces having to provide support and care to their loved ones without the necessary resources.

I look forward to hearing the Government's response to this debate.

Mae i gynigion Dilnot eu cryderau. Maent yn mynd i'r afael â'r mater sy'n codi o ran pobl oedrannus yn gwerthu eu cartrefi i dalu am ofal preswyl drwy gynnig cap sylweddol, ond nid anghyfyngedig, ar gost gofal cymdeithasol. Cred Llywodraeth y DU fod marchnadoedd yswiriant ar gyfer gofal cymdeithasol yn fwy tebygol o ddatblygu os oes cap ar gyfanswm atebolrwydd. Bydd hynny'n sicrhau bod cost gofal cymdeithasol yn cael ei rhannu dros oes unigolyn drwy breimymau. Fodd bynnag, mae tâl o £70,000 am ofal cymdeithasol yn gyfran lai o werth cartref yn ne-ddwyrain Lloegr nag mewn mannau eraill. Gan fod pobl heb unrhyw asedau eisoes yn cael gofal cymdeithasol am ddim, y tebyg yw mai'r prif grŵp a fydd ar eu colled o ganlyniad i'r cynnig hwn fydd y bobl sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain, ond y byddai cap o'r fath yn mynd â rhan sylweddol o werth cartref mewn sawl rhan o Gymru. Efallai y bydd cyflwyno system yswiriant yn dechrau symud tuag at breifateiddio iechyd a gofal cymdeithasol, wrth i lunwyr polisi gael eu temtio i ddefnyddio marchnadoedd yswiriant a phroffion modd i dalu am driniaeth feddygol.

Yn gyntaf, rydym yn cynnig y dylai pwynt 1 o'r cynnig gael ei ddiwygio drwy ddileu'r geiriau

'Ac yn croesawu cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio'.

Credaf fod angen inni ymholi rhagor am y cynigion hyn a chraffu arnynt yn briodol cyn eu croesawu. Os ydynt yn fuddiol, rwy'n siŵr y byddwn yn eu croesawu maes o law.

Yn yr un modd, o ran ein gwelliant 3, sy'n cynnig dileu pwynt 4 o'r cynnig a rhoi'r testun yr ydym wedi'i ddarparu yn ei le, mae'n rhy gynnar i ofyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo adroddiad Dilnot. Mae angen inni gael dadl lawer mwy cydlynol yn y Siambr ynghylch sut rydym ni, yng Nghymru, yn bwriadu mynd i'r afael â thalu am ofal.

Mae rhan b) yng ngwelliant 3 yn datgan bod rhaid inni:

'Sicrhau bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gwneud darpariaeth ariannol ddigonol ar gyfer cynnal teuluoedd a gofalwyr anffurfiol eraill yn y tymor hir.'

Mae angen inni sicrhau y bydd adran 26 o'r Bil yn rhoi arweiniad clir i awdurdodau lleol ar sut y gallant sicrhau nad oes unrhyw ofalwr teuluol yn gorfod darparu cefnogaeth a gofal i'w anwyliaid heb yr adnoddau angenrheidiol.

Edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Llywodraeth i'r ddadl hon.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will start by addressing the amendments. We will not be supporting the Plaid Cymru amendments that have just been moved by Bethan Jenkins. We are pleased that the UK coalition Government is acting decisively to implement a fairer funding system in England. The Dilnot report was commissioned as soon as the coalition entered office. Just two years later, we have accepted its principles and outlined how these will be implemented and paid for.

Let us not forget Labour's record on this issue. Paying for care was in the Labour manifesto in 1997. The Government had a royal commission in 1999. There was a Green Paper in 2005, followed by the Wanless review in 2006. The problem was going to be solved in the 2007 spending review. We then had another Green Paper in 2009. Thirteen years of talk and no action. It is imperative that we act and do not put this off any further because if we do, we will create even more problems for the future.

The coalition Government's announcement will for the first time ensure financial protection for people with modest wealth, while ensuring that the poorest continue to have all or the majority of their costs paid. While we support the need for a fairer funding formula for Wales, Plaid's amendment risks kicking this important issue into the long grass. We believe that the time for reviews is over. We do not need an interim solution—we need a fair and sustainable long-term solution for Wales.

We will also not be supporting the Conservative amendments.

Rwyf am ddechrau drwy roi sylw i'r gwelliannau. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliannau Plaid Cymru sydd newydd gael eu cynnig gan Bethan Jenkins. Rydym yn falch bod Llywodraeth glymblaid y DU yn cymryd camau pendant i roi system ariannu decach ar waith yn Lloegr. Comisiynwyd adroddiad Dilnot yn union ar ôl i'r glymblaid ddod i rym. Dim ond dwy flynedd yn ddiweddarach, rydym wedi derbyn ei egwyddorion ac wedi amlinellu sut y byddwn yn gweithredu'r rhain ac yn talu amdanynt.

Ni ddylem anghofio record Llafur yn hyn o beth. Roedd talu am ofal ym manifestio Llafur yn 1997. Sefydlodd y Llywodraeth gomisiwn brenhinol yn 1999. Cyflwynwyd Papur Gwyrdd yn 2005, a chynhaliwyd adolygiad Wanless yn 2006. Roedd y broblem yn mynd i gael ei datrys yn adolygiad 2007 o wariant. Yna cawsom Bapur Gwyrdd arall yn 2009. Tair blynedd ar ddeg o siarad gwag. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu ac nad ydym yn gohirio hynny ymhellach oherwydd os gwnawn hynny, byddwn yn creu hyd yn oed mwy o broblemau ar gyfer y dyfodol.

Bydd cyhoeddiad y Llywodraeth glymblaid am y tro cyntaf yn sicrhau diogelwch ariannol i bobl â rhywfaint o gyfoeth, tra'n sicrhau ein bod yn parhau i dalu am gostau cyfan y bobl dlotaf, neu'r rhan fwyaf ohonynt. Er ein bod yn cefnogi'r angen am fformiwla ariannu decach i Gymru, mae gwelliant Plaid Cymru yn golygu bod perygl y bydd oedi eto cyn ymdrin â'r mater pwysig hwn. Credwn fod yr amser ar gyfer adolygiadau ar ben. Nid oes angen ateb dros dro—ateb teg a chynaliadwy hirdymor i Gymru sydd ei angen arnom.

Ni fyddwn ychwaith yn cefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just want to make clear to the Member that when we talk of an interim solution, we talk of an interim solution beyond our long-term aim, which is free social care within an integrated health and social care model. So, it is not an interim solution as regards Dilnot—it is an interim solution that we can afford within the resources that the Assembly has at the moment.

Hoffwn egluro i'r Aelod, pan fyddwn yn sôn am ateb dros dro, ein bod yn sôn am ateb dros dro y tu hwnt i'n nod hirdymor, sef gofal cymdeithasol am ddim o fewn model iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Felly, nid ateb dros dro ydyw o ran Dilnot—mae'n ateb dros dro y gallwn ei fforddio o fewn yr adnoddau sydd gan y Cynulliad ar hyn o bryd.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay, but at the same time your amendments have also taken key aspects out of the motion in terms of implementing Dilnot. So, I think that my interpretation is possibly a realistic one, anyway.

In terms of the Conservative amendments, while we acknowledge the need for action from the Welsh Government, we need to work together to find cross-party consensus. If we are to end the anxiety and uncertainty that so many people face in paying for care, we need to ensure that we have a more sustainable system that fits Wales now and in future.

Iawn, ond ar yr un pryd mae eich gwelliannau hefyd wedi dileu agweddau allweddol ar y cynnig o ran gweithredu Dilnot. Felly, credaf fod fy nehongliad o bosibl yn un realistig, beth bynnag.

O ran gwelliannau'r Ceidwadwyr, er ein bod yn cydnabod bod angen i Lywodraeth Cymru weithredu, mae angen inni weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i gonsensws trawsbleidiol. Os ydym am roi terfyn ar y pryder a'r ansicrwydd y wyneba cymaint o bobl wrth dalu am ofal, mae angen inni sicrhau bod gennym system fwy cynaliadwy sy'n addas ar gyfer Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

The Dilnot report highlighted some key concerns. It found that the adult social care funding system in England was not fit for purpose and needed urgent and lasting reform. It found that the current system is confusing, unfair and unsustainable. It said that people are unable to plan ahead to meet their future care needs. It also said that assessment processes are complex and opaque, that eligibility varies depending on where you live and that the provision of information and advice is poor. It highlighted that people are unable to protect themselves against very high care costs, and that the current availability and choice of financial products to support people to meet care costs is very limited. That applies to Wales as well.

The announcement by the coalition Government is therefore a very welcome step forward. It will introduce a cap of £72,000 on lifetime care costs, and although it is a very large amount of money, it is certainly better than the status quo. Individuals will now have certainty—

17:48 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

17:48 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to make some progress, David. Individuals will now have some certainty where before there was doubt and fear. It will mean that those who have saved for their retirement and spent their lives contributing to the tax system will no longer lose all of their assets to cover care costs. Instead, they will receive more support from their local authority.

As Bethan Jenkins said, the Dilnot commission suggested a cap of between £25,000 and £50,000 in 2010-11 prices, which equates to between £30,700 and £61,500 in April 2017 prices. While the proposed cap is higher than this, it will be set at around £60,000 in 2010-11 prices, or £72,000 when it is introduced in April 2016. In the current economic climate, I believe that that is as close as we could hope, and it will create certainty for people that this is the maximum that they will need to pay. Therefore, they can take steps to protect themselves through insurance or pension products. Implementing the Dilnot cap of £25,000 would have cost an extra £2.2 billion a year.

There will be an uplift to the capital limit for the means test for those in residential care from £23,250 to £118,000, which will help those in the most vulnerable positions. That is a five-fold increase and meets the Dilnot recommendations. It will be tapered so that there will no longer be the cliff-edge scenario when nearing the threshold, and most people will receive the support that they need far earlier than they do now. In addition to this, the proposals include a lower cap for people who develop care and support needs prior to reaching retirement age, with free care for those under 18 years old with care needs. There is a lot more detail in these proposals, which I do not have time to go into now. However, it is important that we take action now and that we put a model in place in Wales at the same time as in England. If we do not do so, we are in severe danger of falling further behind and undermining the needs of many elderly people in Wales.

Amlygodd adroddiad Dilnot rai pryderon allweddol. Canfu nad oedd y system ariannu gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr yn addas at y diben a bod angen diwygiadau parhaol fel mater o frys. Canfu fod y system bresennol yn ddryslyd, yn annheg ac anghynaliadwy. Dywedodd na all pobl gynllunio ymlaen llaw i ddiwallu eu hanghenion gofal yn y dyfodol. Dywedodd hefyd fod prosesau asesu yn gymhleth ac aneglur, bod cymhwyster yn amrywio yn dibynnu ar ble rydych yn byw a bod y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir yn wael. Nododd na all pobl eu diogelu eu hunain rhag costau gofal uchel iawn, a bod y dewis o gynhyrchion ariannol sydd ar gael i helpu pobl i dalu am gostau gofal ar hyn o bryd yn gyfyngedig iawn. Mae hynny'n berthnasol i Gymru hefyd.

Felly, mae'r cyhoeddiad gan y Llywodraeth glymblaid yn gam ymlaen sydd i'w groesawu'n fawr. Bydd yn cyflwyno cap o £72,000 ar gostau gofal am oes, ac er ei fod yn swm mawr iawn o arian, mae'n sicr yn well na'r sefyllfa bresennol. Bydd unigolion yn cael sicrwydd bellach—

A wneuch chi dderbyn ymyriad?

Hoffwn wneud rhywfaint o gynnydd, David. Bydd unigolion bellach yn cael rhywfaint o sicrwydd lle bu amheuaeth ac ofn cyn hyn. Bydd yn golygu na fydd y rhai sydd wedi cynilo ar gyfer eu hymddeoliad ac wedi cyfrannu at y system dreth ar hyd eu hoes yn colli eu holl asedau i dalu costau gofal mwyach. Yn hytrach, byddant yn derbyn mwy o gefnogaeth gan eu hawdurdod lleol.

Fel y dywedodd Bethan Jenkins, awgrymodd comisiwn Dilnot gap o rhwng £25,000 a £50,000 yn ôl prisiau 2010-11, sy'n cyfateb i rhwng £30,700 and £61,500 yn ôl prisiau Ebrill 2017. Er bod y cap arfaethedig yn uwch na hyn, gosodir cap o tua £60,000 yn ôl prisiau 2010-11, neu £72,000 pan gaiff ei gyflwyno ym mis Ebrill 2016. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, credaf fod hynny mor agos ag y gallem obeithio amdano, a bydd yn creu sicrwydd i bobl mai dyma'r uchafswm y bydd angen iddynt ei dalu. Felly, gallant gymryd camau i'w diogelu eu hunain drwy yswiriant neu gynhyrchion pensiwn. Byddai gweithredu cap Dilnot o £ 25,000 wedi costio £2.2 biliwn y flwyddyn yn ychwanegol.

Bydd cynnydd yn y terfyn cyfalaf ar gyfer y prawf modd i'r rhai mewn gofal preswyl o £23,250 i £118,000, a fydd yn helpu pobl yn y sefyllfaoedd mwyaf bregus. Mae hynny'n gynnydd o bum gwaith yn fwy ac yn bodloni argymhellion Dilnot. Bydd yn lleihau'n raddol fel na fydd dibyn wrth agosáu at y trothwy, a bydd y rhan fwyaf o bobl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt yn gynt o lawer nag y maent ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, mae'r cynigion yn cynnwys cap is ar gyfer pobl sy'n datblygu anghenion gofal a chymorth cyn cyrraedd oedran ymddeol, gyda gofal am ddim i'r rhai o dan 18 oed sydd ag anghenion gofal. Mae llawer mwy o fanylion yn y cynigion hyn, nad oes gennyf amser i ymhelaethu arnynt yn awr. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau yn awr a'n bod yn rhoi model ar waith yng Nghymru ar yr un pryd ag yn Lloegr. Os na wnawn hynny, rydym mewn perygl mawr o fynd ymhellach ar ei hôl hi a thanseilio anghenion llawer o bobl hyn yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Vaughan Gething [Bywgraffiad Biography](#)

I am pleased to speak in this debate and I agree with much of what Kirsty Williams said in opening this debate. At the outset, it is worth reflecting that, in Wales, we have already taken steps to help with care costs—notably the £50 per week cap on non-residential care costs and the continuing budget commitment to social services, even in these tough times. We already see the Social Services and Well-being (Wales) Bill making proposals on deferred payments and national eligibility criteria.

I welcome the fact that the UK Government has responded to Dilnot and his proposals on paying for long-term care. I would not say that I agree with all elements of the response, but paying for long-term care is a big issue for all of us. Part of my concern and my difficulty with where we are is that, in reality, I believe that this is an issue that should be resolved by a wider cross-party consensus, which should involve the three main parties across the UK at the very least. If we do not have that consensus going over more than one Parliament, we will not have a sustainable new funding system for long-term care across the rest of the UK, and this will impact on any decisions that we make here in Wales. The UK Government proposals are a starting point, but I do not believe that they achieve that consensus that we all should wish to see.

The issue has been raised with me on the doorstep, both in the election campaign when I stood and subsequently. Some difficult issues were raised with me for all of us to consider, partly because of the common misconception, which Kirsty Williams pointed out, that many people think that social care, including residential care, is free. Of course, it is not and it never has been. There is, however, a widespread acceptance that the current system of paying for care is in need of reform. The key and difficult question for us is where we strike the balance between the individual and the state on making a contribution to paying for that care. How much of the wealth that individuals accumulate and earn in their life should we expect them to then spend on their own care, normally later in life?

Rwy'n falch o gael siarad yn y ddatl hon a chytunaf â llawer o'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams wrth agor y ddatl hon. Ar y cychwyn, mae'n werth ystyried ein bod ni, yng Nghymru, eisoes wedi cymryd camau i helpu gyda chostau gofal—yn enwedig y cap o £50 yr wythnos ar gostau gofal dibreswyl a'r ymrwymiad cyllidebol parhaus i wasanaethau cymdeithasol, hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn. Rydym eisoes yn gweld bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gwneud cynigion ar daliadau gohiredig a meini prawf cymhwyster cenedlaethol.

Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi ymateb i Dilnot a'i gynigion ynglŷn â thalu am ofal hirdymor. Ni allwn ddweud fy mod yn cytuno â phob elfen o'r ymateb, ond mae talu am ofal hirdymor yn fater pwysig i bob un ohonom. Rhan o'r pryder a'r anhawster sydd gennyf ynghylch y sefyllfa sydd ohoni yw, mewn gwirionedd, fy mod yn credu bod hwn yn fater y dylid ei ddatrys drwy gonsensws ehangach rhwng y pleidiau, a ddylai gynnwys y tair prif blaid yn y DU o leiaf. Os nad ydym yn cael y consensws hwnnw dros fwy nag un tymor Seneddol, ni fydd system ariannu newydd gynaliadwy ar gyfer gofal hirdymor yng ngweddill y DU, a bydd hyn yn effeithio ar unrhyw benderfyniadau a wnawn yma yng Nghymru. Man cychwyn yw cynigion Llywodraeth y DU, ond ni chredaf eu bod yn sicrhau'r consensws y dylem oll ei ddeisyfu.

Mae'r mater wedi cael ei godi gyda mi ar garreg y drws, yn yr ymgyrch etholiadol pan oeddwn yn sefyll fel ymgeisydd ac wedi hynny. Codwyd rhai materion anodd gyda mi y mae angen i bob un ohonom eu hystyried, yn rhannol oherwydd y camsyniad cyffredin, y tynnodd Kirsty Williams sylw ato, fod llawer o bobl yn meddwl bod gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl, yn rhad ac am ddim. Wrth gwrs, nid yw'n rhad ac am ddim ac ni fu erioed. Fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol bod angen i'r system bresennol o dalu am ofal gael ei diwygio. Y cwestiwn allweddol ac anodd inni yw lle rydym yn taro'r cydbwysedd rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth o ran cyfrannu at dalu am y gofal hwnnw. Faint o'r cyfoeth y mae unigolion yn ei gronni ac yn ei ennill yn ystod eu hoes y dylem ddisgwyl iddynt wedyn ei wario ar eu gofal eu hunain, fel arfer yn nes ymlaen mewn bywyd?

There is, at least, a consensus that there should be some form of cap on lifetime care costs, even if there is not an agreement on what that cap should be. It is important to note that Dilnot recommended a range, but that the actual figure that the commission recommended was a cap of £35,000 on lifetime care costs to be paid by an individual. Even with an uplift, the figure that the UK Government suggests is significantly more than that—£70,000, £72,000 or £75,000, depending on which figures you look at. Using the UK Government's figures, that would help around 16% of people. However, while a decent number of people would be helped, there would still be more who would pay significant amounts towards their costs. The figure of 16% of people helped does not, to me, appear to be wide enough to be accepted as a fair point to build a consensus around, especially that long-term consensus that I spoke about earlier. We should especially consider that, for many people, their average stay in residential care is around two years. Therefore, given the cost of that residential care compared with the cap, many people would actually still not reach that cap under the current proposals.

I welcome the fact that the UK Government is looking at increasing the capital threshold above which no means-tested help will be given to around £100,000. That will help many people, but it is fair to say that it will add an additional complexity, because it will mean that many more people would be affected by a taper on paying for their costs. You would have to have a wider means test made available. Many more people would receive help and a much broader and more significant means test would need to be run.

I also think that the taxi-rank system proposed by Dilnot would, in itself, have some difficulties. You look at a notional care cost being clocked up, but that relies on local authorities having a consistent basis on which to try to charge and maintain those costs. There would be an administrative burden in doing that.

In my view, the UK Government Dilnot response is not a fully-formed one that we can unite around and still requires more work and clarity. Money is, of course, an issue to clarify. At this point, we cannot know what the Barnett consequential would be for Wales. Any change in UK Government proposals would have an impact and final sums are not due to be clarified until after a future spending review to be implemented after a UK general election. Those scenarios are laced with uncertainty, especially as there could well be a change in the UK Government the next time around. The unavoidable uncertainties make point 3 in the motion an impossible task to achieve, but it is important that we keep on having this conversation here and with colleagues in the UK Government to ensure that we try to find and retain a long-term consensus on paying for care.

O leiaf mae consensws y dylid gosod rhyw fath o gap ar gostau gofal oes, hyd yn oed os nad oes cytundeb ar y cap y dylid ei osod. Mae'n bwysig nodi i Dilnot argymhell amrediad, ond mai'r ffigur gwirioneddol a argymhellwyd gan y comisiwn oedd cap o £35,000 ar gostau gofal oes i'w talu gan unigolyn. Hyd yn oed gyda chynnydd, mae'r ffigur y mae Llywodraeth y DU yn ei awgrymu dipyn yn uwch na hynny—£70,000, £72,000 neu £75,000, yn dibynnu ar ba ffigurau a ddefnyddiwyd. Gan ddefnyddio ffigurau Llywodraeth y DU, byddai hynny'n helpu tua 16% o bobl. Fodd bynnag, er y byddai nifer eithaf da o bobl yn cael cymorth, byddai mwy o hyd a fyddai'n talu symiau sylweddol tuag at eu costau. Nid yw'r ffigur o 16% o bobl sy'n cael cymorth, i mi, yn ymddangos yn ddigon eang i gael ei dderbyn fel pwynt teg i greu consensws, yn enwedig y consensws hwnnw yn yr hirdymor y soniais amdano yn gynharach. Dylem fod yn ystyried yn arbennig, i lawer o bobl, mai am tua dwy flynedd ar gyfartaledd y maent yn aros mewn gofal preswyl. Felly, o ystyried cost y gofal preswyl o'i gymharu â'r cap, ni fyddai llawer o bobl yn cyrraedd y cap hwnnw mewn gwirionedd o dan y cynigion presennol.

Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth y DU yn edrych ar gynyddu'r trothwy cyfalaf lle na fydd unrhyw gymorth ar sail prawf modd yn cael ei roi i tua £100,000. Bydd hynny'n helpu llawer o bobl, ond mae'n deg dweud y bydd yn ychwanegu cymhlethdod ychwanegol, oherwydd bydd yn golygu y byddai tapr yn effeithiau ar lawer mwy o bobl o ran talu am eu costau. Byddai'n rhaid ichi gael prawf modd ehangach. Byddai llawer mwy o bobl yn cael cymorth a byddai angen cynnal prawf modd llawer ehangach a mwy sylweddol.

Credaf hefyd y byddai'r system rhes daci a gynigiwyd gan Dilnot, ynddi'i hun, yn creu rhai anawsterau. Rydych yn edrych ar gost gofal tybiannol yn cael ei chronni, ond mae hynny'n dibynnu ar y ffaith bod gan awdurdodau lleol sail gyson i geisio codi a chynnal y costau hynny. Byddai baich gweinyddol yn gysylltiedig â gwneud hynny.

Yn fy marn i, nid yw ymateb Llywodraeth y DU i Dilnot yn un cyflawn y gallwn fod yn unedig yn ei gylch ac mae angen mwy o waith ac eglurder. Mae arian, wrth gwrs, yn fater y mae angen eglurder yn ei gylch. Ar hyn o bryd, ni allwn wybod beth fyddai symiau canlyniadol Barnett i Gymru. Byddai unrhyw newid yng nghynigion Llywodraeth y DU yn cael effaith, ac ni fwriedir paratoi symiau terfynol tan ar ôl adolygiad o wariant yn y dyfodol sydd i'w weithredu ar ôl etholiad cyffredinol yn y DU. Mae'r senarios hynny yn frith o ansicrwydd, yn enwedig gan ei bod yn ddigon posibl y bydd newid yn Llywodraeth y DU y tro nesaf. Mae'r ansicrwydd anochel yn gwneud pwynt 3 yn y cynnig yn dasg amhosibl ei chyflawni, ond mae'n bwysig ein bod yn parhau i gael y sgwrs hon yma a chyda chyd-Aelodau yn Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau ein bod yn ceisio cael consensws a'i gynnal yn yr hirdymor ynglŷn â thalu am ofal.

Reform of the system for paying for care in the UK has been long overdue, as it is all too often described as complex and confusing, people do not know how much care will cost and, as Kirsty Williams has said and as Vaughan Gething in his contribution has acknowledged, many are unaware that they have to pay for social care at all. In 2010, polling evidence from ICM showed that 62% of the public saw care reform as one of the most important issues for the Government to focus on and more than 50% of people felt that political parties were not doing enough to work together, cross-party, to improve care for older people. The proposals by the UK Government have, therefore, been widely welcomed. The Joseph Rowntree Foundation has said that

'the cap and the threshold are welcome measures; and a welcome sign that the government is taking responsibility for addressing care funding.'

The interdependency between social care and the wider social security system means that any reform of the funding of social care policy at a devolved level is inherently complex. However, in Scotland, we have seen the Government forging its own path following the recommendations of the royal commission in 2000. In Scotland, personal care is free if you have been assessed as needing care at home or you receive over £200 a week to cover personal and nursing care if you are in a care home. This is based on need rather than on financial means. Means testing is only carried out to see whether you qualify for help with accommodation costs. This seems like a far more generous system than what is currently in place in England and Wales.

However, of course, it comes at a cost. Figures produced last year showed that the cost of providing care in Scotland had risen by over 150% since 2005. The current system in England and Wales is already underfunded and has not kept pace with demographic changes. This will need to be addressed to cope with the rising unmet need and underinvestment in preventative support if the coalition proposals are to prove a success.

The Welsh Liberal Democrats support the action by the UK Government to implement the Dilnot proposals, which we believe will empower service users and their families, improving fair access to services and also enabling them to make fully informed choices about the care that they receive, free from the worry of catastrophic care costs. We hope that the Deputy Minister will swiftly bring forward proposals to reform social care funding in Wales. The social services and wellbeing advisory group stated in its response to the Social Services and Well-being (Wales) Bill that it is

Mae'n hen bryd i'r system ar gyfer talu am ofal yn y DU gael ei diwygio, gan y dywedir yn gyffredinol ei bod yn gynhleth ac yn ddryslyd, nad yw pobl yn gwybod faint y bydd gofal yn ei gostio, ac fel y dywedodd Kirsty Williams, ac fel y cydnabu Vaughan Gething yn ei gyfraniad yntau, nad yw llawer yn gwybod bod yn rhaid iddynt dalu am ofal cymdeithasol o gwbl. Yn 2010, dangosodd tystiolaeth arolwg barn gan ICM fod 62% o'r cyhoedd yn ystyried diwygio gofal yn un o'r materion pwysicaf y dylai'r Llywodraeth ganolbwyntio arno ac y teimlai mwy na 50% o bobl nad oedd pleidiau gwleidyddol yn gwneud digon i gydweithio, yn drawsbleidiol, i wella gofal i bobl hŷn. Felly mae'r cynigion gan Lywodraeth y DU wedi cael eu croesawu'n gyffredinol. Dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree

mae'r cap a'r trothwy i'w croesawu; ac maent yn arwydd i'w groesawu bod y llywodraeth yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ystyried ariannu gofal.

Mae'r rhyng-ddibyniaeth rhwng gofal cymdeithasol a'r system nawdd cymdeithasol ehangach yn golygu y bydd unrhyw ddiwygiadau i'r ffordd yr ariennir polisi gofal cymdeithasol ar lefel ddatganoledig yn gynhenid gymhleth. Fodd bynnag, yn yr Alban, rydym wedi gweld y Llywodraeth yn torri ei chwys ei hun drwy ddilyn argymhellion y comisiwn brenhinol yn 2000. Yn yr Alban, mae gofal personol yn rhad ac am ddim os asesir bod angen gofal yn y cartref arnoch neu rydych yn cael dros £200 yr wythnos ar gyfer gofal personol a gofal nyrso os ydych mewn cartref gofal. Mae hyn yn seiliedig ar angen yn hytrach nag ar fodd ariannol. Dim ond i weld a ydych yn gymwys i gael help gyda chostau llety y cynhelir prawf modd. Ymddengys fod hon yn system lawer mwy hael na'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr.

Fodd bynnag, wrth gwrs, mae cost yn gysylltiedig â hyn. Dengys y ffigurau a gynhyrchwyd y llynedd fod cost darparu gofal yn yr Alban wedi cynyddu dros 150% ers 2005. Mae'r system bresennol yng Nghymru a Lloegr eisoes wedi'i thanariannu ac nid yw wedi addasu ar gyfer newidiadau demograffig. Bydd angen mynd i'r afael â hyn er mwyn ymdopi â'r angen cynyddol heb ei ddiwallu a'r tanfuddsoddi mewn cymorth ataliol os bydd cynigion y glymblaid yn llwyddo.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r camau gweithredu gan Lywodraeth y DU i weithredu cynigion Dilnot, y credwn y byddant yn rhoi grym i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, gan wella mynediad teg at wasanaethau a hefyd yn eu galluogi i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am y gofal y maent yn ei dderbyn, heb boeni am gostau gofal trychinebus. Rydym yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r drefn ariannu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn fuan. Nododd y grŵp cynghori ar wasanaethau cymdeithasol a llesiant yn ei ymateb i'r Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei fod

'concerned that there is no detail about paying for care in the Bill, i.e. the cost to individuals for paying for the care and support that they need. The Dilnot Commission report Fairer Care Funding was published in July 2011 and has been taken into account by UK Government announcements. We would welcome the Welsh Government publishing their proposals for the cost of care as soon as possible, and would have liked to have seen them alongside this Bill.'

While we respect the Deputy Minister's statement that she will continue to consult over a made-in-Wales solution, we also urge her to consider the merits of ensuring a consistent approach to the funding of social care. In 2010, the Alzheimer's Society said in its response to the paying for care in Wales consultation that it

'would like to see consistency in the systems of social care across the UK. The existence of two separate systems of social care in Wales and in England would mean people moving from Wales to England or visa versa would have to learn an entirely new system.'

The Welsh Local Government Association believes that a broad framework is needed across England and Wales that is flexible enough to allow different approaches between different nations, while at the same time being robust enough to avoid any form of border tourism. To do that, we must ensure that there is a balance between reducing costs for the individual and ensuring that local authorities have adequate resources in order to provide the care that is needed. The Welsh Liberal Democrats believe that the partnership approach being proposed by the UK Government goes a long way towards achieving this.

yn bryderus nad oes unrhyw fanylion am dalu am ofal yn y Bil, h.y. y gost i unigolion am dalu am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn Dilnot Fairer Care Funding ym mis Gorffennaf 2011 ac mae wedi'i ystyried mewn datganiadau gan Lywodraeth y DU. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chynigion ar gyfer cost gofal cyn gynted ag y bo modd, a hoffem fod wedi'u gweld ochr yn ochr â'r Bil hwn.

Er ein bod yn parchu datganiad y Dirprwy Weinidog y bydd yn parhau i ymgynghori ynglŷn ag ateb i Gymru, rydym hefyd yn ei hannog i ystyried rhinweddau sicrhau dull cyson o ariannu gofal cymdeithasol. Yn 2010, dywedodd Cymdeithas Alzheimer yn ei hymateb i dalu am ofal yn ymgynghoriad Cymru

yr hoffai weld cysondeb yn y systemau gofal cymdeithasol ar draws y DU. Byddai bodolaeth dwy system ar wahân o ofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn Lloegr yn golygu y byddai'n rhaid i bobl sy'n symud o Gymru i Loegr neu i'r gwrthwyneb ddysgu am system hollol newydd.

Cred Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod angen fframwaith eang ledled Cymru a Lloegr sy'n ddigon hyblyg i ganiatáu gwahanol ddulliau gweithredu rhwng y gwahanol wledydd, tra ar yr un pryd yn ddigon cadarn i osgoi unrhyw fath o dwristiaeth dros y ffin. Er mwyn gwneud hynny, rhaid inni sicrhau bod cydbwysedd rhwng lleihau costau i'r unigolyn a sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau er mwyn darparu'r gofal sydd ei angen. Cred Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fod y dull partneriaeth a gynigir gan Lywodraeth y DU yn mynd yn bell tuag at gyflawni'r nod hwn.

18:00

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services

I am glad of the opportunity today to elaborate further on my written statement to Members on 21 March on the crucial issue of the future of paying for social care in Wales.

I broadly welcome the UK Government's long-awaited announcement on its planned reforms for England. It gave some clarity about coalition Ministers' intentions regarding funding, as well as the nature of the reform they want to pursue. For that reason, I do not support Jocelyn Davies's amendment 2. However, it is very disappointing to see that its reforms would not be introduced until almost a year after the next general election in April 2016. As Vaughan Gething has mentioned, it would be down to the next Government to decide whether the reforms would happen as planned or indeed at all.

Rwy'n falch o gael y cyfle heddiw i ymhelaethu rhagor ar fy natganiad ysgrifenedig at yr Aelodau ar 21 Mawrth ar fater hollbwysig talu am ofal cymdeithasol yn y dyfodol yng Nghymru.

Croesawaf gyhoeddiad hir-ddisgwyliedig Llywodraeth y DU ar ei diwygiadau arfaethedig ar gyfer Lloegr yn gyffredinol. Rhoddodd rywfaint o eglurder ynghylch bwriadau Gweinidogion y glymblaid ynglŷn â chyllid, yn ogystal â natur y diwygiadau y maent am eu cyflwyno. Am y rheswm hwnnw, nid wyf yn cefnogi gwelliant 2 Jocelyn Davies. Fodd bynnag, mae'n siomedig iawn gweld na chât ei diwygiadau eu cyflwyno tan bron flwyddyn ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf ym mis Ebrill 2016. Fel y soniodd Vaughan Gething, y Llywodraeth nesaf fydd yn penderfynu a fyddai'r diwygiadau yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad neu, yn wir, os o gwbl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We need to be very clear as to where we are at the moment: the UK Government's unwillingness to follow through on its acceptance in principle of the Dilnot recommendations means that, in reality, no-one is able to offer us a Barnett consequential because no new money is going to the Department of Health for the Dilnot reforms in this Parliament. There is no pot of new money. In the circumstances, it would be foolhardy of us to push ahead with reforms, the investment behind which would be based on anticipation of a Government spending decision in London that will happen far off into the future.

However, while the pace in England is on the slow side, action in Wales is much further forward, as Andrew Dilnot noted when I met him. He noted with interest that, for the last two years, our cap on non-residential care costs has meant that people have had the assurance of knowing that the maximum they will be asked to pay for that is £50 a week. We have invested over £20 million a year in introducing this cap and in the earlier fairer-charging financial protections.

I can announce today that we will be investing an additional £3.2 million a year to ensure that these protections remain sustainable for the benefit of vulnerable service users. If the reforms in England come into force in 2016, as planned, people in Wales will have benefitted from our care-cost cap for five years ahead of those across the border.

Let us not forget the £35 million that we have provided to protect the social services budgets of local authorities. There is Flying Start, IFSS, Families First, our autism strategy, learning disability and the resettlement programme. In contrast to the waiting game going on in England, here in Wales our Social Services and Well-being (Wales) Bill puts us on the front foot with some of the fundamental reforms that Dilnot talked about. It includes provisions that will enable us to strengthen our deferred payments scheme; it enables us to introduce a national eligibility framework and will put arrangements for the provision of information and assistance on a statutory footing. It will also allow us the flexibility to introduce one of a number of models of reformed charging arrangements, if we choose, with no delay here due to a requirement to seek new primary legislative powers.

You will not be surprised that I will oppose William Graham's amendment to this motion. We have put our money and our commitment behind our promises, and delivered. Furthermore, my ambition goes beyond an interim solution: I want to achieve a permanent and sustainable solution, and I am pressing on towards that. I cannot therefore accept Jocelyn Davies's second amendment. I do not think it would be right for us simply to adopt the UK Government's version of the Dilnot proposals here. First and foremost, I have some reservations about the costings that have been developed for England, and, even if they were accurate, circumstances in Wales are not directly comparable. Even if the money is forthcoming it may not be enough to fund the reforms sustainably.

Mae angen inni fod yn glir iawn ynghylch ble rydym arni ar hyn o bryd: mae amharodrwydd Llywodraeth y DU i weithredu ar ei phenderfyniad i dderbyn argymhellion Dilnot mewn egwyddor yn golygu, mewn gwirionedd, na all neb gynnig swm canlyniadol Barnett inni oherwydd na fydd yr Adran Iechyd yn cael arian newydd ar gyfer diwygiadau Dilnot yn nhymor presennol y Senedd. Nid oes cronfa o arian newydd. O dan yr amgylchiadau, byddai'n wirion pe baem yn bwrw ymlaen â diwygiadau, y byddai'r buddsoddiad ar eu cyfer yn seiliedig ar ragdybio penderfyniad Llywodraeth yn Llundain ar wariant a fydd yn digwydd ymhell yn y dyfodol.

Fodd bynnag, er mai araf yw'r datblygiadau yn Lloegr, mae camau gweithredu yng Nghymru dipyn yn fwy datblygedig, fel y nododd Andrew Dilnot pan gyfarfûm ag ef. Nododd gyda diddordeb, ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf, fod ein cap ar gostau gofal dibreswyl wedi golygu bod pobl wedi cael y sicrwydd o wybod mai £50 yr wythnos yw'r uchafswm y bydd gofyn iddynt ei dalu. Rydym wedi buddsoddi dros £20 miliwn y flwyddyn i gyflwyno'r cap hwn a'r camau diogelwch ariannol er mwyn sicrhau taliadau tecach.

Gallaf gyhoeddi heddiw y byddwn yn buddsoddi £3.2 miliwn arall y flwyddyn i sicrhau bod y camau diogelwch hyn yn parhau'n gynaliadwy er budd defnyddwyr gwasanaeth sy'n agored i niwed. Os daw'r diwygiadau yn Lloegr i rym yn 2016, yn ôl y bwriad, bydd pobl yng Nghymru wedi elwa ar ein cap ar gost gofal am bum mlynedd cyn pobl ar draws y ffin.

Rhaid inni beidio ag anghofio'r swm o £35 miliwn yr ydym wedi'i ddarparu i ddiogelu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Ceir Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf, ein strategaeth awtistiaeth, anabledd dysgu a'r rhaglen ailsefydlu. Yn wahanol i'r oedi yn Lloegr, yma yng Nghymru, mae ein Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ein rhoi ar y droed flaen gyda rhai o'r diwygiadau sylfaenol y soniodd Dilnot amdanynt. Mae'n cynnwys darpariaethau a fydd yn ein galluogi i gryfhau ein cynllun taliadau gohiriedig; mae'n ein galluogi i gyflwyno fframwaith cymhwyster cenedlaethol a bydd yn rhoi trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chymorth ar sail statudol. Bydd hefyd yn cynnig hyblygrwydd inni gyflwyno un o nifer o fodelau o drefniadau codi tâl diwygiedig, os dymunwn, heb unrhyw oedi yma oherwydd gofyniad i geisio pwerau deddfu sylfaenol newydd.

Ni fyddwch yn synnu clywed fy mod yn gwrthwynebu gwelliant William Graham i'r cynnig hwn. Rydym wedi rhoi ein harian a'n hymrwymiad y tu ôl i'n haddewidion, ac wedi'u cyflawni. Ar ben hynny, mae fy uchelgais yn mynd y tu hwnt i ateb dros dro: rwyf am gael ateb parhaol a chynaliadwy, ac rwyf yn pwyso am hynny. Felly, ni allaf dderbyn ail welliant Jocelyn Davies. Ni chredaf y byddai'n briodol inni fabwysiadu fersiwn Llywodraeth y DU o gynigion Dilnot yma. Yn bennaf oll, mae gennyf rai amheuan am y costau sydd wedi cael eu datblygu i Loegr, a, hyd yn oed os ydynt yn gywir, nid oes modd cymharu amgylchiadau yng Nghymru yn uniongyrchol. Hyd yn oed os yw'r arian ar ddod efallai na fydd yn ddigon i dalu am y diwygiadau cynaliadwy.

We have a responsibility to the people of Wales to make sure that our own proposals for reform are based on robust evidence, and I certainly will not be pushed into making policy announcements that could be political quick wins, but could leave vulnerable people saddled with an even more complicated system than they started with.

Mae arnom gyfrifoldeb i bobl Cymru i wneud yn siŵr bod ein cynigion diwygio ein hunain yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac yn sicr na fyddaf yn cael fy ngorfodi i wneud cyhoeddiadau polisi a allai fod yn boblogaidd yn wleidyddol yn y byrdymor, ond a allai esgor ar system hyd yn oed yn fwy cymhleth i bobl sy'n agored i niwed nag oedd ganddynt ar y dechrau.

18:05 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am struck by the Deputy Minister's insistence that she will not go forward without evidence. You will be aware, Deputy Minister, that there is a great deal of disquiet about the costings for your Social Services and Well-being (Wales) Bill, which you claim to be cost-neutral. Are you in a position to produce evidence to support those statements?

Fë'm trawyd gan benderfyniad y Dirprwy Weinidog na fydd yn gweithredu heb dystiolaeth. Byddwch yn ymwybodol, Ddirprwy Weinidog, fod cryn anesmwythyd ynglŷn â'r costau ar gyfer eich Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yr ydych yn honni eu bod yn niwtral o ran cost. A ydych mewn sefyllfa i gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau hynny?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:06 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be appearing before the Health and Social Services Committee tomorrow morning, and I have made it clear from the start with regard to the Social Services and Well-being (Wales) Bill that we cannot buy our way out of the situation that we are in. I will be elaborating on that tomorrow morning. Whatever form our further reforms take here in Wales, I will want to make sure that they bring the maximum benefit to the people who really need it. I will make my final decision on what is the right way forward for Wales in the light of a mature and meaningful dialogue about these complex issues across our political parties. My ambition for our reforms is that we develop a made-in-Wales solution for further reform to the system of paying for care here. That ambition, which goes wider than that set out in the motion as tabled, will deliver greater benefits for the people of Wales. For that reason, I cannot support the motion, but I urge you all to join with me in continuing to work towards a sustainable system of care and support that is built around the central importance of prevention, independence and wellbeing for people of all ages.

Byddaf yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol bore yfory, ac rwyf wedi ei gwneud yn glir o'r dechrau o ran y Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) na allwn daflu arian at y sefyllfa sydd ohoni. Byddaf yn ymhelaethu ar hynny bore yfory. Pa ddiwygiadau pellach bynnag y byddwn yn eu cyflwyno yma yng Nghymru, byddaf am sicrhau eu bod yn cynnig y budd mwyaf posibl i bobl sydd wir ei angen. Byddaf yn gwneud fy mhenderfyniad terfynol ynghylch y ffordd orau ymlaen i Gymru yng ngoleuni deialog aeddfed ac ystyrlon am y materion cymhleth hyn rhwng ein pleidiau gwleidyddol. Fy uchelgais ar gyfer ein diwygiadau yw ein bod yn datblygu ateb a luniwyd yng Nghymru gyfer diwygiadau pellach i'r system o dalu am ofal yma. Bydd yr uchelgais hwnnw, sy'n mynd ymhellach na'r hyn a nodir yn y cynnig fel y'i cyflwynwyd, yn sicrhau mwy o fanteision i bobl Cymru. Am y rheswm hwnnw, ni allaf gefnogi'r cynnig, ond anogaf bob un ohonoch i ymuno â mi i barhau i weithio tuag at system gynaliadwy o ofal a chymorth a fydd yn cael ei hadeiladu ar sail pwysigrwydd canolog atal, annibyniaeth a lles i bobl o bob oedran.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:07 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In bringing this debate forward today we acknowledge the complexity of the issue that faces us, and that is shown by the number of attempts that have been made at UK level to deal with this issue. We are certainly not asking for a quick win, but we do think that we need serious debate within this Chamber and in committee with regard to how we are to go forward if we are to formulate a made-in-Wales response.

Wrth gyflwyno'r ddadl hon heddiw rydym yn cydnabod cymhlethdod y mater sy'n ein hwynebu, ac mae hynny'n cael ei ddangos gan y nifer o ymdrechion a wnaed ar lefel y DU i fynd i'r afael â'r mater hwn. Yn sicr, nid ydym yn gofyn am ateb cyflym, ond credwn fod angen inni gael dadl ddifrifol yn y Siambr ac yn y pwyllgor ynglŷn â sut y byddwn yn gweithredu os ydym am lunio ymateb i Gymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is estimated that the reforms proposed by the coalition Government will cost £1 billion a year by the end of the next Parliament, and the UK Government has actually set out how those costs will be met in part by freezing the inheritance tax threshold at £325,000 for a further three years from 2015-16, which covers approximately 80% of the bill. The former Minister for Health and Social Services for the Welsh Government stated last year that it was estimated that full implementation of the Dilnot proposals in Wales would cost around £100 million per annum. We accept that that would be a rising figure given the demographic changes that Kirsty Williams referred to in her opening speech.

Amcangyfrifir y bydd y diwygiadau a gynigir gan y Llywodraeth glymblaid yn costio £1 biliwn y flwyddyn erbyn diwedd y tymor Seneddol nesaf, ac mae Llywodraeth y DU wedi mynd ati i nodi sut y bydd yn talu am y costau hynny yn rhannol drwy rewi trothwy'r dreth etifeddiant ar lefel o £325,000 am dair blynedd arall o 2015-16, sy'n cwmpasu tua 80% o'r bil. Nododd cyn-Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru y llynedd yr amcangyfrifid y byddai gweithredu cynigion Dilnot yn llawn yng Nghymru yn costio tua £100 miliwn y flwyddyn. Rydym yn derbyn y byddai hwnnw'n ffigur sy'n codi o ystyried y newidiadau demograffig y cyfeiriodd Kirsty Williams atynt yn ei haraith agoriadol.

In line with the recommendations of your own stakeholder advisory group, we urge you to examine the level and usage of current social services funding in Wales to determine what additional funding would be needed to invest in supporting a Dilnot-style system. You will be aware, Deputy Minister, that the WLGA has highlighted that we need to have an honest debate in Wales about the resources needed to transform and maintain social services balanced with a reasonable expectation of the amount that individuals should contribute. I spent the first two or three years of my life as a solicitor transferring a lot of property from parents to their children with the intention of avoiding the type of costs that we have debated here today. Eight or nine years down the line, many of us as solicitors were then involved in family disputes regarding the very transfer of those properties, so for us to pretend that this is not a live issue, and has not been a live issue for the last 15 or 20 years, is not doing justice to the scale of the difficulties that we face.

We do acknowledge that the Welsh Government, as Kirsty Williams stated, has made significant movement with the introduction of various measures, including the introduction of a £50 weekly cap, but we also have to recognise that the introduction of that cap has put some local authorities in some difficulty. I think that it is that type of debate, which includes whether you think the weekly cap could be maintained alongside the kind of lifetime charging cap envisaged by Dilnot, is a way in which we could move forward in Wales.

The detail in Members' contributions here today acknowledges the task facing us. This is an attempt by us to try to open the debate, to build a consensus. As Vaughan Gething stated in his presentation, we need to have a consensus if we are to seriously move this issue forward. Vaughan, we are not looking for agreement on the thresholds or acceptance that the financial model proposed by Dilnot might be the way forward here in Wales: what the motion asks is that the Government accepts the principles of Dilnot as the way forward.

William Graham, Bethan Jenkins and Peter Black identified some of the difficulties that we face with regard to the variation in practice as far as assessment and eligibility are concerned in Wales at the moment. Kirsty mentioned the views of the older people's commission. She believes that a cap on charging for social care would be an improvement on the current system, as it would give people more clarity to plan for the possibility of needing care. Age UK also welcomed the principle of a cap and has called on the Welsh Government to examine these proposals and bring forward similar plans without delay, to provide people in Wales with certainty over their future care costs.

Yn unol ag argymhellion eich grŵp cynghori rhanddeiliaid eich hunain, rydym yn eich annog i ystyried y lefel a'r defnydd o'r cyllid presennol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i benderfynu pa gyllid ychwanegol fyddai ei angen er mwyn buddsoddi mewn cynnal y math o system a argymhellir gan Dilnot. Byddwch yn ymwybodol, Ddirprwy Weinidog, fod CLLC wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen inni gael dadl onest yng Nghymru ynghylch yr adnoddau y byddai eu hangen i drawsnewid a chynnal gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn y swm y gellid yn rhesymol ddisgwyl i unigolion ei gyfrannu. Treuliais y ddwy neu dair blynedd gyntaf o'm bywyd fel cyfreithiwr yn trosglwyddo llawer o eiddo oddi wrth rieni i'w plant gyda'r bwriad o osgoi'r math o gostau yr ydym wedi eu trafod yma heddiw. Wyth neu naw mlynedd yn ddiweddarach, roedd llawer ohonom fel cyfreithwyr wedyn yn rhan o anghydfodau teuluol ynghylch yr union broses honno o drosglwyddo'r eiddo hwnnw, felly wiw inni esgus nad yw hyn yn fater byw, ac na fu'n fater byw ers y 15 neu 20 mlynedd diwethaf am nad yw hynny'n gwneud cyfiawnder â maint yr anawsterau sy'n ein hwynebu.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru, fel y dywedodd Kirsty Williams, wedi cymryd camau breision drwy gyflwyno amryw fesurau, gan gynnwys cyflwyno cap wythnosol o £50, ond rhaid inni hefyd gydnabod bod y cap wedi peri anawsterau i rai awdurdodau lleol. Credaf mai drwy'r math hwnnw o ddadl, sy'n cynnwys pa un a ydych yn meddwl bod modd cynnal cap wythnosol ochr yn ochr â'r math o gap am oes ar daliadau a ragwelir gan Dilnot, y gallem symud ymlaen yng Nghymru.

Mae'r sylwadau manwl yng nghyfraniadau'r Aelodau yma heddiw yn cydnabod y dasg sy'n ein hwynebu. Mae'n ymgais gennym i geisio agor y ddadl, a chreu consensws. Fel y nododd Vaughan Gething yn ei gyflwyniad, mae angen inni gael consensws os ydym am fwrw ymlaen â'r mater hwn o ddifrif. Vaughan, nid ydym yn chwilio am gytundeb ynglŷn â'r trothwyon na gofyn i bobl dderbyn mai'r model ariannol a gynigir gan Dilnot yw'r ffordd ymlaen o bosibl yma yng Nghymru: yr hyn y mae'r cynnig yn ei geisio yw bod y Llywodraeth yn derbyn egwyddorion Dilnot fel y ffordd ymlaen.

Nododd William Graham, Bethan Jenkins a Peter Black rai o'r anawsterau a wynebwn o ran yr amrywiaeth mewn arferion asesu a phennu cymhwyster yng Nghymru ar hyn o bryd. Cyfeiriodd Kirsty at farn y comisiynydd pobl hŷn. Cred y byddai cap ar godi tâl am ofal cymdeithasol yn welliant ar y system bresennol, gan y byddai'n rhoi mwy o eglurder i bobl gynllunio ar gyfer y posibilrwydd y bydd angen gofal arnynt. Croesawodd Age UK yr egwyddor o gap hefyd ac mae wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried y cynigion hyn a chyflwyno cynlluniau tebyg yn ddi-oed, er mwyn rhoi sicrwydd i bobl yng Nghymru ynghylch eu costau gofal yn y dyfodol.

We acknowledge the action taken to futureproof the Social Services and Well-being (Wales) Bill to allow for a number of models of reformed charging arrangements to be introduced, but, in our discussions going forward on this Bill, we need greater clarity on the principles that will underpin such a model if we are to build consensus—and that is what we all want here—on the way forward so that we have a more sustainable model for the future.

Rydym yn cydnabod y camau a gymerwyd i sicrhau bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol ac yn caniatáu ar gyfer sawl model o drefniadau codi tâl diwygiedig, ond, yn ein trafodaethau ar y Bil hwn yn y dyfodol, mae angen mwy o eglurder ynglŷn â'r egwyddorion a fydd yn sail i fodel o'r fath os ydym am gael consensws—dyna'r hyn yr ydym i gyd yn ei ddymuno yma—ar y ffordd ymlaen fel bod gennym fodel mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

18:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection. I therefore defer voting under this item until voting time, which will now follow.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, a fydd yn dilyn yn awr.

Before I proceed to the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are none.

Cyn imi symud ymlaen at y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Cyfnod Pleidleisio

Voting Time

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5205.](#)

[Result of the vote on motion NDM5205.](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 12, Yn erbyn 42, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 12, Against 42, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i NDM5205.](#)

[Result of the vote on amendment 1 to NDM5205.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 12, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 42, Against 12, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5205.](#)

[Result of the vote on amendment 2 to NDM5205.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.

Cynnig NDM5205 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5205 as amended:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn Lloegr rewi'r dreth gyngor am y drydedd flwyddyn yn olynol.
2. Yn nodi ymhellach bod Llywodraeth yr Alban wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn yr Alban rewi'r dreth gyngor ar gyfer 2013/2014; a bod y rhewi hwnnw wedi bod ar waith ers 2008/2009.
3. Yn credu bod rheidrydd moesol ar awdurdodau lleol i wario arian cyhoeddus gyda gofal a doethineb; gan sicrhau bod cyfraddau'r dreth gyngor mor isel â phosibl i breswylwyr.
4. Yn credu mai awdurdodau lleol ddylai benderfynu ar lefelau gwariant awdurdodau lleol a'r dreth gyngor, fel rhan o agenda lleoliaeth gynhwysfawr.

1. Notes that the UK Government has made support available to local authorities in England to freeze council tax for a third successive year.
2. Further notes that the Scottish Government has made support available to local authorities in Scotland to freeze council tax for 2013/2014; and that such a freeze has been in place since 2008/2009.
3. Believes local authorities have a moral imperative to spend public money with care and prudence; ensuring council tax rates are as low as possible for residents.
4. Believes that council tax and local authority expenditure levels should be decided by local authorities, as part of a comprehensive localism agenda.

5. Yn gresynu ymhellach bod biliau'r dreth gyngor yng Nghymru wedi cynyddu 148 y cant ers 1997/1998, ac yn credu bod cynnydd andwyol o'r fath wedi rhoi pwysau diangen ar aelwydydd sydd o dan bwysau.

Canlyniad y bleidlais ar NDM5205 fel y'i diwygiwyd:

[Gwrthodwyd cynnig NDM5205 fel y'i diwygiwyd: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.](#)

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd.

[Canlyniad y bleidlais ar NDM5202.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 49, Yn erbyn 5, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar NDM5204.](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 16, Yn erbyn 37, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i NDM5204.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 12, Yn erbyn 42, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5204.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 44, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i NDM5204.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 44, Ymatal 0.

5. Further regrets that, since 1997/1998, council tax bills in Wales have increased by 148 per cent and believes such crippling rises have placed undue pressure on hard-pressed households.

Result of the vote on NDM5205 as amended:

[Motion NDM5205 as amended not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.](#)

As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the motion as amended.

[Result of the vote on NDM5202.](#)

Motion agreed: For 49, Against 5, Abstain 0.

[Result of the vote on NDM5204.](#)

Motion not agreed: For 16, Against 37, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 1 to NDM5204.](#)

Amendment not agreed: For 12, Against 42, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 2 to NDM5204.](#)

Amendment not agreed: For 10, Against 44, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 3 to NDM5204.](#)

Amendment not agreed: For 10, Against 44, Abstain 0.

18:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I ask those Members who are leaving the Chamber to please do so quickly and quietly.

I ask those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:18 **Dadl Fer: 'Why not Dilnot?' Talu am Ofal Cymdeithasol i'r Henoed yng Nghymru**

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n dda gennyf siarad ar bwnc rydym newydd ei drafod, sef: "Why not Dilnot?" Talu am ofal cymdeithasol i'r henoed yng Nghymru'. Mae'n dda gennyf ddweud bod Kirsty Williams wedi gofyn am funud i gyfrannu at y ddadl hon hefyd.

Short Debate: Why not Dilnot? Paying for Social Care for the Elderly in Wales

I am pleased to speak to a topic that we have just been discussing, namely: "Why not Dilnot? Paying for social care for the elderly in Wales". I am pleased to say that Kirsty Williams has asked for a minute to participate in this debate.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Bydd rhai ohonoch sy'n cofio sut oedd yr hen sinemâu yn gweithio yn gwybod eich bod yn gallu cerdded i mewn i'r sinema hanner ffordd trwy'r ffilm ac y byddai'n dod rownd unwaith eto, fel eich bod yn cael y darlun llawn. Rwy'n gobeithio, o ail-wneud y ddadl, y byddwn yn cael y darlun llawn erbyn diwedd yr hanner awr nesaf. Er ein bod newydd gael dadl ar Dilnot, a oedd, efallai, yn fwy gwleidyddol, rwy'n gobeithio y bydd y ddadl hon yn un agored. Gobeithiaf y bydd yn caniatáu inni barhau i feddwl, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, am amcanion Dilnot a'r her sy'n ein hwynebu ynglŷn â'n poblogaeth hŷn a'r anghenion gofal sy'n cynyddu, ac y byddwn yn gweithio ar draws y pleidiau, hyd y gallwn, i chwilio am atebion i Gymru'n benodol.

Dim ond o edrych ar y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor iechyd yn San Steffan tua blwyddyn yn ôl, gwelwch fod dros 29 miliwn o chwiliadau ar Google bob blwyddyn ynglŷn â sut i dalu am ffioedd gofal. Dyna sut mae gwybodaeth yn lledaenu erbyn hyn. Os nad oedd pobl yn ymwybodol o'r ffaith bod angen talu am ofal, byddent yn gwybod drwy chwilio ar Google, ac yn y ffordd y maent yn ymateb i Dilnot ac i'r her bellach. Dyma ddadl, felly, i'r bobl hynny sy'n gorfod chwilio ar Google am sut y byddant yn talu ffioedd yn y dyfodol. Dyma ddadl sy'n gofyn sut y gallwn ddod â gwasanaeth gofal, sydd wastad wedi bod ar wahân i'r gwasanaeth iechyd mewn sawl ffordd, yn nes at y gwasanaeth iechyd—gwasanaeth iechyd a gofal sy'n mynd law yn llaw yma yng Nghymru, gan ddarparu, felly, i bobl yn ôl eu hanghenion yn fwy nag yn ôl eu cyfalaf.

Ar hyn o bryd, yng Nghymru fel yn Lloegr, cyfalaf sy'n dweud a ydych yn talu costau llawn am ofal neu beidio. Mae un o bob 10 o bobl dros 65 yn wynebu costau sylweddol, sef costau o dros £100,000 y flwyddyn. Nid oes ryfedd, felly, bod pobl yn poeni am eu tai a'u cartrefi, ac nid dim ond mewn ffordd hunanol o blant yn poeni am gartrefi eu rhieni ac ati, ond wir yn poeni—pobl sydd wedi bod yn cynilo ac yn gweithio dros y blynnyddoedd yn cael eu taro gan anffawd ac yn wynebu costau sy'n chwalu eu bywydau i bob pwrpas, ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn colli ffrwyth eu bywydau a'r ffordd y maent wedi ceisio adeiladu ar gyfer eu plant, a phlant eu plant.

Mae'n wir dweud nad yw'r sefyllfa, fel mae'r Dirprwy Weinidog newydd ei amlinellu, mor wael yng Nghymru ag yn Lloegr. Mae dau beth o bwys wedi digwydd yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd diwethaf sydd wedi lliniaru tipyn ar y sefyllfa anffodus hon. Un yw'r ffaith ein bod ni, ers degawd, wedi caniatáu taliadau gohiredig ar gyfer llety preswyl, sy'n golygu bod modd gohirio taliadau a gwneud yn siŵr nad yw person yn colli ei gartref yn ystod ei fywyd, a bod darpariaeth decach yn ystod ei fywyd. Yr ail beth sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw—yn ystod cyfnod Llywodraeth Cymru'n Un—yw cyflwyno cap o £50 yr wythnos ar ofal yn y cartref. Mae hynny wedi bod o fudd mawr ac wedi'i groesawu yn eang iawn. Rwy'n meddwl bod y Dirprwy Weinidog newydd ddatgan y bydd hynny yn parhau a bod arian i sicrhau bod y polisi hwnnw yn parhau. Mawr groesawaf hynny, ac mae Plaid Cymru yn croesawu hynny.

Some of you who recall how the old cinemas used to work will know that you could walk in to a picture halfway through the film and it would come round again, and you would get to see the whole film. I hope that in rehearsing this debate we will get the full picture by the end of the next half hour. Although we have had a more political debate, perhaps, on Dilnot, I hope that this debate will be an open one. I hope that it will allow us to continue, as the Deputy Minister said, to consider the objectives of Dilnot and the challenge that we face in terms of an ageing population and care needs that are increasing, and that we work across party, as far as we can, to seek solutions specifically for Wales.

Just from looking at the evidence given to the Westminster health committee about a year ago, you see that there are over 29 million Google searches every year on how to pay care fees. That is how information is disseminated these days. If people were not aware of the fact that they had to pay for care, they would know if they accessed Google, and in the way that they respond to Dilnot and to the further challenge. This is a debate, therefore, for those people who have to search Google for how to pay for care in the future. This is a debate that is asking how we can bring care services, which have always been separate from health services in many ways, closer to the health service—a health and care service that goes hand in hand here in Wales, providing for people, therefore, according to their need rather than according to their capital.

At the moment, in Wales as in England, capital is the deciding factor in whether or not you pay the full cost of care. One in 10 people over the age of 65 face significant costs, of over £100,000 a year. It is no surprise, therefore, that people are worried about their houses and homes, and not only in a selfish way of children worried about their parents' home et cetera, but seriously worried—people who have been saving and who have been working over the years and who are struck by misfortune and face costs that destroy their lives, to all extents and purposes, and make them feel that they have lost the fruits of their labours and how they have tried to build something for their children and their children's children.

It is true to say, as the Deputy Minister has just outlined, that the situation is not as bad in Wales as in England. Two important things have happened in Wales over the last 10 years that have helped somewhat with this unfortunate situation. One is the fact that we have, for the last decade, allowed deferred payments for residential accommodation, which means that payments can be deferred, ensuring that people do not lose their homes during their lifetime, and that there is a fairer provision during their lifetime. The second thing that happened during that time—during the time of the One Wales Government—was the introduction of a £50 weekly cap for non-residential care. That has been of great benefit and has been widely welcomed. I think that the Deputy Minister has just stated that that is to continue and that funds are available to ensure that that policy remains in place. I warmly welcome that, as does Plaid Cymru.

Serch hynny, mae'r sefyllfa bresennol yng Nghymru yn cael ei gweld yn un annheg ac anghyfiawn, yn ddryslyd ac yn anghynaliadwy. O ran hynny, rwy'n cydweld â Dilnot. Mae'n gweld y system yn Lloegr yn yr un ffordd hefyd, ac mae'n wir bod elfennau o hynny. Fel rydym newydd glywed, mae pethau yn mynd i waethygu, gan fod nifer y bobl dros 65—nid wyf yn y braced hwnnw eto, ond rwy'n agos ati—yn cynyddu, fel y dywedodd Kirsty Williams yn y ddadl gynharach, ac mae pwysau cyllidol mawr ar lywodraeth leol i gwrdd â'r galw hwnnw.

Dylwn nodi, er bod nifer y bobl hŷn yn cynyddu, nad oes ar bob un ohonynt bellach angen gofal. Mae pobl 65 oed bellach yn iach iawn, mewn ffordd nad oedent o'r blaen. Beth sy'n digwydd, serch hynny, yw eu bod, os oes angen gofal arnynt, yn gweld cyfnod o ofal sy'n tueddu i fod yn hirach nag yn y gorffennol, oherwydd ein bod yn gallu ymdrin ag afiechydon cronig mewn ffordd nad ydym erioed wedi gallu ei wneud yn y gorffennol.

Gan ein bod newydd gael dadl ar hynny, ni wnaif ymhelaethu'n ormodol ar y materion hynny, gan droi yn hytrach at rai o'r atebion y gallem chwilio amdanynt yma yng Nghymru wrth ymateb i'r her mae Dilnot wedi ei gosod. Mae egwyddorion Dilnot yn rhai credadwy iawn ac mae llawer o werth iddynt, yn y ffordd y mae wedi mynd ati i edrych nid yn unig ar ofal yn y cartref, ond ar ofal mewn cyd-destun arall hefyd, ac yn enwedig yn y ffordd y mae wedi defnyddio'r syniad o cap i wneud yn siŵr bod gan bobl rywfaent o sicrwydd o ran gofal wrth iddynt heneiddio. Serch hynny, mae ymateb y Llywodraeth yn San Steffan wedi glastweiddio cynigion Dilnot i raddau, ac er bod Dilnot wedi cynnig rhyw gefnogaeth i beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn Lloegr, mae'n ddiddorol gweld yr hyn a ddywedodd yn ei adroddiad gwreiddiol. Soniodd am y cap gan ddweud:

'In our view, moving outside the range of £25,000 to £50,000 could mean that the overall reforms would fail to satisfy our criteria on fairness and sustainability.'

Rydym yn gwybod, felly, bod symud at £70,000 yn gwyro'n sylweddol oddi wrth y rhychwant roedd Dilnot yn ei ystyried.

Wedi dweud hynny, penderfynwyd ar rai pethau pwysig gan y Llywodraeth yn San Steffan sydd yn gyrru'r broses dipyn bach yn gyflymach nag yr awgrymodd y Dirprwy Weinidog wrth ymateb i'r ddadl gynharach.

Rydym yn gwybod y bydd y dreth etifeddiaeth yn cael ei rhewi am dair blynedd ychwanegol bellach er mwyn talu am yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Mae'n bwysig cydnabod bod y dreth honno yn dreth i'r Deyrnas Gyfunol ac nid i Loegr yn unig ac na fydd Silk yn newid y broses honno chwaith. Mae'r dreth yn cael ei rhewi, sy'n golygu y bydd pobl yng Nghymru yn talu mwy o dreth, i bob pwrpas, gan taw'r lwfans sy'n cael ei rewi, ac nid ydynt yn gwybod eto yng Nghymru beth fyddant yn ei gael yn ôl am y rhewi hwnnw yn y lwfans treth. Maent yn gwybod yn Lloegr, ond nid ydynt yn gwybod yng Nghymru. Felly, mae'n bwysig ein bod yn dechrau trafod yn fwy agored yn y fan hon beth fydd yn digwydd pan ddaw'r trosglwyddiad Barnett, am wn i, o rewi'r lwfans hwnnw i Lywodraeth Cymru.

However, the situation in Wales is still seen as unfair and unjust, confused and unsustainable. In that sense, I agree with Dilnot. He sees the English system in the same light, and it is true that there are elements of that. As we have just heard, things are going to deteriorate, because the number of people over 65—I am not quite in that bracket, but I am getting close—is increasing, as Kirsty Williams said in the previous debate, and there is huge budgetary pressure on local government to meet that demand.

I should note that, although the number of older people is increasing, not all of those people require care. At 65 years of age, people are now very healthy, in a way that they were not previously. What is happening, however, is that, if they require care, the period for that tends to be longer than in the past, because we can deal with chronic illnesses in a way that we have never been able to do before.

As we have just had a debate on this, I will not expand too much on those issues, but turn perhaps to some of the solutions that we can seek here in Wales in responding to the challenge posed by Dilnot. The principles of Dilnot are credible and there is great value in those principles, in terms of how he has looked not only at care at home but care in other contexts as well, and especially in the way that he has used this concept of a cap to ensure that people have some assurance on the care provided to them in their old age. Nevertheless, the Westminster Government's response has diluted Dilnot's proposals to a certain extent, and although Dilnot himself has given some support to what the Government in England is doing, it is interesting to see what he said in his own report. In talking about the cap he said:

Yn ein barn ni, gallai symud y tu hwnt i'r ystod £25,000 i £50,000 olygu y byddai'r diwygiadau cyffredinol yn methu â bodloni ein meini prawf o ran tegwch a chynaliadwyedd.

We know, therefore, that moving to £70,000 is a significant move away from the range that Dilnot was considering.

Having said that, the Westminster Government has made some important decisions that are driving the process a little more swiftly than the Deputy Minister suggested in the response to the previous debate.

We know that inheritance tax will be frozen for an additional three years now in order to pay for what is happening in England. It is important to recognise that that is a UK-wide tax and not just an English tax and that Silk will not change that process either. The tax is being frozen, which means that people in Wales will pay more tax, essentially, because it is the allowance that will be frozen, and they do not know yet in Wales what they will be given following that freezing of the tax allowance. They know in England, but they do not know in Wales. Therefore, it is important that we start to discuss more openly here what will happen when that Barnett consequential comes, as I assume it will, to the Welsh Government from the freezing of that allowance.

Yn Hydref 2012, soniodd Lesley Griffiths, y Gweinidog ar y pryd, y byddai cost lawn Dilnot o gwmpas £100 miliwn y flwyddyn. Nid yw Dilnot wedi cael ei weithredu yn llawn yng Nghymru ac nid wyf yn gallu gweithio mas y ffigurau hyn—mae'n llawer rhy astrus. Fodd bynnag, gyda'r 'proverbial back of a fag packet'—'plain packaging', wrth gwrs, sy'n rhoi mwy o le i ysgrifennu—mae'n golygu y bydd y trosglwyddiad Barnett o'r hyn sy'n debyg o ddigwydd yn awr yn Lloegr yn sylweddol llai na'r £100 miliwn y soniwyd amdano gan Lesley Griffiths; bydd o gwmpas hanner y swm hwnnw. Mae'n wir y bydd y gofynion yn newid ond, wedi dweud hynny, mae'n dangos y bwlch a allai agor rhwng dyheadau Llywodraeth Cymru, anghenion pobl mewn oed yng Nghymru a'r arian a fydd ar gael ar gyfer diwallu'r anghenion hynny. Rwy'n gobeithio, er bod y Dirprwy Weinidog newydd gael cyfle i siarad am hyn, y bydd hi'n gallu dweud ychydig yn fwy am rai o'r egwyddorion rydym eisiau eu gweld yn cael eu harddel yng Nghymru. Dyna'r ydym wir eisiau cael gafael ynddo yn awr, ac rwy'n siarad ar ran pob plaid. Mae Dilnot wedi gosod cysail eithaf cryf, ond beth yw'r egwyddorion yr ydym yn gallu gafael ynddynt yng Nghymru?

I want to conclude on the real need for a made-in-Wales solution. Dilnot has important principles, but the figures in Dilnot are not the figures for Wales. Houses in south-east England valued at around £70,000 are different to £70,000 houses in Porth or Aberdare, for example. Therefore, how that relates to people's expectations and what they can afford are two different things. In addition, Dilnot is essentially an English solution for the needs of a different kind of associated healthcare system. Its relationship with wider healthcare is a very different one in England. We have to take into account that, in Wales, for example, prescriptions are free, so an extra element goes into the system in Wales that they do not have elsewhere.

Therefore, we need a Wales-based solution, but we also need to look at some specific things within that solution. We need to look at our outstanding cap on non-residential social care. Is it our priority in Wales to eliminate that, for example? Do we start there before we deal with residential care? Do we start with eliminating that cap so that we have a much fairer deal in that context, because non-residential care is what we want for more people? It is what we want to encourage people, depending on their needs, to take up. It would also be important, with any consequential money that comes from Dilnot, for us to look at how we support carers—38% of care home admissions are down to the stress suffered by carers. If we could support carers more and use resources in that way, we would save on the care home costs. It may be that an alternative Wales-based response to Dilnot would be to look at supporting non-residential social care and making that as affordable as possible, even below the cap that we have now, and supporting carers. We would have different priorities in Wales to those in England, which have been driven by a slightly more capital-based housing emphasis.

In October 2012, Lesley Griffiths, the then Minister, suggested that the full cost of Dilnot would be around £100 million per annum. Dilnot is not being implemented in full in Wales and I cannot work out these figures; it is far too complex for me. However, looking at this on the proverbial back of a fag packet—in plain packaging, of course, as that gives you more room to make your calculations—it means that the Barnett transfer of what is now likely to happen in England will be significantly less than the £100 million suggested by Lesley Griffiths; it will be about half that amount. It is true that demands will change but, having said that, it demonstrates the gulf that could open between the aspirations of the Welsh Government, the needs of older people in Wales and the funding that will be available to meet those needs. Although the Deputy Minister has just had an opportunity to speak on this issue, I hope that she will be able to say a little more about some of the principles that we would like to see espoused in Wales. That is what we really need to grasp now, and I speak for every party. Dilnot has set a strong precedent, but what are the principles that we can truly get hold of in Wales?

Rwyf am gloi drwy sôn am yr angen gwirioneddol i gael ateb i Gymru. Mae Dilnot yn amlinellu egwyddorion pwysig, ond nid ffigurau Cymru yw'r ffigurau yn Dilnot. Mae tai yn ne-ddwyrain Lloegr sy'n werth tua £70,000 yn ôl prisiad yn wahanol i dai gwerth £70,000 yn y Porth neu Aberdâr, er enghraifft. Felly, mae ei berthynas rhwng hynny a disgwyliadau pobl a'r hyn y gallant ei fforddio yn wahanol. Yn ogystal, ateb i Lloegr yw Dilnot yn y bôn, ateb i anghenion math gwahanol o system gofal iechyd gysylltiedig. Mae'r berthynas â gofal iechyd ehangach yn un wahanol iawn yn Lloegr. Rhaid inni ystyried, yng Nghymru, er enghraifft, fod presgripsiynau am ddim, felly mae elfen ychwanegol yn rhan o'r system yng Nghymru nad oes ganddynt yn rhywle arall.

Felly, mae angen ateb i Gymru, ond mae angen inni hefyd edrych ar rai pethau penodol yn yr ateb hwnnw. Mae angen inni edrych ar ein cap o hyd ar ofal cymdeithasol dibreswyl. Ai'r flaenoriaeth yng Nghymru yw cael gwared ar hwnnw, er enghraifft? A ydym yn dechrau yn y fan honno cyn inni ymdrin â gofal preswyl? A ydym yn dechrau drwy ddileu'r cap hwnnw er mwyn inni gael darpariaeth decach o lawer yn y cyd-destun hwnnw, oherwydd gofal dibreswyl yw'r hyn yr ydym yn ei ddymuno i fwy o bobl? Dyna'r hyn yr ydym am annog pobl, yn dibynnu ar eu hanghenion, i'w dderbyn. Byddai'n bwysig hefyd, gydag unrhyw arian canlyniadol a ddaw o ganlyniad i Dilnot, inni edrych ar y ffordd yr ydym yn cefnogi gofalwyr—gellir priodoli 38% o dderbyniadau i gartrefi gofal i'r straen a ddiodefir gan ofalwyr. Pe gallem roi mwy o gymorth i ofalwyr a defnyddio adnoddau yn y ffordd honno, byddem yn arbed costau cartref gofal. Efallai y byddai ymateb amgen i Dilnot yng Nghymru yn ystyried gofal cymdeithasol dibreswyl a sicrhau bod hynny mor fforddiadwy â phosibl, hyd yn oed o dan y cap sydd gennym ar hyn o bryd, a chefnogi gofalwyr. Byddai blaenoriaethau gwahanol gennym yng Nghymru i'r rhai yn Lloegr, sydd wedi cael eu hysgogi gan ychydig mwy o bwyslais ar dai sy'n gysylltiedig â chyfalaf.

That is not to say that Dilnot has got it wrong for England or that he does not have lessons for us in Wales, but it does mean that we need to start talking in Wales about the things that are important to us—we have not heard so much about them—including the fact that we will be paying taxes to pay for Dilnot in England. Therefore, let us see a bit of those taxes and what agreement could be made between the Government in Westminster and the Government here about how much of that money is transferred. We also need a bit more understanding of how that would work across borders. We know that a huge number of people retire to Wales already, but we want to see how portability would exist within that. We can have portability in Wales, but are there transferable agreements between Wales and England to be had here, because there are costs associated with that?

The final point that I want to raise today is about legislation. The Deputy Minister has already referred to her Social Services and Well-being (Wales) Bill. There are provisions in that Bill that allow for that allow for charging, or not, as the case may be. There are things within that Bill that take forward the variations that she has already mentioned in terms of people postponing payment for social care. I am not convinced that the Bill is fully Dilnot compliant, however. If we want to do something like Dilnot in Wales, I think we may need further legislation. Therefore, I would very much like to hear from the Deputy Minister whether she thinks that we need further legislation in Wales.

We can do something in Wales: we can make it a Wales-based solution. We can also work across the parties, because I sense that there is a need and a real desire to do that.

18:30

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Simon Thomas for his debate here today. We did not collude when planning today's agenda in terms of what would come up, but it demonstrates that these are issues that are exercising the minds of politicians across the Assembly in an attempt to try to solve these problems for people. When I saw the title of Simon's debate, I thought that he was going to use this opportunity to completely rubbish what Dilnot has said. You are right to say that the figures do not marry here for Wales, but I think that the principles behind that report are sound ones and are a basis on which we can work.

Nid yw hynny'n golygu bod Dilnot wedi cynnig yr ateb anghywir i Loegr neu nad oes ganddo wersi inni yng Nghymru, ond golyga fod angen inni ddechrau sôn yng Nghymru am y pethau sy'n bwysig inni—nid ydym wedi clywed cymaint am y rhain—gan gynnwys y ffaith y byddwn yn talu trethi i dalu am Dilnot yn Lloegr. Felly, gadewch inni weld ychydig o'r trethi hynny a pha fath o gytundeb y gellid ei wneud rhwng y Llywodraeth yn San Steffan a'r Llywodraeth yma ynghylch faint o'r arian hwnnw a gaiff ei drosglwyddo. Mae angen hefyd inni ddeall ychydig yn well sut y byddai hynny'n gweithio ar draws ffiniau. Gwyddom fod nifer fawr o bobl eisoes yn dod i ymddeol yng Nghymru, ond rydym am weld sut y gallai'r ddarpariaeth fod yn gludadwy. Gallwn gael trefn gludadwy yng Nghymru, ond a oes cytundebau y gellir eu trosglwyddo rhwng Cymru a Lloegr o ran hyn, oherwydd mae costau sy'n gysylltiedig â hynny?

Mae'r pwynt olaf yr wyf am ei godi heddiw yn ymwneud â deddfwriaeth. Mae'r Dirprwy Weinidog eisoes wedi cyfeirio at ei Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae darpariaethau yn y Bil hwnnw sy'n caniatáu ar gyfer codi tâl, neu beidio â chodi tâl, yn ôl y digwydd. Mae pethau yn y Bil hwnnw sy'n gweithredu ar yr amrywiadau y mae eisoes wedi eu crybwyll o ran pobl yn gohirio talu am ofal cymdeithasol. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod y Bil yn cydymffurfio'n llawn â Dilnot, fodd bynnag. Os ydym am wneud rhywbeth tebyg i Dilnot yng Nghymru, credaf y bydd angen deddfwriaeth bellach o bosibl. Felly, rwy'n awyddus iawn i glywed gan y Dirprwy Weinidog ynghylch a fydd angen deddfwriaeth bellach arnom yng Nghymru, yn ei barn hi.

Gallwn wneud rhywbeth yng Nghymru: gallwn lunio ateb i Gymru. Gallwn hefyd gydweithredu rhwng y pleidiau, oherwydd synhwyraf fod angen ac awydd gwirioneddol i wneud hynny.

Diolch i Simon Thomas am ei ddadl yma heddiw. Nid oeddem wedi cydgyllwynio wrth gynllunio agenda heddiw o ran yr hyn a fyddai'n cael ei drafod, ond dengys fod y rhain yn faterion sy'n hoelio sylw gwleidyddion ym mhob rhan o'r Cynulliad mewn ymgais i geisio datrys y problemau hyn i bobl. Pan welais deitl dadl Simon, meddyliais ei fod yn bwriadu manteisio ar y cyfle hwn i wfftio'n llwyr yr hyn a ddywedodd Dilnot. Rydych yn llygad eich lle i ddweud nad yw'r ffigurau yn berthnasol yma yng Nghymru, ond credaf fod yr egwyddorion sy'n sail i'r adroddiad yn rhai cadarn ac maent yn sail y gallwn weithio arno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On the issue of residential care, the Welsh Government and the previous One Wales Government accepted an important principle about the need to share costs between individuals and the state when it comes to home care. If that applies to home care, I do not see the logic as to why that principle would not be extended to residential care. The Health and Social Care Committee has spent months looking at the issue of residential care. While better support in the community and better reablement can delay the point at which many people would go into residential care, we did not receive any evidence at all to say that residential care would not continue to be an important element of care within our society. Therefore, it is incumbent upon the Government to look at the cost of home care, but we also need to make progress on a cap for residential care costs.

O ran mater gofal preswyl, derbyniodd Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth flaenorol, Cymru'n Un, egwyddor bwysig am yr angen i rannu costau rhwng unigolion a'r wladwriaeth o ran gofal cartref. Os yw hynny'n berthnasol i ofal cartref, ni welaf y rhesymeg pam na fyddai'r egwyddor honno yn ymestyn i ofal preswyl. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi treulio misoedd yn edrych ar fater gofal preswyl. Er y gall gwell cefnogaeth yn y gymuned a phroses ailalluogi well ohirio'r adeg y byddai llawer o bobl yn mynd i mewn i ofal preswyl, ni chawsom unrhyw dystiolaeth o gwbl yn dweud na fyddai gofal preswyl yn parhau i fod yn elfen bwysig o ofal yn ein cymdeithas. Felly, mae dyletswydd ar y Llywodraeth i edrych ar gost gofal cartref, ond mae angen hefyd inni wneud cynnydd o ran cap ar gostau gofal preswyl.

18:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Social Services to reply to the debate.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

18:32 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services

Dyma'n ail ddadl y prynhawn yma am dalu am ofal. Rwyf am achub ar y cyfle i ateb y cwestiwn 'pam nad Dilnot?' yn ddi-flewyn-ar-dafod. Mae'n gwestiwn digon teg. Roeddwn yn teimlo bod adroddiad comisiwn Dilnot yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol. Cefais gyfle i gyfarfod ag Andrew Dilnot, ac roedd yn ddyn ystyriol, trwyadl ac yn barod i wrando. Mae llawer o sylwadau cadarnhaol wedi'u gwneud am ei adroddiad, a hynny am ansawdd ei ddadansoddiad a'r fordd glir y mae'n esbonio rhai materion digon cymhleth.

This is our second debate this afternoon about paying for care. I want to take the opportunity to answer that question 'why not Dilnot?' with a straight bat. It is a fair question. I found the Dilnot commission's report interesting and helpful. I had an opportunity to meet Andrew Dilnot and I found him to be thoughtful, thorough and ready to listen. His report has attracted a lot of positive comment for the quality of its analysis and the clarity with which it explains some very complicated issues.

Mae dau beth o gonsyrn i mi am argymhellion Dilnot, o leiaf yn y fersiwn wannach y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig am ei gweithredu yn Lloegr. Un ohonynt, fel y dywedais eisoes y prynhawn yma, yw nad wyf yn hollol argyhoeddedig bod y costau'n gweithio na bod y symiau'n adio i fyny, yn enwedig gan fod y Trysorlys wedi troi'r gwreiddiol yn 'Dilnot light'. Yr ail fater, a'r un yr wyf am ganolbwyntio arno yn y ddadl hon, yw mai adroddiad a chyfres o gynigion ar gyfer Lloegr ydynt; yng Nghymru mae fy niddordeb i, ac yn yr ateb sy'n gweithio orau i Gymru yn y tymor hir.

There are two main issues for me about the Dilnot recommendations, at least in the watered-down version that the UK Government wants to implement in England. One, as I said earlier this afternoon, is that I am not totally convinced that the costings work or that the sums add up, particularly now that the original has been turned into 'Dilnot light' by the Treasury. The second, and the issue that I want to concentrate on in this debate, is that this is a report and a set of proposals for England, whereas what I am interested in is a solution that works for the long term in Wales.

Rwyf am gychwyn drwy ddweud bod angen sicrhau bod ein system gofal a chymorth yng Nghymru yn diwallu anghenion, dyheadau a gwerthoedd pobl Cymru—yn blant ac yn oedolion, yr hen a'r ifanc, gofalwyr o bob oed, teuluoedd a chymunedau. Model ar gyfer pobl yw ein model ni, a phobl sydd wrth wraidd ein gweledigaeth. Yfory, fel y dywedais eisoes, byddaf yn mynd gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac rwy'n edrych ymlaen at y cyfle i roi ar glawr yr holl bethau cynhwysfawr yr ydym yn eu gwneud i wireddu hynny.

My starting point is to ensure that our care and support system in Wales meets the needs, aspirations and values of the people of Wales—children and adults, older people and younger people, carers of all ages, families and communities. Ours is a model for people that puts people at the heart of our vision. Tomorrow, as I have already said, I will be appearing before the Health and Social Care Committee in a scrutiny session on the Social Services and Well-being (Wales) Bill, and I am looking forward to the opportunity to put on record the comprehensive measures that we are putting in place to make that a reality.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

O ran talu am ofal, a'r materion hynny y mae Andrew Dilnot wedi gwneud argymhellion yn eu cylch, y prif ddarpariaethau yn ein Bil yw'r rheini sy'n rhoi cyfle i ni gryfhau ein cynllun taliadau gohiriedig, y rheini sy'n ein galluogi i gyflwyno fframwaith cymhwysedd cenedlaethol, a'r rheini sy'n rhoi'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chymorth ar sail statudol. O ran y fframwaith cyffredinol ar gyfer codi tâl, mae darpariaethau yn y Bil sy'n adeiladu ar y ddeddfwriaeth gyfredol ar gyfer codi tâl. Byddai hynny'n gyfle i ni gyflwyno amryw o fodelau newydd ar gyfer codi tâl, yn dibynnu, wrth gwrs, ar y modd yr ydym yn llunio'n system newydd.

I fod yn glir am yr hyblygrwydd rydym wedi ei gynnwys yn elfennau codi tâl y Bil, gallaf ddweud wrthyf y bydd darpariaethau yn ein Bil, pe byddem yn dewis hynny, yn ein galluogi i weithredu argymhellion Dilnot, os mai dyna, yn y pen draw, fyddai'r dewis gorau i Gymru. Fy mwriad i wrth gynnwys yr hyblygrwydd hwnnw yw sicrhau, pan fydd y Bil yn Ddeddf, y bydd gennym ddulliau wrth law i greu system ddiwygiedig o dalu am ofal yng Nghymru, heb unrhyw oedi dianghenraid.

Mae cyfyngiad ar gostau eisoes wedi'i gyflwyno ar gyfer gofal heblaw gofal preswyl, ac rydym wedi clywed am hynny y prynhawn yma. Yr her nawr yw adeiladu ar hynny, ar ein llwyddiant ac ar ein partneriaethau presennol. Mae angen i ni ganfod ffordd ymlaen sydd wedi'i theilwra i amgylchiadau penodol Cymru. Mae angen i ni gymryd patrymau unigryw ein demograffeg i ystyriaeth, a'r newyddion da fod mwy o bobl hŷn yn byw'n hirach wrth i ni edrych tua'r dyfodol. Rhaid i ni gydnabod bod patrymau perchentyaeth, gwerth tai a chynilion personol yn edrych yn wahanol iawn i'r hyn y maent yn ne-ddwyrain Lloegr. Gallwn fod yn falch bod gennym draddodiad cryf o ofalu, sy'n amlwg mewn teuluoedd, ffrindiau a chymunedau ym mhob rhan o Gymru. Mae hynny'r un mor bwysig â chyfoeth ariannol.

Rwyf eisoes wedi dweud fy mod am fynd ati o ddirif yn y flwyddyn nesaf i lunio model ar gyfer Cymru. Rwyf am wneud hynny yn y ffordd Gymreig, mewn partneriaeth, drwy gynnal deialog, drwy ymwneud â dinasyddion, gofaluwr a phobl eraill sy'n defnyddio gwasanaethau, a thrwy drafod y materion cymhleth hyn yn agored ac yn adeiladol gyda phob plaid wleidyddol yng Nghymru.

I grynhoi, rwy'n credu bod llawer i'w ddweud dros ddadansoddiad Dilnot, ond rwy'n credu hefyd y gallwn wneud llawer yn well na dynwared yr hyn mae Llywodraeth Llundain wedi'i wneud â'r adroddiad.

In terms of paying for care, and the issues that Andrew Dilnot made recommendations about, the key provisions in our Bill are those that allow us to strengthen our deferred payments scheme, those that enable us to introduce a national eligibility framework, and those that put arrangements for the provision of information and assistance on a statutory footing. Regarding the overall charging framework, there are provisions in the Bill that build on the current charging legislation and would allow us to introduce any of a range of new models for charging systems, depending on how we choose to design our new system.

To be clear about the flexibility that we have built into the charging elements of the Bill, I can tell you that if we so chose, the provisions in our Bill would allow us to implement the Dilnot recommendations here, if that was ultimately what we thought would work best in Wales. My intention in building in that flexibility is to ensure that, once the Bill becomes law, we will have the tools we need to build a reformed system of paying for care in Wales, without any unnecessary delay.

There are restrictions on costs already in place for care other than residential care, and we have heard about that this afternoon. The challenge for us now is to build on that, on our successes and on our existing partnerships. We need to find a way forward that is tailored to the specific circumstances of Wales. We need to take into account our unique patterns of demography, with the good news that more older people are living longer lives as we look into the future. We must recognise that the patterns of home ownership, house values and personal savings look very different to the south east of England. We can be proud of a strong tradition of caring, among families, friends and communities across Wales, which is just as important a part of the equation as financial wealth.

I have already said that I want to make real headway over the year ahead with the design of a Welsh model. I want to go about doing that in the Welsh way, in partnership, in dialogue, by engaging with citizens, carers and other service users, and by discussing these complex issues openly and constructively with all the political parties in Wales.

In summary, I think that there is a lot of merit in the analysis that Dilnot produced, but I believe that we can do a lot better than just looking to replicate what the London Government has done with the report.

18:38

Simon Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

Rwy'n croesawu'r hyn mae newydd ei ddweud ynglŷn ag arwain sgwrs genedlaethol ar y materion hyn, er bod rhai ohonom am weld y sgwrs honno yn digwydd yn gyflymach na'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni allwn gynnal y math o sgwrs a thrafodaeth rydych newydd eu hamlinellu oni bai ein bod yn gwybod yn fras faint o arian a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru i weithredu ar y pethau hyn. A oes unrhyw beth y gallwch ei ddweud heddiw ynglŷn â'r hyn rydych yn disgwyl iddo ddod i Lywodraeth Cymru o weithredu Dilnot yn Lloegr?

I welcome what she has just said about leading a national debate on these issues, although I am sure that many of us would wish to see that moving a little more swiftly than what the Government is doing at present. However, we cannot have the sort of conversation and discussion that you have outlined unless we know broadly how much money will be available to the Welsh Government to take action in this area. Is there anything that you can tell us today about what you expect to accrue to the Welsh Government from the implementation of Dilnot in England

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:38

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym yn gwybod ein bod yn edrych am arian o Loegr, sef y 'consequential'—nid wyf yn gwybod o dop fy mhen beth yw'r gair Cymraeg am hynny. Rydym yn gwybod hefyd nad oes unrhyw eglurdeb. Er fy mod wedi cwrdd drwy'r fideo â Norman Lamb sawl gwaith, rwy'n cadw i wasgu am ateb ar y cwestiwn hwnnw.

We know that we are looking for funding from England, that is, the consequential—I do not know the Welsh word for 'consequential'. We also know that there is no clarity. Although I have had a video-conference with Norman Lamb many times, I am still pressing for an answer to that question.

Rydym ni yng Nghymru eisoes wedi cymryd camau mawr ymlaen wrth fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae pobl Cymru yn cael budd o'n cyfyngiad ar gostau gofal y foment hon, ond mae pobl yr ochr draw i'r ffin yn dal i ddisgwyl. Hyd yn oed wedyn, nid oes sicrwydd y bydd unrhyw ddiwygio o gwbl. Hyd yn oed os bydd y system yn cael ei diwygio yn Lloegr yn 2016, bydd pobl Cymru wedi cael budd o'n cyfyngiad ar gostau gofal bum mlynedd o flaen pobl Lloegr.

We have already made strong progress in Wales in tackling this issue. People in Wales are feeling the benefits of our charging cap right now, while people across the border will have to carry on waiting. Even then, they do not have any real certainty that reform will definitely happen. Even if there is reform in England in 2016, people in Wales will have benefited from our care cap for five years ahead of people in England.

Er y byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau yn Llundain, byddwn yn symud ymlaen yn hyderus ac yn ddoeth i ddatblygu ein cynlluniau ein hunain ar gyfer Cymru, a hynny'n ddi-oed.

Although we shall keep a close eye on developments in London, we will move forward confidently and prudently to develop our own plans for Wales without delay.

18:39

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Minister. That bring today's proceedings to a close.

Diolch ichi, Ddirprwy Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.40 p.m.

The meeting ended at 6.40 p.m.